# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 18/03/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[Questions to the First Minsiter](#)

Cwestiwn Brys: Trydaneiddio Rheilffyrdd y Cymoedd
Urgent Question: Electrification of the Valleys Lines

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Cynnig i Ethol Aelodau i Bwyllgorau
Motion to Elect Members to Committees

Adroddiad y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol
The Report of the Expert Group on Diversity in Local Government

Y Rhaglen Ddeddfwriaethol
The Legislative Programme

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Dadl y Cyfnod Adrodd ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
Report Stage Debate for the Social Services and Well-Being (Wales) Bill

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i Gymeradwyo'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
Stage 4 Standing Order 26.47 Motion to Approve the Social Services and Well-Being (Wales) Bill

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minsiter

### Addysg Gwyddoniaeth

### Science Education

13:30

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am addysg gwyddoniaeth yng Nghymru? OAQ(4)1570(FM)*

*1. Will the First Minister make a statement on science education in Wales? OAQ(4)1570(FM)*

13:30

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The teaching of science, technology, engineering and mathematics subjects is an important priority for the Welsh Government. We remain fully committed to ensuring that science education is engaging and reflects the needs of business and the economy.

Mae addysgu pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg yn flaenoriaeth bwysig i Lywodraeth Cymru. Rydym yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i sicrhau bod addysg gwyddoniaeth yn ddifyr ac yn adlewyrchu anghenion busnes a'r economi.

13:31 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

In advance of science week this week Dr Lyn Evans came to give a talk to the Assembly last week. You will all be aware that Dr Evans is the prominent Welsh scientist who built the large hadron collider. He told us about a project that they have at CERN to invite science teachers from across Europe to engage with them and take part in professional development programmes that they run. However, in the years that they have run those programmes—and 1,000 UK teachers have been to CERN—not a single teacher from a Welsh school has attended. Can you tell us what the Welsh Government is doing to make sure that Welsh teachers have the opportunity to take up these exciting and truly inspirational professional development opportunities?

Cyn wythnos wyddoniaeth yr wythnos hon, daeth Dr Lyn Evans i roi sgwrs i'r Cynulliad yr wythnos diwethaf. Byddwch i gyd yn ymwybodol mai Dr Evans yw'r gwyddonydd blaenllaw o Gymro a adeiladodd y peiriant gwrthdaro hadronau mawr. Dywedodd wrthym am brosiect sydd ganddynt yn CERN i wahodd athrawon gwyddoniaeth o bob cwr o Ewrop i ymgysylltu â nhw a chymryd rhan mewn rhaglenni datblygu proffesiynol y maen nhw'n eu rhedeg. Fodd bynnag, yn ystod y blynyddoedd y maen nhw wedi bod yn rhedeg y rhaglenni hynny—ac mae 1,000 o athrawon y DU wedi bod yn CERN—nid oes yr un athro o ysgol yng Nghymru wedi bod yno. A allwch chi ddweud wrthym beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod athrawon o Gymru yn cael y cyfle i fanteisio ar y cyfleoedd datblygu proffesiynol cyffrous hyn sy'n llawn ysbrydoliaeth?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

He told me the same thing last week when I met him on Thursday evening at the St David Awards ceremony. It is something that I want to investigate and I will do that, because if those figures are correct, then, clearly, we need to make sure that any barriers that may exist in terms of science teachers from Wales going to Switzerland are removed.

Dywedodd yr un peth wrthyf i yr wythnos diwethaf pan wnes i gyfarfod ag ef nos Iau yn seremoni Gwobrau Dewi Sant. Mae'n rhywbeth yr wyf eisiau ymchwilio iddo a byddaf yn gwneud hynny, oherwydd os yw'r ffigurau hynny'n gywir, yna, yn amlwg, mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod yn cael gwared ar unrhyw rwystrau a allai fodoli o ran bod athrawon gwyddoniaeth o Gymru yn mynd i'r Swistir.

13:32 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, to create the scientists and engineers of tomorrow we need to enthuse our children when they are at primary school. Do you agree that we need to ensure that teachers of science in primary schools are fully aware of the opportunities of careers in science and engineering for both genders—and that is important—in order to inspire our children and that they should be encouraged to partake in STEM challenges run by the professional bodies and industries, such as the F1 in Schools challenge, supported by Jaguar and the engineering education scheme in Wales?

Brif Weinidog, i greu gwyddonwyr a pheirianwyr y dyfodol, mae angen i ni ennyn brwdfrydedd ein plant pan eu bod yn yr ysgol gynradd. A ydych chi'n cytuno bod angen i ni sicrhau bod athrawon gwyddoniaeth mewn ysgolion cynradd yn gwbl ymwybodol o'r cyfleoedd o ran gyrfaoedd mewn gwyddoniaeth a pheirianneg ar gyfer y ddau ryw—ac mae hynny'n bwysig—er mwyn ysbrydoli ein plant ac y dylid eu hannog i gymryd rhan mewn heriau STEM sy'n cael eu rhedeg gan y cyrff proffesiynol a diwydiannau, fel yr her F1 mewn Ysgolion, a gefnogir gan Jaguar a'r cynllun addysg peirianneg yng Nghymru?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am very familiar with the EESW scheme. It is an excellent scheme. It is right to say that schools in Wales are among the world leaders, literally, when it comes to the promotion of engineering at that age because of the F1 challenge. I have seen the excellent work that is done and that is continued, of course, to secondary level. It is the case, I believe, that through schemes such as this we are seeing more and more young people choosing STEM subjects to study at higher education and, particularly, seeing more young women wanting to study STEM subjects. We need to ensure that all opportunities are afforded to both sexes when it comes to studying science.

Rwy'n gyfarwydd iawn â'r cynllun EESW. Mae'n gynllun rhagorol. Mae'n iawn i ddweud bod ysgolion yng Nghymru ymhlith arweinwyr y byd, yn llythrennol, pan ddaw i hyrwyddo peirianneg ar gyfer yr oedran hwnnw oherwydd yr her F1. Rwyf wedi gweld y gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud ac sy'n parhau, wrth gwrs, i lefel uwchradd. Mae'n wir, rwy'n credu, ein bod yn gweld trwy gynlluniau fel hyn mwy a mwy o bobl ifanc yn dewis astudio pynciau STEM mewn addysg uwch ac, yn enwedig, yn gweld mwy o fenywod ifanc sydd eisiau astudio pynciau STEM. Mae angen i ni sicrhau y cynigir yr holl gyfleoedd i'r ddau ryw pan ddaw i astudio gwyddoniaeth.

13:33 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, I am sure that you would agree with me there can be no better way of encouraging children to show an interest in science than showing them the wonders of the night sky. You may be aware that last week I hosted an event celebrating the first anniversary of the Brecon Beacons national park achieving dark sky status, which is an international status. The park has put in a heck of a lot of work into achieving that. Since it has received that status there has been a huge increase in astronomy tourism in the Brecon Beacons. Will you tell us what your Government is doing to support endeavours such as this for dark skies by the Brecon Beacons national park and what you are doing to encourage schools across Wales to make the very most of this excellent asset? As I said, the Brecon Beacons national park has put a lot of work into this over the last year.

Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddech yn cytuno â mi nad oes ffordd well o annog plant i ddangos diddordeb mewn gwyddoniaeth na dangos rhyfeddodau awyr y nos iddynt. Efallai eich bod yn ymwybodol fy mod wedi cynnal digwyddiad yr wythnos diwethaf yn dathlu blwyddyn ers i barc cenedlaethol Bannau Brycheiniog ennill statws awyr dywyll, sy'n statws rhyngwladol. Mae'r parc wedi gwneud llawer iawn o waith i gyflawni hynny. Ers iddo dderbyn y statws hwnnw, bu cynnydd aruthrol mewn twristiaeth seryddiaeth ym Mannau Brycheiniog. A wnewch chi ddweud wrthym beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud i gefnogi ymdrechion fel yr ymdrech awyr dywyll hon gan barc cenedlaethol Bannau Brycheiniog a beth yr ydych chi'n ei wneud i annog ysgolion ledled Cymru i fanteisio i'r eithaf ar yr ased ardderchog hwn? Fel y dywedais, mae parc cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi gwneud llawer iawn o waith ar hyn dros y flwyddyn ddiwethaf.

13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It seems that the scheme itself is already working very well. The fact that there are many more people coming to look at the night sky in the national park is a sign that there is certainly a demand there, as far as tourism is concerned, and the facility is there for people to be able to observe the night sky. I very much commend the national park authority for the work that it has done in an area that, perhaps, was unusual to take forward but has proved to be very fruitful.

Mae'n ymddangos bod y cynllun ei hun yn gweithio'n dda iawn eisoes. Mae'r ffaith fod llawer mwy o bobl yn dod i edrych ar awyr y nos yn y parc cenedlaethol yn arwydd bod y galw yno, yn sicr, cyn belled ag y mae twristiaeth yn y cwestiwn, ac mae'r cyfleuster yno i bobl allu edrych ar awyr y nos. Cymeradwyaf yn fawr iawn awdurdod y parc cenedlaethol am y gwaith y mae wedi ei wneud mewn maes a oedd, efallai, yn un anarferol i'w ddatblygu, ond mae wedi bod yn llwyddiannus iawn.

13:34 **Rhun ap Iorwerth** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Rydyn ni ym Mhlaid Cymru yn sicr yn cefnogi ymdrechion i gynyddu nifer y myfyrwyr, a llwyddiant y myfyrwyr hynny, yn y pynciau STEM, ond mae'n bryder bod y ffigurau diweddaraf yn dangos mai ymhlith myfyrwyr peirianneg a thechnoleg y mae un o'r niferoedd uchaf o ddiweithdra ymhlith graddedigion. Mae'r ffigwr yn rhyw 12%. Sut all y Prif Weinidog sicrhau bod datblygiadau yn digwydd, er enghraifft gyda'r parc gwyddoniaeth ym Môn, sy'n troi diddordeb a llwyddiant academaidd yn y pynciau hyn yn gyfleon go iawn o ran swyddi?

We in Plaid Cymru certainly support efforts to increase the number of students, and the success of those students, in the STEM subjects, but it is a cause of concern that the most recent figures show that among engineering and technology students there is one of the highest levels of graduate unemployment. The figure is about 12%. How can the First Minister ensure that developments take place, for example with the science park on Anglesey, which turns an interest and academic success in these subjects into very real opportunities in terms of jobs?

13:34 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Os edrychwn ni ar beth sydd ar gael yng Nghymru, sef cwmnïau mawr fel Airbus, Renishaw, sydd ddim yn bell o fan hyn, a chwmnïau fel Ford, Toyota, GE a British Airways Maintenance Cardiff, fe welwn eu bod i gyd yn cynnig cyfleoedd i bobl sydd wedi astudio yn y maes dylunio a thechnoleg, a hyd yn oed i'r rheini sydd heb fod i brifysgol, achos y ffaith bod ganddynt gynlluniau prentisiaeth sydd wedi bod yn llwyddiannus dros ben. Felly, mae cyfleoedd ar gael—mae hynny yn wir—ac mae'r Llywodraeth wedyn yn sicrhau bod y cyfleoedd hynny yn cael eu hestyn dros y blynyddoedd.

If we look at what is available in Wales, such as large companies like Airbus, Renishaw, which is not far from here, and companies like Ford, Toyota, GE and British Airways Maintenance Cardiff, we will see that they all offer opportunities for people who have studied in the area of design and technology, and even for those who have not been to university, because they have apprenticeship schemes that have been very successful. So, there are opportunities available—that is true—and this Government then ensures that those opportunities are expanded over the years.

## Diogelwch Gwylwyr

## Spectator Safety

13:35 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*2. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru dros ddiogelwch gwylwyr mewn digwyddiadau chwaraeon yng Nghymru? OAQ(4)1559(FM)*

*2. Will the First Minister outline the Welsh Government's responsibilities over spectator safety at sporting events in Wales? OAQ(4)1559(FM)*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

13:35 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

This is not a devolved area. It is a matter for the Sports Grounds Safety Authority and we expect it, working with the major sports clubs and the police, to ensure that spectator safety is paramount.

Nid yw hwn yn faes sydd wedi ei ddatganoli. Mater i'r Awdurdod Diogelwch Meysydd Chwaraeon yw hwn ac rydym yn disgwyl iddo, gan weithio gyda'r prif glybiau chwaraeon a'r heddlu, sicrhau bod diogelwch gwylwyr yn hollbwysig.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

13:35 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that response, First Minister. The two new stadiums at Cardiff and Swansea have made a big difference as well. We have a reputation in Wales for welcoming and treating away supporters at both rugby and soccer matches very well. Last month, hundreds of Swansea City Football Club supporters, who paid a small fortune to travel to Naples to support the Jacks, missed the start of a match and the first goal as a result of excessive security delays and disorganised travelling arrangements made by the Neapolitan authorities. Does the First Minister share my concern over the treatment of the Swansea City fans and will he raise this issue with his counterparts in the Foreign Office at the earliest opportunity?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Mae'r ddau stadiwm newydd yng Nghaerdydd ac yn Abertawe wedi gwneud gwahaniaeth mawr hefyd. Mae gennym enw da yng Nghymru am groesawu a thrin cefnogwyr oddi cartref yn dda iawn, mewn gemau rygbi a phêl-droed. Y mis diwethaf, collodd cannoedd o gefnogwyr Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe ddechrau'r gêm a'r gôl gyntaf, ar ôl talu ffortiwn i deithio i Napoli i gefnogi'r Jacks, o ganlyniad i oedi diogelwch gormodol a threfniadau teithio anhrefnus a wnaed gan yr awdurdodau yn Napoli. A yw'r Prif Weinidog yn rhannu fy mhryder ynghylch y driniaeth a brofwyd gan gefnogwyr Dinas Abertawe ac a yw'n fodlon codi'r mater hwn gyda'i gymheiriaid yn y Swyddfa Dramor ar y cyfle cyntaf?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

13:36 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am aware that South Wales Police worked with the Italian police to ensure that policing and security plans run smoothly. Ultimately, of course, the travel delays experienced by Swans fans rest with the authorities in Naples rather than with us in Wales. I understand that the Union of European Football Associations is aware of the matter and we will wait to see now what the response will be.

Rwy'n ymwybodol bod Heddlu De Cymru wedi gweithio gyda heddlu'r Eidal i sicrhau bod cynlluniau plismona a diogelwch yn rhedeg yn ddidrafferth. Yn y pen draw, wrth gwrs, cyfrifoldeb yr awdurdodau yn Napoli yw'r oediadau teithio a ddioddefwyd gan gefnogwyr yr Elyrch, yn hytrach na ni yng Nghymru. Rwy'n deall bod yr Undeb Cymdeithasau Pêl-droed Ewropeaidd yn ymwybodol o'r mater a byddwn yn aros nawr i weld beth fydd yr ymateb.

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

13:36 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, Lord Justice Taylor's report into the Hillsborough disaster in 1989 made a number of recommendations to secure the safety of people attending sports grounds. Since then, conditions have changed dramatically, with the Football Supporters' Federation now calling for an introduction on a trial basis of safe standing areas. Will the First Minister support safe standing areas on a trial basis in Wales?

Brif Weinidog, gwnaeth adroddiad yr Arglwydd Ustus Taylor ar drychineb Hillsborough yn 1989 nifer o argymhellion i sicrhau diogelwch pobl sy'n mynychu meysydd chwaraeon. Ers hynny, mae amodau wedi newid yn sylweddol, ac mae'r Ffederasiwn Cefnogwyr Pêl-droed bellach yn galw am gyflwyno mannau sefyll diogel ar sail arbrofol. A wnaiff y Prif Weinidog gefnogi mannau sefyll diogel ar sail arbrofol yng Nghymru?

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

It is difficult to see how that would work, given the fact that the newer stadiums were designed to be all-seater stadiums. I remember the old terraces; they had some attractions in terms of the atmosphere, but there were many other events that occurred in those terraces that people were less happy to relive, I suspect, over the years. More than anything else, they were quite often dangerous. Let us not forget that football grounds, up until the late 1980s in the UK, were ramshackle. No money had been put into spectator safety and no money had been put into ensuring that spectators had an enjoyable time and were safe. It is because of the Taylor report that we now have modern, up-to-date football grounds that are safe to visit and have been designed in such a way as to avoid crowd trouble. Let us not forget that in the 1980s, crowd trouble inside stadiums was not uncommon and crowd trouble outside stadiums was very common. It is because of the Taylor report that these issues have been largely resolved and we should think very carefully about trying to undo parts of it.

Mae'n anodd gweld sut y byddai hynny'n gweithio, o ystyried y ffaith bod y stadia mwy newydd wedi eu cynllunio i fod yn stadia â seddi yn unig. Rwy'n cofio'r hen derasau; roedd ganddynt rywfaint o atyniad o ran yr awyrgylch, ond bu llawer o ddigwyddiadau eraill ar y terasau hynny yr oedd pobl yn llai hapus i'w hail-fyw, rwy'n amau, dros y blynyddoedd. Yn anad dim arall, roedden nhw'n aml yn eithaf peryglus. Gadewch i ni beidio ag anghofio bod meysydd pêl-droed, hyd at ddiwedd y 1980au yn y DU, yn fregus. Nid oedd unrhyw arian wedi ei neilltuo i ddiogelwch gwylwyr ac nid oedd unrhyw arian wedi ei neilltuo i sicrhau bod gwylwyr yn cael amser pleserus a'u bod yn ddiogel. Oherwydd adroddiad Taylor y mae gennym ni feysydd pêl-droed modern, cyfredol bellach, sy'n ddiogel i fynd iddynt ac sydd wedi eu cynllunio mewn ffordd sy'n osgoi trafferth ymhlith y dorf. Gadewch i ni beidio ag anghofio nad oedd trafferth ymhlith y dorf y tu mewn i stadia yn anghyffredin yn y 1980au, ac roedd trafferth ymhlith y dorf y tu allan i stadia yn gyffredin iawn. Adroddiad Taylor sydd wedi bod yn gyfrifol i raddau helaeth am i'r materion hyn fod wedi eu datrys a dylem feddwl yn ofalus iawn cyn ceisio dadwneud rhannau ohono.

13:38 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, I agree with the comments made by Mike Hedges with regard to the Swansea fans. I know that there is a meeting on the twentieth of this month—a UEFA disciplinary hearing with regard to the treatment by Napoli of the Swansea fans, and that South Wales Police has also put in a report to that particular disciplinary hearing. I wonder whether you, as First Minister, could ask for any of the reports that will come from UEFA so that Assembly Members, especially from the area, can understand fully what went wrong so that this is not replicated again in the future. I know that this also happened to Arsenal fans who went out there recently.

Brif Weinidog, rwy'n cytuno â'r sylwadau a wnaed gan Mike Hedges o ran cefnogwyr Abertawe. Rwy'n gwybod bod cyfarfod ar yr ugeinfed o'r mis hwn—gwrandawiad disgyblaeth UEFA o ran y driniaeth o gefnogwyr Abertawe gan Napoli, a bod Heddlu De Cymru hefyd wedi cyflwyno adroddiad i'r gwrandawiad disgyblu arbennig hwnnw. Tybed a allech chi, fel Prif Weinidog, ofyn am unrhyw un o'r adroddiadau a fydd yn dod oddi wrth UEFA fel y gall Aelodau'r Cynulliad, yn enwedig o'r ardal dan sylw, ddeall yn llawn yr hyn a aeth o chwith fel nad yw hyn yn cael ei ailadrodd eto yn y dyfodol. Gwn fod hyn wedi digwydd i gefnogwyr Arsenal a aeth yno yn ddiweddar hefyd.

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, I hope that that report is shared as widely and as publicly as possible so that we understand what exactly happened. Of course, there are many football supporters in Wales who had experience of being in Milan in 2003, when Wales played against Italy. I know that the Member for Ynys Môn was there, and he was telling me two weeks ago about the difficulties that he had experienced there. So, this builds on a difficult reputation already in place as far as Italian football grounds are concerned. It is important that football fans from all over the world are made to feel both welcome and safe in Italy.

Gallaf, rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad yn cael ei rannu mor eang ac mor gyhoeddus â phosibl fel y gallwn ddeall beth yn union ddigwyddodd. Wrth gwrs, ceir llawer o gefnogwyr pêl-droed yng Nghymru sydd â phrofiad o fod ym Milan yn 2003, pan chwaraeodd Cymru yn erbyn yr Eidal. Gwn fod yr Aelod dros Ynys Môn yno, ac roedd yn dweud wrthyf bythefnos yn ôl am yr anawsterau iddo eu profi yno. Felly, mae hyn yn adeiladu ar enw gwael sy'n bodoli eisoes o ran meysydd pêl-droed yr Eidal. Mae'n bwysig bod cefnogwyr pêl-droed o bedwar ban byd yn teimlo bod croeso iddynt yn yr Eidal, a'u bod yn ddiogel yno.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now move to questions from the party leaders, and first this afternoon is the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau, ac arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:39 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, the Secretary of State for Wales said yesterday that he was shocked by comments made by the First Minister regarding the electrification of the Valleys lines and the funding of that. Will the First Minister give this Assembly his version of events from July 2012? Was there a formal agreement between him and the UK Government; was it in writing, and if so, would he be prepare to publish it?

Lywydd, dywedodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ddoe ei fod wedi'i syfrdanu gan sylwadau a wnaed gan y Prif Weinidog ynglŷn â thrydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd a'r cyllid ar gyfer hynny. A wnaiff y Prif Weinidog roi ei fersiwn ef o ddigwyddiadau mis Gorffennaf 2012 i'r Cynulliad hwn? A oedd cytundeb ffurfiol rhyngddo ef a Llywodraeth y DU; a oedd yn ysgrifenedig, ac os felly, a fyddai'n barod i'w gyhoeddi?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There has been no agreement at any time that the Welsh Government should fund any of the electrification. I am more than prepared to share any correspondence with Members.

Ni fu unrhyw gytundeb ar unrhyw adeg y dylai Llywodraeth Cymru ariannu unrhyw ran o'r trydaneiddio. Rwy'n fwy na pharod i rannu unrhyw ohebiaeth gyda'r Aelodau.

13:40 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is obvious that there is a difference of opinion between the First Minister's version of events, and those of the Secretary of State for Wales. Is the First Minister saying that this issue was left open to interpretation, and would he agree with me that rail investment is too big an issue to leave to an informal understanding?

Mae'n amlwg bod gwahaniaeth barn rhwng fersiwn y Prif Weinidog o ddigwyddiadau, a rhai Ysgrifennydd Gwladol Cymru. A yw'r Prif Weinidog yn dweud bod y mater hwn wedi ei adael yn agored i ddehongliad, ac a fyddai'n cytuno â mi bod buddsoddi yn y rheilffyrdd yn fater rhy bwysig i'w adael i ddealltwriaeth anffurfiol?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

What I want to see is for electrification to occur. Yesterday, I was very careful to emphasise that what I wanted was clarification, which we have not yet had. I had a letter from the Prime Minister on Friday but it does not clarify the issue. The response from the Secretary of State was bordering on the hysterical, if I may put it that way, given the comment that I had actually made.

Yr hyn yr wyf eisiau ei weld yw i drydaneiddio ddigwydd. Ddoe, roeddwn yn ofalus iawn i bwysleisio mai'r hyn yr oeddwn i ei eisiau oedd eglurhad, nad ydym wedi ei gael hyd yn hyn. Cefais lythyr oddi wrth y Prif Weinidog ddydd Gwener, ond nid yw'n egluro'r mater. Roedd yr ymateb gan yr Ysgrifennydd Gwladol bron yn orffwyll, os caf i ei roi felly, o ystyried y sylw a wnes mewn gwirionedd.

However, let us just recap what has been said by various UK Government Ministers over the past two years. On 16 July 2012, the then Secretary of State said that over £350 million will be directly invested into the Welsh railway infrastructure.

Fodd bynnag, gadewch i ni ailadrodd yr hyn a ddywedwyd gan wahanol Weinidogion Llywodraeth y DU yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Ar 16 Gorffennaf, 2012, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd y byddai dros £350 miliwn yn cael ei fuddsoddi'n uniongyrchol yn seilwaith rheilffyrdd Cymru.

On the same day, the leader of the opposition said that this

Ar yr un diwrnod, dywedodd arweinydd yr wrthblaid y bydd hyn

'will provide a priceless boost to both the region and Wales as a whole'.

yn rhoi hwb werthfawr i'r rhanbarth a Chymru yn gyffredinol.

[Interruption.] This is what he said.

[Torri ar draws.] Dyma'r hyn a ddywedodd.

'This is Conservatives positively regenerating Wales, unlike Labour's managed decline.'

Y Ceidwadwyr yn adfywio Cymru yn gadarnhaol yw hyn, yn wahanol i ddull dirywiad a reolir Llafur.

Now, if we were being asked to contribute to this scheme, how is it Labour's managed decline? On 23 November, the Wales Office said:

Nawr, os gofynnwyd i ni gyfrannu at y cynllun hwn, sut mae'n achos o ddull dirywiad a reolir Llafur? Ar 23 Tachwedd, dywedodd Swyddfa Cymru:

'The UK Government announced in July this year the electrification of the Valley lines around Cardiff, including the lines to Treherbert, Aberdare, Merthyr Tydfil, Rhymney, Ebbw Vale and the lines from Bridgend to Maesteg and Cardiff to the Vale of Glamorgan.'

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ym mis Gorffennaf eleni drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd o amgylch Caerdydd, gan gynnwys y rheilffyrdd i Dreherbert, Aberdâr, Merthyr Tudful, Rhymni, Glyn Ebwy a rheilffyrdd o Ben-y-bont ar Ogwr i Faesteg a Chaerdydd i Fro Morgannwg.

There is no mention there that the Welsh Government would be funding this. On 31 October, the Prime Minister said this to the BBC, in an interview:

Nid oes unrhyw sôn yn hynny y byddai Llywodraeth Cymru yn ariannu hyn. Ar 31 Hydref, dywedodd Prif Weinidog y DU hyn wrth y BBC, mewn cyfweliad:

'I know we need these infrastructure investments in Wales.... It's this government that's putting the money into the electrification of the railway line all the way up to Swansea and, of course, the Valley lines.'

Rwy'n gwybod bod angen y buddsoddiadau seilwaith hyn yng Nghymru.... Y llywodraeth hon sy'n cyfrannu'r arian ar gyfer trydaneiddio'r rheilffordd yr holl ffordd i Abertawe ac, wrth gwrs, rheilffyrdd y Cymoedd.

That is, to me, as clear as it possibly can be. Why on earth would we, as a Government, look to fund something that is not even devolved? [Interruption.].

Mae hynny, i mi, mor eglur ag y gall fod. Pam ar y ddaear y byddem ni, fel Llywodraeth, yn ystyried ariannu rhywbeth nad yw wedi ei ddatganoli hyd yn oed? [Torri ar draws.].

13:42

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, order. I call on Leanne Wood.

Trefn, trefn. Galwaf ar Leanne Wood.

13:42

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The deal is not clear. It is clear that the way in which investment in our railways is administered is inadequate and unclear. Now, Plaid Cymru wants to see railway services in public hands, and fully devolved. How does the First Minister propose achieving and implementing the devolution of railway funding to Wales, as recommended by the Silk commission?

Nid yw'r cytundeb yn eglur. Mae'n amlwg bod y modd y gweinyddir buddsoddiad yn ein rheilffyrdd yn annigonol ac yn aneglur. Nawr, mae Plaid Cymru eisiau gweld gwasanaethau rheilffyrdd yn nwylo'r cyhoedd, ac wedi eu datganoli'n llawn. Sut mae'r Prif Weinidog yn bwriadu cyflawni a gweithredu datganoli cyllido'r rheilffyrdd i Gymru, fel yr argymhellwyd gan gomisiwn Silk?

13:42

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

This is something, of course, that needs to be discussed. However, I am very grateful to the leader of Plaid Cymru when she again emphasises that this is not a devolved matter. So, why on earth would the Welsh Government look to pay for something that is not devolved? What else are we going to be asked to pay for in the future, and this is a devolved area? I notice, of course, that £4.7 billion has been put by the UK Government into Crossrail, and that £2.2 billion has been put into HS2. However, at the moment, the impression is being given that, when it comes to the electrification of the Valleys lines—and, indeed, of the main line from Cardiff to Swansea—not a penny will be forthcoming from the UK Government. I want to see this project move forward, and I want early clarification on what has been said by the Prime Minister, and by two Secretaries of State in the past in terms of their commitments. The present Secretary of State said, again on 16 July 2012, that

Mae hyn yn rhywbeth y mae angen ei drafod, wrth gwrs. Fodd bynnag, rwy'n ddiolchgar iawn i arweinydd Plaid Cymru wrth iddi bwysleisio eto nad yw hwn yn fater sydd wedi ei ddatganoli. Felly, pam ar y ddaear y byddai Llywodraeth Cymru yn ystyried talu am rywbeth nad yw wedi ei ddatganoli? Beth arall y gofynnir i ni dalu amdano yn y dyfodol, ac mae hwn yn faes datganoledig? Rwy'n sylwi, wrth gwrs, bod £4.7 miliwn wedi ei neilltuo i Crossrail gan Lywodraeth y DU, a bod £2.2 biliwn wedi ei neilltuo i HS2. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, rhoddir yr argraff, pan ddaw'n fater o drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd—ac, yn wir, y brif reilffordd o Gaerdydd i Abertawe—na fydd Llywodraeth y DU yn cyfrannu'r un geiniog. Rwyf eisiau gweld y prosiect hwn yn symud yn ei flaen, ac rwyf eisiau eglurhad cynnar ar yr hyn a ddywedwyd gan y Prif Weinidog, a chan ddau Ysgrifennydd Gwladol yn y gorffennol o ran eu hymrwymiadau. Dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol presennol, unwaith eto ar 16 Gorffennaf, 2012, bod hyn

'this is an extra £4.2 billion worth of funding that we are announcing today—a lot of it going to the South Wales Valley Lines.'

yn werth £4.2 biliwn o gyllid ychwanegol yr ydym ni'n ei gyhoeddi heddiw—llawer ohono'n mynd i Reilffyrdd Cymoedd De Cymru.

So, we have two Secretaries of State, and the Prime Minister, and the leader of the opposition, all saying that this is an investment by the UK Government—there is no mention of the Welsh Government having to pay. I expect those promises, which have been made orally to the people of Wales, to be kept. [Interruption.]

Felly, mae gennym ddau Ysgrifennydd Gwladol, a'r Prif Weinidog, ac arweinydd yr wrthblaid, i gyd yn dweud mai buddsoddiad gan Lywodraeth y DU yw hwn—nid oes sôn bod Llywodraeth Cymru yn gorfod talu. Rwy'n disgwyl i'r addewidion hynny, sydd wedi cael eu gwneud ar lafar i bobl Cymru, gael eu cadw. [Torri ar draws.]

13:44

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We are not in the Liberty Stadium in Swansea. We now move to the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Nid yn Stadiwm Liberty yn Abertawe yr ydym ni. Symudwn nawr at arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:44

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, do you agree that Ann Clwyd should stop her campaign for better standards for patient care in the Welsh NHS, as the Member for Torfaen indicated some two weeks ago, in the Conservative-led debate?

Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno y dylai Ann Clwyd roi terfyn ar ei hymgyrch am well safonau ar gyfer gofal cleifion yn y GIG yng Nghymru, fel y nodwyd gan yr Aelod dros Dorfaen ryw bythefnos yn ôl, yn y ddadl a arweiniwyd gan y Ceidwadwyr?

13:44

## Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That is not what I said.

Nid dyna ddywedais i.

13:44

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

What Ann Clwyd does, of course, is a matter for her.

Mater iddi hi wrth gwrs yw'r hyn y mae Ann Clwyd yn ei wneud.

13:44

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, it was clearly stated from the Member for Torfaen that she wanted Ann Clwyd to stop talking about the Welsh NHS. Yesterday, Ann Clwyd touched quite clearly on what she believed was the state of the Welsh NHS. She said,

Wel, nodwyd yn eglur gan yr Aelod dros Dorfaen ei bod eisiau i Ann Clwyd roi'r gorau i siarad am y GIG yng Nghymru. Ddoe, trafododd Ann Clwyd yn eithaf eglur yr hyn y credai oedd cyflwr y GIG yng Nghymru. Dywedodd,

'This is further firm evidence of the crisis facing the NHS in Wales. These are record-breaking figures'—

Mae hyn yn dystiolaeth gadarn bellach o'r argyfwng sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru. Mae'r rhain yn ffigurau uchaf erioed—

she was talking about diagnostics figures—

roedd yn siarad am ffigurau diagnosteg—

'of the worst kind, and are a further warning sign of deep problems in the Welsh NHS'.

o'r math gwaethaf, ac maent yn rhybudd pellach o broblemau dwys yn y GIG yng Nghymru.

Do you understand those concerns that a senior member of your party is levelling against the way the NHS is run here in Wales?

A ydych chi'n deall y pryderon hynny y mae aelod uwch o'ch plaid yn eu mynegi yn erbyn y ffordd y mae'r GIG yn cael ei redeg yma yng Nghymru?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I am afraid that Ann has based her allegations on the way her husband was treated. She has refused permission for the report surrounding her husband's treatment to be made public. It is important for people to make a judgment on what happened, and that that report is made public, but that, ultimately, is a matter for others. What I do know is that, this morning, in 'The Times', a Conservative Secretary of State for Health is suggesting that the Welsh block grant should be cut in terms of health. That is what he is saying: that funding for the Welsh NHS should be cut from Whitehall. Would he join me in condemning the comments of Jeremy Hunt?

Rwy'n ofni bod Ann wedi seilio ei honiadau ar y ffordd y cafodd ei gŵr ei drin. Mae hi wedi gwrthod caniatâd i'r adroddiad yn ymwneud â thriniaeth ei gŵr gael ei gyhoeddi. Mae'n bwysig i bobl wneud dyfarniad ar yr hyn a ddigwyddodd, a bod yr adroddiad hwnnw'n cael ei wneud yn gyhoeddus, ond, yn y pen draw, mater i bobl eraill yw hwnnw. Yr hyn yr wyf yn ei wybod yw bod yr Ysgrifennydd Gwladol Ceidwadol dros Iechyd yn awgrymu yn 'The Times' y bore yma y dylid torri grant bloc Cymru o ran iechyd. Dyna'r hyn y mae'n ei ddweud: y dylai cyllid i'r GIG yng Nghymru gael ei dorri o Whitehall. A wnaiff ef ymuno â mi i gondemnio sylwadau Jeremy Hunt?

13:46 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As per usual, a pretty shameful response from the First Minister. Ann Clwyd's comments are based on the evidence that she has gathered in the extensive consultations she has held with patients and clinicians in the work that she has undertaken on the effectiveness of the Welsh NHS. As she said yesterday when she looked at the diagnostic treatment waiting times here in Wales, where the eight-week wait is now in excess of 28,000 patients. For reference for the Member for Pontypridd, that is the same size as the town that he and I represent—waiting for a diagnostic referral, out of those waiting times. In England, that same figure is 1.8%, and that is over a six-month period.

Yn ôl yr arfer, ymateb cywilyddus gan y Prif Weinidog. Mae sylwadau Ann Clwyd yn seiliedig ar y dystiolaeth y mae wedi ei chasglu yn yr ymgynghoriadau helaeth y mae wedi eu cynnal gyda chleifion a chlinigwyr yn y gwaith y mae wedi ei wneud ar effeithiolrwydd y GIG yng Nghymru. Fel y dywedodd ddoe pan edrychodd ar amseroedd aros ar gyfer triniaeth ddiagnostig yma yng Nghymru, lle mae mwy na 28,000 o gleifion yn aros wyth wythnos bellach. Er gwybodaeth i'r Aelod dros Bontypridd, mae hynny yr un faint â'r dref y mae ef a minnau yn ei chynrychioli—yn aros am atgyfeiriad diagnostig, o'r amseroedd aros hynny. Yn Lloegr, 1.8% yw'r un ffigur hwnnw, ac mae hynny dros gyfnod o chwe mis.

First Minister, given that you are so dismissive of Ann Clwyd, why will you not therefore agree to meet with me and with Ann Clwyd and get to the bottom of these serious concerns, which you clearly dismiss but which are based on evidence and on fact? You are in denial, First Minister, and it is the patients and clinicians of Wales that are suffering because of it.

Brif Weinidog, o gofio eich bod mor ddiystyriol o Ann Clwyd, pam na wnewch chi gytuno felly i gyfarfod â mi a chyda Ann Clwyd a mynd at wraidd y pryderon difrifol hyn, yr ydych chi'n amlwg yn eu diystyru, ond sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ar ffeithiau? Rydych chi'n hunanymwadu, Brif Weinidog, a chleifion a chlinigwyr Cymru sy'n dioddef o'i herwydd.

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Ann Clwyd has produced no evidence and no facts. I have asked her, and the Minister for health has asked her. She has produced nothing but anonymous comments that are unattributable—we do not know where they are from, whether they are correct or not, and they cannot be investigated. I am afraid that we have asked her on more than one occasion to produce the evidence to back up her claims. I have done it. The Minister for health has done it. I have done it to her in person and in writing. She has not done it.

Nid yw Ann Clwyd wedi cyflwyno unrhyw dystiolaeth nac unrhyw ffeithiau. Rwyf wedi gofyn iddi, ac mae'r Gweinidog iechyd wedi gofyn iddi. Nid yw hi wedi cyflwyno unrhyw beth heblaw am sylwadau dienw na ellir eu priodoli—nid ydym yn gwybod o ble maen nhw'n dod, pa un a ydynt yn gywir ai peidio, ac ni ellir eu hymchwilio. Rwy'n ofni ein bod wedi gofyn iddi ar fwy nag un achlysur i gyflwyno'r dystiolaeth i gefnogi ei honiadau. Rwyf i wedi gwneud hynny. Mae'r Gweinidog iechyd wedi gwneud hynny. Rwyf i wedi gofyn iddi'n bersonol ac yn ysgrifenedig. Nid yw wedi gwneud hynny.

However, I do notice that, when asked whether he condemns Jeremy Hunt's grab of money away from the Welsh NHS, he runs away from it. That is his shame and his party's shame. I notice that he does not mention the airport. There is a 9% increase in passengers—something he got completely wrong. I notice that he does not mention electrification, an area where he truly had the opportunity to stand up for Wales, and failed. His party—[Interruption.]

Fodd bynnag, rwy'n sylwi, pan ofynnir iddo a yw'n condemnio Jeremy Hunt am ddwyn arian oddi wrth y GIG yng Nghymru, mae'n rhedeg i ffwrdd oddi wrth y mater. Dyna ei gywilydd a chywilydd ei blaid. Sylwaf nad yw'n sôn am y maes awyr. Gwelwyd cynnydd o 9% i nifer y teithwyr—rhywbeth iddo ei gael yn hollol anghywir. Sylwaf nad yw'n sôn am drydaneiddio, maes lle'r oedd ganddo gyfle gwirioneddol i sefyll dros Gymru, a methodd â gwneud hynny. Fe wnaeth ei blaid [Torri ar draws.]—

13:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

[Continues.]—tweeted not half an hour ago that the Welsh Government should pay for electrification. That is his idea of standing up for Wales. In reality, all he is, in the words of Robbie Burns, is a

[Parhau.] —drydar nid hanner awr yn ôl y dylai Llywodraeth Cymru dalu am drydaneiddio. Dyna yw ei syniad o sefyll dros Gymru. Mewn gwirionedd, y cwbl yw ef, yng ngeiriau Robbie Burns, yw

'Wee, sleekit, cow'rin, tim'rous beastie'.

'Wee, sleekit, cow'rin, beastie tim'rous'.

13:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think I have been transported to another house. Can we please calm down and have no more shouting across benches? We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Rwy'n credu fy mod i wedi cael fy nghludo i dŷ arall. A allwn ni dawelu os gwelwch yn dda a chael dim mwy o weiddi ar draws meinciau? Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:48 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

First Minister, in January 2013 there were 199 vulnerable young children waiting more than 14 weeks to access child and adolescent psychiatric services. In January of this year, that number had quadrupled to almost 800. Why is your Government unable to provide timely help for some of our most vulnerable young people in their time of need?

Brif Weinidog, ym mis Ionawr 2013, roedd 199 o blant ifanc sy'n agored i niwed yn aros mwy na 14 wythnos i gael mynediad at wasanaethau seiciatrig plant a'r glasoed. Ym mis Ionawr eleni, roedd y nifer wedi cynyddu bedair gwaith drosodd i bron i 800. Pam na all eich Llywodraeth ddarparu cymorth prydlon i rai o'n pobl ifanc mwyaf agored i niwed pan eu bod mewn angen?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is something that we are aware of as a Government. It is right to say that demand has increased quite rapidly over that time, and I know that the Minister for health is looking at the moment to make sure that we look to provide the services that will be required in the future so that we do not have those long waiting lists, and to ensure that our children do get access as quickly as possible to the mental health services that they require.

Mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ymwybodol ohono fel Llywodraeth. Mae'n iawn i ddweud bod y galw wedi cynyddu'n eithaf cyflym dros y cyfnod hwnnw, a gwn fod y Gweinidog iechyd yn edrych ar hyn o bryd i wneud yn siŵr ein bod yn edrych i ddarparu'r gwasanaethau y bydd eu hangen yn y dyfodol fel na fydd y rhestrau aros hir hynny gennym, ac i sicrhau bod ein plant yn cael mynediad at y gwasanaethau iechyd meddwl sydd eu hangen arnynt cyn gynted â phosibl.

13:49 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, child health experts agree that early intervention is key to preventing problems later on life. Your spiralling waiting lists are forcing parents to turn in desperation to the private sector for help—private sector care that they can often ill afford. Last week, Dr Elspeth Webb of Cardiff University said that, while there were very many good staff working in CAMHS services in Wales, they were operating with only 20% to 40% of the recommended staffing levels. Can you outline to the Chamber what steps you are taking to tackle the chronic understaffing of this vital service?

Brif Weinidog, mae arbenigwyr iechyd plant yn cytuno bod ymyrraeth gynnar yn allweddol i atal problemau yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae eich rhestrau aros cynyddol yn gorfodi rhieni i droi mewn anobaith at y sector preifat am help—gofal sector preifat y gallant yn aml braidd ei fforddio. Yr wythnos diwethaf, dywedodd Dr Elspeth Webb o Brifysgol Caerdydd, er bod llawer iawn o aelodau staff da yn gweithio mewn gwasanaethau CAMHS yng Nghymru, eu bod yn gweithredu gyda dim ond 20% i 40% o'r lefelau staffio a argymhellir. A allwch chi amlinellu i'r Siambr pa gamau yr ydych chi'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r diffyg staff parhaus yn y gwasanaeth hanfodol hwn?

13:50 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

It is true to say that it has been difficult to recruit psychiatrists, but, as the Member will know, we have a medical recruitment campaign that we have been running in order to attract more people into difficult-to-reach specialities. In terms of the service that is available in Wales, every patient who is receiving specialist mental health care is guaranteed a right to have a care and treatment plan. That is unique in Wales and does not exist elsewhere. It means better quality of care for patients and it helps them to achieve their goals in recovery. It was introduced, as the Member will know, via the mental health Measure. What is now needed, I accept, is to ensure that the provision of service keeps pace with the demand.

Mae'n wir i ddweud ei bod wedi bod yn anodd recriwtio seiciatryddion, ond, fel y bydd yr Aelod yn gwybod, mae gennym ymgyrch recriwtio meddygol yr ydym ni wedi bod yn ei redeg er mwyn denu mwy o bobl i arbenigeddau sy'n anodd eu cyrraedd. O ran y gwasanaeth sydd ar gael yng Nghymru, sicrheir yr hawl i bob claf sy'n derbyn gofal iechyd meddwl arbenigol gael cynllun gofal a thriniaeth. Mae hynny'n unigryw yng Nghymru ac nid yw'n bodoli mewn mannau eraill. Mae'n golygu gwell ansawdd gofal i gleifion ac yn eu helpu i fodloni eu hamcanion wrth iddynt wella. Cyflwynwyd hyn, fel y bydd yr Aelod yn gwybod, drwy'r Mesur iechyd meddwl. Yr hyn sydd ei angen nawr, rwy'n derbyn, yw sicrhau bod darpariaeth y gwasanaeth yn cadw i fyny â'r galw.

13:51 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, these problems are not new. They were brought to your Government's attention by your own inspectorate and by the Wales Audit Office back in January, when it was said that concerns raised about CAMHS services back in 2009 had not been properly addressed. Young people are still being admitted to adult mental health boards; professionals are still failing to share information; and there are still grave concerns about patients being discharged from treatment. Despite the introduction of that mental health Measure and investment of some £0.25 million in the service, it is still obviously falling short. First Minister, when will your Government be in a position to ensure that this crucially important part of our mental health service actually delivers for the children and young people of Wales? When?

Brif Weinidog, nid yw'r problemau hyn yn newydd. Tynnwyd sylw eich Llywodraeth atynt gan eich arolygiaeth eich hun a chan Swyddfa Archwilio Cymru yn ôl ym mis Ionawr, pan ddywedwyd nad oedd pryderon a godwyd am y gwasanaethau CAMHS yn ôl yn 2009 wedi cael sylw priodol. Mae pobl ifanc yn dal i gael eu derbyn i fyrddau iechyd meddwl i oedolion; mae gweithwyr proffesiynol yn dal i fethu â rhannu gwybodaeth; a cheir pryderon difrifol o hyd am gleifion yn cael eu rhyddhau o driniaeth. Er gwaethaf cyflwyno'r Mesur iechyd meddwl hwnnw a buddsoddiad o tua £0.25 miliwn yn y gwasanaeth, mae'n amlwg nad yw hyn yn ddigon o hyd. Brif Weinidog, pryd y bydd eich Llywodraeth mewn sefyllfa i sicrhau bod y rhan hanfodol bwysig hon o'n gwasanaeth iechyd meddwl yn cyflawni ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru mewn gwirionedd? Pryd?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful that the leader of the Liberal Democrats acknowledges the substantial investment that has been made. Building on the mental health Measure, as I have already mentioned, there has been a significant increase in the demand on the service. It is right to say, therefore, that the level of service at this moment in time could be improved. That is something that I know the Minister for health is very keen to do. I agree entirely, when it comes to early intervention, that it is very important. That can be done in other ways, not just through CAMHS, but, in terms of ensuring that there is access to advice services. I know that, in my own town, there are a number of organisations that provide that service and that we signpost people to those organisations as a first step. Nevertheless, the Minister for health and I both understand that, as far as CAMHS is concerned, more needs to be done to ensure a more holistic service, such as, for example, by ensuring that information is shared by professionals.

Rwy'n ddiolchgar bod arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn cydnabod y buddsoddiad sylweddol sydd wedi ei wneud. Gan adeiladu ar y Mesur iechyd meddwl, fel yr wyf eisoes wedi sôn, bu cynnydd sylweddol i'r galw am y gwasanaeth. Mae'n iawn i ddweud, felly, y gellid gwella lefel y gwasanaeth ar hyn o bryd. Mae hynny'n rhywbeth y gwn fod y Gweinidog iechyd yn awyddus iawn i'w wneud. Cytunaf yn llwyr, pan ddaw i ymyrraeth gynnar, bod hynny'n bwysig iawn. Gellir gwneud hynny mewn ffyrdd eraill, nid yn unig trwy CAMHS, ond, o ran sicrhau gwasanaethau cynghori ar gael. Rwy'n gwybod, yn fy nhref fy hun, bod nifer o sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaeth hwnnw a'n bod yn cyfeirio pobl at y sefydliadau hynny fel cam cyntaf. Serch hynny, mae'r Gweinidog iechyd a minnau yn deall, cyn belled ag y mae CAMHS yn y cwestiwn, bod angen gwneud mwy i sicrhau gwasanaeth mwy cyfannol, fel, er enghraifft, drwy sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu gan weithwyr proffesiynol.

13:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to questions on the paper. Question 3 is from Simon Thomas.

Symudwn yn ôl nawr at y cwestiynau ar y papur. Daw cwestiwn 3 gan Simon Thomas.

### Mynd i'r Afael â Thlodi

### Tackling Poverty

13:53 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*3. Beth yw llwyddiant mwyaf Llywodraeth Cymru wrth fynd i'r afael â thlodi yng Nghymru? OAQ(4)1569(FM)*

*3. What is the Welsh Government's greatest achievement in tackling poverty in Wales? OAQ(4)1569(FM)*

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Jobs Growth Wales.

Twf Swyddi Cymru.

13:53 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Mae hefyd yn wir fod tlodi absoliwt ar ôl costau tai yng Nghymru ar gyfer plant wedi cynyddu yn y degawd diwethaf. Mae'n uwch nawr nag yr oedd yn nhair blynedd cyntaf y Cynulliad. Heb sôn am y bobl mewn swyddi, beth wnewch chi dros blant mewn tlodi yng Nghymru?

It is also true that absolute poverty, after accounting for housing costs, in Wales for children has increased in the last decade. It is higher now than it was in the first three years of the Assembly. Notwithstanding those people who are in work, what will you do for children in poverty in Wales?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rydym yn gwybod, ynglŷn â sicrhau bod plant yn cael eu codi mas o dlodi, fod yn rhaid sicrhau bod gan yr oedolion yn y tŷ ffordd o gael gwaith. Dyna'r ffordd i sicrhau bod incwm y teulu yn codi. Roedd adroddiad y strategaeth tlodi plant y flwyddyn ddiwethaf yn sôn am y ffaith bod llai o oedolion yn awr yn gadael yr ysgol neu'r coleg heb unrhyw gymwysterau o gwbl, a bod y bwlch addysgol rhwng y rhai sy'n cael bwyd ysgol am ddim a'r rhai sydd ddim wedi lleihau rhwng 2009-10 a 2011-12. Felly, mae pethau wedi cael eu gwneud. Mae'n anodd gwneud popeth yr ydym yn dymuno'i wneud achos nid yw pob twlsyn gyda ni ar hyn o bryd. Ond, mae'n bwysig dros ben ein bod yn parhau gyda'r strategaeth tlodi plant er mwyn sicrhau bod mwy o blant yn cael cyfle i gael eu tynnu mas o dlodi.

We know, with regard to ensuring that children are raised out of poverty, that adults in the household must be able to find work. That is the way to ensure that family income increases. The report of the child poverty strategy last year talked about the fact that fewer adults now leave school or college with no qualifications, and that the educational gap between those who receive free school meals and those who do not has reduced between 2009-10 and 2011-12. So, things have been done. It is difficult to do everything that we want to do because we do not have all the tools at the moment. However, it is very important that we continue with the child poverty strategy to ensure that more children have the opportunity to be pulled out of poverty.

13:54 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

First Minister, will you join me in welcoming the above-inflation increase in the minimum wage to £6.50 per hour, announced by the coalition Government in London, which will benefit 73,000 people in Wales and help reduce poverty in Wales also?

Brif Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i groesawu'r cynnydd uwch na chwyddiant yn yr isafswm cyflog i £6.50 yr awr, a gyhoeddwyd gan y Llywodraeth glymblaid yn Llundain, a fydd o gymorth i 73,000 o bobl yng Nghymru ac yn helpu i leihau tlodi yng Nghymru hefyd?

13:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

This is about what the Welsh Government is doing.

Mae hyn yn ymwneud â'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud.

13:55 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I am just asking the First Minister to welcome—

Y cwbl rwy'n ei wneud yw gofyn i'r Prif Weinidog groesawu—

13:55 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I know what you are asking, but this is about what the Welsh Government is doing. I do not think that was part of the question.

Rwy'n gwybod beth yr ydych chi'n ei ofyn, ond mae hyn yn ymwneud â'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud. Nid wyf yn credu bod hynny'n rhan o'r cwestiwn.

### Staff yn y GIG sy'n Siarad Cymraeg

### Welsh-speaking Staff in the NHS

13:55 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

*4. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i fynd i'r afael â phrinder staff yn y GIG sy'n gallu siarad Cymraeg? OAQ(4)1562(FM)*

*4. What steps has the Welsh Government taken to address the shortage of staff in the NHS that can speak Welsh? OAQ(4)1562(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae fframwaith y gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, a lansiwyd ym mis Tachwedd 2012, yn llywio gwelliannau. Mae'n cynnwys amcan penodol i gynyddu gallu gweithlu'r GIG a gofal cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau Cymraeg. Mae nifer o fyrddau iechyd wedi cymryd camau i wneud gwelliannau.

The health and social services Welsh language framework, launched in November 2012, is driving improvements. It includes a specific objective to increase the capability of the NHS and social care workforce to provide Welsh-language services. A number of health boards have taken steps to make improvements.

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, cefais gyfarfod â meddygon dan hyfforddiant yn y gogledd rhyw bythefnos yn ôl a mynegwyd cryn siom gyda niferoedd y Cymry Cymraeg sydd yn hyfforddi fel meddygon teulu. Pa gamau priodol sy'n cael eu cymryd a pha fonitro a wneir o'ch canllawiau newydd, sydd wedi bod mewn grym am ryw 15 mis?

First Minister, I met with trainee doctors in north Wales some two weeks ago and there was quite a bit of disappointment expressed at the numbers of Welsh speakers who are training as GPs. What appropriate steps are taken and what monitoring is done of your new guidelines, which have been in place for about 15 months?

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae pob bwrdd iechyd wedi cymryd hyn ymlaen. Gan ichi sôn am y gogledd, byddaf yn canolbwyntio ar fwrdd Betsi Cadwaladr. Mae fframwaith sgiliau ieithyddol wedi ei baratoi. Mae hyn yn golygu, fel rhan o'r broses recriwtio, y bydd rheolwyr yn gorfod ystyried demograffeg yr ardal er mwyn sicrhau bod pob swydd sydd yn codi yn y dyfodol yn cael ei hasesu o ran y gofyn ieithyddol am y swydd honno. Felly, bydd hyn yn rhan greiddiol o beth fydd bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr yn ei wneud yn y dyfodol.

All health boards have taken this on. You mentioned north Wales, and I will concentrate on the Betsi Cadwaladr board. A linguistic skills framework has been prepared. This means that, as part of the recruitment process, managers will have to consider the area's demographics, to ensure that all posts in future are assessed in terms of the linguistic requirement for that position. Therefore, this will be a core part of what the Betsi Cadwaladr health board will do in the future.

Senedd.tv Fideo Video

13:56 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

First Minister, the Welsh Language is, of course, pervasive across all Government departments. Can you tell me what the Department of Health and Social Services is doing in terms of contact with schools and colleges to encourage interesting and relevant subject matter and vocabulary about the NHS being brought into lesson plans in those schools and colleges?

Brif Weinidog, mae'r iaith Gymraeg, wrth gwrs, yn treiddio drwy holl adrannau'r Llywodraeth. A allwch chi ddweud wrthyf beth mae'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei wneud o ran cysylltu ag ysgolion a cholegau i annog pynciau diddorol a pherthnasol a geirfa am y GIG i gael eu cynnwys mewn cynlluniau gwersi yn yr ysgolion a'r colegau hynny?

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

In terms of Welsh in education, we are, as the Member will know, in a position where we have provided great support for the language over the years, as the European Commission has recognised. We are reviewing the position of Welsh in education in order to strengthen the language's position, in Welsh-medium, bilingual and English-medium schools. Through that, if we increase the number of young people who go to Welsh-medium or bilingual schools, we hope to increase the numbers studying science and therefore increase the number who are looking to enter any of the medical professions and who are able to use the Welsh language.

O ran y Gymraeg mewn addysg, rydym, fel y bydd yr Aelod yn gwybod, mewn sefyllfa lle rydym ni wedi darparu cymorth helaeth i'r iaith dros y blynyddoedd, fel y mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi ei gydnabod. Rydym yn adolygu sefyllfa'r Gymraeg mewn addysg er mwyn cryfhau sefyllfa'r iaith, mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg. Drwy hynny, os byddwn yn cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, rydym yn gobeithio cynyddu'r niferoedd sy'n astudio gwyddoniaeth, ac felly cynyddu'r nifer sydd eisiau ymuno ag unrhyw un o'r proffesiynau meddygol ac sy'n gallu defnyddio'r iaith Gymraeg.

Senedd.tv Fideo Video

13:57 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r prinder meddygon teulu sydd â sgiliau dwyieithog erbyn hyn yn argyfwng yn y gogledd-orllewin; rydym yn methu hyd yn oed â chael meddygon o'r fath i ardal fel dyffryn Nantlle. Beth sydd yn digwydd—rydych wedi sôn bod gan y byrddau iechyd strategaeth yn ei lle—ar lefel colegau meddygol yng Nghymru i geisio annog mwy o Gymry Cymraeg i ddod i astudio ac i hyfforddi yn y gogledd fel eu bod yn debycach o aros yno?

The shortage of GPs with bilingual skills is now reaching crisis point in north-west Wales; we cannot even find such doctors for an area like the Nantlle valley. What is happening—you have mentioned that health boards have a strategy in place—at the level of Wales's medical colleges to try to encourage more Welsh speakers to study and train in north Wales so that they are more likely to stay there?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Nid dyna'r broblem, yn fy marn i. Nid yw'n broblem o bobl nad ydynt am ddod i'r gogledd-orllewin. Un o'r problemau sydd wedi ei godi gyda mi yw'r ffaith bod pobl eisiau dod i'r ardal fel meddygon ond bod yn rhaid ffeindio swydd ar gyfer eu gwŷr neu wragedd, oherwydd eu bod hwy hefyd am gael swydd yn yr ardal. Mae hyn yn bwynt sydd wedi dod oddi wrth ddoctoriaid eu hunain. Mae hyn yn rhywbeth od, mewn un ffordd, ond dyna maent wedi'i ddweud. Rwyf yn siŵr bod pobl sydd am fod yn feddygon teulu yn y gogledd-orllewin, ond nid yw'r modd o ddatrys hynny mor amlwg â rhoi mwy o arian i bobl; mae'n rhaid edrych ar hyn mewn ffordd holistig.

That is not the problem, in my opinion. It is not that people do not want to come to north-west Wales. One problem that has been raised with me is that people want to come to the area as doctors but that they have to find jobs for their husbands or wives, because they too want employment in the area. This is a point that has come from doctors themselves. This is odd, in one respect, but that is what they have said. I am certain that there are people who would want to be GPs in north-west Wales, but the resolution to this problem is not as easy as just giving people more money; we will have to look at this in a holistic manner.

## Cynlluniau Cyllideb

## Budget Plans

13:59 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u darparu i awdurdodau lleol o ran pennu eu cynlluniau cyllideb? OAQ(4)1561(FM)*

*5. What guidance has the Welsh Government provided to local authorities on setting their budget plans? OAQ(4)1561(FM)*

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Local authorities are autonomous.They are responsible for the decisions that they make.

Mae awdurdodau lleol yn annibynnol. Nhw sy'n gyfrifol am y penderfyniadau maen nhw'n eu gwneud.

13:59 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. One north-east Wales local authority told me that it is protecting its reserves, reconfiguring services and already planning ahead for its 2015-16 budgets, knowing that further reductions will follow. Another authority told me that it had not taken service decisions this year that some councils have taken, because it needs certainty from the Welsh Government for future budgets with a three-year indicative settlement so that it can plan. Which is correct?

Diolch yn fawr. Dywedodd un awdurdod lleol yng ngogledd-ddwyrain Cymru wrthyf ei fod yn diogelu ei gronfeydd wrth gefn, yn ad-drefnu gwasanaethau ac eisoes yn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer ei gyllidebau yn 2015-16, gan wybod y bydd gostyngiadau pellach yn dilyn. Dywedodd awdurdod arall wrthyf nad oedd wedi gwneud penderfyniadau gwasanaeth eleni yr oedd rhai cynghorau wedi eu gwneud, oherwydd bod angen sicrwydd arno gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllidebau yn y dyfodol gyda setliad dangosol tair blynedd fel y gall gynllunio. Pa un sy'n gywir?

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Each local authority can take its own approach; it is a matter for them. They are responsible to their electorate and are responsible for setting their own budgets.

Gall pob awdurdod lleol fabwysiadu ei ddull ei hun; mae'n fater iddyn nhw. Nhw sy'n atebol i'w hetholwyr a nhw sy'n gyfrifol am bennu eu cyllidebau eu hunain.

14:00 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Serch hynny, Brif Weinidog, mae problem gydag awdurdodau lleol yn gorfod ceisio sicrhau bod eu cyllidebau'n hyfyw ac yn gorfod torri'n ôl ar rai gwasanaethau, ac wrth wneud hynny, yn aml iawn, yn mynd yn groes i fwriadau ac uchelgais Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i weld mwy a mwy o bobl yn gwneud ymarfer corff, ac eto i gyd mae awdurdodau lleol yn gorfod edrych ar eu cynhaliaeth hwy o feysydd chwarae ac yn y blaen. Mae gan Lywodraeth Cymru fwriad i sicrhau bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o lyfrgelloedd, ac ar yr un pryd rydym yn gweld llyfrgelloedd yn cael eu cau oherwydd y pwysau ar y gyllideb. Sut mae modd cysoni'r penderfyniadau cyllidebol hyn gyda bwriad, uchelgais a gweledigaeth Llywodraeth Cymru?

However, First Minister, there is a problem with local authorities trying to ensure that their budgets are viable and having to cut back on some services, and in doing so, very often, having to go contrary to the intentions and ambitions of the Welsh Government. For example, the Welsh Government has an ambition to see more and more people participating in physical activity, yet local authorities are having to look at their maintenance of playgrounds and so on. The Welsh Government has plans to ensure that more use is made of libraries, and we simultaneously see libraries being closed because of budget pressures. How can we reconcile the budgetary decision making with the intention, ambition and vision of the Welsh Government?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Byddem yn erfyn ar awdurdodau lleol i rannu pob uchelgais sydd gennym ni. Wrth ddweud hynny, mae'n bwysig sylweddoli bod awdurdodau lleol, fel pob lefel o lywodraeth, yn cael amser anodd iawn o ran penderfynu ar gyllideb y flwyddyn nesaf ac, i fod yn onest, y blynyddoedd i ddod. Mae hyn o achos y toriadau yn yr arian sydd wedi dod i ni fel Llywodraeth, ac felly i lywodraeth leol. Fodd bynnag, byddwn yn dweud wrth awdurdodau lleol ystyried yn fanwl beth yw eu blaenoriaethau, ac nid i dorri ar draws y bwrdd—'salami-slicing' fel maen nhw'n ddweud yn Saesneg. Dylent ystyried eu blaenoriaethau a sicrhau bod ganddynt gyllidebau sy'n dangos y blaenoriaethau hynny, ac nid dim ond yn torri ar draws y bwrdd.

We would expect local authorities to share all the ambitions that we have. In saying that, it is important to realise that local authorities, like every tier of Government, are facing a very difficult time in deciding on next year's budget and, to be honest, the ensuing years. This is because of the cuts in funding that has come to us as a Government, and therefore passed down to local government. However, I would say to local authorities that they should consider in detail their priorities, and not to just salami-slice funds across the board. They should consider their priorities and ensure that they have budgets that demonstrate those priorities, and not only cut across the board.

### Bil Anghenion Addysgol Arbennig

### Special Education Needs Bill

14:01 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog nodi pryd y bydd y Bil anghenion addysgol arbennig yn cael ei gyflwyno? OAQ(4)1558(FM)*

*6. Will the First Minister indicate when the special education needs bill will be introduced? OAQ(4)1558(FM)*

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We hope to be able to agree a way forward that will allow us to introduce such a Bill before the next Assembly elections. We will discuss this as part of the Government's legislative programme later today. The intention is to introduce it before the elections.

Rydym yn gobeithio gallu cytuno ar ffordd ymlaen a fydd yn ein galluogi i gyflwyno Bil o'r fath cyn etholiadau nesaf y Cynulliad. Byddwn yn trafod hyn yn rhan o raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth yn ddiweddarach heddiw. Y bwriad yw ei gyflwyno cyn yr etholiadau.

14:02 **Angela Burns** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That was entirely the answer that I was seeking, and I reiterate that the Welsh Conservatives would support the Government in trying to bring forward a holistic Bill that deals with the special educational needs requirements of children and young people in Wales. However, I would like to see that Bill come forward to this place and be placed on the statute book before the end of this Assembly. We will support you in that endeavour.

Dyna'r union ateb roeddwn i'n chwilio amdano, a dywedaf eto y byddai Ceidwadwyr Cymru yn cefnogi'r Llywodraeth wrth geisio cyflwyno Bil cyfannol sy'n ymdrin â gofynion anghenion addysgol arbennig plant a phobl ifanc yng Nghymru. Fodd bynnag, hoffwn weld y Bil hwnnw'n cael ei gyflwyno yn y lle hwn ac yn cael ei roi ar y llyfr statud cyn diwedd y Cynulliad hwn. Byddwn yn eich cefnogi yn yr ymdrech honno.

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I am delighted to be in a position of having given a full and complete answer to a Member on the Conservative benches. I trust that it will be something that does not happen very often. [Laughter.]

Rwyf wrth fy modd o fod mewn sefyllfa o fod wedi rhoi ateb llawn a chyflawn i Aelod ar feinciau'r Ceidwadwyr. Hyderaf ei fod yn rhywbeth na fydd yn digwydd yn aml iawn. [Chwerthin.]

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Weinidog, rwyf innau'n croesawu beth rydych newydd ddweud, ei bod yn fwriad gan y Llywodraeth i gyflwyno'r Bil hwn cyn yr etholiad nesaf. Rwyf i, ar ran Plaid Cymru, yn dweud y byddwn yn cydweithio â chi i wneud yn siŵr bod hynny'n digwydd. Yn y cyfamser, mae cryn dipyn o ddryswch am sut y mae plant ag anghenion arbennig yn cael datganiad, gyda rhai awdurdodau lleol yn dal i roi datganiadau, ac eraill, fel y gwyddoch, Brif Weinidog, yn gwrthod gwneud hynny, ac yn ceisio cyflwyno cynlluniau dysgu annibynnol ac ati. Sut y bydd y Llywodraeth yn sicrhau cysondeb mynediad i'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y plant hyn yng Nghymru tra'n bod yn aros am y ddeddfwriaeth?

Minister, I also welcome what you just said, that it is the Government's intention to introduce this Bill before the next election. On behalf of Plaid Cymru, we will work with you to make sure that that happens. In the meantime, there is considerable confusion about how children with special needs receive statements, with some local authorities continuing to give statements while others, as you know, First Minister, refuse to do so, and seek to introduce independent learning plans et cetera. How will the Government ensure consistency of access to the services required by these children in Wales while we await the legislation?

Senedd.tv Fideo Video

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rwy'n siwr y bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried sut y gallwn gael cysondeb cyn bod unrhyw ddeddfwriaeth yn dod i rym. Yn y diwedd, y ffordd o sicrhau cysondeb yw gwneud hynny yn statudol. Roedd yr Aelod yn iawn bod gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol, gyda rhai yn rhoi datganiad i blant yn fwy rhwydd nag awdurdodau eraill. Gofynnaf i'r Gweinidog ysgrifennu at yr Aelod, gan gofio hefyd bod cyfleoedd ar gael yn y Bil ei hun.

I am sure that the Minister for Health and Social Services will consider how we can secure consistency before any legislation comes into force. Ultimately, the way to ensure consistency is to do it on a statutory basis. The Member was right that there are differences between local authorities, with some providing a statement for children more easily than others. I will ask the Minister to write to the Member, bearing in mind also that opportunities are available in the Bill itself.

Senedd.tv Fideo Video

## Addysg am Ddim i Blant Tair Oed

## Free Education for Three-year-olds

14:04 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

*7. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarparu addysg am ddim i blant tair oed? OAQ(4)1560(FM)*

*7. Will the First Minister provide an update on the provision of free education for three year olds? OAQ(4)1560(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

All children in Wales are entitled to a free part-time foundation phase place from the term following their third birthday. We remain wholly committed to the foundation phase and its approach to teaching and learning, and I can confirm that all local authorities are meeting their statutory duty.

Mae gan bob plentyn yng Nghymru yr hawl i le cyfnod sylfaen rhan-amser am ddim o'r tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn dair oed. Rydym yn parhau i fod yn gwbl ymrwymedig i'r cyfnod sylfaen a'i ddull o addysgu a dysgu, a gallaf gadarnhau bod pob awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd statudol.

Senedd.tv Fideo Video

14:04 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much for that answer, First Minister. I was rather concerned to hear that the City and County of Swansea was not minded to allow the provision of free education for three-year olds, other than in its own council-provided settings. In your own constituency of Bridgend, which is also in my region, the local authority is currently looking to save money by reducing council-funded nursery provision. Where council-run nurseries vulnerable to cuts are the only setting for free education provision for three-year olds, do you think that it is unwise for a council to deny suitable non-council-run nurseries the option to offer that provision?

Diolch yn fawr iawn am yr ateb yna, Brif Weinidog. Rwyf braidd yn bryderus o glywed nad oedd cyngor Dinas a Sir Abertawe o blaid caniatáu'r ddarpariaeth o addysg am ddim i blant tair oed, ac eithrio yn ei leoliadau ei hun a ddarperir gan y cyngor. Yn eich etholaeth eich hun ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sydd hefyd yn fy rhanbarth i, mae'r awdurdod lleol yn ceisio arbed arian ar hyn o bryd trwy leihau'r ddarpariaeth feithrin a ariennir gan y cyngor. Pan mai meithrinfeydd a redir gan y cyngor sy'n agored i doriadau yw'r unig leoliad ar gyfer darpariaeth addysg am ddim i blant tair oed, a ydych chi'n meddwl ei bod yn annoeth i gyngor wadu'r opsiwn o gynnig y ddarpariaeth honno i feithrinfeydd priodol nad ydynt yn cael eu rhedeg gan y cyngor?

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Councils must meet their statutory duty and it is clear what they must do. How they meet that is a matter for them, but they cannot fail to meet it.

Mae'n rhaid i gynghorau gyflawni eu dyletswydd statudol ac mae'n eglur beth mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud. Mater iddyn nhw yw sut maen nhw'n gwneud hynny, ond ni allant fethu â chyflawni hynny.

## Cyffuriau Anterth Cyfreithlon

## Legal Highs

14:05 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Gweinidogion mewn cysylltiad â'r hyn a elwir yn gyffuriau anterth cyfreithlon? OAQ(4)1568(FM)*

*8. Will the First Minister outline any discussions he has held with Ministers in relation to so called legal highs? OAQ(4)1568(FM)*

14:05 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I meet with the Minister for Health and Social Services on a regular basis and he is aware of your concern.

Rwy'n cyfarfod â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rheolaidd ac mae'n ymwybodol o'ch pryder.

14:05 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Unfortunately, barely a week goes by now without news of another tragedy linked to these so-called legal highs and we are seeing major problems with the use of these substances in my own constituency. I had a very constructive meeting with the Minister for health just before recess and, locally, I have been liaising with the health board and the police on these issues for some time. First Minister, it is essential that we adopt a cross-cutting approach to tackling this scourge in Wales. Moving forward, will you commit to co-ordinating these really important efforts across the Welsh Government?

Yn anffodus, prin fod wythnos yn mynd heibio erbyn hyn heb newyddion am drychineb arall sy'n gysylltiedig â'r cyffuriau anterth cyfreithlon hyn ac rydym ni'n gweld problemau mawr o ran y defnydd o'r sylweddau hyn yn fy etholaeth i. Cefais gyfarfod adeiladol iawn gyda'r Gweinidog iechyd ychydig cyn y toriad ac, yn lleol, rwyf wedi bod mewn cysylltiad â'r bwrdd iechyd a'r heddlu ynglŷn â'r materion hyn ers cryn amser. Brif Weinidog, mae'n hanfodol ein bod yn mabwysiadu dull gweithredu trawsbynciol i fynd i'r afael â'r pla hwn yng Nghymru. Wrth symud ymlaen, a wnewch chi ymrwymo i gydgysylltu'r ymdrechion pwysig iawn hyn ledled Llywodraeth Cymru?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes. I would emphasise that we cannot do anything in terms of legislation, as the Misuse of Drugs Act 1971 is not devolved—nor is it devolved in Scotland, for that matter. So, moving forward with legislation to categorise new drugs as they appear—because, of course, a lot of them are new—is not a matter for us. That said, it is essential that we work together across departments to tackle the harms and devastation that these substances can cause. Health officials already work very closely with those in local government and education to provide a co-ordinated response in terms of education, prevention and addressing the availability of the new substances—I think 'psychoactive substances' is the term that is used—here in Wales. I also understand that the Gwent area planning board is co-ordinating the local response to tackling new psychoactive substances, where the health board, police and public health department are all fully engaged.

Gwnaf. Byddwn yn pwysleisio na allwn wneud unrhyw beth o ran deddfwriaeth, gan nad yw Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 wedi ei datganoli—ac nid yw wedi ei datganoli yn yr Alban ychwaith, o ran hynny. Felly, nid yw symud ymlaen â deddfwriaeth i gategoreiddio cyffuriau newydd wrth iddynt ymddangos—oherwydd, wrth gwrs, mae llawer ohonynt yn newydd—yn fater i ni. Wedi dweud hynny, mae'n hanfodol ein bod yn cydweithio ar draws adrannau i fynd i'r afael â'r niwed a'r dinistr y gall y sylweddau hyn eu hachosi. Mae swyddogion iechyd eisoes yn gweithio'n agos iawn gyda'r rhai mewn llywodraeth leol ac addysg i ddarparu ymateb cydgysylltiedig o ran addysg, atal a mynd i'r afael â'r ffyrdd y mae'r sylweddau—rwy'n credu mai 'sylweddau seicoweithredol' yw'r term a ddefnyddir— newydd ar gael yma yng Nghymru. Rwyf hefyd yn deall bod bwrdd cynllunio ardal Gwent yn cydgysylltu'r ymateb lleol i fynd i'r afael â sylweddau seicoweithredol newydd, ac mae'r bwrdd iechyd, yr heddlu a'r adran iechyd cyhoeddus i gyd yn cymryd rhan lawn.

14:06 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, no-one doubts that we need to reduce the harm that can be caused to people by the use of so-called legal highs, but I am concerned about the Welsh Government's funding of the Welsh emerging drugs and identification of novel substances project, which allows people to send in substances for testing and the results of those test to be published online. Unfortunately, I have received some evidence that this is being used by people who are pushing steroids that are made at home. Links have been sent to me in relation to the UK-Muscle website, which is a bodybuilding forum, showing that this might be happening. What work is the Welsh Government doing to ensure that the WEDINOS project is not exploited by people who want to peddle substances that could potentially be very harmful to people here in Wales?

Brif Weinidog, nid oes unrhyw un yn amau bod angen i ni leihau'r niwed y gellir ei achosi i bobl trwy ddefnyddio cyffuriau anterth cyfreithlon, ond rwy'n pryderu am gyllid Llywodraeth Cymru i brosiect cyffuriau sy'n dod i'r amlwg ac adnabod sylweddau newydd Cymru, sy'n caniatáu i bobl anfon sylweddau i'w profi ac i ganlyniadau'r profion hynny gael eu cyhoeddi ar-lein. Yn anffodus, rwyf wedi derbyn rhywfaint o dystiolaeth bod hyn yn cael ei ddefnyddio gan bobl sy'n gwerthu steroidau sy'n cael eu gwneud yn y cartref. Anfonwyd dolenni i mi yn ymwneud â'r wefan UK-Muscle, sef fforwm cryfhau'r corff, sy'n dangos y gallai hyn fod yn digwydd. Pa waith mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau nad yw pobl sydd eisiau gwerthu sylweddau a allai fod yn niweidiol iawn i bobl yma yng Nghymru yn cam-fanteisio ar brosiect WEDINOS?

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Let us be clear: the WEDINOS project is designed to ensure that people are able to send samples to the project in order to understand what is in them, especially at a time when new drugs are being synthesised at an ever-increasing rate. When the Misuse of Drugs Act was passed in 1971, there were far fewer drugs on the market and those that were there had not yet been synthesised into new forms—cocaine into crack, for example. The legislation has had to keep pace with that. So, it is important that we understand what is appearing on the streets of Wales in order to be able to deal with it. I take the point that the Member makes. Of course, the project would not want to be some kind of testing system for those who want to see whether what they have produced is effective or not. It is important to ensure that that is monitored. It is important to ensure that we continue to work with gyms, for example, to make sure that they make their users—users of the gym, that is—aware of the damage that long-term steroid abuse can have on people, leading of course, ultimately, to early death.

Gadewch i ni fod yn eglur: mae prosiect WEDINOS wedi ei gynllunio i sicrhau y caiff pobl anfon samplau i'r prosiect er mwyn deall yr hyn sydd ynddynt, yn enwedig ar adeg pan fo cyffuriau newydd yn cael eu syntheseiddio ar gyfradd sy'n cynyddu'n barhaus. Pan basiwyd y Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau yn 1971, roedd llawer llai o gyffuriau ar y farchnad ac nid oedd y rhai a oedd yno wedi cael eu syntheseiddio i ffurfiau newydd eto—troi cocên yn grac, er enghraifft. Mae'r ddeddfwriaeth wedi gorfod cadw i fyny â hynny. Felly, mae'n bwysig ein bod yn deall yr hyn sy'n ymddangos ar strydoedd Cymru er mwyn gallu ymdrin ag ef. Rwy'n derbyn y pwynt y mae'r Aelod yn ei wneud. Wrth gwrs, ni fyddai'r prosiect eisiau bod yn rhyw fath o system brofi i'r rhai sydd eisiau gweld a yw'r hyn maen nhw wedi ei gynhyrchu yn effeithiol ai peidio. Mae'n bwysig sicrhau bod hynny'n cael ei fonitro. Mae'n bwysig sicrhau ein bod yn parhau i weithio gyda champfeydd, er enghraifft, i wneud yn siŵr eu bod yn sicrhau bod eu defnyddwyr—defnyddwyr y gampfa, hynny yw—yn ymwybodol o'r niwed y gall cam-ddefnyddio steroidau hirdymor ei wneud i bobl, gan arwain wrth gwrs, yn y pen draw, at farwolaeth gynnar.

## Ffioedd a delir i Sefydliadau Allanol

## Fees Paid to Outside Organisations

14:08

### Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ffioedd a delir i sefydliadau allanol i reoli rhaglenni sy'n gysylltiedig â'i strategaeth yn erbyn tlodi? OAQ(4)1554(FM)*

*9. Will the First Minister make a statement on fees paid to outside organisations to manage programmes associated with its anti-poverty strategy? OAQ(4)1554(FM)*

14:09

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The fee for all managed programmes associated with our tackling poverty agenda will vary, depending on the nature of the service.

Bydd y ffi ar gyfer pob rhaglen a reolir sy'n gysylltiedig â'n hagenda trechu tlodi yn amrywio, gan ddibynnu ar natur y gwasanaeth.

14:09

### Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. You will know that, in terms of the discretionary assistance fund, 16% of the total budget has gone, in terms of managing that project. However, with regard to the credit union project, of the £4.7 million available over a number of years, nearly £1 million has been spent on consultants to manage the project. Given that a very high percentage of the money is being spent in administration, do you not think that the Welsh Government needs to review the way that these projects are managed, so that more money can go to the front end?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Byddwch yn gwybod, o ran y gronfa cymorth dewisol, bod 16% o gyfanswm y gyllideb wedi mynd, o ran rheoli'r prosiect hwnnw. Fodd bynnag, o ran y prosiect undeb credyd, o'r £4.7 miliwn sydd ar gael dros nifer o flynyddoedd, gwariwyd bron i £1 filiwn ar ymgynghorwyr i reoli'r prosiect. O gofio bod canran uchel iawn o'r arian yn cael ei wario ar weinyddiaeth, onid ydych chi'n credu bod angen i Lywodraeth Cymru adolygu'r ffordd y rheolir y prosiectau hyn, fel y gall mwy o arian fynd i'r rheng flaen?

14:09

### Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

When it comes to the discretionary assistance fund, the UK Government took the view that it would cost £2.1 million to administer in Wales. The cost is actually £1.38 million, which is considerably less than the Department for Work and Pensions estimate and the amount that it allocated. The cost of the administration of the fund has no impact on the amount of grant money available to those applying to the fund. The budget remains at £10.2 million. Looking at the statistics regarding the performance of the fund, I can see that they seem to have improved, particularly over the course of this financial year.

Pan ddaw at y gronfa cymorth dewisol, daeth Llywodraeth y DU i'r casgliad y byddai'n costio £2.1 miliwn i'w gweinyddu yng Nghymru. £1.38 miliwn yw'r gost mewn gwirionedd, sydd gryn dipyn yn llai nag amcangyfrif yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r swm a ddyranwyd ganddi. Nid yw cost gweinyddu'r gronfa yn cael unrhyw effaith ar faint o arian grant sydd ar gael i'r rhai sy'n gwneud cais i'r gronfa. Mae'r gyllideb dal i fod yn £10.2 miliwn. O edrych ar yr ystadegau o ran perfformiad y gronfa, gallaf weld ei bod yn ymddangos eu bod wedi gwella, yn enwedig yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

14:10

### Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, the Welsh Government's main anti-poverty strategy is Communities First. Following the Wales Audit Office's concerns in reports during the last Assembly on the lack of effective corporate governance embedded in grant recipient bodies outside local government, the Welsh Government has now made most of the grant recipient bodies local authorities. How, therefore, is the Welsh Government ensuring that those local authorities, while fulfilling the grant recipient body roll in terms of financial and human resource management and audit, nonetheless ensure that the funding is focused on anti-poverty strategies that the local community has identified and is working with it on?

Yn amlwg, Cymunedau yn Gyntaf yw prif strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi. Yn dilyn pryderon Swyddfa Archwilio Cymru mewn adroddiadau yn ystod y Cynulliad diwethaf ar y diffyg llywodraethu corfforaethol effeithiol sydd wedi ei ymsefydlu mewn cyrff sy'n derbyn grantiau y tu allan i lywodraeth leol, mae Llywodraeth Cymru bellach wedi gwneud y rhan fwyaf o'r cyrff sy'n derbyn grantiau yn awdurdodau lleol. Sut, felly, mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr awdurdodau lleol hynny, wrth gyflawni swyddogaeth y corff derbyn grant o ran rheoli ac archwilio adnoddau ariannol a dynol, yn sicrhau serch hynny bod y cyllid yn canolbwyntio ar strategaethau gwrth-dlodi y mae'r gymuned leol wedi eu nodi ac yn gweithio â'r gymuned honno ar hyn.

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is what the money is for. We have sought to ensure that the money is made available and spent in an appropriate way, but the whole point of Communities First is to ensure that projects come up rather than being forced down and, of course, to ensure that people are fully engaged in what they believe will be the most effective projects to tackle poverty in their own areas.

Dyna beth mae'r arian ar ei gyfer. Rydym ni wedi ceisio sicrhau bod yr arian yn cael ei roi ar gael ac yn cael ei wario mewn ffordd briodol, ond holl bwynt Cymunedau yn Gyntaf yw sicrhau bod prosiectau yn dod i fyny yn hytrach na chael eu gorfodi i lawr ac, wrth gwrs, sicrhau bod pobl yn cymryd rhan lawn yn yr hyn y maent yn ei gredu fydd y prosiectau mwyaf effeithiol i drechu tlodi yn eu hardaloedd eu hunain.

Senedd.tv
Fideo Video

14:11 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

First Minister, in recent years, there has been a move towards outsourcing service provisions and the administrative duties of Government programmes to private companies. Of course, we have bad examples of A4e and ATOS among others in delivering, I think, very poor value for money. Are you confident that public funds being used by your Government to pay private companies are going to where they are needed most and not just into dividends, profits, shares and fat-cat salaries? Why do we not let local government run these schemes?

Brif Weinidog, yn y blynyddoedd diweddar, bu symudiad tuag at allanoli darpariaethau gwasanaeth a dyletswyddau gweinyddol rhaglenni'r Llywodraeth i gwmnïau preifat. Wrth gwrs, mae gennym enghreifftiau gwael A4e ac ATOS ymhlith eraill yn darparu, yn fy marn i, gwerth gwael iawn am arian. A ydych chi'n ffyddiog bod arian cyhoeddus sy'n cael ei ddefnyddio gan eich Llywodraeth i dalu i gwmnïau preifat yn mynd i le mae fwyaf ei angen ac nid dim ond i ddifidendau, elw, cyfranddaliadau a chyflogau dynion busnes barus? Pam nad ydym ni'n caniatáu i lywodraeth leol redeg y cynlluniau hyn?

Senedd.tv
Fideo Video

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Local government, of course, has been responsible for paying chief executives up to £200,000 a year—sorry, salaries of £195,000 a year—so some of them do not have the best of records in terms of their own position. That said, as far as what the Member has said, I can say to him that I do not approve of outsourcing services to profit-making organisations. That is a position that this Government holds very strongly. It is for local government to ensure that it is in a position to ensure value for money and a good service and proper terms and conditions for its staff. Outsourcing services to organisations that seek to make a profit is not, in my view, the way to do that.

Mae llywodraeth leol, wrth gwrs, wedi bod yn gyfrifol am dalu hyd at £200,000 y flwyddyn—mae'n ddrwg gennyf, cyflogau o £195,000 y flwyddyn—i brif weithredwyr, felly nid oes gan rai ohonynt yr hanes gorau o ran eu sefyllfa eu hunain. Wedi dweud hynny, o ran yr hyn y mae'r Aelod wedi ei ddweud, gallaf ddweud wrtho nad wyf yn cymeradwyo allanoli gwasanaethau i sefydliadau sy'n gwneud elw. Mae hwnnw'n safbwynt cryf gan y Llywodraeth hon. Mater i lywodraeth leol yw sicrhau ei bod mewn sefyllfa i sicrhau gwerth am arian a gwasanaeth da a thelerau ac amodau priodol ar gyfer aelodau staff. Yn fy marn i, nid allanoli gwasanaethau i sefydliadau sy'n ceisio gwneud elw yw'r ffordd i wneud hynny.

Senedd.tv
Fideo Video

## Rheolau Gwisg Ysgol

## School Uniform Rules

14:12 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

*10. Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu rhoi i awdurdodau addysg lleol i ddelio â sefyllfaoedd lle mae amgylchiadau ariannol yn creu anhawster i gydymffurfio â rheolau gwisg ysgol? OAQ(4)1567(FM)*

*10. What guidance does the Welsh Government give to local education authorities to deal with situations where financial circumstances make it difficult to comply with school uniform rules? OAQ(4)1567(FM)*

Senedd.tv
Fideo Video

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Cyrff llywodraethu ysgol sy'n gyfrifol am bolisi gwisg ysgol. Fel Llywodraeth, rydym wedi cyhoeddi canllawiau i gyrff llywodraethu ar bolisïau gwisg ysgol, gan roi cyngor ar sut i gadw cost gwisg ysgol mor isel ag y bo modd. Wrth gwrs, mae cymorth ariannol ar gael tuag at gost gwisg ysgol.

School governing bodies are responsible for school uniform policy. As a Government, we have issued guidance to governing bodies on school uniform policies, providing advice on how to keep the cost to a minimum. Of course, there is financial assistance available towards the cost of school uniform.

Senedd.tv
Fideo Video

14:13 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Dywedwch bod grant ar gael, ac rydych yn gywir i ddweud hynny—mae ar gael i'r rhai sy'n hawlio cinio am ddim. Mae rhyw 83,500 o'r rheini. Fodd bynnag, mae 200,000 o blant yn byw mewn tlodi yng Nghymru, felly byddwn yn dadlau bod angen gwneud mwy. Mae anghysondeb ar draws Cymru o ran y math o gefnogaeth sydd ar gael. Mae'n amrywio o ysgol i ysgol ac o awdurdod i awdurdod, ac mae llawer o ddiffyg ymwybyddiaeth am y math o gymorth sydd ar gael. A ydych yn cytuno bod angen gwell gweithdrefnau i osgoi sefyllfaoedd lle mae disgyblion yn cael eu cosbi am fethu â chwrdd â rhai o'r gofynion gwisg ysgol am resymau sy'n gyfan gwbl y tu hwnt i'w rheolaeth?

You say that there is a grant available, and you are quite correct in saying that—it is available to those claiming free school meals. There are some 83,500 of those. However, there are 200,000 children living in poverty in Wales, so I would argue that more needs to be done. There is inconsistency across Wales in terms of the kind of support available. It varies from school to school and from authority to authority, and there is also a great lack of awareness about the kind of support available. Do you also agree that we need better procedures to avoid situations where pupils are punished for failing to meet some of the school uniform requirements for reasons that are entirely beyond their control?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n gwybod bod yr Aelod yn sôn am unigolyn ac, o'r hyn a ddeallaf, byddai gennyf lawer o gonsýrn am sut y cafodd yr unigolyn hwnnw ei drin. Mae'n bwysig iawn bod ysgolion yn ystyried amgylchiadau holl blant yr ysgol er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu cosbi oherwydd nad oes gan eu rhieni obaith o brynu'r wisg ysgol y byddai'r ysgol yn ei disgwyl. Felly, mae'n bwysig iawn bod ysgolion yn cymryd ymagwedd gydymdeimladol tuag at unigolion er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael eu cosbi oherwydd nad yw'n bosibl i'w rhieni brynu pob eitem o wisg ysgol.

I know that the Member is talking about a certain individual and, from what I understand, I would be extremely concerned about the way that that individual was treated. It is very important that schools take account of the circumstances of all children in the school in order to ensure that they are not punished if their parents have no hope of buying the expected school uniform. So, it is very important that schools take a sympathetic approach to individuals and pupils to ensure that they are not punished if it is not possible for their parents to buy every item of school uniform.

14:14 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I am sure that you would agree that, in 2014, to learn of a 15-year-old pupil, a young lady, being punished for wearing the wrong school shoes, despite an explanation from her mother earlier of their current financial circumstances is terrible in this day and age. It does raise many questions. I have taken it upon myself to write to Conwy County Borough Council to ascertain what its advice and guidance is. Would you agree with me that this situation must never happen again to any of our schoolchildren in Wales, and also that any school uniform policy is one that involves the school governors, the teachers and the staff and is one that encompasses common sense, individual discretion and compassion?

Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddech yn cytuno, yn 2014, bod clywed am ddisgybl 15 mlwydd oed, merch ifanc, yn cael ei chosbi am wisgo'r esgidiau ysgol anghywir, er gwaethaf esboniad gan ei mam yn gynharach o'u hamgylchiadau ariannol presennol yn ofnadwy yn yr oes hon. Mae'n codi llawer o gwestiynau. Rwyf wedi cymryd y cam o ysgrifennu at Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ganfod beth yw ei gyngor a'i ganllawiau. A fyddech chi'n cytuno â mi na ddylai'r sefyllfa hon byth ddigwydd eto i unrhyw un o'n plant ysgol yng Nghymru, a hefyd bod unrhyw bolisi gwisg ysgol yn un sy'n cynnwys llywodraethwyr yr ysgol, yr athrawon ac aelodau'r staff ac yn un sy'n cynnwys synnwyr cyffredin, disgresiwn unigol a thrugaredd?

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes and I think that I said that in the answer that I gave to the previous Member. I have also had concern over the years when I have seen situations where school uniforms can only be purchased from a particular shop at a particular price that is well beyond what the price would be in, for example, a supermarket. I think that schools should think very carefully about implementing policies such as that, which perhaps provides a source of income for the school—that much is possibly true—but, nevertheless, financially penalises parents.

Byddwn, ac rwy'n meddwl fy mod i wedi dweud hynny yn yr ateb a roddais i'r Aelod blaenorol. Bu gennyf bryder hefyd dros y blynyddoedd pan fy mod wedi gweld sefyllfaoedd lle gellir prynu gwisg ysgol o siop benodol yn unig am bris penodol sy'n llawer uwch na'r hyn y byddai'r pris mewn archfarchnad, er enghraifft. Rwy'n credu y dylai ysgolion feddwl yn ofalus iawn am sefydlu polisïau fel hyn, sydd efallai'n darparu ffynhonnell incwm i'r ysgol—mae cymaint â hynny'n wir o bosibl—ond, serch hynny, yn cosbi rhieni yn ariannol.

14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. Lynne Neagle has a point of order.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Mae gan Lynne Neagle bwynt o drefn.

14:16 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I would like to make a point of order under Standing Order 13.9 relating to discourteous and unbecoming conduct. I believe that the leader of the Welsh Conservatives has misrepresented my comments about Ann Clwyd, of which he must be very well aware, and which are in the Record of Proceedings. I have never called on Ann Clwyd to stop campaigning on the NHS. What I said was that all cases of poor care are unacceptable, but that that does not give anyone the right to denigrate the entire Welsh NHS. May I say, Presiding Officer, I very much regret the cheap shot from the leader of the Welsh Conservatives today, who is clearly—

Diolch yn fawr. Hoffwn wneud pwynt o drefn dan Reol Sefydlog 13.9 yn ymwneud ag ymddygiad anghwrtais ac amhriodol. Credaf fod arweinydd Ceidwadwyr Cymru wedi camliwio fy sylwadau am Ann Clwyd, ac mae'n rhaid ei fod yn gwbl ymwybodol ohonynt, ac sydd yng Nghofnod y Trafodion. Nid wyf erioed wedi galw ar Ann Clwyd i roi'r gorau i ymgyrchu ar y GIG. Yr hyn a ddywedais oedd bod pob achos o ofal gwael yn annerbyniol, ond nid yw hynny'n rhoi'r hawl i unrhyw un fychanu'r GIG cyfan yng Nghymru. A gaf i ddweud, Lywydd, fy mod yn gresynu'n fawr yr ergyd rad gan arweinydd Ceidwadwyr Cymru heddiw, sy'n amlwg—

14:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

14:17 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—embarking on his own smear campaign against the Welsh NHS—

[Parhau.]—yn cychwyn ei ymgyrch taflu baw ei hun yn erbyn y GIG yng Nghymru—

14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. Lynne Neagle, order.

Trefn. Lynne Neagle, trefn.

14:17 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—in conjunction with No. 10 Downing Street.

[Parhau.]—mewn cydweithrediad â Rhif 10 Stryd Downing.

14:17 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Let the Record stand.

Gadewch i'r Cofnod sefyll.

14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That was not a point of order, it was a point of clarification, but I am sure that the Record will speak for itself and both Members and the public will make up their own minds about what was said.

Nid pwynt o drefn oedd hwnna, roedd yn bwynt o eglurhad, ond rwy'n siŵr y bydd y Cofnod yn siarad drosto ei hun a'r ddau Aelod a bydd y cyhoedd yn dod i'w casgliadau eu hunain am yr hyn a ddywedwyd.

14:17 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If you look at the Record—

Os edrychwch chi ar y Cofnod—

14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order, Lynne Neagle. Order.

Trefn, Lynne Neagle. Trefn.

14:17

## Cwestiwn Brys: Trydaneiddio Rheilffyrdd y Cymoedd

## Urgent Question: Electrification of the Valleys Lines

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call on Byron Davies to ask the urgent question.

Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar Byron Davies i ofyn y cwestiwn brys.

14:17 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am honiadau gan y Prif Weinidog na fydd Llywodraeth Cymru bellach yn gyfrifol am dalu costau sy'n gysylltiedig â thrydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd? EAQ(4)0391(EST)*

*Will the Minister make a statement on claims by the First Minister that the Welsh Government will no longer bear costs associated with electrification of the Valleys Lines? EAQ(4)0391(EST)*

14:17 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Senedd.tv
Fideo Video

The First Minister set out our position clearly yesterday during his press conference and today in answering questions. We continue to urge the UK Government to clarify its full commitment on electrification.

Cyflwynodd y Prif Weinidog ein safbwynt yn eglur yn ystod ei gynhadledd i'r wasg ddoe, a heddiw wrth ateb cwestiynau. Rydym yn parhau i annog Llywodraeth y DU i egluro ei hymrwymiad llawn ar drydaneiddio.

14:18 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that response, Minister. In light of the confusion that seems to exist on the part of the First Minister concerning rail electrification to Swansea, I will refer to the relevant correspondence, if I may, which was made between Carl Sargeant and Justine Greening. On 13 July 2012, in a letter to Carl Sargeant, Justine Greening said,

Diolch i chi am yr ateb yna, Weinidog. Yng ngoleuni'r dryswch y mae'n ymddangos sy'n bodoli ar ran y Prif Weinidog ynghylch trydaneiddio'r rheilffordd i Abertawe, hoffwn gyfeirio at yr ohebiaeth berthnasol, os caf, a wnaed rhwng Carl Sargeant a Justine Greening. Ar 13 Gorffennaf, 2012, mewn llythyr at Carl Sargeant, dywedodd Justine Greening,

'The next Wales and Borders franchise specification should include electric services on the Valleys lines, with a specific access charge on the franchise to repay the infrastructure investment by Network Rail...This will include electrification of the main line between Cardiff and Bridgend'.

Dylai manyleb masnachfraint nesaf Cymru a'r Gororau gynnwys gwasanaethau trydan ar reilffyrdd y Cymoedd, gyda thâl mynediad penodol ar y fasnachfraint i ad-dalu'r buddsoddiad seilwaith gan Network Rail...Bydd hyn yn cynnwys trydaneiddio'r brif reilffordd rhwng Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr.

It continues in that paragraph—

Mae'n parhau yn y paragraff hwnnw—

14:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Is this the question? I am sorry; it is a very long question.

Ai dyna'r cwestiwn? Mae'n ddrwg gennyf; mae'n gwestiwn hir iawn.

14:18 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Okay. It carries on and says,

Iawn. Mae'n mynd yn ei flaen ac yn dweud,

'On that basis, I will include electrification between Bridgend and Swansea'.

Ar y sail honno, byddaf yn cynnwys trydaneiddio rhwng Pen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe.

Carl Sargeant responded by saying,

Ymatebodd Carl Sargeant drwy ddweud,

'Thank you for your letter of 13 July. I too am glad we were able to work together to agree a way of taking forward electrification and I can confirm our agreement as set out in your letter'.

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Gorffennaf. Rwyf innau hefyd yn falch ein bod yn gallu gweithio gyda'n gilydd i gytuno ar ffordd o symud trydaneiddio ymlaen a gallaf gadarnhau ein cytundeb fel y nodir yn eich llythyr.

This is, frankly, playing with politics—

Chwarae gyda gwleidyddiaeth yw hyn, a dweud y gwir—

14:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am sorry, but are you coming to the question?

Mae'n ddrwg gennyf, ond a ydych chi'n dod at y cwestiwn?

14:19 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

[Continues.] It is the greatest investment that was ever made in Wales—

[Parhau.] Hwn yw'r buddsoddiad mwyaf a wnaed erioed yng Nghymru—

14:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Byron Davies, are you coming to the question?

Byron Davies, a ydych chi'n dod at y cwestiwn?

14:19 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Which part of the agreement do you not understand?

Pa ran o'r cytundeb nad ydych chi'n ei deall?

14:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you. [Laughter.] Minister?

Diolch yn fawr. [Chwerthin.] Weinidog?

14:19 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

What did the Prime Minister say?

Beth ddywedodd y Prif Weinidog?

14:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I am sorry; we have the wrong microphone on.

Mae'n ddrwg gennyf; mae'r meicroffon anghywir ymlaen gennym.

14:19 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The UK Government has publicly committed to this funding. The Prime Minister made the case that electrification would enable Wales to remain competitive with other parts of the UK for economic development purposes. He repeated the message publicly when he visited Cardiff last November and that is absolutely clear to us.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo'n gyhoeddus i'r cyllid hwn. Roedd y Prif Weinidog o'r farn y byddai trydaneiddio yn galluogi Cymru i barhau i fod yn gystadleuol â rhannau eraill o'r DU at ddibenion datblygu economaidd. Ailadroddodd y neges yn gyhoeddus pan ymwelodd â Chaerdydd fis Tachwedd diwethaf ac mae hynny'n gwbl glir i ni.

14:19 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Clear as a bell.

Yn glir fel cloch.

14:19 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Playing with politics.

Chwarae gyda gwleidyddiaeth.

14:19 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Minister, my constituents in the Rhondda will be very disappointed to learn that the Conservatives are now reneging on the public commitment given by the Prime Minister last October to electrify the line to Treherbert. The Prime Minister said,

Weinidog, bydd fy etholwyr yn y Rhondda yn siomedig iawn i ddarganfod bod y Ceidwadwyr yn cefnu bellach ar yr ymrwymiad cyhoeddus a wnaed gan Brif Weinidog y DU fis Hydref diwethaf i drydaneiddio'r rheilffordd i Dreherbert. Dywedodd y Prif Weinidog,

'It's this government that's putting the money into the electrification of the railway line...to Swansea and, of course, the Valley lines.'

Y llywodraeth hon sy'n cyfrannu'r arian ar gyfer trydaneiddio'r rheilffordd...i Abertawe ac, wrth gwrs, rheilffyrdd y Cymoedd.

May I urge the Minister to make sure, in the next meeting held with UK Government Ministers, that what they said in public is put before them and that they are held to their promises? [Assembly Members: Hear, hear.]

A gaf i annog y Gweinidog i wneud yn siŵr, yn y cyfarfod nesaf a gynhelir gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU, bod yr hyn y maen nhw wedi ei ddweud yn gyhoeddus yn cael ei roi ger eu bron, a'u bod yn gorfod cadw at eu haddewidion? [Aelodau'r Cynulliad: Clywch, clywch.]

14:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

14:20 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Obviously, there have been communications with the UK Government. The First Minister has recently received correspondence from the Prime Minister, and I am now engaged in further dialogue with the Department for Transport. I very much hope that we will reach a resolution on this position. This is a matter for further discussion, and I fail to understand the hysteria on the opposite side of the Chamber about these matters that are now up for discussion.

Yn amlwg, bu cyfathrebiad gyda Llywodraeth y DU. Mae'r Prif Weinidog wedi derbyn gohebiaeth gan Brif Weinidog y DU yn ddiweddar, ac rwyf innau erbyn hyn mewn deialog pellach gyda'r Adran Drafnidiaeth. Rwy'n gobeithio'n fawr y byddwn yn gallu datrys y sefyllfa hon. Mae hwn yn fater i'w drafod ymhellach, ac nid wyf yn gallu deall yr hysteria ar yr ochr arall i'r Siambr am y materion hyn sydd nawr yn mynd i gael eu trafod.

14:21 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I ask Members not to wave sheets of paper around in the Chamber, please—either from the back benches or the front bench? The leader of the opposition is very vocal when his Members are asking questions. Will you please behave like the leader of the opposition and not the backbenchers? I call on Rhun ap Iorwerth.

A gaf i ofyn i Aelodau beidio â chwifio dalenni papur o gwmpas yn y Siambr, os gwelwch yn dda—o'r meinciau cefn na'r fainc flaen? Mae arweinydd yr wrthblaid yn llafar iawn pan fo ei Aelodau yn gofyn cwestiynau. A wnewch chi ymddwyn fel arweinydd yr wrthblaid os gwelwch yn dda, ac nid fel y meinciau cefn? Galwaf ar Rhun ap Iorwerth.

*Mick Antoniw a gododd—*

*Mick Antoniw rose—*

14:21 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Excuse me, you are not Rhun ap Iorwerth. [Laughter.]

Esgusodwch fi, nid Rhun ap Iorwerth ydych chi. [Chwerthin.]

14:21 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Llywydd. Diolch yn fawr iawn. We heard a very defensive First Minister earlier. When the Plaid Cymru leader asked a very clear question as to what happened two years ago, I was genuinely ready to hear from the Welsh Government what deal was struck two years ago and for you to show the evidence of where the Government in Westminster said that it would be footing the bill. What you did, First Minister, was to quote what David Cameron said in the press. What we need to hear is what deal was struck back then. I have one concern and that is to make sure that there is no delay in the electrification of the south Wales line and the Valleys lines. I think that a delay would have repercussions for the whole of Wales, not just the economic cost in south Wales, but also the knock-on delay that we could expect for north Wales electrification too. May I ask the Minister to explain what steps she will be taking to give us that evidence that the deal that the First Minister said was in effect was actually the one struck? Also, will you say very clearly that the rail infrastructure funding that we all want here in the Assembly comes above Barnett in future?

Diolch i chi, Lywydd. Diolch yn fawr iawn. Clywsom Brif Weinidog amddiffynnol iawn yn gynharach. Pan ofynnodd arweinydd Plaid Cymru gwestiwn eglur iawn ynghylch yr hyn a ddigwyddodd ddwy flynedd yn ôl, roeddwn i wir yn barod i glywed gan Lywodraeth Cymru pa gytundeb a wnaed ddwy flynedd yn ôl ac i chi i ddangos tystiolaeth o ble y dywedodd y Llywodraeth yn San Steffan y byddai'n talu'r costau. Yr hyn a wnaethoch chi, Brif Weinidog, oedd dyfynnu'r hyn a ddywedodd David Cameron yn y wasg. Yr hyn yr ydym ni angen ei glywed yw pa gytundeb a wnaed ar yr adeg honno. Mae gen i un pryder, sef gwneud yn siŵr nad oes unrhyw oedi o ran trydaneiddio rheilffordd de Cymru a rheilffyrdd y Cymoedd. Rwy'n meddwl y byddai oedi yn arwain at sgil-effeithiau i Gymru gyfan, nid dim ond y gost economaidd yn ne Cymru, ond hefyd yr oedi dilynol y gallem ei ddisgwyl i drydaneiddio gogledd Cymru hefyd. A gaf i ofyn i'r Gweinidog egluro pa gamau y bydd yn eu cymryd i roi'r dystiolaeth honno i ni mai'r cytundeb hwnnw y dywedodd y Prif Weinidog a wnaed oedd yr un a wnaed mewn gwirionedd? Hefyd, a wnewch chi ddweud yn eglur iawn bod y cyllid seilwaith rheilffyrdd yr ydym ni i gyd ei eisiau yma yn y Cynulliad yn dod uwchben Barnett yn y dyfodol?

14:22 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I say that I share your concerns, because my principal concern is to ensure that we have the electrification project? At the end of the day, Wales cannot be disadvantaged in any way over these matters, because it is important to recognise its importance to the economy, particularly when you go west of Cardiff and into the Valleys. It would be indefensible if that did not go ahead, when you hear further announcements about doing HS2 and so on to ensure that the north and the south are connected. At the end of the day, the responsibility lies with the UK Government to produce what it needs to produce in terms of what is going on. The First Minister has already indicated his willingness to the leader of your party to share what information can be shared. However, I can assure Members that I will keep you updated at every opportunity as these matters progress. I am a great believer that, at the end of the day, we must concentrate on what is the main issue, which is electrification, and get the other issues dealt with.

A gaf i ddweud fy mod yn rhannu eich pryderon, oherwydd fy mhrif bryder yw sicrhau ein bod yn cael y prosiect trydaneiddio? Yn y pen draw, ni all Cymru fod dan anfantais mewn unrhyw ffordd o ran y materion hyn, gan ei bod yn bwysig cydnabod eu pwysigrwydd i'r economi, yn enwedig pan fyddwch yn mynd i'r gorllewin o Gaerdydd ac i mewn i'r Cymoedd. Ni fyddai modd amddiffyn sefyllfa lle na fyddai hynny'n digwydd, pan fyddwch chi'n clywed cyhoeddiadau pellach ynglŷn â gwneud HS2 ac yn y blaen i sicrhau bod y gogledd a'r de wedi eu cysylltu. Yn y pen draw, cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw cynhyrchu'r hyn y mae angen iddi ei gynhyrchu o ran yr hyn sy'n digwydd. Mae'r Prif Weinidog eisoes wedi nodi ei barodrwydd i arweinydd eich plaid i rannu'r wybodaeth y gellir ei rhannu. Fodd bynnag, gallaf sicrhau'r Aelodau y byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar bob cyfle wrth i'r materion hyn ddatblygu. Rwy'n credu'n gryf, yn y pen draw, bod yn rhaid i ni ganolbwyntio ar y prif fater, sef trydaneiddio, a sicrhau yr ymdrinnir â'r materion eraill.

14:23 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, it seems to me that, actually, the deal is quite clear. It says in the letter of agreement that the two Governments agreed that the funding mechanism was that Network Rail would borrow the money and that a fee would be payable on the franchise. Your own business case says that,

Weinidog, mae'n ymddangos i mi, mewn gwirionedd, bod y cytundeb yn gwbl eglur. Mae'n dweud yn y llythyr cytundeb bod y ddwy Lywodraeth wedi cytuno mai'r dull ariannu fyddai bod Network Rail yn benthyg yr arian ac y byddai ffi yn daladwy ar y fasnachfraint. Mae eich achos busnes eich hun yn dweud,

'Welsh Government is responsible for the management of the Franchise under the terms of a Joint Parties' Agreement with the Department for Transport. Welsh Government is also responsible for payment of any sums payable by the 'Authority' under the Franchise Agreement.'

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli'r Fasnachfraint dan delerau Cytundeb ar y Cyd y Pleidiau gyda'r Adran Drafnidiaeth. Llywodraeth Cymru sydd hefyd yn gyfrifol am dalu unrhyw symiau sy'n daladwy gan yr 'Awdurdod' dan y Cytundeb Masnachfraint.

That is in section 5.8, 'Summary of Commercial Case', page 50 of the Welsh Government's business case. It also states in section 7.2 that the Welsh Government is the sponsor of Valleys lines electrification.

Mae hynny yn adran 5.8, 'Summary of the Commercial Case', tudalen 50 achos busnes Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn nodi yn adran 7.2 mai Llywodraeth Cymru yw noddwr trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd.

Why is it suddenly a surprise to you when it was there in black and white in the business case that you wrote and the letters of offers that you exchanged between the two Governments that there might be a cost to the Welsh Government? It is as plain as the nose on your face.

Pam mae hyn yn syndod i chi'n sydyn a hwnnw yno mewn du a gwyn yn yr achos busnes a ysgrifennwyd gennych chi a'r llythyrau cynigion a gyfnewidiwyd rhwng y ddwy Lywodraeth y gallai fod cost i Lywodraeth Cymru? Mae'r peth yn gwbl amlwg.

14:24 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

At the end of the day, it is quite clear what has gone on in terms of the correspondence, and I understand the correspondence that I have seen. As far as I am concerned, there has always been a commitment by the UK Government in terms of the payment.

Yn y pen draw, mae'n eithaf amlwg beth sydd wedi digwydd o ran yr ohebiaeth, ac rwy'n deall yr ohebiaeth yr wyf i wedi ei gweld. O'm safbwynt i, bu ymrwymiad gan Lywodraeth y DU drwy'r amser o ran y taliad.

14:24 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, as you know, a long and hard campaign was fought by businesses right across the Swansea area, including your constituents and mine in that area. They will be astonished to find that the Tory Government that made such a big deal out of the fact that they had electrified the railway—and according to them, Labour had not—has now reneged on that deal. So, Minister, will you agree with me that the book on why you should never trust a Tory by Aneurin Bevan should be compulsory reading for all members of the opposition? [Laughter.]

Weinidog, fel y gwyddoch, cafodd ymgyrch hir ac anodd ei ymladd gan fusnesau ar draws ardal Abertawe, gan gynnwys eich etholwyr chi a minnau yn yr ardal honno. Byddant wedi eu syfrdanu o ddarganfod bod y Llywodraeth Doriaidd wedi gwneud cymaint o fôr a mynydd o'r ffaith eu bod hwy wedi trydaneiddio rheilffordd—ac yn ôl yr hyn yr oeddynt yn ei ddweud, nid oedd Llafur—bellach wedi torri eu haddewid ynglŷn â hynny. Felly, Weinidog, a wnewch chi gytuno â mi y dylid ei gwneud yn orfodol i holl aelodau'r wrthblaid ddarllen y llyfr ar pam na ddylech chi fyth ymddiried mewn Tori gan Aneurin Bevan? [Chwerthin.]

14:25 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

At the end of the day, I think that people passionately felt that electrification—[Interruption.]

Yn y pen draw, rwy'n credu bod pobl yn teimlo'n angerddol bod trydaneiddio— [Torri ar draws.]

14:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. I cannot hear the Minister.

Trefn. Ni allaf glywed y Gweinidog.

14:25 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I feel that people are passionate about the fact that we shall have electrification to Swansea and the benefits that that will bring. There was a well-fought campaign. At the end of the day, people think that it is very important in terms of the development of the economy. It is also very important that we now seek to resolve these matters in terms of the discussions that we will have, because we have to put Welsh interests and the Welsh economy first, which are very important, I am sure. I know that a lot of people in Wales think that this is a most important obligation: to put the interests of the Welsh economy and its people first.

Rwy'n teimlo bod pobl yn teimlo'n angerddol am y ffaith y bydd trydaneiddio yn dod i Abertawe a'r manteision a ddaw yn sgil hynny. Gwelwyd ymgyrch a ymladdwyd yn dda. Yn y pen draw, mae pobl yn credu bod hyn yn bwysig iawn o ran datblygu'r economi. Mae hefyd yn bwysig iawn ein bod yn ceisio datrys y materion hyn nawr o ran y trafodaethau y byddwn yn eu cael, oherwydd mae'n rhaid i ni roi buddiannau Cymru ac economi Cymru yn gyntaf, sy'n bwysig iawn, rwy'n siŵr. Rwy'n gwybod bod llawer o bobl yng Nghymru yn meddwl bod hwn yn ymrwymiad pwysig dros ben: i roi buddiannau economi Cymru a'i phobl yn gyntaf.

14:25 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now call on Dafydd Elis-Thomas.

Galwaf ar Dafydd Elis-Thomas nawr.

14:25 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Fonesig Lywydd, nid wyf yn deall beth yw'r pwynt o gwympo mas am beth ddigwyddodd ddwy flynedd yn ôl. Onid y pwynt pwysig yw beth sydd wedi'i argymell i ni nawr, sef bod adroddiad y comisiwn ar ddatganoli wedi argymell datganoli'r fasnachfraint? Felly, yr ateb yw i ni ddatganoli'r fasnachfraint gyda'r cyllid. Dyna'r drefn briodol. A yw'r Gweinidog yn cytuno?

Dame Presiding Officer, I do not understand the point of arguing over something that happened two years ago. Is it not what has been recommended to us now that is the important point, namely that the report of the commission on devolution has recommended the devolution of the franchise? Therefore, the solution to this is to devolve the franchise with the funding. That is the appropriate step. Does the Minister agree?

14:26 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do not demure from the comments that you have actually made at that juncture, and it is something that I am actively considering in terms of what further work I am undertaking within my department.

Nid wyf yn gwrthwynebu'r sylwadau yr ydych chi wedi eu gwneud mewn gwirionedd ar y pwynt yma, ac mae'n rhywbeth yr wyf yn ei ystyried yn ymarferol o ran pa waith pellach y byddaf yn ei wneud yn fy adran.

14:26 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Mick Antoniw.

Galwaf ar Mick Antoniw.

14:26 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Minister, the UK Government website states,

Diolch i chi, Lywydd. Weinidog, mae gwefan Llywodraeth y DU yn datgan,

'We are electrifying the Great Western Mainline to Swansea and the South Wales Valley Lines network.'

Rydym yn trydaneiddio Prif Reilffordd y Great Western i Abertawe a rhwydwaith Rheilffyrdd y Cymoedd De Cymru.

What part of that statement do you think that the Secretary of State for Wales does not understand?

Pa ran o'r datganiad hwnnw ydych chi'n meddwl nad yw Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ei deall?

14:26 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I have not had the opportunity to read the website, but I am sure that you quote accurately from it. Obviously, as far as we are concerned, this electrification has to go ahead. It is for the benefit of the Welsh economy and, at the end of the day, it is important that this matter is resolved. I thank the Member for Ynys Môn—oh, I am sorry—for raising the issue with me. [Laughter.]

Nid wyf wedi cael cyfle i ddarllen y wefan, ond rwy'n siŵr eich bod yn dyfynnu'n gywir ohono. Yn amlwg, o'n safbwynt ni, mae'n rhaid i'r trydaneiddio hwn ddigwydd. Mae'n er budd economi Cymru ac, yn y pen draw, mae'n bwysig bod y mater hwn yn cael ei ddatrys. Diolchaf i'r Aelod dros Ynys Môn—o, mae'n ddrwg gennyf—am godi'r mater gyda mi. [Chwerthin.]

14:27 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister. We now move to the next item on the agenda.

Diolch i chi, Weinidog. Symudwn nawr at yr eitem nesaf ar yr agenda.

14:27 — Senedd.tv Fideo Video

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Business Statement and Announcement

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call on the Minister, Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog, Lesley Griffiths.

14:27 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I have several changes to report to this week's business. The Business Committee has agreed that, immediately after this business announcement, a motion will be formally moved to elect a new member and Chair of the Environment and Sustainability Committee. Furthermore, following Report Stage proceedings this afternoon, the Deputy Minister for Social Services may proceed immediately to Stage 4 and move that the Social Services and Well-Being (Wales) Bill be passed by the Assembly in accordance with Standing Order 26.47. In response to requests from the Business Committee, I have agreed that, from tomorrow, questions to the Minister for Communities and Tackling Poverty will precede questions to the Counsel General. Finally, I have reduced the time allocated to tomorrow's Counsel General questions in line with the number of questions tabled. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

Mae gennyf nifer o newidiadau i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno, yn syth ar ôl y cyhoeddiad busnes hwn, y bydd cynnig yn cael ei wneud yn ffurfiol i ethol aelod newydd a Chadeirydd i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd. Hefyd, yn dilyn trafodion y Cyfnod Adrodd y prynhawn yma, caiff y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol symud ymlaen yn syth i Gam 4 a chynnig bod Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn cael ei basio gan y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 26.47. Mewn ymateb i geisiadau gan y Pwyllgor Busnes, rwyf wedi cytuno y bydd cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn rhagflaenu cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol o yfory ymlaen. Yn olaf, rwyf wedi lleihau'r amser a neilltuwyd i gwestiynau'r Cwnsler Cyffredinol yfory yn unol â nifer y cwestiynau a gyflwynwyd. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:28 **William Graham** Bywgraffiad Biography

May I respectfully draw the Minister's attention to attacks upon the fire and rescue services, particularly their personnel, and the recent spate of grass fires? The South Wales Fire and Rescue Service reports that since 1 March crews have attended 180 grass fires and 283 deliberately set fires. Will the Minister agree that the campaign entitled 'We Can't Protect While We Are Under Attack' needs far more publicity? I would ask the Minister to bring forward a statement on measures to support all of our emergency services.

A gaf i dynnu sylw'r Gweinidog yn barchus at ymosodiadau ar y gwasanaethau tân ac achub, yn enwedig eu personél, a'r sawl digwyddiad diweddar o danau glaswellt? Mae Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru yn adrodd bod criwiau wedi mynychu 180 o danau glaswellt a 283 o danau a gafodd eu cynnau'n fwriadol ers 1 Mawrth. A wnaiff y Gweinidog gytuno bod angen llawer mwy o gyhoeddusrwydd i'r ymgyrch 'Ni Fedrwn eich Amddiffyn wrth i ni fod o dan ymosodiad'? Byddwn yn gofyn i'r Gweinidog gyflwyno datganiad ar fesurau i gefnogi ein holl wasanaethau brys.

Senedd.tv Fideo Video

14:28 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Absolutely. I agree with you. It is something that I will discuss with the chief fire officers and their chairs when I next meet them.

Yn sicr. Rwy'n cytuno â chi. Mae'n rhywbeth y byddaf yn ei drafod gyda'r prif swyddogion tân a'u cadeiryddion pan fyddaf yn cyfarfod â nhw nesaf.

Senedd.tv Fideo Video

14:29 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Minister, you will know that, on 20 March, the consultation closes with regard to whether the Land Registry will be privatised or not. The Government still plans to have a chief registrar within the Government as well as creating this offshoot company. I wonder whether we could have a statement from the Welsh Government as to what you have said as part of this consultation, because you will be concerned—as I am—about the staff and any of the processes that will ensue from any potential privatisation of this particular Land Registry. We would want to oppose that, of course, as a party.

Weinidog, byddwch yn gwybod bod yr ymgynghoriad ar a fydd y Gofrestrfa Tir yn cael ei phreifateiddio ai peidio yn dod i ben ar 20 Mawrth. Mae'r Llywodraeth yn parhau i fwriadu cael prif gofrestrydd o fewn y Llywodraeth yn ogystal â chreu'r cwmni ategol hwn. Tybed a allem ni gael datganiad gan Lywodraeth Cymru o ran yr hyn yr ydych chi wedi ei ddweud yn rhan o'r ymgynghoriad hwn, oherwydd byddwch yn pryderu—fel yr wyf innau—am yr aelodau staff ac unrhyw un o'r prosesau a fydd yn dod yn sgil unrhyw breifateiddio posibl o'r Gofrestrfa Tir benodol hon. Byddem eisiau gwrthwynebu hynny, wrth gwrs, fel plaid.

Senedd.tv Fideo Video

14:29 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

The Minister will have heard what you say and I will discuss with the Minister to see whether that can be published. We will write to you directly.

Bydd y Gweinidog wedi clywed yr hyn a ddywedwch a byddaf yn trafod gyda'r Gweinidog i weld a oes modd cyhoeddi hynny. Byddwn yn ysgrifennu atoch yn uniongyrchol.

Senedd.tv Fideo Video

14:29 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

I would like to call for two statements. The first is on Welsh Government policy and support for both non-resident parents and grandparents who are having problems seeing their children following a parental separation. I note that the Welsh charity, Families Need Fathers Both Parents Matter Cymru, has been awarded the Help and Support for Separated Families Mark by the Department for Work and Pensions. That is an initiative designed to see separated and separating parents working together for the benefit of their children on a child-centred approach.

Hoffwn alw am ddau ddatganiad. Mae'r cyntaf yn ymwneud â pholisi a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i rieni a neiniau a theidiau nad ydynt yn byw yn yr un lle â'u plant, sy'n cael problemau o ran cael gweld y plant ar ôl i rieni wahanu. Rwy'n nodi y dyfarnwyd y Nod Help and Support for Seperated Families i'r elusen yng Nghymru, Families Need Fathers Both Parents Matter Cymru, gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Menter yw honno a gynlluniwyd i weld rhieni sydd wedi gwahanu neu sydd yn gwahanu yn gweithio gyda'i gilydd er lles eu plant ar ddull sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Senedd.tv Fideo Video

Secondly, and finally, I call for a statement and an update on the Caernarfon to Bontnewydd bypass, following the welcome news that, after a visit with the Welsh Government's infrastructure projects division to a caravan holiday home park site affected by the proposed Newtown bypass, and interventions, I believe, by Rebecca Evans AM, the Minister has announced that that route is being revised, not only protecting the caravan park, but saving around £5 million and reducing the impact on the environment. However, businesses and the far larger Glan Gwna country holiday park affected by the Caernarfon bypass say that they have, thus far, not had the opportunity for such a meeting. So, could a statement address this, particularly in view of the request for a meeting with the Welsh Government's infrastructure projects division for Glan Gwna and local businesses, and also address the allegation that the Minister stated in writing that the business impact study was taken into consideration in May 2013 when the route was changed, and yet the business impact study was not actually released to the Welsh Government until August 2013?

Yn ail, ac yn olaf, galwaf am ddatganiad a diweddariad ar ffordd osgoi Caernarfon i Bontnewydd, yn dilyn y newyddion da, ar ôl ymweliad gydag isadran prosiectau seilwaith Llywodraeth Cymru i faes gwyliau carafannau sy'n cael ei effeithio gan y ffordd osgoi arfaethedig y Drenewydd, ac ymyrraethau, rwy'n credu, gan Rebecca Evans AC, mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi y bydd y llwybr yn cael ei ddiwygio, gan nid yn unig amddiffyn y parc carafannau, ond hefyd arbed tua £5 miliwn a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Fodd bynnag, mae busnesau a pharc gwyliau gwledig llawer mwy Glan Gwna sy'n cael eu heffeithio gan ffordd osgoi Caernarfon yn dweud nad ydynt, hyd yn hyn, wedi cael cyfle i gael cyfarfod o'r fath. Felly, a allai datganiad fynd i'r afael â hyn, yn enwedig o ystyried y cais am gyfarfod gydag isadran prosiectau seilwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Glan Gwna a busnesau lleol, a hefyd mynd i'r afael â'r honiad bod y Gweinidog wedi datgan yn ysgrifenedig bod yr astudiaeth o effaith ar fusnes wedi ei chymryd i ystyriaeth ym mis Mai 2013 pan newidiwyd y llwybr, ond er hynny, ni ryddhawyd yr astudiaeth o effaith ar fusnes i Lywodraeth Cymru tan fis Awst 2013 mewn gwirionedd?

14:31 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

With regard to your first request, I will ask the Minister to give us an update regarding access for grandparents. I know that the Minister for Economy, Science and Transport is having to review all the proposed road links in her portfolio and, at the appropriate time, I am sure that she will come to the Chamber and update Members.

O ran eich cais cyntaf, byddaf yn gofyn i'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am gyswllt neiniau a theidiau. Gwn fod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn gorfod adolygu'r holl gysylltiadau ffordd arfaethedig yn ei phortffolio ac, ar yr adeg briodol, rwy'n siŵr y bydd yn dod i'r Siambr ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau.

14:32 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the house, I am grateful that we had that urgent question, courtesy of the Presiding Officer, on electrification. However, on such an issue I am just amazed that the Government has not chosen to bring forward a statement if it is so confident of its position, so that a detailed statement could be scrutinised by Members here, and all Members would have an opportunity to question on that statement, rather than it just using press conferences on a Monday for such a serious issue. Is it the intention of the Government to bring forward a detailed statement so that Members will be able to look at all the evidence that the Welsh Government believes it has, so that we are able to question it on this issue?

Arweinydd y tŷ, rwy'n ddiolchgar ein bod wedi cael y cwestiwn brys yna, trwy garedigrwydd y Llywydd, ar drydaneiddio. Fodd bynnag, ar fater o'r fath, mae'n fy syfrdanu nad yw'r Llywodraeth wedi dewis cyflwyno datganiad os yw mor hyderus o'i sefyllfa, fel y gallai'r Aelodau yma graffu ar ddatganiad manwl, ac y byddai pob Aelod yn cael cyfle i ofyn cwestiynau am y datganiad hwnnw, yn hytrach na'i bod dim ond yn defnyddio cynadleddau i'r wasg ar ddydd Llun ar gyfer mater mor ddifrifol. A yw'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno datganiad manwl fel y bydd yr Aelodau'n gallu edrych ar yr holl dystiolaeth y mae Llywodraeth Cymru yn credu sydd ganddo, fel y gallwn ei holi ar y mater hwn?

14:32 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think, following questions to the First Minister and the urgent question, Ministers have ably answered this question. I think that we have been put in a very clear position regarding the correspondence that has taken place between both the UK Government and the Welsh Government and I do not see a need for a statement.

Rwy'n meddwl, yn dilyn cwestiynau i'r Prif Weinidog a'r cwestiwn brys, bod y Gweinidogion wedi ateb y cwestiwn hwn yn dda. Rwy'n credu ein bod wedi cael ein rhoi mewn sefyllfa eglur iawn o ran yr ohebiaeth a fu rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ac nid wyf yn gweld bod angen datganiad.

14:33 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, I wonder whether we could have a statement from the Minister for health regarding the recent EU directive that allows patients in Wales, where they have been waiting for over 36 weeks for operations, to choose to have operations abroad. My understanding is that this protocol or process is in place but it disbars patients from accessing services in England, which surely would be the closest and more convenient place to access those services and would, indeed, save our health service the cost of having to pay for those patients to fly into Europe and receive treatment at more expensive European hospitals, combined with the accommodation. So, I wonder whether we could have a statement on that, particularly given the length of the Welsh waiting lists.

Weinidog, tybed a allem ni gael datganiad gan y Gweinidog iechyd ynghylch cyfarwyddeb ddiweddar yr UE sy'n caniatáu i gleifion yng Nghymru, pan eu bod wedi bod yn aros am fwy na 36 wythnos am lawdriniaethau, ddewis cael llawdriniaethau dramor. Fy nealltwriaeth i yw bod y protocol hwn neu'r broses hon ar waith, ond ei fod yn gwahardd cleifion rhag defnyddio gwasanaethau yn Lloegr, sef y lle agosaf a mwy cyfleus i gael mynediad at y gwasanaethau hynny yn sicr, ac a fyddai, yn wir, yn arbed y gost i'n gwasanaeth iechyd o orfod talu am i'r cleifion hynny hedfan i Ewrop a derbyn triniaeth mewn ysbytai Ewropeaidd drutach, yn ogystal â'r llety. Felly, tybed a allem ni gael datganiad ar hynny, yn enwedig o ystyried hyd y rhestrau aros yng Nghymru.

14:34 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sure that the Member is aware that many patients travel from Wales to England for NHS services; I think the last time I saw a figure it was 20,000 people. So, I am not quite sure where that request is coming from.

Rwy'n siŵr bod yr Aelod yn ymwybodol bod llawer o gleifion yn teithio o Gymru i Loegr ar gyfer gwasanaethau'r GIG; rwy'n meddwl mai 20,000 o bobl oedd hi y tro diwethaf i mi weld ffigur. Felly, nid wyf yn hollol siŵr o ble mae'r cais hwnnw'n dod.

14:34 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, may I ask for a statement from the Minister for Health and Social Services about the future flu vaccination programme? I know that the Minister set some targets for vaccination take-up among front-line healthcare staff this year. It would be great to have an update on whether that target was achieved or not. In addition to that, the Minister has suggested in the past that front-line staff in care homes, and indeed domiciliary care workers, should also be vaccinated against the flu where there is the potential to transmit infection to vulnerable people who may then need to access unscheduled care services. I think that it would be very welcome and timely, given that the thaw has effectively begun and spring has well and truly started, to have some sort of indication from the Government as to whether its targets have been ambitious enough, and, indeed, whether they have been hit this year.

Weinidog, a gaf i ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y rhaglen brechu rhag y ffliw yn y dyfodol? Gwn fod y Gweinidog wedi gosod rhai targedau ar gyfer y niferoedd sy'n derbyn brechiadau ymhlith aelodau staff gofal iechyd rheng flaen eleni. Byddai'n wych cael y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pa un a gyflawnwyd y targed hwnnw ai peidio. Yn ogystal â hynny, mae'r Gweinidog wedi awgrymu yn y gorffennol y dylai aelodau staff rheng flaen mewn cartrefi gofal, a gweithwyr gofal cartref yn wir, gael eu brechu yn erbyn y ffliw hefyd lle ceir potensial i drosglwyddo haint i bobl sy'n agored i niwed a allai fod angen cael mynediad at wasanaethau gofal heb ei drefnu wedyn. Rwy'n meddwl y byddai i'w groesawu'n fawr ac yn amserol, o ystyried bod y dadmer wedi dechrau a'r gwanwyn wedi cychwyn o ddifrif, cael rhyw fath o arwydd gan y Llywodraeth o ran a yw ei thargedau wedi bod yn ddigon uchelgeisiol, ac, yn wir, a ydynt wedi cael eu cyrraedd eleni.

14:35 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think the targets for flu vaccination are ambitious enough and I certainly think that NHS staff, and indeed staff in care homes, should lead the way and show that it is very important that they are protected from this. I am sure that, when the Minister for Health and Social Services goes into the next target setting for next year's flu vaccination, he can update Members as to whether those targets were met this year.

Rwy'n meddwl bod y targedau ar gyfer brechiadau ffliw yn ddigon uchelgeisiol ac rwy'n sicr yn credu y dylai aelodau staff y GIG, ac aelodau staff mewn cartrefi gofal yn wir, arwain y ffordd a dangos ei bod yn bwysig iawn eu bod yn cael eu diogelu rhag hyn. Rwy'n siŵr, pan fydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn dechrau'r broses o osod targedau ar gyfer brechiadau ffliw y flwyddyn nesaf, y bydd yn gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau o ran a gyrhaeddwyd y targedau hynny eleni.

14:35

## Cynnig i Ethol Aelodau i Bwyllgorau

## Motion to Elect Members to Committees

Y Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on a member of the Business Committee to move the motion.

Galwaf ar aelod o'r Pwyllgor Busnes i gyflwyno'r cynnig.

Cynnig NDM5471 Rosemary Butler

Motion NDM5471 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Alun Ffred Jones (Plaid Cymru) yn aelod o, ac yn Gadeirydd i, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn lle Dafydd Elis-Thomas (Plaid Cymru).

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Alun Ffred Jones (Plaid Cymru) as a member, and Chair, of the Environment and Sustainability Committee in place of Dafydd Elis-Thomas (Plaid Cymru).

14:35

## Paul Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

14:35

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. I call Dafydd Elis-Thomas.

Diolch yn fawr. Galwaf ar Dafydd Elis-Thomas.

14:35

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Gwrthwynebaf.

I object.

14:35

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I was calling you to speak.

Roeddwn yn eich galw i siarad.

14:35

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Fonesig Lywydd. Rwy'n awyddus i groesawu'r holl arwyddion o gefnogaeth sydd wedi bod i'm cais i geisio diwygio Rheolau Sefydlog y Cynulliad ar gyfer ethol Cadeiryddion. Rwy'n awyddus i ni yn y Senedd hon fod yr un mor ddemocrataidd yn ein harferion o ethol Cadeiryddion pwyllgorau ag y mae'r Tŷ Cyffredin yn San Steffan, ac i sicrhau cryfder o ran craffu ar bob agwedd o bolisi Llywodraeth, o weithgaredd Gweinidogion, ac i gynrychioli buddiannau'r sectorau y tu fas i'r Cynulliad sy'n dibynnu ar y pwyllgorau hyn i gyflwyno eu dadleuon democrataidd gerbron Senedd Cymru a thu hwnt.

Thank you, Dame Presiding Officer. I am eager to welcome all signs of support expressed to me for my proposal to attempt to amend the Assembly's Standing Orders for the election of committee Chairs. I am eager that we in this Senedd should be as democratic in our proceedings in electing committee Chairs as is the House of Commons in Westminster, and to ensure strength and robustness in terms of scrutiny on all aspects of Government policy, of ministerial activity, and representation of the interests of sectors outwith this Assembly, which are dependent upon our committees here to put their democratic case before the Welsh parliament and beyond.

14:36

## Angela Burns Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to take this opportunity to put on record that, at the moment, we have a current set of Standing Orders that I believe are very clear and I will be following current convention. However, I do want to take this opportunity to call for a review, Presiding Officer, of our parliamentary procedures. I am aware that there was a review in the Third Assembly, and one of the results, for example, was the consolidation of committees, among other areas. However, we are developing as a parliamentary body, and the Welsh Conservatives have consistently said that it is time for a full review to ensure that we are fit for our future development. I also wish to point out that the Presiding Officer has put forward suggestions for improving aspects of our operations and that there has been a review of the support for committees, which I believe we should be taking on board.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddweud ar goedd bod gennym, ar hyn o bryd, cyfres gyfredol o Reolau Sefydlog yr wyf yn credu sy'n eglur iawn a byddaf yn dilyn y confensiwn cyfredol. Fodd bynnag, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i alw am adolygiad, Lywydd, o'n gweithdrefnau seneddol. Rwy'n ymwybodol y bu adolygiad yn y Trydydd Cynulliad, ac un o'r canlyniadau, er enghraifft, oedd y broses o gyfuno pwyllgorau, ymhlith meysydd eraill. Fodd bynnag, rydym yn datblygu fel corff seneddol, ac mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi dweud yn gyson ei bod yn bryd cael adolygiad llawn er mwyn sicrhau ein bod yn addas ar gyfer ein datblygiad yn y dyfodol. Rwy'n dymuno nodi hefyd bod y Llywydd wedi cyflwyno awgrymiadau ar gyfer gwella agweddau ar ein gweithrediadau ac y bu adolygiad o'r cymorth i bwyllgorau, yr wyf yn credu y dylem fwrw ymlaen â nhw.

I would like to see how we as an Assembly might examine how we can build committee independence, how we can seek to build a strong and independent backbench cadre, how we can review the effects on committee scrutiny functions of the legislative timetable and the number of people we have available to us, and how we can assess the value of the practices that we hold to within this Chamber. We should look at what has brought legislation in this place to such an overreliance on the casting vote of either the Presiding Officer or the Deputy Presiding Officer, and look at our times, our schedules and our days.

Hoffwn weld sut y gallem ni fel Cynulliad archwilio sut y gallwn adeiladu annibyniaeth pwyllgorau, sut y gallwn geisio adeiladu corff meinciau cefn cryf ac annibynnol, sut y gallwn adolygu'r effeithiau ar swyddogaethau craffu pwyllgorau ar yr amserlen ddeddfwriaethol a nifer y bobl sydd ar gael i ni, a sut y gallwn asesu gwerth yr arferion sydd gennym yn y Siambr hon. Dylem edrych ar yr hyn sydd wedi dod â deddfwriaeth yn y lle hwn i gymaint o orddibyniaeth ar bleidlais fwrw naill ai'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd, ac edrych ar ein hamserau, ein hamserlenni a'n diwrnodau.

Presiding Officer, while I will be following the current convention, I say, with great respect and absolute sincerity, that, if we want to develop our National Assembly as a parliamentary body that is fit for the future, and really have proper engagement with the people of Wales, this must be something that we should look at on a more regular basis, because we are changing fast and so is the landscape out there.

Lywydd, er y byddaf yn dilyn y confensiwn presennol, rwy'n dweud, gyda pharch mawr a didwylledd llwyr, os ydym eisiau datblygu ein Cynulliad Cenedlaethol fel corff seneddol sy'n addas ar gyfer y dyfodol, a chael ymgysylltiad priodol â phobl Cymru, mae'n rhaid i hyn fod yn rhywbeth y dylem ni ei ystyried yn fwy rheolaidd, gan ein bod yn newid yn gyflym ac felly hefyd y mae'r amgylchedd y tu allan i'r fan hon.

14:39

## Nick Ramsay Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I concur with the thoughts already expressed by Dafydd Elis-Thomas and by Angela Burns. Outside of the bubble that we too often live in in this place, for the public, there are probably fewer greater annals of mystery than the mysteries that surround the procedures of National Assembly committees. Yet, as we know all too well, the committees are exceptionally important to the way in which this place operates, and they do indeed need to change over time. We all speak frequently about the problems that face committees in terms of their independence and their ability to effectively scrutinise the procedures of this place. However, one thing is clear: as the legal powers and other powers of this place increase, then the role of committees will become increasingly important and the public needs to know that the members of those committees and this Assembly—. Yes, in this place, we follow party whips, yes, we engage in the political banter that too often drags us down in the eyes of the public, but I understand that there is a place for that. However, when it comes to committee and to looking at legislation, there needs to be independence of thought. Without independence of thought, then, long term, the public is going to raise serious questions about how this operates. I fully agree that we need to have an ongoing review, as Angela Burns said, into the operation of this. Let us make sure that, when Members come here, they feel that they can go to committees and speak their mind, and the public can have faith in the Chairs of committees and also in the backbench Members.

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n cytuno â'r hyn a ddywedwyd eisoes gan Dafydd Elis-Thomas a chan Angela Burns. Y tu allan i'r swigen yr ydym ni'n byw ynddi'n rhy aml yn y lle hwn, i'r cyhoedd, mae'n debyg nad oes llawer o ddirgelion mwy na'r dirgelion sy'n gysylltiedig â gweithdrefnau pwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol. Eto i gyd, fel y gwyddom yn rhy dda, mae'r pwyllgorau yn eithriadol o bwysig i'r ffordd y mae'r lle hwn yn gweithredu, ac mae gwir angen iddynt newid dros amser. Rydym i gyd yn siarad yn aml am y problemau sy'n wynebu pwyllgorau o ran eu hannibyniaeth a'u gallu i graffu'n effeithiol ar weithdrefnau'r lle hwn. Fodd bynnag, mae un peth yn eglur: wrth i bwerau cyfreithiol a phwerau eraill y lle hwn gynyddu, yna bydd swyddogaeth y pwyllgorau yn fwyfwy pwysig ac mae angen i'r cyhoedd wybod bod aelodau'r pwyllgorau hyn a'r Cynulliad hwn—.Ydym, rydym ni'n dilyn chwipiaid y pleidiau yn y lle hwn, ydym, rydym ni'n cymryd rhan mewn tynnu coes gwleidyddol sy'n rhy aml yn ein llusgo ni i lawr yn llygaid y cyhoedd, ond rwyf yn deall bod lle i hynny. Fodd bynnag, pan ddaw i bwyllgorau ac edrych ar ddeddfwriaeth, mae angen annibyniaeth meddwl. Heb annibyniaeth meddwl, yna, yn y tymor hir, mae'r cyhoedd yn mynd i godi cwestiynau difrifol ynghylch sut y mae hyn yn gweithredu. Rwy'n cytuno'n llwyr bod angen i ni gael adolygiad parhaus, fel y dywedodd Angela Burns, i weithrediad hyn. Gadewch i ni wneud yn siŵr, pan fydd yr Aelodau'n dod yma, eu bod yn teimlo y gallant fynd i bwyllgorau a dweud y gwir, ac y gall y cyhoedd fod â ffydd yng Nghadeiryddion y pwyllgorau ac yn Aelodau'r meinciau cefn hefyd.

14:40

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I, too, would like to see a reform of the way in which the Chairs of committees are chosen. I would like to express my personal thanks, as a member of the Environment and Sustainability Committee, for the way in which Lord Elis-Thomas has led that committee. I do think that it is long overdue for a review, and I agree with the points made by Angela Burns that the combination of legislation and ordinary scrutiny business that is being undertaken by committees in the current committee structure weakens our scrutiny of the Executive, and that needs to be strengthened.

Hoffwn innau, hefyd, weld y ffordd y dewisir Cadeiryddion pwyllgorau yn cael ei diwygio. Hoffwn fynegi fy niolch personol, fel aelod o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, am y ffordd y mae'r Arglwydd Elis-Thomas wedi arwain y pwyllgor hwnnw. Rwy'n credu ei bod yn hen bryd cael adolygiad, ac rwy'n cytuno â'r pwyntiau a wnaed gan Angela Burns bod y cyfuniad o ddeddfwriaeth a busnes craffu cyffredin sy'n cael ei wneud gan bwyllgorau yn y strwythur pwyllgorau presennol yn gwanhau ein craffu ar y Weithrediaeth, ac mae angen cryfhau hynny.

I would like to read an extract from the review of the House of Commons process, which stated:

Hoffwn ddarllen dyfyniad o'r adolygiad o broses Tŷ'r Cyffredin, a nododd:

'There is widespread disquiet, both amongst Members and outside the House, about a system which is not open, and which is clearly not independent of Government and the party managers. Those being scrutinised should not have a say in the selection process of the scrutineers. We believe that the present system does not, and should not, have the confidence of the House and the public.'

Ceir anesmwythyd eang, ymhlith Aelodau a thu allan i'r Tŷ, am system nad yw'n agored, ac y mae'n amlwg nad yw'n annibynnol ar y Llywodraeth a rheolwyr y pleidiau. Ni ddylai'r rhai y craffir arnynt gael llais yn y broses o ddewis y rhai sy'n craffu. Rydym yn credu nad oes gan y Tŷ na'r cyhoedd hyder yn y system bresennol, ac na ddylai fod ganddynt hyder ynddi.

I would say that those circumstances apply here. I think that it is of particular concern, where it is in the gift of the party leaders, as it is in this place, that, when there are potential elections relating to the party leaders, promises may or may not be given about who leads a certain committee. Now, if that were to happen in any other form of public life, it would be seen as something that is improper and totally inappropriate.

Byddwn yn dweud bod yr amgylchiadau hynny yn berthnasol yma. Rwy'n meddwl ei fod yn destun pryder arbennig, pan ei fod o fewn grym arweinwyr y pleidiau, fel y mae yn y lle hwn, y gellir gwneud addewidion neu beidio am bwy sy'n arwain pwyllgor penodol, pan fo etholiadau posibl yn ymwneud ag arweinwyr y pleidiau. Nawr, pe byddai hynny'n digwydd mewn unrhyw ran arall o fywyd cyhoeddus, byddai'n cael ei ystyried fel rhywbeth nad yw'n iawn ac sy'n gwbl amhriodol.

I would also like to say that, on my committee, we have experienced a situation where we have had a vacancy since the appointment of Vaughan Gething as a Deputy Minister. It means that a member of the committee has been parachuted in for the votes alone—

Hoffwn ddweud hefyd, ar fy mhwyllgor i, ein bod wedi bod mewn sefyllfa lle bu gennym swydd wag ers penodi Vaughan Gething yn Ddirprwy Weinidog. Mae'n golygu bod aelod o'r pwyllgor wedi cael ei wthio i mewn ar gyfer y pleidleisiau yn unig—

14:42

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that you are wandering from the point. Can you come back? And not specifics, please.

Rwy'n meddwl eich bod yn crwydro oddi wrth y pwynt. A allwch chi ddod yn ôl? A dim manylion penodol, os gwelwch yn dda.

14:42

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That means that that member of the committee has not heard the evidence, and has not considered the process, and it undermines—

Mae hynny'n golygu nad yw'r aelod hwnnw o'r pwyllgor wedi clywed y dystiolaeth, ac nad yw wedi ystyried y broses, ac mae'n tanseilio—

14:42

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order. I am sorry, that really is not relevant at this point.

Trefn. Mae'n ddrwg gennyf, nid yw hynny'n berthnasol ar hyn o bryd mewn gwirionedd.

14:43

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Presiding Officer, it is quite clear, as Angela Burns has said, that you have called for where we could look at our Standing Orders and where there could be improvements. I think that the integrity of the committees and the scrutiny function that they perform are a vital part of democracy and a vital part of the way in which the Assembly operates. It is even more important in this Assembly, where we do not have a second Chamber that can change or revise legislation that is passed in this place, which places a far greater burden on the Assembly committees.

Lywydd, mae'n gwbl eglur, fel y mae Angela Burns wedi ei ddweud, eich bod wedi galw am lle y gallem edrych ar ein Rheolau Sefydlog a lle y gellid gwneud gwelliannau. Rwy'n credu bod uniondeb y pwyllgorau a'r swyddogaeth graffu y maen nhw'n ei chyflawni yn rhan hanfodol o ddemocratiaeth ac yn rhan hanfodol o'r ffordd y mae'r Cynulliad yn gweithredu. Mae'n bwysicach fyth yn y Cynulliad hwn, lle nad oes gennym ail Siambr sy'n gallu newid neu adolygu deddfwriaeth sy'n cael ei phasio yn y lle hwn, ac mae hyn yn rhoi llawer mwy o faich ar bwyllgorau'r Cynulliad.

If there is one good thing to have happened out of these events—not only relating to Lord Elis-Thomas, but also relating to what has happened among the Welsh Conservatives—if this leads to a review of the committee structure, the way in which it works, and how the Chairs are appointed, then that will have been a good day for democracy indeed.

Os oes un peth da wedi digwydd yn sgil y digwyddiadau hyn—nid yn unig yn ymwneud â'r Arglwydd Elis-Thomas, ond yn ymwneud hefyd â'r hyn sydd wedi digwydd ymhlith y Ceidwadwyr Cymreig—os bydd hyn yn arwain at adolygiad o strwythur y pwyllgorau, y ffordd y mae'n gweithio, a sut y penodir y Cadeiryddion, yna bydd hwnnw wedi bod yn ddiwrnod da yn wir i ddemocratiaeth.

14:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am sure that the members of the Business Committee have heard what Members have said today. However, I would just like to remind you that we are ongoing—we are always scrutinising what is happening here. I am sure that members of the Business Committee will have heard, however, and will perhaps take action.

Rwy'n siŵr bod aelodau'r Pwyllgor Busnes wedi clywed yr hyn y mae'r Aelodau wedi ei ddweud heddiw. Fodd bynnag, hoffwn eich atgoffa ein bod yn parhau—rydym ni bob amser yn craffu ar yr hyn sy'n digwydd yma. Rwy'n siŵr y bydd aelodau'r Pwyllgor Busnes wedi clywed, fodd bynnag, ac efallai y byddant yn cymryd camau.

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is objection. In that case, I defer all voting on this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad. Gohiriaf yr holl bleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio felly.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 14:44.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 14:44.*

## Adroddiad y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol

## The Report of the Expert Group on Diversity in Local Government

*Detholwyd y gwelliant canlynol: gwelliant 1 yn enw Aled Roberts.*

*The following amendment has been selected: amendment 1 in the name of Aled Roberts.*

14:45 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Galwaf ar y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth i gynnig y cynnig.

I call on the Minister for Local Government and Government Business to move the motion.

Cynnig NDM5462 Lesley Griffiths

Motion NDM5462 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol.

Notes the report of the Expert Group on Diversity in Local Government.

14:45 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I am pleased to introduce this report to the Assembly today. It addresses an issue that is crucial to the future of a healthy democracy in Wales. First, I want to place on record my thanks to the expert group for its report. Professor Laura McAllister, who chaired the group, is internationally renowned for her work on diversity in politics. As chair of Sport Wales, Laura has also successfully led the campaign to diversify the leadership within the organisation—a campaign that has provided a template for other public sector organisations. Laura was ably supported on the group by its other members: Joy Kent, who is the chief executive of Chwarae Teg and who has been campaigning for many years for fair treatment for women in public life; Naomi Alleyne, who has worked for several years for the Welsh Local Government Association, promoting equality and diversity within local authorities; and Dr Declan Hall, formerly of the University of Birmingham, who designed the framework of remuneration for councillors in Wales back in 2001—a framework that, with modifications, still operates today.

Rwyf yn falch o gyflwyno'r adroddiad hwn i'r Cynulliad heddiw. Mae'n rhoi sylw i fater sy'n hollbwysig i ddyfodol democratiaeth iach yng Nghymru. Yn gyntaf, hoffwn gofnodi fy niolch i'r grŵp arbenigol am ei adroddiad. Mae'r Athro Laura McAllister, a gadeiriodd y grŵp, yn adnabyddus ledled y byd am ei gwaith ar amrywiaeth mewn gwleidyddiaeth. Fel cadeirydd Chwaraeon Cymru, mae Laura hefyd wedi arwain yr ymgyrch lwyddiannus i sicrhau amrywiaeth ymhlith arweinwyr y sefydliad hwnnw—ymgyrch sy'n esiampl i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Cafodd Laura gefnogaeth fedrus aelodau eraill y grŵp: Joy Kent, prif weithredwr Chwarae Teg sy'n ymgyrchu ers blynyddoedd lawer dros driniaeth deg i fenywod mewn bywyd cyhoeddus; Naomi Alleyne, sy'n gweithio ers nifer o flynyddoedd i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn awdurdodau lleol; a Dr Declan Hall, gynt o Brifysgol Birmingham, a gynlluniodd fframwaith cydnabyddiaeth ariannol i gynghorwyr yng Nghymru yn ôl yn 2001—fframwaith sydd, wedi'i addasu, yn dal i fod ar waith heddiw.

We debated the results of the survey of candidates and elected councillors at the 2012 local elections last May. The survey showed that the majority of councillors were aged over 60; almost three quarters of them were male; 99% of them were white; and only 31% were in full or part-time employment. Of course, I recognise that most councillors have a history of service to their communities and a wealth of experience and knowledge about local government. That experience is also vital to our democracy. However, I believe that local government should reflect the people whom it represents.

Cawsom ddadl am ganlyniadau'r arolwg o ymgeiswyr a chynghorwyr etholedig yn etholiadau lleol 2012 fis Mai diwethaf. Dangosodd yr arolwg fod y rhan fwyaf o'r cynghorwyr dros eu 60 oed; bod bron i dri chwarter yn ddynion; bod 99% yn wyn; ac mai dim ond 31% oedd mewn gwaith llawn amser neu ran amser. Wrth gwrs, rwyf yn cydnabod bod gan y rhan fwyaf o gynghorwyr hanes o wasanaethu eu cymunedau a llawer iawn o brofiad a gwybodaeth am lywodraeth leol. Mae'r profiad hwnnw hefyd yn hanfodol i'n democratiaeth. Fodd bynnag, credaf y dylai llywodraeth leol adlewyrchu'r bobl y mae'n eu cynrychioli.

Following the debate, I established the expert group to look into diversity and report to me with its recommendations. At the launch of the report earlier this month, we had councillors from diverse backgrounds talking about their experiences. It is worth repeating what one of those councillors, Councillor Omar Ali of Newport, pointed out. There has been a Somali community in south Wales for over 150 years. They fought for Britain in both world wars. However, Omar is the first representative of this community to be elected as a councillor in Wales. As the Minister for Local Government and Government Business, I cannot let this situation continue.

Ar ôl y ddadl, sefydlais y grŵp arbenigol i edrych ar amrywiaeth ac adrodd imi am ei argymhellion. Yn lansiad yr adroddiad yn gynharach y mis hwn, bu cynghorwyr o gefndiroedd amrywiol yn siarad am eu profiadau. Mae'n werth ailadrodd yr hyn a ddywedodd un o'r cynghorwyr hynny, y Cynghorydd Omar Ali o Gasnewydd. Mae cymuned Somali yn ne Cymru ers dros 150 o flynyddoedd. Buont yn ymladd dros Brydain yn y ddau ryfel byd. Fodd bynnag, Omar yw'r cynrychiolydd cyntaf o'r gymuned hon i gael ei ethol yn gynghorydd yng Nghymru. A minnau'n Weinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, ni allaf adael i'r sefyllfa hon barhau.

I have published a paper summarising the Welsh Government's response to each of the report's recommendations. While I do not intend to go through each one now, they fit into a number of broad categories. The first is to do with the survey itself. While the 2012 response rates were high enough to give the survey validity from a researcher's point of view, we will work with the WLGA and local government to see what changes are needed to the survey to increase the responses even more next time. The most crucial recommendations are, of course, on how to improve diversity in local government. They include a call on each political party to commit themselves to selecting female candidates in at least 40% of seats that they consider winnable at the next local elections. This is much more ambitious than just 40% of all candidates. I have met with Leanne Wood, Kirsty Williams and Andrew R.T. Davies to discuss how we take this forward. It was encouraging to hear from them all about the work already being done in their political parties in relation to increasing diversity. I am happy to make a public commitment that my party, the Labour Party, will sign up to this target.

Rwyf wedi cyhoeddi papur yn crynhoi ymateb Llywodraeth Cymru i bob un o argymhellion yr adroddiad. Er nad wyf yn bwriadu mynd drwy bob un yn awr, gellir eu rhoi mewn nifer o gategorïau bras. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r arolwg ei hun. Er bod cyfraddau ymateb 2012 yn ddigon uchel i roi dilysrwydd i'r arolwg o safbwynt ymchwilydd, byddwn yn cydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a llywodraeth leol i weld pa newidiadau sydd eu hangen i'r arolwg i sicrhau mwy fyth o ymatebion y tro nesaf. Mae'r argymhellion pwysicaf, wrth gwrs, yn ymwneud â sut i wella amrywiaeth mewn llywodraeth leol. Maent yn cynnwys galwad ar i bob plaid wleidyddol ymrwymo i ddewis ymgeiswyr benywaidd ar gyfer o leiaf 40% o'r seddi y maent yn ystyried y gallant eu hennill yn yr etholiadau lleol nesaf. Mae hyn yn fwy uchelgeisiol o lawer na dim ond 40% o'r holl ymgeiswyr. Rwyf wedi cwrdd â Leanne Wood, Kirsty Williams ac Andrew R.T. Davies i drafod sut y dylem fwrw ymlaen â hyn. Roedd yn galonogol clywed ganddynt i gyd am y gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo yn eu pleidiau gwleidyddol er mwyn cynyddu amrywiaeth. Rwyf yn hapus i wneud addewid cyhoeddus y bydd fy mhlaid i, y Blaid Lafur, yn ymrwymo i'r targed hwn.

The final recommendations are about what work can be done to improve public understanding and engagement with local government. My responses in the supporting paper make clear that I will work with all stakeholders to move this agenda forward, though, of course, I recognise the challenge that we face. A major drive is needed to encourage mentoring, shadowing and other practical steps to make it easier for people to enter local government. Many of the steps that we took in the Local Government (Wales) Measure 2011 to address this are now in place and will help overcome some of the barriers that people have in standing for election to local government. These include the need for councils to regularly review the timings of meetings and make it possible to attend meetings remotely. A family-friendly approach to the timing of meetings is important in order to encourage diversity. We have introduced the right to family absence from meetings and an increase in the broadcasting of council meetings, so that the public can see what its council is doing. This is why I welcome the amendment from the Welsh Liberal Democrats. We need to engage with public and private sector employers to see how it can be made easier for their staff to become councillors. We also need to highlight to employers the personal development benefits being a councillor can bring to their staff and, therefore, their businesses.

Mae'r argymhellion olaf yn ymwneud â'r gwaith y gellir ei wneud i wella dealltwriaeth y cyhoedd a'u hymgysylltiad â llywodraeth leol. Mae fy ymatebion yn y papur ategol yn ei gwneud yn glir y byddaf yn cydweithio â'r holl randdeiliaid i fwrw ymlaen â'r agenda hon, er fy mod, wrth gwrs, yn cydnabod yr her sy'n ein hwynebu. Mae angen ymgyrch fawr i annog mentora, cysgodi a chamau ymarferol eraill i'w gwneud yn haws i bobl i fynd i mewn i lywodraeth leol. Mae llawer o'r camau a gymerwyd gennym ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 i ymdrin â hyn bellach ar waith a byddant yn helpu i oresgyn rhai o'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag sefyll mewn etholiadau llywodraeth leol. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen i gynghorau adolygu amser cyfarfodydd yn gyson a'i gwneud yn bosibl bod yn bresennol mewn cyfarfodydd o bell. Mae'n bwysig amseru cyfarfodydd mewn dull sy'n ystyriol o deuluoedd er mwyn annog amrywiaeth. Rydym wedi cyflwyno'r hawl i fod yn absennol o gyfarfodydd am resymau teuluol a mwy o ddarlledu cyfarfodydd cynghorau, fel y gall y cyhoedd weld yr hyn y mae eu cyngor yn ei wneud. Dyna pam yr wyf yn croesawu'r gwelliant gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru. Mae angen inni ymgysylltu â chyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus a phreifat i weld sut y gellir ei gwneud yn haws i'w staff ddod yn gynghorwyr. Mae angen inni hefyd dynnu sylw cyflogwyr at y manteision o ran datblygiad personol y gall bod yn gynghorydd eu rhoi i'w staff ac, felly, i'w busnesau.

The report includes a recommendation calling on member champions in each council to be involved in encouraging greater participation in local government. I fully support this, and I am planning to build a network of councillors across Wales from under-represented groups to help focus our work to achieve the best results. Again, I am grateful to the party leaders here for their support around this. We had some excellent contributions from such councillors at the report's launch, and they are very keen to get involved in campaigning work.

Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhelliad yn galw ar hyrwyddwyr-aelodau ym mhob cyngor i annog mwy o gyfranogiad mewn llywodraeth leol. Rwyf yn cunnwys n i eru cyfarfodydd mewn efnogi hyn yn gryf, ac yn bwriadu adeiladu rhwydwaith o gynghorwyr ledled Cymru o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i helpu i roi ffocws i'n gwaith er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau. Unwaith eto, rwyf yn ddiolchgar i arweinwyr y pleidiau yma am eu cymorth yn hyn o beth. Cawsom gyfraniadau rhagorol gan gynghorwyr yn lansiad yr adroddiad, ac maent yn awyddus iawn i gymryd rhan mewn gwaith ymgyrchu.

Local government is at the front line of providing everyday services for its communities. It is at the local government level that we most need to achieve diversity and representation in our councils to reflect the local communities they serve. We know that focused and concerted action can yield results. However, it will need the commitment of all of us, our parties and local authorities to realise our ambitions. I call upon all Members to commit themselves to this cause and to support the motion and the amendment.

Mae llywodraeth leol ar y rheng flaen o ran darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd i'w chymunedau. Ar lefel llywodraeth leol y mae'r angen mwyaf inni sicrhau amrywiaeth a chynrychiolaeth yn ein cynghorau i adlewyrchu'r cymunedau lleol y maent yn eu gwasanaethu. Rydym yn gwybod y gall gweithredu ar y cyd wedi'i dargedu sicrhau canlyniadau. Fodd bynnag, bydd angen i bob un ohonom ni, ein pleidiau a'n hawdurdodau lleol ymrwymo i hyn er mwyn gwireddu ein huchelgeisiau. Galwaf ar yr holl Aelodau i ymrwymo i'r achos hwn ac i gefnogi'r cynnig a'r gwelliant.

14:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Rwyf wedi dethol y gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

I have selected the amendment to the motion, and I call on Peter Black to move amendment 1, tabled in the name of Aled Roberts.

*Gwelliant 1—Aled Roberts*

*Amendment 1—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i annog amgylcheddau gwaith sy'n ystyriol o deuluoedd, ac ystyried canfyddiadau'r adroddiad ynghylch argaeledd gofal plant, amser cyfarfodydd ac awyrgylch cyfarfodydd cyngor.*

*Calls on the Welsh Government to work with local authorities to encourage family-friendly working environments, and to take into account the report's findings regarding childcare availability, timings of meetings and the atmosphere of council meetings.*

14:51

## Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 1 in the name of Aled Roberts.

Cynigiaf welliant 1 yn enw Aled Roberts.

When I was first elected to the City and Council of Swansea 30 years ago this year—I know I do not look old enough—I was the youngest member of that council, and the vast majority of that council were male and middle-aged. When I got elected to the National Assembly in 1999, 15 years later, I was still the youngest member of that council, and the vast majority of that council were still middle-aged. Now, alas, I am one of those middle-aged members of Swansea council, but that is beside the point.

Pan gefais fy ethol gyntaf i Gyngor Dinas a Sir Abertawe 30 mlynedd yn ôl eleni—rwyf yn gwybod nad wyf yn edrych yn ddigon hen—fi oedd aelod ieuengaf y cyngor hwnnw, ac roedd mwyafrif llethol y cyngor yn ddynion canol oed. Pan gefais fy ethol i'r Cynulliad Cenedlaethol yn 1999, 15 mlynedd yn ddiweddarach, fi oedd aelod ieuengaf y cyngor hwnnw o hyd, ac roedd mwyafrif llethol y cyngor hwnnw'n dal i fod yn ganol oed. Yn awr, gwaetha'r modd, rwyf fi'n un o'r aelodau canol oed hynny o gyngor Abertawe, ond ta waeth am hynny.

Clearly, this report raises some valid issues, and certainly poses some difficult questions for all political parties and groups in terms of how we should be improving diversity in terms of representation, not just at local government level, but at National Assembly level and parliamentary level. I am proud that 33% of Welsh Liberal Democrat councillors are women, which is the highest proportion of any of the political parties in terms of representation by women on local councils. However, it should not just be about women. This should be about other diversity as well. It should be about ethnic minority representation and socioeconomic representation. We have to be working across the whole range of issues in terms of encouraging the widest possible representation on local councils so that they represent the communities that they are there to serve. That is why the Welsh Liberal Democrats have taken this issue seriously, and although we do not believe that targets are the way forward, we think that other action is a more appropriate and constructive way of delivering on this particular issue. The Welsh Liberal Democrats have formed a Welsh diversity action group, bringing together various equality groups within the party. We will be looking at the results of the local government candidate survey as part of our strategy to increase diversity at the 2017 elections.

Wrth gwrs, mae'r adroddiad hwn yn codi rhai materion dilys, ac mae'n sicr yn gofyn rhai cwestiynau anodd i bob plaid a grŵp gwleidyddol ynghylch sut y dylem fod yn gwella amrywiaeth o ran cynrychiolaeth, nid yn unig ar lefel llywodraeth leol, ond ar lefel y Cynulliad Cenedlaethol ac ar lefel seneddol. Rwyf yn falch bod 33% o gynghorwyr Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n fenywod, sef y gyfran uchaf o blith yr holl bleidiau gwleidyddol o ran cynrychiolaeth gan fenywod ar gynghorau lleol. Fodd bynnag, ni ddylai hyn ymwneud â menywod yn unig. Dylai ymwneud â mathau eraill o amrywiaeth hefyd. Dylai ymwneud â chynrychiolaeth lleiafrifoedd ethnig a chynrychiolaeth economaidd-gymdeithasol. Rhaid inni weithio ar draws yr ystod lawn o faterion i annog y gynrychiolaeth ehangaf bosibl ar gynghorau lleol er mwyn iddynt gynrychioli'r cymunedau y maent yno i'w gwasanaethu. Dyna pam y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi cymryd y mater hwn o ddifrif, ac er nad ydym yn credu mai targedau yw'r ffordd ymlaen, rydym yn credu bod camau eraill yn ffordd fwy priodol ac adeiladol o ddwyn y maen i'r wal ar y mater penodol hwn. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi ffurfio grŵp gweithredu ar amrywiaeth yng Nghymru, gan ddwyn ynghyd wahanol grwpiau cydraddoldeb o fewn y blaid. Byddwn yn edrych ar ganlyniadau'r arolwg o ymgeiswyr llywodraeth leol fel rhan o'n strategaeth i sicrhau mwy o amrywiaeth yn etholiadau 2017.

As it says in our amendment, one of the key issues to tackle behind that is reducing the barriers that people, particularly women, find in terms of serving on those councils, such as making sure that we have family-friendly working environments—which this Assembly started off doing, but, alas, has now slipped into a more parliamentary way of working—taking account of the report's finding regarding childcare availability, which, of course, affects men as well as women, and the timings of meetings and the atmosphere of council meetings. I am particularly pleased that the timings of meetings have certainly improved since I was elected in 1984. In those days, we used to meet at 2 p.m., irrespective of what was going on, and irrespective of your own circumstances. Nowadays, members are consulted after each election—I think under the Local Government (Wales) Measure 2011—so that we actually have a chance to set the timings of meetings to meet the needs of the majority of Members. So, Swansea council, for instance, now meets at 5 p.m., and other meetings are timed around members' work commitments. Clearly, work commitments are key here, because, irrespective of the changes that have taken place in terms of allowances, being a councillor, with the exception of course of being a cabinet member, is still not a full-time duty. Being a councillor is a part-time job, and many members can conduct their business as a councillor while also holding down full-time employment elsewhere. I have done that all my life, when I was a civil servant and since I have been here as an Assembly Member. Many other councillors do the same thing. You have to make allowances, because while you are not paid, effectively, a living wage to be a councillor, people who volunteer to become councillors must also be able to carry out their normal working-life duties, or else it would not be worth their while to do so.

Fel y mae ein gwelliant yn ei ddweud, un o'r materion allweddol yn hyn o beth yw lleihau'r rhwystrau sy'n wynebu pobl, yn enwedig menywod, rhag gwasanaethu ar y cynghorau hynny, megis gwneud yn siŵr bod gennym amgylcheddau gwaith sy'n ystyriol o deuluoedd—dechreuodd y Cynulliad wneud hynny, ond, gwaetha'r modd, mae bellach wedi llithro i mewn i ffordd fwy seneddol o weithio—ac ystyried canfyddiad yr adroddiad am argaeledd gofal plant, sydd, wrth gwrs, yn effeithio ar ddynion yn ogystal â menywod, ac amser cyfarfodydd ac awyrgylch cyfarfodydd y cyngor. Rwyf yn arbennig o falch bod amseroedd cyfarfodydd yn sicr wedi gwella ers i mi gael fy ethol yn 1984. Bryd hynny, roeddem yn arfer cyfarfod am 2 y prynhawn, waeth beth oedd yn digwydd, a waeth beth oedd eich amgylchiadau. Erbyn hyn, ymgynghorir ag aelodau ar ôl pob etholiad—o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 rwyf yn meddwl—er mwyn inni gael cyfle i bennu amseroedd cyfarfodydd i fodloni anghenion y rhan fwyaf o'r Aelodau. Felly, mae cyngor Abertawe, er enghraifft, bellach yn cyfarfod am 5 y prynhawn, a chaiff cyfarfodydd eraill eu trefnu o gwmpas ymrwymiadau gwaith yr aelodau. Wrth gwrs, mae ymrwymiadau gwaith yn allweddol yma, oherwydd, beth bynnag yw'r newidiadau sydd wedi digwydd o ran lwfansau, nid yw bod yn gynghorydd, ac eithrio, wrth gwrs, bod yn aelod o'r cabinet, yn ddyletswydd lawn amser. Swydd ran amser yw bod yn gynghorydd, a gall llawer o aelodau wneud eu gwaith fel cynghorwyr a gwneud swydd lawn amser hefyd yn rhywle arall. Rwyf wedi gwneud hynny drwy gydol fy oes, pan oeddwn yn was sifil ac ers imi fod yn Aelod Cynulliad yma. Mae llawer o gynghorwyr eraill yn gwneud yr un peth. Mae'n rhaid i chi roi ystyriaeth i hynny, oherwydd er nad ydych yn cael cyflog byw am fod yn gynghorydd, mae'n rhaid i bobl sy'n gwirfoddoli i fod yn gynghorwyr hefyd allu cyflawni eu dyletswyddau arferol yn eu gwaith, neu fel arall ni fyddai'n werth iddynt wneud hynny.

It seems to me that, in tackling this issue, the main barriers that we have are: encouraging people to come forward; giving them the training and support they need, which every political party has sought to do; making sure that there are no prejudices in terms of the selection process; and, the biggest barrier of all, the party-political system. The biggest turn-off for most people in terms of politics is party politics. A lot of people—women, ethnic minorities and many other groups—are interested in politics and issues, but they do not want to get involved in political parties. How do we overcome that barrier? We can encourage them to stand as an independent or encourage them to get involved in party politics, but that is a big challenge that we all have to face.

Mae'n ymddangos i mi mai'r prif rwystrau sy'n ein hwynebu wrth ymdrin â'r mater hwn yw: annog pobl i sefyll; rhoi'r hyfforddiant a'r cymorth sydd eu hangen arnynt, fel y mae pob plaid wleidyddol wedi ceisio'i wneud; gwneud yn siŵr nad oes rhagfarnau yn y broses ddethol; a'r rhwystr mwyaf oll, sef system y pleidiau gwleidyddol. Cas beth y rhan fwyaf o bobl o ran gwleidyddiaeth yw gwleidyddiaeth plaid. Mae gan lawer o bobl—menywod, lleiafrifoedd ethnig a llawer o grwpiau eraill—ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth a phynciau llosg, ond nid oes arnynt eisiau bod yn rhan o blaid wleidyddol. Sut ydym ni am oresgyn y rhwystr hwnnw? Gallwn eu hannog i sefyll fel ymgeiswyr annibynnol neu eu hannog i gymryd rhan mewn gwleidyddiaeth plaid, ond mae honno'n her fawr i bob un ohonom.

The last point that I want to make is on representation. I started off by saying that if we are to have representative councils, then we have to work hard to achieve that. Representative councils are best achieved through a change in the voting system. If we had a system of fair voting whereby the outcome of elections reflect the way that people vote, that, in my view, would be the best way to ensure that we have councils that represent the make-up of the society they serve.

Mae'r pwynt olaf yr hoffwn ei wneud yn ymwneud â chynrychiolaeth. Dechreuais drwy ddweud bod yn rhaid inni weithio'n galed os ydym am gael cynghorau cynrychiadol. Y ffordd orau o gael cynghorau cynrychiadol yw newid y system bleidleisio. Pe bai gennym system bleidleisio deg lle mae canlyniadau etholiadau'n adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn pleidleisio, dyna, yn fy marn i, fyddai'r ffordd orau o sicrhau bod ein cynghorau'n cynrychioli'r gymdeithas y maent yn ei gwasanaethu.

14:56 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The membership and make-up of local councils, especially in cities such as Swansea and Cardiff, has become more diverse and varied over the last 25 years. At this stage, I congratulate Councillor Phil Bale on becoming leader of Cardiff Council, a man who is still relatively young and who has knowledge of this place and of the council. I am sure that he will do an exceptionally good job there.

Mae aelodaeth a chyfansoddiad cynghorau lleol, yn enwedig mewn dinasoedd fel Abertawe a Chaerdydd, wedi gwella o safbwynt amrywiaeth dros y 25 mlynedd diwethaf. Yn awr, rwyf am longyfarch y Cynghorydd Phil Bale, dyn sy'n dal yn gymharol ifanc ac sy'n deall y lle hwn a'r cyngor, ar ddod yn arweinydd Cyngor Caerdydd. Rwyf yn siŵr y gwnaiff waith eithriadol o dda yno.

When I was first elected to the world of local government, at the relatively young age of 32 back in 1989, on the old West Glamorgan County Council, which at that time consisted of a very large Labour group with a huge majority, I was considered very young. For some, I was far too young to sit on the council. One of the pieces of advice that I was given was to sit there and be quiet for four years—a piece of advice that I have never taken. [Laughter.]

Pan gefais fy ethol am y tro cyntaf i fyd llywodraeth leol, yn gymharol ifanc yn 32 mlwydd oed yn ôl yn 1989, ar hen Gyngor Sir Gorllewin Morgannwg, a oedd ar y pryd yn cynnwys grŵp Llafur mawr iawn â mwyafrif enfawr, roedd pobl yn meddwl fy mod yn ifanc iawn. I rai, roeddwn yn rhy ifanc o lawer i eistedd ar y cyngor. Un o'r cynghorion a gefais oedd eistedd yno a bod yn dawel am bedair blynedd—nid wyf erioed wedi dilyn y cyngor hwnnw. [Chwerthin.]

It was really a group of men aged over 60 who were mainly retired. What they had, which some councils now lack, was a long experience in their communities and a high level of activity in community groups and sports clubs. Council meetings took place at 11 a.m. While it was an ideal time for those who were retired, those who could get up and have breakfast and make their way down to the council chamber, for those of us who were in employment, it was not the most convenient time. Peter Black talked about 2 p.m., which, compared with 11 a.m., is convenient.

Grŵp o ddynion dros eu 60 oedd y rhain, a'r rhan fwyaf ohonynt wedi ymddeol. Yr hyn a oedd ganddynt, ac sy'n brin erbyn hyn mewn rhai cynghorau, oedd profiad hir yn eu cymunedau a lefel uchel o weithgarwch mewn grwpiau cymunedol a chlybiau chwaraeon. Byddai cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal am 11 y bore. Er bod hynny'n amser delfrydol i'r rhai a oedd wedi ymddeol, y rhai a allai godi a chael brecwast a theithio i lawr i siambr y cyngor, i'r rhai ohonom a oedd mewn gwaith, nid dyna'r amser mwyaf cyfleus. Soniodd Peter Black am 2 y prynhawn, sydd, o'i gymharu ag 11 y bore, yn gyfleus.

Even then, things had started to change. A number of women were elected for the first time, including Gwenda Thomas, and a small group of us in our 30s were also elected. There was a sea change in terms of county councillors at that time. Needless to say, local government and local democracy has come a very long way since then. Today, Swansea council has a gender mix of 43 men and 29 women, with at least three members being openly gay. The Swansea council Labour group is even more gender balanced with 21 women and 28 men. The Labour councillors in my own constituency of Swansea East strike an almost exact gender balance, with 11 men and 10 women. Ten and a half each might be better, but I do not think that you can have half a person.

Hyd yn oed bryd hynny, roedd pethau wedi dechrau newid. Cafodd nifer o ferched eu hethol am y tro cyntaf, gan gynnwys Gwenda Thomas, a chafodd grŵp bach ohonom yn ein 30au hefyd ein hethol. Roedd newid mawr o ran cynghorwyr sir ar y pryd. Afraid dweud, mae llywodraeth leol a democratiaeth leol wedi dod yn bell iawn ers hynny. Heddiw, mae gan gyngor Abertawe gymysgedd o 43 o ddynion a 29 o fenywod, ac mae o leiaf dri aelod yn agored hoyw. Mae grŵp Llafur cyngor Abertawe hyd yn oed yn fwy cytbwys o ran y rhywiau, gyda 21 o fenywod a 28 o ddynion. Mae cydbwysedd union bron rhwng dynion a menywod sy'n gynghorwyr Llafur yn fy etholaeth i, sef Dwyrain Abertawe, gydag 11 o ddynion a 10 o fenywod. Efallai y byddai deg a hanner o bob un yn well, ond nid wyf yn credu bod y fath beth â hanner person.

In terms of average age, there has been a remarkable shift, with at least four councillors still in their early 20s, including Cockett ward's Mitchell Theaker, who I believe holds the impressive title of being the youngest cabinet member in the whole of the UK. On ethnicity, Swansea council has two black female councillors, one of whom was elected in Morriston to replace me as one of the councillors for that area when I stood down from the council in May 2012 to concentrate on my role as an Assembly Member.

O ran oedran cyfartalog, bu newid aruthrol; mae o leiaf bedwar cynghorydd yn dal yn eu 20au cynnar, gan gynnwys Mitchell Theaker yn ward Cocyd. Ef, rwyf yn meddwl, yw'r aelod cabinet ieuengaf yn y DU gyfan. O ran ethnigrwydd, mae dwy fenyw ddu'n gynghorwyr yng nghyngor Abertawe; etholwyd un ohonynt yn Nhreforys i gymryd fy lle i'n un o gynghorwyr yr ardal honno pan adewais y cyngor ym mis Mai 2012 i ganolbwyntio ar fy swyddogaeth fel Aelod Cynulliad.

I realise that most Welsh councils have not made the impressive progress that has been achieved in Swansea to producing a council membership that is far more representative of the areas and communities covered. However, progress has been made in many other parts of Wales. The larger councils have made far better progress than the smaller councils. It is probably not about the form of voting; it probably has a lot to do with the size of wards. In wards of 2,000 or so, somebody relatively old can put themselves forward as being the natural candidate to take over, whereas when you have a larger ward of 13,000 or 14,000, it becomes much more political.

Rwyf yn sylweddoli nad yw'r rhan fwyaf o gynghorau Cymru wedi gwneud cynnydd mor drawiadol ag Abertawe o ran sicrhau aelodaeth o'r cyngor sy'n llawer mwy cynrychiadol o'r ardaloedd a'r cymunedau dan sylw. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd mewn sawl rhan arall o Gymru. Mae'r cynghorau mwy o faint wedi gwneud cynnydd gwell o lawer na'r cynghorau llai. Mae'n debyg nad y math o bleidleisio sy'n bwysig, ond maint y wardiau. Mewn wardiau o oddeutu 2,000, gall rhywun cymharol hen ei enwebu ei hun yn ymgeisydd naturiol i gymryd yr awenau, ond pan fo gennych ward fwy o 13,000 neu 14,000, mae'n mynd yn fwy gwleidyddol o lawer.

A lot of progress has been made over the last 25 years, but I am sure, as the Minister will say later on, that a huge amount more progress needs to be made over the next few years. Many of us are moving in the right direction, and I very much hope that we see better representation and more varied councils, because the voices of young people are needed on councils as are the voices of ethnic minorities and the voices of women. It is not really a club for people of middle age and older.

Cymerwyd camau breision dros y 25 mlynedd diwethaf, ond rwyf yn siŵr, fel y bydd y Gweinidog yn ei ddweud yn nes ymlaen, fod angen cymryd camau breision eto dros y blynyddoedd nesaf. Mae llawer ohonom yn symud i'r cyfeiriad iawn, ac rwyf yn gobeithio'n fawr y gwelwn well cynrychiolaeth a chynghorau mwy amrywiol, oherwydd mae angen lleisiau pobl ifanc ar gynghorau, ynghyd â lleisiau lleiafrifoedd ethnig a lleisiau menywod. Nid clwb i bobl canol oed a hŷn na hynny ydyw.

15:00

## Suzy Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

May I add my thanks to the members of the group for their work on this report? I will not be able to address all of it today either. I am pleased to see the reference to the Local Government (Wales) Measure 2011 because, although this was passed by a previous assembly, we should all know what our legislation is like when it comes to achieving its aims. I draw your attention, Minister, to the final recommendation, which is no. 24.

A gaf fi ychwanegu fy niolch i aelodau'r grŵp am eu gwaith ar yr adroddiad hwn? Ni fyddaf yn gallu rhoi sylw i'r cyfan ohono heddiw ychwaith. Rwyf yn falch o weld y cyfeiriad at Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 oherwydd, er mai Cynulliad blaenorol a'i cymeradwyodd, dylem i gyd wybod sut beth yw ein deddfwriaeth o ran cyflawni ei nodau. Tynnaf eich sylw, Weinidog, at yr argymhelliad olaf, sef rhif 24.

The report acknowledges that changes could be made to the candidate survey. I recognise that the panel may have had more to say had it been able to read the minds of those who, perhaps, did not see the survey or who chose not to fill it in. Reports and policy can only be as good as the data feeding them.

Mae'r adroddiad yn cydnabod y gellid gwneud newidiadau i'r arolwg o ymgeiswyr. Rwyf yn cydnabod ei bod yn bosibl y byddai gan y panel fwy i'w ddweud pe baent wedi gallu darllen meddyliau'r rhai, efallai, na welsant yr arolwg neu a ddewisodd beidio â'i lenwi. Ni all adroddiadau a pholisïau ond bod cystal â'r data sy'n eu bwydo.

I welcome recommendation 4 and, indeed, the first nine recommendations, but I would like Welsh Government to look at their budget implications. I do not know how much the existing survey cost, but, bearing in mind its accepted shortcomings, what would it cost to make the survey the useful tool that this report and the Measure anticipated? I understand that existing funding will come to an end soon, so Welsh Government might like to go back to its financial impact assessments for the Measure and check it for accuracy before embarking on a cost-benefit analysis of the survey's significance so far.

Rwyf yn croesawu argymhelliad 4 ac, yn wir, y naw argymhelliad cyntaf, ond hoffwn i Lywodraeth Cymru edrych ar eu goblygiadau o ran y gyllideb. Nid wyf yn gwybod beth oedd cost yr arolwg presennol, ond, o gofio ei ddiffygion cydnabyddedig, beth fyddai cost gwneud yr arolwg yn offeryn defnyddiol fel y rhagwelwyd yn yr adroddiad hwn a'r Mesur? Rwyf yn deall y bydd y cyllid cyfredol yn dod i ben yn fuan, felly efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru fynd yn ôl at ei hasesiadau o effaith ariannol y Mesur a sicrhau eu bod yn gywir cyn dechrau dadansoddiad cost a budd o arwyddocâd yr arolwg hyd yma.

The report confirms many of our suspicions on why we do not have a more diverse collection of people interested in standing for election to council. I do not argue with the report's findings, particularly those highlighted by the Liberal Democrats in their amendment, which we will be supporting. The report could, perhaps, have been a little more open about why women from particular middle eastern and Indian sub-continent backgrounds are hard to reach, let alone persuade to stand for election. It might have examined whether some groups of people are more turned off than others by the prospect of fighting elections in parts of Wales where one party has dominated the landscape for so long. One of the Labour candidate case studies in the report referred to politics having been the bastion of men for many years and, as a result, women are not always taken seriously. She says that this was not her experience, but that she clearly articulated a perception, and a widely held perception at that.

Mae'r adroddiad yn cadarnhau llawer o'n hamheuon ynghylch pam nad oes gennym gasgliad mwy amrywiol o bobl â diddordeb mewn sefyll i gael eu hethol i gynghorau. Nid wyf yn dadlau â chanfyddiadau'r adroddiad, yn enwedig y rhai a nododd y Democratiaid Rhyddfrydol yn eu gwelliant; byddwn yn cefnogi'r gwelliant hwnnw. Efallai y gallai'r adroddiad fod wedi bod ychydig yn fwy agored ynghylch pam y mae menywod o rai cefndiroedd penodol o'r dwyrain canol ac is-gyfandir India yn anodd eu cyrraedd, heb sôn am eu darbwyllo i sefyll mewn etholiad. Gallai fod wedi archwilio a yw rhai grwpiau o bobl yn fwy nag eraill yn penderfynu nad ydynt am ymladd etholiadau mewn rhannau o Gymru lle y mae un blaid wedi bod yn rhan mor amlwg o'r tirlun ers cyhyd. Cyfeiriodd un o'r astudiaethau achos ar ymgeisydd Llafur yn yr adroddiad at y ffaith bod gwleidyddiaeth wedi bod yn gadarnle i ddynion ers blynyddoedd lawer ac, o ganlyniad, na chaiff menywod eu cymryd o ddifrif bob amser. Mae hi'n dweud nad dyna oedd ei phrofiad hi, ond roedd hi'n amlwg yn lleisio canfyddiad, a chanfyddiad cyffredin o ran hynny.

It is a particularly big ask, I think, if you live in a community dominated so comprehensively by one party. Imagine the situation: first, you have to convince your local party to select you, and there may be a lot of competition if you hope to replace an incumbent; when you fail, you may be asked to take the fight to a more difficult ward, perhaps more than once; eventually, your commitment and good name may—just may—get you elected; as a back-bencher, you might catch the eye of the old-boy cabinet members, or you may not—you heard what Mike Hedges said earlier. That is for someone representing the party of administration. Imagine what that offer is like for someone from an opposition party and asking them to stand in such a community.

Mae'n beth mawr iawn i'w ofyn, yn fy marn i, os ydych yn byw mewn cymuned lle mae un blaid mor amlwg. Dychmygwch y sefyllfa: yn gyntaf, rhaid ichi ddarbwyllo eich plaid leol i'ch dewis chi, ac efallai y bydd llawer o gystadleuaeth os ydych yn gobeithio cymryd lle rhywun sydd eisoes yn dal y sedd; pan fyddwch yn methu, efallai y gofynnir ichi fynd â'r frwydr i ward sy'n fwy anodd, efallai fwy nag unwaith; yn y pen draw, efallai—dim ond efallai—y bydd eich ymrwymiad a'ch enw da'n ddigon ichi gael eich ethol; fel aelod meinciau cefn, efallai y daliwch lygad un o hen gyfeillion y cabinet, neu efallai na wnewch—clywsoch yr hyn a ddywedodd Mike Hedges yn gynharach. Mae hynny i rywun sy'n cynrychioli'r blaid sy'n gweinyddu. Dychmygwch sut gynnig ydyw i aelodau o wrthblaid pan ofynnir iddynt sefyll mewn cymuned o'r fath.

It can be a difficult sell, I think, to persuade someone that, in this system it is still possible to resolve particular problems in your ward, as well as to win the day on executive decisions that may affect your constituents. You might conclude that your voice is more effective from within civil society. I believe that people are still motivated by a belief in public service, but our system still favours those who have time, energy, few responsibilities, self-belief and almost insane levels of determination. It is no wonder that most of our councillors are retired men.

Gall fod yn anodd, yn fy marn i, darbwyllo rhywun ei bod, yn y system hon, yn dal i fod yn bosibl datrys problemau penodol yn eich ward, yn ogystal ag ennill y dydd ar benderfyniadau gweithredol a allai effeithio ar eich etholwyr. Efallai y penderfynwch fod eich llais yn fwy effeithiol o'r tu mewn i'r gymdeithas sifil. Credaf fod pobl yn dal i gredu mewn gwasanaeth cyhoeddus a bod hynny'n eu hysgogi, ond mae ein system yn dal i ffafrio pobl ag amser, egni, dim llawer o gyfrifoldebau, hunangred a lefelau bron yn wallgof o benderfyniad. Nid yw'n syndod mai dynion wedi ymddeol yw'r rhan fwyaf o'n cynghorwyr.

I welcome this report with its ideas to overcome these barriers and improve interest in public service at any level. I hope that the Welsh Government will look favourably on recommendation 16, for example. I do urge caution about recommendations 21 and 22, which risk a conflict of interest in my view. Recommendation 21 especially overlooks the fact that great numbers of public sector workers are disqualified from standing for election for that very reason. We know that a high proportion of women work in the public sector, which is itself a high proportion of the Welsh workforce. I would prefer to see a fresh look at disqualification criteria, at the school and college curriculum and at the kind of direct relationships referred to in the report as less problematic ways forward.

Croesawaf yr adroddiad hwn a'i syniadau i oresgyn y rhwystrau hyn a hybu diddordeb mewn gwasanaeth cyhoeddus ar bob lefel. Rwyf yn gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru'n edrych yn ffafriol ar argymhelliad 16, er enghraifft. Rwyf yn annog gofal gydag argymhellion 21 a 22, sy'n peri risg o wrthdaro buddiannau yn fy marn i. Mae argymhelliad 21 yn enwedig yn anwybyddu'r ffaith bod niferoedd mawr o weithwyr y sector cyhoeddus wedi'u gwahardd rhag sefyll mewn etholiad am yr union reswm hwnnw. Gwyddom fod cyfran uchel o fenywod yn gweithio yn y sector cyhoeddus, sydd ynddo'i hun yn gyfran uchel o weithlu Cymru. Byddai'n well gennyf edrych o'r newydd ar y meini prawf anghymwyso, ar gwricwla ysgolion a cholegau ac ar y math o berthynas uniongyrchol y cyfeirir ati yn yr adroddiad fel ffordd lai problematig ymlaen.

Finally, I accept that political parties can act to improve more diverse representation from their own ranks. There is a factual error on page 16 of the report. Welsh Conservatives have used positive action in both European and Assembly regional elections, but, beyond that, I will just acknowledge that we aspire more highly than we have achieved, shall we say. Our party will be giving close consideration to the recommendations of this report, and of others, to help us better reflect the communities that we serve in Wales.

Yn olaf, rwyf yn derbyn y gall pleidiau gwleidyddol gymryd camau i wella cynrychiolaeth fwy amrywiol o'u rhengoedd eu hunain. Mae gwall ffeithiol ar dudalen 16 yr adroddiad. Mae Ceidwadwyr Cymru wedi cymryd camau cadarnhaol yn etholiadau rhanbarthol Ewrop a'r Cynulliad, ond, y tu hwnt i hynny, rwyf yn cydnabod ein bod yn anelu'n uwch na'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni, os caf ddweud hynny. Bydd ein plaid yn rhoi ystyriaeth fanwl i argymhellion yr adroddiad hwn, ac eraill, i'n helpu i adlewyrchu'n well y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu yng Nghymru.

15:04

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

When this report was launched in Tŷ Hywel a couple of weeks ago, it was excellent to hear from five people who represented the sort of people that we want to bring into local government to refresh it, and make it look more like the community that we endeavour to serve. We had a young mother from Monmouthshire, we had an independent councillor from Cardiff, a young man from Torfaen, Councillor Ali from Newport, as Lesley Griffiths has already mentioned, and Ellen ap Gwynn, the leader of Ceredigion County Council. All of them have a role to play in ensuring that people in our community know that it is not just older men who are expected to become councillors. We have to do something to make our councils much more representative of our communities.

Pan lansiwyd yr adroddiad hwn yn Nhŷ Hywel rai wythnosau'n ôl, roedd yn wych clywed gan bump o bobl a oedd yn cynrychioli'r math o bobl yr ydym yn awyddus i'w denu i lywodraeth leol er mwyn ei hadfywio, ac er mwyn gwneud iddi edrych yn debycach i'r gymuned yr ydym yn ceisio'i gwasanaethu. Roedd mam ifanc o Sir Fynwy, cynghorydd annibynnol o Gaerdydd, gŵr ifanc o Dorfaen, y Cynghorydd Ali o Gasnewydd, y mae Lesley Griffiths eisoes wedi sôn amdano, ac Ellen ap Gwynn, arweinydd Cyngor Sir Ceredigion. Mae gan bob un ohonynt ran i'w chwarae i sicrhau bod pobl yn ein cymuned yn gwybod nad dim ond dynion hŷn y disgwylir iddynt ddod yn gynghorwyr. Rhaid inni wneud rhywbeth i wneud ein cynghorau'n fwy cynrychiadol o lawer o'n cymunedau.

The fact that 28% of councillors in Wales are women means that we still have not achieved the critical mass that is required, which is that a third of any body needs to be a woman in order to make it not an issue. Otherwise, they just get drowned by the dominant culture.

Mae'r ffaith bod 28% o gynghorwyr yng Nghymru'n fenywod yn golygu nad ydym wedi cyflawni'r màs critigol sydd ei angen o hyd, sef bod angen i draean o unrhyw gorff fod yn fenywod er mwyn i hyn beidio â bod yn broblem. Fel arall, cânt eu boddi gan y diwylliant sydd gryfaf.

We have to agree collectively that we all need to do something about it, and I am delighted to hear from Lesley Griffiths that she has had conversations with leaders of the opposition parties to find out about some of the excellent things that they are planning to do. So, that is really good. However, the scale of the task is considerable. We were very proud that we had achieved gender parity in 1999 in the National Assembly, but we have dropped the baton, and that accolade is now held by the national assembly of Ecuador. If they can do it, then any organisation across Wales ought to be able to achieve that balance.

Rhaid inni gytuno gyda'n gilydd fod angen inni i gyd wneud rhywbeth am hyn, ac rwyf yn falch iawn o glywed gan Lesley Griffiths ei bod wedi cael sgyrsiau ag arweinwyr y gwrthbleidiau i gael gwybod am rai o'r pethau gwych y maent yn bwriadu eu gwneud. Felly, mae hynny'n dda iawn. Fodd bynnag, mae maint y dasg yn sylweddol. Roeddem yn falch iawn ein bod wedi sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn 1999 yn y Cynulliad Cenedlaethol, ond rydym wedi gollwng y baton, a chynulliad cenedlaethol Ecuador sy'n gallu hawlio'r llwyddiant hwnnw erbyn hyn. Os gallant hwy wneud hynny, dylai unrhyw sefydliad yng Nghymru allu sicrhau'r cydbwysedd hwnnw.

At the moment, only 14% of health board chairs are women, 18% of Welsh MPs are women, there is only one female local authority leader, and no female police commissioners. So, it is not just local government that needs to change. Achieving that critical mass of at least a third of female representation across public positions is something that we have to achieve across all public bodies.

Ar hyn o bryd, dim ond 14% o gadeiryddion byrddau iechyd sy'n fenywod, 18% o ASau Cymru sy'n fenywod, dim ond un arweinydd awdurdod lleol sy'n fenyw, ac nid oes yr un comisiynydd heddlu'n fenyw. Felly, nid dim ond llywodraeth leol sydd angen newid. Mae cyflawni'r màs critigol hwnnw o un rhan o dair o leiaf o fenywod mewn swyddi cyhoeddus yn rhywbeth y mae'n rhaid inni ei gyflawni ar draws pob corff cyhoeddus.

The Welsh Government and the National Assembly for Wales are working on diversifying our appointment system. For example, the new board of the Wales Audit Office is 40% women and includes its chair. The new European programme monitoring committee is 50% women. Those are very important, in my mind, to ensure that the decisions taken by those bodies reflect the diversity of the community that we are serving.

Mae Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru'n gweithio ar amrywio ein system benodiadau. Er enghraifft, mae 40% o fwrdd newydd Swyddfa Archwilio Cymru'n fenywod, gan gynnwys y cadeirydd. Mae 50% o'r pwyllgor monitro rhaglenni Ewropeaidd newydd yn fenywod. Mae'r rhain yn bwysig iawn, yn fy marn i, er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau y mae'r cyrff hynny'n eu gwneud yn adlewyrchu amrywiaeth y gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu.

However, as an Assembly, we do not have any direct influence over what goes on in local government; it is our parties that have that. A study that was picked up in this report, published last year, called 'Last in, first out—Gendered patterns of local councillor dropout', highlights that women are much more likely to drop out of local government and then to drop out of political activity altogether. So, even though we are making progress on the one hand, there is a serious danger that we will simply drop back on the other. The report's proposal that there should be exit interviews with retiring councillors is a very good one, to try to identify the reasons for that drop-out and whether it is because of a male-dominated agenda that is not resonating with people who want to serve their communities. Is that the explanation as to why there is such a shortage of affordable childcare across Wales—because of the lack of women in local government?

Fodd bynnag, fel Cynulliad, nid oes gennym unrhyw ddylanwad uniongyrchol dros yr hyn sy'n digwydd mewn llywodraeth leol; ein pleidiau sy'n gallu dylanwadu ar hynny. Mae astudiaeth a gafodd sylw yn yr adroddiad hwn, a gyhoeddwyd y llynedd, o'r enw 'Last in, first out—Gendered patterns of local councillor dropout ', yn tynnu sylw at y ffaith bod menywod yn fwy tebygol o lawer o adael llywodraeth leol ac yna roi'r gorau i weithgareddau gwleidyddol yn gyfan gwbl. Felly, er ein bod yn gwneud cynnydd ar y naill law, mae perygl difrifol y byddwn yn disgyn yn ôl ar y llaw arall. Mae cynnig yr adroddiad y dylid cynnal cyfweliadau gadael â chynghorwyr sy'n ymddeol yn un da iawn, i geisio cael gwybod pam eu bod yn gadael ac a yw'n digwydd oherwydd agenda wrywaidd i bob pwrpas nad yw'n taro deuddeg â phobl sydd am wasanaethu eu cymunedau. Ai dyna sy'n egluro'r fath brinder gofal plant fforddiadwy ledled Cymru—y diffyg menywod mewn llywodraeth leol?

There are also widespread implications for the scrutiny process, which was picked up by Paul Williams. The evidence he received showed that there was a greater risk to organisations that do not bring in new perspectives and approaches from outside the organisation. Over time, they can potentially limit the diversity in the organisation, making it insular in its vision and becoming hardened to change, and hardened to change at a time when no change is not an option. This serves as a warning that if local democracy does not diversify, there is a danger that citizens and even councillors themselves become passive recipients of council decisions, accepting what is decided without debate, inquiry or even interest. What will local authorities look like in 20 years' time? We have to ensure that they are forward-looking, outward-looking organisations that are doing their best to make the difficult decisions that face local government and to do more with less money.

Mae goblygiadau eang o ran y broses graffu hefyd, fel y nododd Paul Williams. Dangosodd y dystiolaeth a gafodd ef fod mwy o risg i sefydliadau nad ydynt yn cyflwyno safbwyntiau ac ymagweddau newydd o'r tu allan i'r sefydliad. Dros amser, gallant o bosibl gyfyngu ar yr amrywiaeth yn y sefydliad, a'i wneud yn blwyfol ei weledigaeth ac yn wrthwynebus i newid, ac yn wrthwynebus i newid ar adeg pan nad yw peidio â newid yn opsiwn. Dyma rybudd fod perygl, oni cheir amrywiaeth mewn democratiaeth leol, y bydd dinasyddion a hyd yn oed gynghorwyr eu hunain yn derbyn penderfyniadau'r cynghorau'n oddefol, ac yn derbyn yr hyn a benderfynir heb ddadlau, ymchwilio na diddordeb hyd yn oed. Sut y bydd awdurdodau lleol yn edrych ymhen 20 mlynedd? Rhaid inni sicrhau eu bod yn sefydliadau sy'n edrych tuag ymlaen a thuag allan ac sy'n gwneud eu gorau i wneud y penderfyniadau anodd sy'n wynebu llywodraeth leol, ac i wneud mwy â llai o arian.

15:10

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
[Fideo] [Video]

Weinidog, rwy'n croesawu'n fawr iawn eich datganiad chi y prynhawn yma. Rwy'n credu bod y pwnc yma yn eithriadol o bwysig. Rwy'n eich sicrhau chi ein bod ni wedi ymrwymo, mewn egwyddor, i gefnogi'r hyn yr ydych chi'n ceisio ei gyflawni. Rydym yn croesawu'n fawr iawn adroddiad yr Athro Laura McAllister a'i grŵp arbenigol, ond, fel sydd wedi'i nodi gan nifer o gyfranwyr y prynhawn yma—nid wyf am ailadrodd y datganiadau hynny—mae problemau ymarferol yn ein hwynebu ni.

Minister, I very much welcome your statement this afternoon. I believe that this issue is exceptionally important. I assure you that we are committed, in principle, to supporting what you are trying to achieve. We very much welcome the report of Professor Laura McAllister and her expert group, but, as noted by a number of contributors this afternoon—and I do not want to repeat those statements—there are practical problems that we face.

Un peth yw dweud y dylid sicrhau bod menywod yn cael eu henwebu yn ymgeiswyr mewn 40% o seddi enilladwy; peth arall yw sicrhau bod hynny'n digwydd. Mae'n rhaid inni fynd at graidd y diwylliant o ddewis ymgeiswyr ac mae hynny, hwyrach, yn arbennig o wir yn achos llywodraeth leol, yn fwy felly na'r diwylliant sy'n ymwneud â dewis ymgeiswyr ar gyfer y lle yma, a hyd yn oed San Steffan. Mae'n rhaid inni hefyd sicrhau ein bod ni'n gallu annog menywod i roi eu henwau gerbron. Mae problem ar hyn o bryd, a hwyrach fod y broblem honno'n ymwneud â'r ffaith nad ydynt yn cael eu dewis ar gyfer seddi enilladwy a'u bod nhw'n teimlo nad oes fawr o bwynt iddyn nhw wneud yr ymdrech i gyflwyno eu henwau os ydyn nhw'n mynd i gael eu gosod mewn seddi nad oes gobaith ganddynt eu hennill.

It is one thing to say that it should be ensured that women are nominated as candidates in 40% of the winnable seats, but it is quite another thing to ensure that that happens. We must get to the crux of the culture of candidate selection and that, perhaps, is particularly true of local government, more so than the culture related to selecting candidates for this place, and possibly for Westminster. We must also ensure that we can encourage women to put their names forward. There is a problem at present, and that problem perhaps appertains to the fact that they are not selected for the winnable seats and that they therefore feel that there is little point in them making the effort to put their names forward if they are going to be selected for unwinnable seats.

Mae'n rhaid inni, rywsut neu'i gilydd, annog llawer iawn mwy o fenywod i gyflwyno eu henwau gerbron fel ymgeiswyr. Fel y byddwch chi'n gwybod—mae'n siŵr bod Leanne Wood wedi codi'r mater hwn gyda chi—rydym ni fel plaid am fynd ymhellach. Rydym am weld yr egwyddor hon wedi'i hymgorffori mewn deddfwriaeth, a fydd yn sicrhau bod llywodraeth leol yn gynrychioliadol o'r bobl y mae fod i'w cynrychioli. Yn y cyd-destun hwnnw, wrth gwrs, mae ystod o amrywiaethau sydd angen eu sicrhau o ran y gynrychiolaeth ar awdurdodau lleol. Weinidog, rwy'n gobeithio y gallwn ni symud ymlaen yn drawsbleidiol ar y mater hwn ac y gallwn ni sicrhau bod y pleidiau yn mynegi eu cefnogaeth i'r hyn yr ydych chi'n ceisio ei wneud. Rwy'n gobeithio hefyd y bydd ewyllys ar lawr daear i sicrhau bod hyn yn digwydd a'n bod ni'n mynd i'r afael â'r rhwystrau ymarferol.

We must, one way or another, encourage many more women to put their names forward as candidates. As you know—I am sure that Leanne Wood has raised this issue with you—we as a party wish to go further. We want to see this principle enshrined in legislation, which will ensure that local government is representative of the people it is supposed to represent. In that context, of course, a broad range of diverse representation needs to be achieved in local authorities. Minister, I hope we can move forward on a cross-party basis on this issue and that we can ensure that the parties express their support for what you are trying to do. I also hope that the will will exist on the ground to ensure that this happens and that we can get to grips with the practical obstacles.

Rydym yn hapus iawn i gefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol, oherwydd mae'n rhaid mynd i'r afael â'r problemau ymarferol hyn os ydym ni'n mynd i sicrhau bod hyn yn digwydd. Fel gair o rybudd, Weinidog, rydym wedi bod yn trafod cynrychiolaeth deg am y 15 mlynedd yr wyf wedi bod yn Aelod o'r lle hwn, ar bob lefel o gynrychiolaeth wleidyddol. Nid oes digon wedi digwydd. Mae rhyw gymaint o newid wedi bod—hwyrach bod y lle hwn wedi bod yn esiampl dda, ac yn well yn y gorffennol nag y mae yn awr—ond mae'n bwysig iawn ein bod ni'n sicrhau bod cefnogaeth yma gan aelodau ein pleidiau ni a bod teimlad o feddiant ar y symudiadau hyn. Yn y gorffennol, weithiau, pan mae hyn wedi cael ei orfodi ar bobl, mae gwrthwynebiad wedi bod. Felly, rydym yn croesawu'n fawr iawn eich datganiad chi. Byddwn ni'n gefnogol ac yn ceisio cydweithio gyda chi, ond rydym ni'n ymwybodol bod talcen caled yn eich wynebu chi, Weinidog, o ran llwyddo yn y mater yma.

We are very happy to support the Liberal Democrat amendment, because we have to address the practical problems if we are going to ensure that this happens. As a word of caution, Minister, we have been discussing fair and equal representation for the 15 years I have been a Member of this place, at all levels of political representation. Not enough has happened. There has been a slight change—and perhaps this place has been exemplar, and probably better in the past than it is currently—but it is very important that we ensure that there is support here from our party members and that there is a feeling of ownership of these proposals. In the past, at times, when this has been imposed on people, there has been opposition. Therefore, we very much welcome your statement. We will give our support and will endeavour to collaborate with you, but we are aware that you have a hard task ahead, Minister, in terms of succeeding in this matter.

15:14

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

May I also start off by congratulating Councillor Phil Bale, who is 36 years old and, last night, won the leadership of Cardiff Council? He will be a loss to my office, but I am sure that we all wish him luck in taking on the leadership of the capital city of Wales.

A gaf finnau hefyd ddechrau drwy longyfarch y Cynghorydd Phil Bale, sy'n 36 mlwydd oed ac a ddaeth yn arweinydd Cyngor Caerdydd neithiwr? Bydd yn golled i'm swyddfa i, ond rwyf yn siŵr ein bod i gyd yn dymuno pob lwc iddo wrth arwain prifddinas Cymru.

As the Minister mentioned in her introduction, there is no doubt that local government has been dominated by older, white males. The introduction to the report stresses that the traditional dominance by older white males was probably reinforced by the effect of local government reorganisation in 1996, when women and younger, less well-established candidates tended to lose out to more established males. At that time, the sole woman leader in Wales, the then leader of Cardiff City Council, Sue Essex, who later became a Minister here, lost out to the male leader of South Glamorgan County Council, as it was then. This is an example, among others, of how reorganisation in the past has perpetuated stereotypes. So, I think that it is very important that, with local government reorganisation looking likely, we make sure that the Williams commission is an opportunity to ensure as far as possible that women and younger people are not disadvantaged in this process. I think that we have all acknowledged today that we have not made much progress but that we want to protect the progress we have made and make more opportunities available.

Fel y dywedodd y Gweinidog yn ei chyflwyniad, nid oes amheuaeth nad yw llywodraeth leol wedi ei dominyddu gan ddynion hŷn, gwyn. Mae'r cyflwyniad i'r adroddiad yn pwysleisio ei bod yn debygol bod effaith ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996 wedi atgyfnerthu'r oruchafiaeth draddodiadol gan ddynion gwyn hŷn, pan dueddai menywod ac ymgeiswyr iau, llai sefydledig i golli yn erbyn dynion mwy sefydledig. Ar y pryd, collodd yr unig fenyw a oedd yn arweinydd yng Nghymru, arweinydd Cyngor Dinas Caerdydd ar y pryd, Sue Essex, a ddaeth yn Weinidog yma, yn erbyn arweinydd gwrywaidd Cyngor Sir De Morgannwg, fel yr oedd bryd hynny. Dyma un enghraifft, ymhlith eraill, o'r ffordd y mae ad-drefnu yn y gorffennol wedi caniatáu i ystrydebau barhau. Felly, rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig iawn, gan ei bod yn edrych yn debygol y bydd ad-drefnu eto ar lywodraeth leol, inni wneud yn siŵr bod comisiwn Williams yn gyfle i sicrhau cyn belled ag y bo modd nad yw menywod a phobl ifanc dan anfantais yn y broses hon. Credaf ein bod i gyd wedi cydnabod heddiw nad ydym wedi gwneud llawer o gynnydd, ond yr hoffem ddiogelu'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud a sicrhau bod mwy o gyfleoedd ar gael.

Last Saturday, I was in a meeting in Gorseinon near Swansea promoting the charter for women. This is an internal grassroots campaign within the Labour Party to improve the representation of women at every level of Government, including local government. There were a number of women councillors from Swansea council there. Following on from what my colleague Mike Hedges has said about Swansea council, it was very interesting to hear their experiences and to acknowledge the fact that Swansea tops the list with the number of women councillors in Wales, with 39%. My own council of Cardiff is third with 35%. That is progress; it is more than there has been before, but, of course, it is still not enough. However, one of the points made at this meeting, which was not particularly in relation to Swansea council, because, as Mike Hedges says, it has one of the youngest cabinet members—probably the youngest cabinet member—in Wales, was that it is not good enough just to get women into elected positions. It is essential that they have the opportunity to use their unique perspectives to take up cabinet positions and the other positions that often attract a salary and which may address some of the issues that have also been raised today about the allowances. I do not know whether the Minister has any analysis of the percentage of women in cabinet positions in local government in Wales or whether she is able to find out what those figures are.

Ddydd Sadwrn diwethaf, bûm mewn cyfarfod yng Ngorseinon ger Abertawe i hyrwyddo'r siarter menywod. Ymgyrch fewnol ar lawr gwlad o fewn y Blaid Lafur yw hon i wella cynrychiolaeth menywod ar bob lefel o Lywodraeth, gan gynnwys llywodraeth leol. Roedd nifer o gynghorwyr benywaidd o gyngor Abertawe yno. O ran yr hyn a ddywedodd fy nghydweithiwr Mike Hedges am gyngor Abertawe, roedd yn ddiddorol iawn clywed eu profiadau a chydnabod y ffaith bod Abertawe ar frig y rhestr o ran nifer y menywod sy'n gynghorwyr yng Nghymru, sef 39%. Fy nghyngor i, Caerdydd, sy'n drydydd â 35%. Mae hynny'n gynnydd; mae'n fwy nag a fu o'r blaen, ond, wrth gwrs, nid yw'n ddigon o hyd. Fodd bynnag, un o'r pwyntiau a wnaethpwyd yn y cyfarfod hwn, nad oedd yn ymwneud yn benodol â chyngor Abertawe, oherwydd, fel y dywed Mike Hedges, mae ganddynt un o'r aelodau cabinet ieuengaf—yn ôl pob tebyg yr aelod cabinet ieuengaf—yng Nghymru, oedd nad yw'n ddigon sicrhau bod menywod yn cael swyddi etholedig. Mae'n hollbwysig eu bod yn cael cyfle i ddefnyddio eu safbwyntiau unigryw i gael swyddi cabinet a'r swyddi eraill sy'n aml yn ennill cyflog ac a allai unioni rhai o'r materion sydd hefyd wedi cael eu codi heddiw am y lwfansau. Nid wyf yn gwybod a oes gan y Gweinidog ddadansoddiad o ganran y menywod mewn swyddi cabinet mewn llywodraeth leol yng Nghymru neu a allai gael gwybod beth yw'r ffigurau hynny.

The working party report says that the greatest barrier is undoubtedly the general reduction in, and alienation from, political activity. This seems to me to be the key point, because I do not think that we will get good representation from a wide range of people in the community unless we generally have a more open, more welcoming and less tribal atmosphere at all levels of government. In a way, this goes beyond the proposals from the working group, which I think are excellent and generally welcomed by everybody here, as were the recommendations of the Local Government (Wales) Measure 2011. However, the atmosphere in many local authorities is confrontational and can be antagonistic. I think that this is an issue that must be tackled. I feel, Minister, that we have these excellent recommendations, but how do we make the atmosphere of politics more welcoming and more open so that people who have ideas and want to go into politics because they want to achieve policy objectives have the opportunity to do that? It is difficult to do that in local government, and many women in particular have told me about the problems that they experience in trying to get their voices listened to seriously and to have it recognised that they have a serious contribution to make.

Mae adroddiad y gweithgor yn dweud mai'r rhwystr mwyaf yn ddi-os yw bod llai o weithgarwch gwleidyddol yn gyffredinol, ac ymddieithrio oddi wrth y gweithgarwch hwnnw. Mae'n ymddangos i mi mai dyma yw'r pwynt allweddol, oherwydd nid wyf yn meddwl y cawn gynrychiolaeth dda o blith ystod eang o bobl yn y gymuned oni fydd awyrgylch mwy agored, mwy croesawgar a llai llwythol yn gyffredinol ar bob lefel o lywodraeth. Mewn ffordd, mae hyn yn mynd y tu hwnt i gynigion y gweithgor, sy'n ardderchog yn fy marn i ac wedi cael croeso cyffredinol gan bawb yma, fel y cafodd argymhellion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Fodd bynnag, mae'r awyrgylch mewn llawer o awdurdodau lleol yn un o wrthdaro, a gall fod yn elyniaethus. Rwyf yn meddwl bod hwn yn fater y mae'n rhaid ymdrin ag ef. Fy nheimlad i, Weinidog, yw bod gennym yr argymhellion rhagorol hyn, ond sut mae mynd ati i wneud awyrgylch gwleidyddiaeth yn fwy croesawgar ac yn fwy agored fel y gall pobl a chanddynt syniadau ac sy'n awyddus i fynd i mewn i wleidyddiaeth er mwyn cyflawni amcanion polisi gael cyfle i wneud hynny? Mae'n anodd gwneud hynny mewn llywodraeth leol, ac mae llawer o fenywod yn enwedig wedi dweud wrthyf am y problemau y maent yn eu cael wrth geisio cael gwrandawiad teg a chael pobl i gydnabod bod ganddynt gyfraniad difrifol i'w wneud.

15:19 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Deputy Presiding Officer, having spent many happy years in local government at town and county level, holding the positions of the mayor of Llandudno, Conwy county borough councillor, cabinet member in Conwy, the Welsh Conservative group leader of 22 and chairman of the principal scrutiny committee, I must confess to, at times in the early days in particular, feeling to be one of a rare breed. In fact, it has to be said that I think that some of my friends thought that I was odd. I had a daughter of four and suddenly, I was going out of an evening to meetings, when you could argue that many people in those days thought, 'No; you should be at home'. I remember vividly telling my husband that I would probably only be out two nights a month. In fact, I should have said that I would probably only be in one night a month.

Ddirprwy Lywydd, ar ôl treulio llawer blwyddyn hapus mewn llywodraeth leol ar lefel tref a sir, a dal swyddi maer Llandudno, cynghorydd bwrdeistref sirol Conwy, aelod cabinet yng Nghonwy, arweinydd grŵp Ceidwadwyr Cymru o 22 a chadeirydd y prif bwyllgor craffu, rhaid imi gyfaddef, yn arbennig ar adegau yn y dyddiau cynnar, imi deimlo'n un o frid prin. Yn wir, rhaid dweud fy mod yn meddwl bod rhai o fy ffrindiau'n meddwl fy mod yn rhyfedd. Roedd gennyf ferch pedair oed ac yn sydyn, roeddwn yn mynd allan gyda'r nos i gyfarfodydd, pan ellid dadlau bod llawer o bobl yn y dyddiau hynny'n meddwl, 'Na, dylech fod gartref'. Rwyf yn cofio'n glir imi ddweud wrth fy ngŵr mai dim ond ddwy noson y mis y byddwn allan yn ôl pob tebyg. Mewn gwirionedd, dylwn fod wedi dweud mai dim ond un noson y mis y byddwn gartref yn ôl pob tebyg.

However, I have to say that things are changing. Whereas people thought it odd in those days, now, I find that people ask me, 'How did you get into politics?' and 'How would I do that?' and I support them and help them to follow the sort of career that I have—not so much a career, but a vocation, with a love of what I do.

Fodd bynnag, rhaid imi ddweud bod pethau'n newid. Roedd pobl yn meddwl ei bod yn rhyfedd yn y dyddiau hynny, ond yn awr mae pobl yn gofyn imi, 'Sut y daethoch chi'n rhan o fyd gwleidyddiaeth?' a 'Sut y gallaf fi wneud hynny?' ac rwyf yn eu cefnogi ac yn eu helpu i ddilyn y math o yrfa sydd gennyf fi—nid gyrfa mohoni, yn gymaint â galwedigaeth, a charaf yr hyn yr wyf yn ei wneud.

Despite previous workshops and reports, it has to be acknowledged that we still have much to do to ensure that all five levels of elected democracy and governance across Wales encompass a balance that is far more representative of those we aim to serve and on whose behalf we often speak, in our community councils, but also in our local authorities. I have been eagerly awaiting this particular report and agree in paying tribute to the group and the chair, Professor Laura McAllister, for their hard work.

Er gwaethaf y gweithdai a'r adroddiadau blaenorol, rhaid cydnabod bod gennym lawer i'w wneud o hyd i sicrhau bod cydbwysedd mwy cynrychioliadol o lawer ar bob un o'r pum lefel o ddemocratiaeth a llywodraethu etholedig ledled Cymru o'r bobl yr ydym yn ceisio'u gwasanaethu ac yr ydym yn aml yn siarad ar eu rhan, yn ein cynghorau cymuned, ond hefyd yn ein hawdurdodau lleol. Rwyf wedi bod yn aros yn eiddgar am yr adroddiad penodol hwn ac rwyf finnau hefyd am dalu teyrnged i'r grŵp a'r cadeirydd, yr Athro Laura McAllister, am eu gwaith caled.

In the foreword, Laura mentions that far too many councillors are elected without contest. This is a really sad fact—Blaenau Gwent at 86%, with 59 seats uncontested; Conwy at 282 seats, 71%, and Powys at 87%, with 904 seats uncontested. So, clearly, we are getting something wrong; that should not be the case. Anyone who has been in politics in local government will tell you that the co-option process does leave rather much to be desired. Quite often, it is middle-aged men who decide that they want their chums to be co-opted. I am a great believer that we should be going forward with elections. As regards transparency, the elected process does bring more awareness and opportunity for community-minded individuals to step forward and become fully elected, valued members of our communities.

Yn y rhagair, mae Laura'n crybwyll bod gormod o gynghorwyr o lawer yn cael eu hethol yn ddiwrthwynebiad. Mae hon yn ffaith drist iawn—86% yw'r ganran ym Mlaenau Gwent, lle mae 59 o seddi diwrthwynebiad, 282 o seddi yng Nghonwy, sef 71%, ac 87% ym Mhowys, lle mae 904 o seddi diwrthwynebiad. Felly, yn amlwg, rydym yn gwneud rhywbeth o'i le; ni ddylai hynny fod yn digwydd. Bydd unrhyw un sydd wedi bod mewn gwleidyddiaeth mewn llywodraeth leol yn dweud wrthych fod y broses gyfethol ymhell o fod yn foddhaol. Yn aml iawn, dynion canol oed sy'n penderfynu eu bod am i'w cyfeillion gael eu cyfethol. Rwyf yn credu'n gryf y dylem fod yn symud ymlaen ag etholiadau. O ran tryloywder, mae'r broses etholedig yn dod â mwy o ymwybyddiaeth a chyfleoedd i unigolion cymunedol eu meddylfryd i gamu ymlaen a dod yn aelodau gwerthfawr o'n cymunedau, wedi'u hethol yn llawn.

Moving on, the introduction by the Minister for Local Government and Government Business refers to a motion that was passed in May 2013 about the necessity of advocating efficient, open, transparent and accountable local democracy and scrutiny, which certainly resonates with me. However, we have seen shocking examples of some authorities refusing to allow light to be shone on proceedings. There is no greater example than when Jacqui Thompson—a community-minded female—found herself arrested for using a mobile camera in the public gallery. Only last week, we saw mention of Pennard Community Council in Swansea electing to change its standing orders to prohibit tweeting during a council meeting. This is archaic and is a draconian approach. This, combined with a series of issues around transparency in Carmarthenshire, Caerphilly and Pembrokeshire, does nothing to encourage people, let alone people of a more diverse background, to come forward.

A symud ymlaen, mae'r cyflwyniad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth yn cyfeirio at y cynnig a basiwyd ym mis Mai 2013 ynghylch yr angen i hyrwyddo democratiaeth a chraffu lleol effeithlon, agored, tryloyw ac atebol, ac mae hynny'n sicr yn taro deuddeg i mi. Fodd bynnag, gwelsom enghreifftiau syfrdanol o rai awdurdodau'n gwrthod gadael i oleuni gael ei daflu ar eu trafodion. Nid oes enghraifft well na phan gafodd Jacqui Thompson—menyw gymunedol ei meddylfryd—ei harestio am ddefnyddio camera symudol yn yr oriel gyhoeddus. Dim ond yr wythnos diwethaf, clywsom sôn am Gyngor Cymuned Pennard yn Abertawe'n dewis newid ei reolau sefydlog i wahardd trydar yn ystod cyfarfodydd y cyngor. Mae hyn yn hen ffasiwn ac yn ddraconaidd. Nid yw hyn, na chyfres o faterion o ran tryloywder yn sir Gaerfyrddin, Caerffili a sir Benfro, yn gwneud dim i annog pobl, heb sôn am bobl o gefndiroedd mwy amrywiol, i'w cynnig eu hunain.

The local government Measure 2011, while seeking to implement many of the 35 recommendations of the councillor commission expert panel in Wales, has started to put in some good mechanisms, but we are not there. For us to move forward, it is not about the number of recommendations that are in the report, but more about which of those are a determined and pragmatic way forward to implement absolute change. I acknowledge that the Measure introduces a requirement on principal councils to conduct surveys, and send in data for analysis to the Welsh Government, but I would like to see more disabled people coming forward, for instance. The UK Government has a fund in place to offer individual grants to support this and I believe that that fund is only until about May this year. I would ask the Minister what considerations and evaluations she has taken with regard to having a similar scheme here in Wales.

Mae Mesur llywodraeth leol 2011, wrth geisio gweithredu sawl un o 35 argymhelliad panel arbenigol comisiwn y cynghorwyr yng Nghymru, wedi dechrau cyflwyno rhai mecanweithiau da, ond nid ydym wedi cyrraedd pen y daith. Er mwyn inni symud ymlaen, nid yw'n fater o nifer yr argymhellion sydd yn yr adroddiad, ond o ba rai o'r rheini sy'n ffordd benderfynol a phragmatig ymlaen er mwyn gweddnewid pethau. Rwyf yn cydnabod bod y Mesur yn cyflwyno rheidrwydd ar brif gynghorau i gynnal arolygon, ac anfon data i Lywodraeth Cymru i'w dadansoddi, ond hoffwn weld mwy o bobl anabl yn eu cynnig eu hunain, er enghraifft. Mae cronfa ar gael gan Lywodraeth y DU i gynnig grantiau unigol i gefnogi hyn a chredaf mai dim ond tan tua mis Mai eleni y bydd y gronfa honno ar gael. Hoffwn ofyn i'r Gweinidog pa ystyriaethau a gwerthusiadau y mae wedi'u cynnal ynghylch cael cynllun tebyg yma yng Nghymru.

Why are we not pushing for elections to see our young members engaged with a more democratic approach, thereby raising the awareness and the importance of serving one's community? I think that the media have a lot to do with that. I note the reference to senior members of Plaid Cymru engaging directly.

Pam nad ydym yn galw am etholiadau i weld ein haelodau ifanc yn ymgysylltu ag ymagwedd fwy democrataidd, a thrwy hynny hybu ymwybyddiaeth a phwysigrwydd gwasanaethu eich cymuned? Credaf fod a wnelo'r cyfryngau lawer â hynny. Nodaf y cyfeiriad at uwch aelodau Plaid Cymru'n ymgysylltu'n uniongyrchol.

I really do endorse this report. However, as with many of the reports that come before us, the proof of the pudding will be in the eating. Let us hope that, in another five years, we are not still having the debate about how we can attract more diversity into our local government.

Rwyf yn cymeradwyo'r adroddiad hwn yn gryf. Fodd bynnag, fel sy'n wir am lawer o'r adroddiadau a ddaw ger ein bron, wrth ei flas mae profi pwdin. Gadewch inni obeithio na fyddwn, ymhen pum mlynedd arall, yn dal i gael y ddadl ynghylch sut y gallwn ddenu mwy o amrywiaeth i'n llywodraeth leol.

15:24

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*

I would like to thank all Members for their contributions. As I said in my opening remarks, I thank the leaders of the opposition parties for their very constructive opening discussions with me. It was very interesting to hear Members' views of their times as councillors—a few Members have been councillors and some still are councillors. Peter Black, I did not know that you had been a councillor for so many years. Obviously, we have seen things improve in that time. I think that you are also right; it is absolutely about diversity. It is not just about women, but about all under-represented groups.

Hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau am eu cyfraniadau. Fel y dywedais yn fy sylwadau agoriadol, carwn ddiolch i arweinwyr y gwrthbleidiau am eu trafodaethau agoriadol adeiladol iawn â mi. Roedd yn ddiddorol iawn clywed barn yr Aelodau am eu gwaith fel cynghorwyr—mae rhai Aelodau wedi bod yn gynghorwyr a rhai'n dal i fod yn gynghorwyr. Peter Black, nid oeddwn yn gwybod eich bod wedi bod yn gynghorydd am gynifer o flynyddoedd. Wrth gwrs, rydym wedi gweld pethau'n gwella yn y cyfnod hwnnw. Rwyf yn meddwl eich bod hefyd yn iawn; mater o amrywiaeth yw hyn. Nid ydym yn sôn am fenywod yn unig, ond am bob grŵp sydd wedi'i dangynrychioli.

*Daeth y Llywydd i'r Gadair am 16:25.*

*The Presiding Officer took the Chair at 16:25.*

## Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You referred to targets, and, obviously, targets can be perverse, but the recommendation from this report was for 40% of female candidates in winnable seats.

Cyfeiriasoch at dargedau, ac, wrth gwrs, gall targedau fod yn wrthnysig, ond argymhelliad yr adroddiad hwn oedd fod angen 40% o ymgeiswyr benywaidd mewn seddi y gellir eu hennill.

I think that you are quite right; it is about all tiers of government, but this report focused on local government, and I think that it is more of an issue in local government, because so many candidates are needed. We are talking about 1,200 councillors in Wales. If you multiply that by three, you are talking about a large number of councillors, and candidates also.

Credaf eich bod yn llygad eich lle; mae'n ymwneud â phob haen o lywodraeth, ond roedd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar lywodraeth leol, ac rwyf yn credu ei bod yn fwy o broblem mewn llywodraeth leol, oherwydd bod angen cynifer o ymgeiswyr. Rydym yn sôn am 1,200 o gynghorwyr yng Nghymru. Os lluoswch hynny â thri, rydych yn sôn am nifer mawr o gynghorwyr, ac o ymgeiswyr hefyd.

There are many barriers to standing for election, and I think that many have been overcome with the provisions of the local government Measure. However, there are still many barriers in place, and I spoke about this with Kirsty Williams this morning, and you mentioned it, Peter Black, namely the socioeconomic situation and how an individual's personal situation can be a barrier also. I think that it is also about the point that a lot of people do not see themselves as politicians. They are activists, they are out in the community, they are campaigning for road safety or to keep their village hall open and they are school governors, but they still do not see themselves as politicians or want to stand for a position.

Mae llawer o rwystrau i sefyll mewn etholiad, a chredaf fod darpariaethau'r Mesur llywodraeth leol yn goresgyn llawer ohonynt. Fodd bynnag, mae llawer o rwystrau o hyd, a siaredais am hyn â Kirsty Williams y bore yma, a soniasoch chi amdano, Peter Black, sef y sefyllfa economaidd-gymdeithasol ac y gall sefyllfa bersonol rhywun fod yn rhwystr hefyd. Credaf hefyd nad yw llawer o bobl yn eu gweld eu hunain fel gwleidyddion. Ymgyrchwyr ydynt, allan yn y gymuned, yn ymgyrchu am ddiogelwch ar y ffyrdd neu i gadw eu neuadd bentref ar agor, a llywodraethwyr ysgolion, ond nid ydynt yn eu gweld eu hunain fel gwleidyddion neu nid oes arnynt eisiau sefyll.

Mike Hedges mentioned that we have done a lot more. Certainly, as I have gone round Wales, I have seen far more young councillors than I anticipated, and that is very good to see. I too would like to add my congratulations to Councillor Phil Bale on his election as leader of Cardiff Council. I had not quite realised how young he was, but, again, it is great to see a young council leader.

Dywedodd Mike Hedges ein bod wedi gwneud mwy o lawer. Yn sicr, wrth imi fynd o amgylch Cymru, rwyf wedi gweld mwy o lawer o gynghorwyr ifanc nag yr oeddwn wedi'i ddisgwyl, ac mae hynny'n dda iawn i'w weld. Hoffwn innau hefyd longyfarch y Cynghorydd Phil Bale ar gael ei ethol yn arweinydd Cyngor Caerdydd. Nid oeddwn yn sylweddoli pa mor ifanc ydoedd, ond, unwaith eto, mae'n wych gweld arweinydd ifanc ar gyngor.

Everyone's voice is needed. Mike Hedges is quite right that we need to make sure that the community is represented by people who truly can represent it.

Mae angen llais pawb. Mae Mike Hedges yn hollol iawn bod angen inni wneud yn siŵr bod y gymuned yn cael ei chynrychioli gan bobl sy'n gallu ei chynrychioli mewn gwirionedd.

Suzy Davies referred to the 2011 local government Measure also. I think that it has removed many of the barriers, and we can evaluate that as we go forward. You also referred to the survey. It cost £35,000 to carry out the first survey, which was met by Welsh Government, and I am committed to funding the cost of the next one, but I think that we need to make it much easier to access, maybe online. We can do more around that, because it is really important that we get as many views back in as possible to make it, again, representative.

Cyfeiriodd Suzy Davies at Fesur llywodraeth leol 2011 hefyd. Credaf ei fod wedi cael gwared ar lawer o'r rhwystrau, a gallwn bwyso a mesur hynny wrth inni symud ymlaen. Cyfeiriasoch hefyd at yr arolwg. Costiodd £35,000 i gynnal yr arolwg cyntaf, a Llywodraeth Cymru a dalodd am hynny, ac rwyf wedi ymrwymo i dalu cost y nesaf, ond credaf fod angen inni ei gwneud yn haws o lawer cael gafael arno, efallai ar-lein. Gallwn wneud mwy ynglŷn â hynny, oherwydd mae'n bwysig iawn ein bod yn clywed cynifer o safbwyntiau â phosibl er mwyn sicrhau ei fod, unwaith eto, yn gynrychiadol.

You talked about the difficulties of being selected, never mind elected, and I am sure that we all have our own stories to tell about the tribulations of being selected. However, again, it is another barrier and something that I think that we have to look at.

Soniasoch am anawsterau cael eich dewis, heb sôn am eich ethol, ac rwyf yn siŵr bod gennym i gyd ein straeon ein hunain i'w hadrodd am helyntion cael ein dewis. Fodd bynnag, unwaith eto, mae'n rhwystr arall ac yn rhywbeth yr wyf yn credu y mae'n rhaid inni edrych arno.

The point about women being a large majority of public sector workers is, I think, a very good one. Obviously, if you work for a local authority, you cannot stand for council there as there can be a conflict of interest, but I think that it is certainly something that we could look at as we go forward.

Mae'r pwynt mai menywod yw mwyafrif helaeth gweithwyr y sector cyhoeddus, yn fy marn i, yn un da iawn. Wrth gwrs, os ydych yn gweithio i awdurdod lleol, ni allwch sefyll ar gyfer y cyngor yno oherwydd gallai fod gwrthdaro buddiannau, ond rwyf yn meddwl bod hynny'n sicr yn rhywbeth y gallem edrych arno wrth inni symud ymlaen.

Jenny Rathbone spoke about the five councillors who came to the launch, and it was very good to hear the five of them. As Jenny said, we had Councillor Sara Jones from Monmouth, who spoke about her experiences of being a young mum, working full time and having childcare issues. We had Omar, whom I referred to before, and I felt that a lot is being asked of him now, because he is the first from his community to be a representative. We are all going to be pulling him in different directions, because he is such a good advocate for it. I have asked all five of those speakers to be part of the network that I want to set up of people from under-represented groups to go out there and sell being a local government representative.

Siaradodd Jenny Rathbone am y pum cynghorydd a ddaeth i'r lansiad, ac roedd yn braf iawn clywed y pump. Fel y dywedodd Jenny, roedd y Cynghorydd Sara Jones o Drefynwy yno, a siaradodd am ei phrofiadau o fod yn fam ifanc, yn gweithio'n llawn amser ac yn gorfod trefnu gofal plant. Roedd Omar, y cyfeiriais ato o'r blaen, yno, ac roeddwn yn teimlo bod llawer yn cael ei ofyn ganddo'n awr, oherwydd mai ef yw'r cyntaf o'i gymuned i fod yn gynrychiolydd. Rydym i gyd yn mynd i fod yn ei dynnu i gyfeiriadau gwahanol, oherwydd ei fod yn eiriolwr mor dda. Rwyf wedi gofyn i bob un o'r pum siaradwr hynny fod yn rhan o'r rhwydwaith yr wyf am ei sefydlu o bobl o grwpiau wedi'u tangynrychioli i fynd allan ac annog pobl i fod yn gynrychiolwyr llywodraeth leol.

You also referred, Jenny, to female representation on public bodies. Again, this report is just looking at local government, but you are quite right, and I know that my colleague Carl Sargeant, the Minister for Housing and Regeneration, has just got his first gender bias towards women in public bodies, and I think that that is to be applauded too.

Cyfeiriasoch hefyd, Jenny, at gynrychiolaeth menywod ar gyrff cyhoeddus. Unwaith eto, dim ond ar lywodraeth leol y mae'r adroddiad hwn yn edrych, ond rydych yn llygad eich lle, a gwn fod fy nghydweithiwr Carl Sargeant, y Gweinidog Tai ac Adfywio, newydd sicrhau ei duedd gyntaf ar sail rhywedd tuag at fenywod mewn cyrff cyhoeddus, a chredaf y dylid cymeradwyo hynny hefyd.

Rhodri Glyn Thomas spoke about the practical problems, and I am under no illusions. This is a very difficult ask, but I am determined that we are not going to be here in five years' time talking about it. I think that we all need to do what we can to encourage people from under-represented groups, or indeed anybody, to put their name forward for local election and I think that you are quite right that if it is not a winnable seat it can be quite disheartening if you just think you are a paper candidate or that you do not stand any chance of winning. It is important that we have a cross-party basis and, certainly from my initial discussions with party leaders, I think that is possible. Again, I think that we all have a role, every one of us, in encouraging our party members that positive action is needed to ensure that we have that representation. Julie Morgan mentioned reorganisation. Obviously, the Williams commission recommends local government merger not wholesale reorganisation. However, clearly, there will be a reduction in the number of councillors as we go forward, so it is absolutely important that underrepresented groups are not disadvantaged. I am not sure of the number of women who are cabinet members but, certainly, I can find that out and let you know in writing.

Siaradodd Rhodri Glyn Thomas am y problemau ymarferol, ac nid wyf yn fy nhwyllo fy hun. Mae hyn yn beth anodd iawn i'w ofyn, ond rwyf yn benderfynol na fyddwn yma ymhen pum mlynedd yn siarad am hyn. Credaf fod angen inni i gyd wneud ein gorau i annog pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, neu unrhyw un yn wir, i gynnig eu henwau mewn etholiadau lleol ac rwyf yn meddwl eich bod yn llygad eich lle: os nad yw'n sedd y gellir ei hennill gall fod yn eithaf digalon os ydych yn credu mai dim ond ymgeisydd ar bapur ydych chi neu nad oes gennych obaith o ennill. Mae'n bwysig bod gennym sylfaen drawsbleidiol ac, yn sicr ar sail fy nhrafodaethau cychwynnol ag arweinwyr y pleidiau, credaf fod hynny'n bosibl. Unwaith eto, rwyf o'r farn bod gennym i gyd ran i'w chwarae, pob un ohonom, i ddarbwyllo aelodau ein pleidiau fod angen cymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod y gynrychiolaeth honno gennym. Soniodd Julie Morgan am ad-drefnu. Wrth gwrs, mae comisiwn Williams yn argymell uno llywodraeth leol, nid ad-drefnu llwyr. Fodd bynnag, yn amlwg, bydd llai o gynghorwyr wrth inni symud ymlaen, felly mae'n hollbwysig nad yw grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael eu rhoi dan anfantais. Nid wyf yn siŵr sawl menyw sy'n aelodau cabinet, ond, yn sicr, gallaf ddod o hyd i'r wybodaeth honno a rhoi gwybod ichi'n ysgrifenedig.

It was good to hear Janet Finch-Saunders talk about her happy years as a councillor. You are quite right; it takes up a huge amount of time. We ask an enormous amount of our councillors. You referred to uncontested seats, which are not good for democracy. I think, in the 2012 council elections, there were 97 councillors who—

Roedd yn dda clywed Janet Finch-Saunders yn siarad am ei blynyddoedd hapus fel cynghorydd. Rydych yn llygad eich lle; mae'n cymryd llawer iawn o'ch amser. Rydym yn gofyn llawer iawn gan ein cynghorwyr. Cyfeiriasoch at seddi diwrthwynebiad, nad ydynt yn dda i ddemocratiaeth. Rwyf yn meddwl, yn etholiadau cyngor 2012, fod 97 o gynghorwyr—

15:31 **Peter Black** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

In Scotland, where they have PR, there were no uncontested seats.

Yn yr Alban, lle mae ganddynt PR, nid oedd dim seddi diwrthwynebiad.

15:31 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

In the Ynys Môn elections, which were held in 2013, there were no uncontested seats there either. I think, again, that we need to look at what happened there with the single wards as we go forward. I am very pleased that the majority of councils are now broadcasting their meetings. They have been helped with funding from the Welsh Government. That takes those council meetings out to the public.

Yn etholiadau Ynys Môn, a gynhaliwyd yn 2013, nid oedd dim seddi diwrthwynebiad ychwaith. Rwyf yn meddwl, unwaith eto, fod angen inni edrych ar yr hyn a ddigwyddodd yno gyda'r wardiau sengl wrth inni symud ymlaen. Rwyf yn falch iawn fod y rhan fwyaf o'r cynghorau bellach yn darlledu eu cyfarfodydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth ariannol iddynt. Mae hynny'n mynd â'r cyfarfodydd hynny at y cyhoedd.

What is important, and I have given my personal commitment to the members of the expert group, is that this report does not just become a piece of literature that sits on a shelf. I am determined that we are going to set in train a campaign starting now. I think that it will build on the good work done by the Presiding Officer, by my colleague Jeff Cuthbert, the Minister for Tackling Poverty and Communities, by Chwarae Teg and others. It is important that that carries on right up to when candidates are being selected for the next local elections and beyond. What I want to see, Presiding Officer, is this report being a first step towards correcting an inexcusable imbalance that cannot be allowed to continue. I want participation in local government to be seen as a much more attractive option. I think that if we do that we will improve the health of our democracy and ensure the interests of all the community are reflected and represented within the council chamber.

Yr hyn sy'n bwysig, ac rwyf wedi rhoi ymrwymiad personol i aelodau'r grŵp arbenigol, yw nad yw'r adroddiad hwn yn troi'n ddarn o lenyddiaeth wedi'i adael ar silff. Rwyf yn benderfynol ein bod yn mynd i gychwyn ymgyrch, a dechrau hynny yn awr. Credaf y bydd yn adeiladu ar y gwaith da a wnaeth y Llywydd, fy nghydweithiwr Jeff Cuthbert, y Gweinidog Trechu Tlodi a Chymunedau, Chwarae Teg ac eraill. Mae'n bwysig bod hynny'n parhau hyd at adeg dewis ymgeiswyr ar gyfer yr etholiadau lleol nesaf a thu hwnt. Yr hyn yr hoffwn ei weld, Lywydd, yw bod yr adroddiad hwn yn gam cyntaf tuag at unioni anghydbwysedd anfaddeuol na ellir caniatáu iddo barhau. Hoffwn i gymryd rhan mewn llywodraeth leol gael ei ystyried yn opsiwn llawer mwy deniadol. Os gwnawn hynny, credaf y byddwn yn gwella iechyd ein democratiaeth ac yn sicrhau bod buddiannau'r gymuned gyfan yn cael eu hadlewyrchu a'u cynrychioli o fewn siambr y cyngor.

15:32 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There is no objection and amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad felly mae gwelliant 1 wedi'i dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y gwelliant yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

Cynnig NDM5462 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5462 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol.

Notes the report of the Expert Group on Diversity in Local Government.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol i annog amgylcheddau gwaith sy'n ystyriol o deuluoedd, ac ystyried canfyddiadau'r adroddiad ynghylch argaeledd gofal plant, amser cyfarfodydd ac awyrgylch cyfarfodydd cyngor.

Calls on the Welsh Government to work with local authorities to encourage family-friendly working environments, and to take into account the report's findings regarding childcare availability, timings of meetings and the atmosphere of council meetings.

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The proposal is that the motion as amended be agreed. Is there any objection? There is no objection, therefore the amended motion is agreed.

Y cynnig yw derbyn y cynnig fel y'i diwygiwyd. A oes unrhyw wrthwynebiad? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae'r cynnig wedi'i ddiwygio wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd cynnig NDM5462 fel y'i diwygiwyd yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion NDM5462 as amended agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Y Rhaglen Ddeddfwriaethol

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 4 yn enw Paul Davies, gwelliant 3 yn enw Aled Roberts, a gwelliannau 5 a 6 yn enw Elin Jones.*

## The Legislative Programme

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 4 in the name of Paul Davies, amendment 3 in the name of Aled Roberts, and amendments 5 and 6 in the name of Elin Jones.*

Cynnig NDM5463 Lesley Griffiths

Motion NDM5463 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Notes the Welsh Government’s Legislative Programme.

15:33

### Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I welcome the opportunity to debate the Government’s legislative programme. I can confirm that the Government will be opposing amendments 1, 2 and 3 and supporting amendments 4, 5 and 6.

Croesawaf y cyfle i drafod rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth. Gallaf gadarnhau y bydd y Llywodraeth yn gwrthwynebu gwelliannau 1, 2 a 3 ac yn cefnogi gwelliannau 4, 5 a 6.

When I outlined my legislative priorities for the five years of this Assembly, I said that this Government would be doing its utmost to improve public services and create opportunities for everyone. Our legislative programme has and will continue to provide new powers and duties to advance our goals of building a confident, competitive and sustainable Wales. We have already introduced the Active Travel (Wales) Act 2013, the Food Hygiene Rating (Wales) Act 2013, the Human Transplantation (Wales) Act 2013, the National Health Service Finance (Wales) Act 2014, the Local Government Byelaws (Wales) Act 2012, the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013, the Public Audit (Wales) Act 2013 and the Control of Horses (Wales) Act 2014.

Pan amlinellais fy mlaenoriaethau deddfwriaethol ar gyfer pum mlynedd y Cynulliad hwn, dywedais y byddai’r Llywodraeth hon yn gwneud ei gorau glas i wella gwasanaethau cyhoeddus a chreu cyfleoedd i bawb. Mae ein rhaglen ddeddfwriaethol wedi darparu pwerau a dyletswyddau newydd i hybu ein nodau i greu Cymru hyderus, gystadleuol a chynaliadwy, a bydd yn parhau i wneud hynny. Rydym eisoes wedi cyflwyno Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014, Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012, Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 a Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014.

Looking forward, we will, of course, be introducing the future generations Bill in July. It will set ambitious, long-term goals to reflect the Wales that we want to see in the future. The purpose of the Bill is to improve the economic, social and environmental wellbeing of Wales and it will do this by reinforcing the fundamental role that public services in Wales play, by putting the needs of communities, now and in the future, at the heart of the decisions that they make. This Bill is about how we tackle the generational challenges that Wales faces in a more joined-up and integrated way and is our opportunity to ensure that our public services work together to achieve long-term goals that improve the quality of life for people now and in the future.

Ac edrych ymlaen, byddwn, wrth gwrs, yn cyflwyno Bil cenedlaethau’r dyfodol ym mis Gorffennaf. Bydd yn gosod targedau hirdymor uchelgeisiol i adlewyrchu’r Gymru yr ydym am ei gweld yn y dyfodol. Diben y Mesur yw gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru a bydd yn gwneud hynny drwy atgyfnerthu’r rhan hanfodol y mae’r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru’n ei chwarae, drwy sicrhau bod anghenion cymunedau, yn awr ac yn y dyfodol, wrth wraidd y penderfyniadau a wnânt. Mae’r Bil hwn yn ymwneud â’r ffordd yr ydym yn ymdrin â’r heriau cenedliadol sy’n wynebu Cymru mewn ffordd fwy cydgysylltiedig ac integredig a dyma ein cyfle i sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda’i gilydd i gyrraedd targedau hirdymor sy’n gwella ansawdd bywyd i bobl yn awr ac yn y dyfodol.

There are clear connections between tackling poverty, economic prosperity and the use of natural resources for current and future generations. Natural resources and the services they provide will help to secure Wales's future prosperity. Our aim is to ensure that Wales has increasingly resilient ecosystems that deliver economic, environmental and social benefits. To do this, we need a modern legislative framework that recognises that our water, land and air are all interlinked to our economy. Of course, we also understand that society and the environment are interdependent. We plan to publish our draft environment Bill in April 2015, which will set out a framework to enable our natural resources to be managed in a joined-up way.

Mae cysylltiadau clir rhwng trechu tlodi, ffyniant economaidd a defnyddio adnoddau naturiol ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Bydd adnoddau naturiol a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu'n helpu i sicrhau ffyniant Cymru yn y dyfodol. Ein nod yw sicrhau bod gan Gymru ecosystemau mwyfwy cydnerth sy'n cynnig manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. I wneud hyn, mae angen fframwaith deddfwriaethol modern arnom sy'n cydnabod bod ein dŵr, ein tir a'n haer i gyd yn gysylltiedig â'n heconomi. Wrth gwrs, rydym hefyd yn deall bod y gymdeithas a'r amgylchedd yn gyd-ddibynnol. Bwriadwn gyhoeddi ein Bil amgylchedd drafft ym mis Ebrill 2015, a fydd yn amlinellu fframwaith i'n galluogi i reoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gydgysylltiedig.

Education is fundamental to building a just, inclusive and fair society. We are on course to deliver a suite of reforms to ensure better life chances for our young people by helping them to achieve their potential. The School Standards and Organisation (Wales) Act 2014 will strengthen school standards, enhance local determination and reduce complexity to bring about rapid improvement of underperforming schools. The qualifications (Wales) Bill will seek to establish an independent body. Qualifications Wales is responsible for the regulation and quality assurance of non-degree qualifications available in Wales. The Further and Higher Education (Governance and Information) (Wales) Act 2014 will enhance the autonomy and decision-making abilities of further education institutions by encouraging them to forge new relationships with their communities by working in collaboration with employers to meet the needs of local businesses through the development of traineeships and apprenticeships and the establishment of new educational enterprises.

Mae addysg yn hanfodol er mwyn adeiladu cymdeithas gyfiawn, gynhwysol a theg. Rydym ar y trywydd iawn i gyflwyno cyfres o ddiwygiadau i sicrhau cyfleoedd bywyd gwell i'n pobl ifanc drwy eu helpu i gyflawni eu potensial. Bydd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2014 yn cryfhau safonau ysgolion, yn gwella penderfyniadau lleol ac yn lleihau cymhlethdod er mwyn sicrhau gwelliannau cyflym mewn ysgolion sy'n tanberfformio. Bydd Bil cymwysterau (Cymru) yn ceisio sefydlu corff annibynnol. Cymwysterau Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio a sicrhau ansawdd cymwysterau nad ydynt yn gymwysterau gradd sydd ar gael yng Nghymru. Bydd Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 yn gwella annibyniaeth sefydliadau addysg bellach a'u gallu i wneud penderfyniadau drwy eu hannog i ffurfio perthynas newydd â'u cymunedau drwy gydweithio â chyflogwyr i fodloni anghenion busnesau lleol drwy ddatblygu swyddi dan hyfforddiant a phrentisiaethau a sefydlu mentrau addysgol newydd.

Stage 4 of the Education (Wales) Bill is scheduled for debate next week. It will extend registration to the wider educational workforce under the education workforce council and will harmonise term dates for all maintained schools throughout Wales, something that I personally very much welcome, ending the difficulties faced by many families in finding and financing additional childcare when term dates are not harmonised. We want to see a robust regulatory framework for higher education in Wales that will enforce fee controls and provide assurance about the quality of education provision, and the higher education Bill to be introduced in May will seek to do this. We will also bring forward an additional learning needs Bill to address issues we previously sought to address with the post-16 SEN provisions that were removed from the education Bill and we will work closely with party leaders following the publication of a White Paper this spring.

Mae dadl ar gyfnod 4 Bil Addysg (Cymru) wedi'i threfnu ar gyfer yr wythnos nesaf. Bydd yn estyn cofrestru i'r gweithlu addysgol ehangach o dan gyngor y gweithlu addysg ac yn cysoni dyddiadau tymhorau pob ysgol a gynhelir ledled Cymru, sy'n rhywbeth yr wyf fi'n ei groesawu'n fawr iawn, oherwydd bydd yn rhoi terfyn ar yr anawsterau i lawer o deuluoedd o ran dod o hyd i ofal plant ychwanegol a'i ariannu pan nad yw dyddiadau'r tymhorau'n cyd-ddigwydd. Hoffem weld fframwaith rheoleiddio cadarn ar gyfer addysg uwch yng Nghymru a fydd yn gorfodi rheolaeth ar ffioedd ac yn rhoi sicrwydd ynghylch ansawdd y ddarpariaeth addysg, a bydd y Bil addysg uwch a gyflwynir ym mis Mai yn ceisio gwneud hyn. Byddwn hefyd yn cyflwyno Bil anghenion dysgu ychwanegol i ymdrin â materion y ceisiasom ymdrin â hwy o'r blaen gyda'r darpariaethau AAA ôl-16 a dynnwyd o'r Bil addysg a byddwn yn cydweithio'n agos ag arweinwyr y pleidiau ar ôl cyhoeddi Papur Gwyn yn y gwanwyn.

The economic challenges and welfare reforms that Wales is facing are putting additional strains on families that need a helping hand. We have sought to provide support within the competence of this Assembly when it is needed. The Social Services and Well-being (Wales) Bill, which, of course, is being debated later, is part of that process and it will be underpinned by a regulation and inspection Bill to be introduced early in the new year.

Mae'r heriau economaidd a'r diwygiadau lles y mae Cymru'n eu hwynebu'n rhoi straen ychwanegol ar deuluoedd y mae arnynt angen help llaw. Rydym wedi ceisio darparu cymorth o fewn cymhwysedd y Cynulliad hwn pan fo'i angen. Mae Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a fydd, wrth gwrs, yn destun dadl yn nes ymlaen, yn rhan o'r broses honno a bydd Bil rheoleiddio ac arolygu a gyflwynir yn gynnar yn y flwyddyn newydd yn ei ategu.

The Housing (Wales) Bill contains a coherent set of proposals that will contribute to the Welsh Government's three strategic priorities for housing, namely more homes, better homes, and better services. With more people having to opt for accommodation in the private rented sector, we are seeking to introduce a mandatory registration and licensing scheme to improve the quality of accommodation, to improve the condition of properties and the standard of management. The Bill will also introduce standards for rents, service charges and quality for local authority housing. It will strengthen local authorities' preventative measures for homeless people and it will place a duty on local authorities to assess the accommodation needs of Gypsy Travellers.

Mae Bil Tai (Cymru) yn cynnwys cyfres gydlynol o gynigion a fydd yn cyfrannu at dair blaenoriaeth strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer tai, sef mwy o gartrefi, cartrefi gwell, a gwasanaethau gwell. Mae mwy o bobl yn gorfod dewis llety yn y sector rhentu preifat, ac o'r herwydd rydym yn ceisio cyflwyno cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol i wella ansawdd llety, i wella cyflwr eiddo a safon y rheoli. Bydd y Bil hefyd yn cyflwyno safonau ar gyfer rhenti, taliadau am wasanaethau ac ansawdd tai awdurdodau lleol. Bydd yn cryfhau mesurau ataliol awdurdodau lleol ar gyfer pobl ddigartref ac yn ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu anghenion llety Sipsiwn-Teithwyr.

We have sought to protect the most vulnerable individuals and families and we will be bringing forward a Bill later this year to tackle the enduring social problems of violence against women, domestic abuse and sexual violence. Following the positive response to our Green Paper consultation on the role of legislation in improving and protecting health, the Minister for Health and Social Services will outline our proposals to support specific public health concerns in a public health White Paper, which will be published next month.

Rydym wedi ceisio amddiffyn yr unigolion a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed a byddwn yn cyflwyno Bil yn ddiweddarach eleni i ymdrin â phroblemau cymdeithasol sy'n parhau—trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn sgîl yr ymateb cadarnhaol i'n hymgynghoriad Papur Gwyrdd ar swyddogaeth deddfwriaeth o ran gwella a diogelu iechyd, bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn amlinellu ein cynigion i gynnig cefnogaeth lle bo pryderon iechyd cyhoeddus penodol mewn Papur Gwyn ar iechyd cyhoeddus, a gyhoeddir y mis nesaf.

Later this year, we will introduce a planning Bill to modernise the planning system by updating delivery structures, processes and procedures. Our vision is for a system that helps us to deliver national and strategic, as well as local and community objectives, by supporting appropriate development. To achieve this, we need a positive, enabling planning system that facilitates, rather than frustrates, development.

Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn cyflwyno Bil cynllunio i foderneiddio'r system gynllunio trwy ddiweddaru prosesau, gweithdrefnau a strwythurau cyflenwi. Ein gweledigaeth yw system sy'n ein helpu i gyflawni amcanion cenedlaethol a strategol, yn ogystal â rhai lleol a chymunedol, drwy gefnogi datblygiadau priodol. Er mwyn gwneud hyn, mae arnom angen system gynllunio gadarnhaol ,sy'n galluogi ac yn hwyluso datblygiadau yn hytrach na'u llesteirio.

When I introduced the five-year legislative programme, I said that it was inevitable and proper that the opposition in this Chamber, and indeed the public, would seek to hold this Government to account. We will look to find consensus where that is possible for the betterment of the communities that we represent. Finally, I would like to thank all those who have contributed constructively to Government consultations. It has not all been plain sailing, clearly, and there are lessons to be learned for the remainder of this term and beyond. However, I would like to work, where possible, with all parties in this Chamber, as well as with the Commission through the Business Committee, to consider how we might improve our procedures in the course of the next Assembly.

Pan gyflwynais y rhaglen ddeddfwriaethol bum mlynedd, dywedais ei bod yn anochel ac yn briodol y byddai'r gwrthbleidiau yn y Siambr hon, ac yn wir y cyhoedd, yn ceisio dal y Llywodraeth hon i gyfrif. Byddwn yn ceisio dod o hyd i gonsensws lle bo modd er lles y cymunedau yr ydym yn eu cynrychioli. Yn olaf, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu'n adeiladol at ymgynghoriadau'r Llywodraeth. Nid yw wedi bod yn fêl i gyd, wrth gwrs, ac mae gwersi i'w dysgu ar gyfer gweddill y tymor hwn a thu hwnt. Fodd bynnag, hoffwn weithio, lle bo modd, gyda'r holl bleidiau yn y Siambr hon, a chyda'r Comisiwn drwy'r Pwyllgor Busnes, i ystyried sut y gallem wella ein gweithdrefnau yn ystod y Cynulliad nesaf.

We have come a long way. In the first year of this current Assembly, there was often criticism that not enough legislation was being brought forward. I think that, possibly, the opposite may well be in danger of being true in the future; I do not think that there is a single backbencher, or Minister, within this Chamber who thinks that they are underworked. Nevertheless, I look forward very much indeed to seeing further legislation passed through this Chamber, as we continue to exercise the powers that were granted to us by the people of Wales in March 2011.

Rydym wedi dod yn bell. Ym mlwyddyn gyntaf y Cynulliad hwn, roedd beirniadaeth yn aml nad oedd digon o ddeddfwriaeth yn cael ei chyflwyno. Credaf, o bosibl, efallai y bydd perygl y bydd y gwrthwyneb yn wir yn y dyfodol; nid wyf yn credu bod yr un aelod o'r meinciau cefn, na'r un Gweinidog, yn y Siambr hon sy'n credu nad oes ganddynt ddigon o waith. Serch hynny, edrychaf ymlaen yn fawr iawn at weld rhagor o ddeddfwriaeth yn pasio drwy'r Siambr hon, wrth i ni barhau i arfer y pwerau a roddwyd inni gan bobl Cymru ym mis Mawrth 2011.

15:40

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I have selected the six amendments to the motion. I call on Suzy Davies to move amendments 1, 2 and 4, tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol y chwe gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Suzy Davies i gynnig gwelliannau 1, 2 a 4, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi pryderon a godwyd am nifer y biliau fframwaith sy'n cael eu cyflwyno gerbron y Cynulliad.*

*Notes concerns raised about the number of framework bills being brought to the Assembly.*

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi pryderon a godwyd am nifer yr achlysuron lle y mae proses ddeddfwriaethol safonol y Cynulliad wedi cael ei chwtogi.*

*Notes concerns raised about the number of occasions that the Assembly's standard legislative process has been curtailed.*

*Gwelliant 4—Paul Davies*

*Amendment 4—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar y Llywodraeth i gyflwyno Bil ar Anghenion Addysgol Arbennig o fewn y flwyddyn nesaf.*

*Calls on the Government to bring forward a bill on special educational needs within the next year.*

15:40

## Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I move amendments 1, 2 and 4.

Cynigiaf welliannau 1, 2 a 4.

I thank the Government for tabling this motion today. I am not quite sure whether it is the debate that the Government was originally hoping for, as we can see by the amendments, which reveal a considerable amount of concern about the quality of some of the draft legislation that comes before us. Therefore, we will be supporting the Liberal Democrat amendment, which amplifies our own amendments 1 and 2.

Diolch i'r Llywodraeth am gyflwyno'r cynnig hwn heddiw. Nid wyf yn hollol siŵr ai dyma'r ddadl yr oedd y Llywodraeth yn gobeithio ei chael yn wreiddiol, fel y gallwn weld o'r gwelliannau, sy'n datgelu cryn dipyn o bryder am ansawdd rhywfaint o'r ddeddfwriaeth ddrafft sy'n dod ger ein bron. Felly, byddwn yn cefnogi gwelliant y Democratiaid Rhyddfrydol, sy'n ymhelaethu ar ein gwelliannau 1 a 2 ni.

While I accept that we are still in our early years as a direct primary legislature, a primary legislature we are, with an absolute duty to produce law that is clear in its intent, and practicable in its implementation. Political differences will mean that, sometimes, we will disagree whether a policy objective in a Bill is in the interest of the people of Wales. However, we should be united in our goal that any legal instrument be of the highest possible standard; we are not here to create work for judges.

Er fy mod yn derbyn mai megis dechrau yr ydym fel deddfwrfa sylfaenol uniongyrchol, rydym yn ddeddfwrfa sylfaenol, ac mae gennym ddyletswydd glir i lunio cyfreithiau sy'n glir eu bwriad, ac yn ymarferol i'w gweithredu. Bydd gwahaniaethau gwleidyddol yn golygu y byddwn, ar adegau, yn anghytuno ynghylch a yw amcan polisi mewn Bil er budd pobl Cymru. Fodd bynnag, dylem fod yn unedig yn ein nod y dylai pob offeryn cyfreithiol fod o'r safon uchaf bosibl; nid ein lle ni yw creu gwaith i farnwyr.

I think that just six Bills—it might be more—of the 19 trailed in the legislative programme have been passed by this Assembly, along with some that are not in that programme, as well as some non-Government Bills, of course. With exceptions, they have incurred criticism on a number of drafting fronts.

Rwyf yn meddwl mai dim ond chwe Bil—gallai fod yn fwy—o'r 19 a dreialwyd yn y rhaglen ddeddfwriaethol a gafodd eu pasio gan y Cynulliad hwn, ynghyd â rhai nad ydynt yn y rhaglen honno, yn ogystal â rhai Biliau nad ydynt yn rhai'r Llywodraeth, wrth gwrs. Gydag eithriadau, maent wedi eu beirniadu am nifer o resymau'n ymwneud â drafftio.

The school standards and organisation Bill had more than a whiff of cut-and-paste about it originally, rather than a genuine consolidation. The park homes Bill—which was admittedly not a Government Bill, but was influenced by Government—and the draft housing Bill have attracted queries as to whether drafting and procedural precedents at Westminster are always right for the law that we make here. However, the serial complaint, as we saw in the recent education Bill and the draft active travel Bill is the apparent underdevelopment of policy intention, resulting in over-reliance on secondary legislation.

Roedd awgrym pendant o dorri-a-gludo am y Bil safonau a threfniadaeth ysgolion gwreiddiol, yn hytrach na'i fod yn waith cydgrynhoi gwirioneddol. Mae'r Bil cartrefi mewn parciau—rhaid cyfaddef nad Bil y Llywodraeth oedd hwnnw, ond dylanwadodd y Llywodraeth arno—a'r Bil tai drafft wedi esgor ar holi a yw cynseiliau drafftio a gweithdrefnau yn San Steffan bob amser yn iawn ar gyfer y cyfreithiau a wnawn yma. Fodd bynnag, y gŵyn reolaidd, fel y gwelsom yn y Bil addysg diweddar a'r Bil teithio llesol drafft yw ei bod yn ymddangos nad yw bwriad polisi wedi'i ddatblygu'n ddigonol, gan arwain at orddibyniaeth ar is-ddeddfwriaeth.

Law is not like a Rolf Harris painting; Members of this Chamber, and members of the public, should not be asking themselves, 'Can you tell what it is yet?', as each dollop of secondary legislation is slapped onto the agenda papers of the Constitutional and Legislative Affairs Committee. It is not satisfactory for Ministers to routinely rely on secondary legislation. No amendments can be tabled, and Ministers, understandably, will resist the affirmative procedure, to avoid relying on the Llywydd's casting vote in Plenary—something that also deters Assembly Members from calling in a regulation that is introduced by negative procedure, which Ministers seem to prefer. I hope, therefore, that Members will take a keen interest in the new Constitutional and Legislative Affairs Committee inquiry on legislative drafting in Wales.

Nid yw'r gyfraith fel paentiad gan Rolf Harris; ni ddylai Aelodau'r Siambr hon, nac aelodau o'r cyhoedd, fod yn gofyn i'w hunain, 'Allwch chi weld beth yw e eto?', wrth i bob llwyaid o is-ddeddfwriaeth lanio ar bapurau agenda'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Nid yw'n foddhaol bod Gweinidogion yn dibynnu fel mater o drefn ar is-ddeddfwriaeth. Ni ellir cyflwyno dim gwelliannau, a bydd Gweinidogion, yn ddealladwy, yn gwrthsefyll y weithdrefn gadarnhaol, er mwyn osgoi dibynnu ar bleidlais fwrw'r Llywydd yn y Cyfarfod Llawn—rhywbeth sydd hefyd yn atal Aelodau'r Cynulliad rhag galw am reoliad wedi'i gyflwyno drwy weithdrefn negyddol, y mae'n ymddangos ei bod yn well gan Weinidogion. Rwyf yn gobeithio, felly, y bydd yr Aelodau'n cymryd diddordeb brwd yn ymchwiliad newydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar ddrafftio deddfwriaeth yng Nghymru.

To have a decent shot at unity on quality, we must have sufficient time and experienced advisors to look at the Bills, regulations and other statutory instruments that come before us—from this place, or Westminster—remembering always that it is the primary legislation from which the rest flows. Drafting and policy worries have been exacerbated by curbs on scrutiny in some cases, and this has prompted us all to ask exactly what this place means by emergency legislation. It is one of the great ironies of this place that in the week that we passed the organ donation Bill, after prolonged, detailed consultation and thorough and thoughtful scrutiny, we also spat out onto the Welsh statute book that ill-conceived and poorly considered collection of words entitled the Agricultural Sector (Wales) Act.

Er mwyn cael cyfle gwirioneddol i sicrhau undod o ran ansawdd, rhaid wrth ddigon o amser ac ymgynghorwyr profiadol i edrych ar y Biliau, y rheoliadau a'r offerynnau statudol eraill a ddaw ger ein bron—o'r lle hwn, neu o San Steffan—gan gofio bob amser mai o ddeddfwriaeth sylfaenol y mae'r gweddill yn llifo. Mae cyfyngiadau ar graffu wedi dwysáu'r pryderon am ddrafftio a pholisïau mewn rhai achosion, ac mae hyn wedi peri inni i gyd ofyn beth yn union y mae'r lle hwn yn ei olygu wrth ddeddfwriaeth frys. Un o eironïau mawr y lle hwn yw ein bod, yn yr wythnos yr oeddem yn pasio'r Bil rhoi organau, ar ôl ymgynghori hir a manwl a chraffu trylwyr a meddylgar, hefyd wedi poeri allan ar lyfr statud Cymru y casgliad di-lun a diystyr hwnnw o eiriau dan y teitl Deddf y Sector Amaethyddol (Cymru).

When the First Minister eventually introduced the legislative programme in July 2011, Paul Davies, on behalf of the Welsh Conservatives, at that time said:

Pan gyflwynodd y Prif Weinidog y rhaglen ddeddfwriaethol o'r diwedd ym mis Gorffennaf 2011, dywedodd Paul Davies, ar ran Ceidwadwyr Cymru, ar y pryd:

'I have made it clear that, when the Welsh Government brings forward legislation that is well crafted, well thought through and fully costed, the Welsh Conservatives will work constructively and in the national interest to support the Government in steering the legislation through the Assembly.'

Rwyf wedi ei gwneud yn glir, pan fydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno deddfwriaeth sy'n grefftus, wedi'i hystyried yn ofalus ac wedi'i chostio'n llawn, y bydd Ceidwadwyr Cymru'n gweithio'n adeiladol ac er lles y genedl i gynorthwyo'r Llywodraeth i lywio'r ddeddfwriaeth drwy'r Cynulliad.

Now that remains the case, and I am sure that the other opposition parties feel the same here. Therefore, it should be of concern to the Welsh Government that in both Plenary and the other committee on which I sit, so many amendments to legislation depend on the Chair's casting vote. Indeed, we had a Bill before us last week that relied virtually in its entirety on the Llywydd's casting vote. It is surely time for that review that was raised earlier in the Chamber.

Mae hynny'n dal i fod yn wir, ac rwyf yn siŵr bod y gwrthbleidiau eraill yn teimlo'r un fath yma. Felly, dylai fod yn destun pryder i Lywodraeth Cymru fod cynifer o welliannau i ddeddfwriaeth, yn y Cyfarfod Llawn ac yn y pwyllgor arall yr wyf yn eistedd arno, yn dibynnu ar bleidlais fwrw'r Cadeirydd. Yn wir, roedd Bil ger ein bron yr wythnos diwethaf a oedd yn dibynnu bron yn gyfan gwbl ar bleidlais fwrw'r Llywydd. Onid yw'n bryd cynnal yr adolygiad hwnnw a godwyd yn gynharach yn y Siambr?

As opposition parties, we take our scrutiny role very seriously, especially with legislation. We do not oppose just for opposition's sake. Welsh Government can choose to respond appropriately, as indeed it did when the Minister for education recently removed a significant portion of the Education (Wales) Bill that purported to legislate on special educational needs. I am grateful to the First Minister for the comments and indication that he gave in his comments earlier. Alternatively, the Welsh Government can choose to overlook the fact that half of this Assembly was elected by people in Wales who did not believe that Labour has all of the answers, and push through legislation that may not reflect well on this new legislature, either in quality or in content.

Fel gwrthbleidiau, rydym yn cymryd ein swyddogaeth graffu o ddifrif, yn enwedig o ran deddfwriaeth. Nid ydym yn gwrthwynebu er mwyn gwrthwynebu. Gall Llywodraeth Cymru ddewis ymateb yn briodol, fel yn wir y gwnaeth pan gafodd y Gweinidog addysg yn ddiweddar wared ar ran sylweddol o Fil Addysg (Cymru) a oedd yn honni deddfu ar anghenion addysgol arbennig. Rwyf yn ddiolchgar i'r Prif Weinidog am y sylwadau a'r awgrym a roddodd yn ei sylwadau cynharach. Fel arall, gall Llywodraeth Cymru ddewis anwybyddu'r ffaith bod hanner y Cynulliad hwn wedi'i ethol gan bobl yng Nghymru nad oeddent yn credu bod gan Lafur yr holl atebion, a gwthio deddfwriaeth drwodd na fydd efallai'n adlewyrchu'n dda ar y ddeddfwrfa newydd hon, o ran ansawdd nac o ran cynnwys.

15:45

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Kirsty Williams to move amendment 3, which is tabled in the name of Aled Roberts.

Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliant 3, a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi â phryder y duedd ddiweddar o ran biliau fframwaith, a deddfwriaeth llwybr carlam a deddfwriaeth frys, sy'n tanseilio'r gallu i graffu'n effeithiol ar ddeddfwriaeth ac i sicrhau atebolrwydd democrataidd cryf.*

*Notes with concern the recent trend of framework bills, and fast-tracked and emergency legislation, which undermines the capacity for effective legislative scrutiny and strong democratic accountability.*

15:45

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Presiding Officer. I move amendment 3.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Cynigiaf welliant 3.

To follow on from the comments of Suzy Davies, without discussion across the opposition parties, there is a remarkable amount of consensus reflected in the amendments about concerns about how the legislative functions of this institution are developing. We need to get it right if the project of creating a proper parliament here in Wales is to be a success. If we do not get it right, those who would seek to oppose us would question our ability to do the job with the powers that we already have, let alone support further powers coming to us.

A dilyn sylwadau Suzy Davies, heb drafodaeth ar draws y gwrthbleidiau, mae'r gwelliannau'n adlewyrchu consensws rhyfeddol am y pryderon ynghylch y ffordd y mae swyddogaethau deddfwriaethol y sefydliad hwn yn datblygu. Mae angen inni wneud pethau'n iawn er mwyn i'r prosiect o greu senedd go iawn yma yng Nghymru fod yn llwyddiant. Os na wnawn hyn yn iawn, bydd y rhai a hoffai ein gwrthwynebu'n cwestiynu ein gallu i wneud y gwaith â'r pwerau sydd gennym eisoes, heb sôn am gefnogi rhoi mwy o bwerau inni.

15:46

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Member give way?

A wnaiff yr Aelod ildio?

15:46

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, of course.

Gwnaf, wrth gwrs.

15:46

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Inaudible.]—for 20 years, and there are Members here who served in Westminster. It was not uncommon for Governments of any party to bring forward a large number of amendments at late stages in Bills. So, we should not talk ourselves down as a legislature over this issue.

[Anghlywadwy.]—am 20 mlynedd, ac mae Aelodau yma a fu'n gwasanaethu yn San Steffan. Nid oedd yn anghyffredin i Lywodraethau o unrhyw blaid gyflwyno nifer fawr o welliannau'n hwyr ym mhrosesau'r Biliau. Felly, ni ddylem ein bychanu ein hunain fel deddfwrfa ar y mater hwn.

15:46 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

With all due respect to the Member, I have not mentioned the word 'amendments'. So, he is prejudging what I might say. I did not mention that at all. Actually, what I was about to say, Leighton, is that, regardless of how it is done in Westminster, the story that we get retold collectively—me, you and others in this this Chamber—to Welsh people is that we could do things differently here in Wales and we could be better than Westminster, and our processes could be better than those of Westminster, and our politics could be better than those at Westminster.

Gyda phob dyledus barch i'r Aelod, nid wyf wedi sôn am y gair 'gwelliannau'. Felly, mae'n rhagfarnu'r hyn y gallwn ei ddweud. Nid oeddwn yn sôn am hynny o gwbl. A dweud y gwir, yr hyn yr oeddwn ar fin ei ddweud, Leighton, yw hyn: waeth sut y caiff hyn ei wneud yn San Steffan, y stori a adroddir dro ar ôl tro—fi, chi ac eraill yn y Siambr hon—wrth bobl Cymru yw y gallem wneud pethau'n wahanol yma yng Nghymru ac y gallem fod yn well na San Steffan, ac y gallai ein prosesau fod yn well na rhai San Steffan, ac y gallai ein gwleidyddiaeth fod yn well na gwleidyddiaeth San Steffan.

We are particularly concerned today about the trend of fast-tracking legislation and emergency Bills, and the effect of emergency Bills and the impact that that has on proper scrutiny of that legislation. We have had three successive Bills introduced by that procedure since 2013: the National Health Service Finance (Wales) Bill, the Agricultural Sector (Wales) Bill, and the Control of Horses (Wales) Bill. Undoubtedly, there is a case for allowing governments to bring forward emergency legislation in an emergency. When I think about emergencies, I think about the foot-and-mouth disease disaster, which was unforeseen and a fast-moving situation in which Ministers did indeed have to act to protect Welsh agriculture. I do not think that there would have been any disagreement that a situation such as the foot-and-mouth disease outbreak was an emergency. However, one does have to question whether the legislation that has been dealt with under this procedure was indeed an emergency. Perhaps the Welsh Government could consider issuing a set of guiding principles to clarify when it intends to use this procedure for legislation and what would be the decision-making process that would lead it to want to bring forward legislation in this way, which, in effect, curtails scrutiny, especially in the initial stages, where I think that scrutiny of our legislation has been at its best. I would give the example, in terms of when it is at its best, of Bills such as the organ donation Bill. It is a question of prestige, I think, to this Chamber and to this institution, when something like that happens in such a way. We can be proud of how we dealt with organ donation, with that widespread consultation, detailed scrutiny, questioning and challenge to that legislation. That is how we should set the benchmark, and we should try to do all legislation in that way.

Rydym yn pryderu'n arbennig heddiw am y duedd o roi deddfwriaeth ar drywydd cyflym a Biliau brys, ac am effaith Biliau brys a'r dylanwad a gaiff hynny ar graffu'n briodol ar y ddeddfwriaeth honno. Mae tri Bil yn olynol wedi'u cyflwyno drwy gyfrwng y weithdrefn honno ers 2013: Bil Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru), Bil Sector Amaethyddol (Cymru), a Bil Rheoli Ceffylau (Cymru). Yn ddi-os, mae achos dros ganiatáu i lywodraethau gyflwyno deddfwriaeth frys mewn argyfwng. Pan feddyliaf am argyfyngau, rwyf yn meddwl am drychineb clwy'r traed a'r genau, a oedd yn sefyllfa annisgwyl a symudodd yn gyflym lle'r oedd gwir angen i Weinidogion weithredu i ddiogelu amaethyddiaeth Cymru. Nid wyf yn credu y byddai neb wedi anghytuno bod sefyllfa fel clwy'r traed a'r genau'n argyfwng. Fodd bynnag, mae'n rhaid i rywun gwestiynu a oedd y ddeddfwriaeth yr ymdriniwyd â hi o dan y weithdrefn hon yn argyfwng mewn gwirionedd. Efallai y gallai Llywodraeth Cymru ystyried cyhoeddi cyfres o egwyddorion arweiniol i egluro pryd y mae'n bwriadu defnyddio'r weithdrefn hon i ddeddfu a beth fyddai'r broses o wneud penderfyniadau a fyddai'n peri iddi fod am gyflwyno deddfwriaeth yn y ffordd hon, sydd, i bob pwrpas, yn cyfyngu ar graffu, yn enwedig yn y cyfnodau cychwynnol, lle'r wyf yn credu bod craffu ar ein deddfwriaeth wedi bod ar ei orau. Yr enghraifft y byddwn yn ei rhoi, o ran pryd y mae hyn ar ei orau, yw Biliau megis y Bil rhoi organau. Mae'n destun clod, yn fy marn i, i'r Siambr hon ac i'r sefydliad hwn, pan fydd rhywbeth fel hyn yn digwydd yn y fath fodd. Gallwn fod yn falch o'r ffordd yr ymdriniasom â rhoi organau, lle cafwyd ymgynghori eang, craffu manwl, cwestiynu a herio'r ddeddfwriaeth honno. Dyna sut y dylem fod yn gosod meincnod, a dylem geisio gwneud ein holl ddeddfwriaeth yn y ffordd honno.

I am concerned, as Suzy Davies suggested, about framework Bills. Members in this Chamber will be well aware of my concerns around the Social Services and Well-being (Wales) Bill and the effect that it has on who does and does not qualify for social care in this country. I am not saying that the Government has not moved in its position over this time, but let us be absolutely clear that we are still—today, as we go to vote on this Bill—not clear as to who will be and will not be entitled to social care, should we vote for that today. We have been able to push it as far as we can in introducing a superaffirmative procedure, but we have had to drag the Government kicking and screaming to that position, and it still does not give us absolute clarity on who will be eligible for social care and who will not be in the years to come.

Rwyf yn bryderus, fel yr awgrymodd Suzy Davies, am Filiau fframwaith. Bydd yr Aelodau yn y Siambr hon yn ymwybodol iawn o'm pryderon ynghylch Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a'r effaith a gaiff ar bwy sydd yn gymwys ar gyfer gofal cymdeithasol yn y wlad hon a phwy sydd ddim. Nid wyf yn dweud nad yw'r Llywodraeth wedi newid ei safbwynt dros y cyfnod hwn, ond gadewch inni fod yn hollol glir nad ydym eto—heddiw, wrth inni fynd i bleidleisio ar y Bil hwn—yn glir ynghylch pwy fydd â hawl i gael gofal cymdeithasol a phwy na fydd, pe baem yn pleidleisio dros hynny heddiw. Rydym wedi gallu ei wthio mor bell ag y gallwn drwy gyflwyno gweithdrefn uwchgadarnhaol, ond bu'n rhaid inni lusgo'r Llywodraeth dan gicio a sgrechian i'r sefyllfa honno, ac nid yw'n rhoi eglurder llwyr inni o hyd am bwy fydd yn gymwys i gael gofal cymdeithasol a phwy na fydd yn y blynyddoedd i ddod.

It is impossible to comment, really, on the legislation that the First Minister has outlined that he intends to bring forward, because what it says in the title does not necessarily reflect what will be in the tin. Therefore, we will reserve judgment on that legislation until it comes forward. I am still concerned, however, as my party continues to be, on the issue of a lack of a children and young persons' Bill, which the Government did promise it would bring forward. It has since said that it will not bring that legislation forward. That is a matter of regret to me. The First Minister also mentioned the issue of bringing in a social care inspection Bill. Let us be absolutely clear: the Government has admitted that there is a need to reform inspection of social care. I am sure that it has done that on the basis of evidence and the need to act. It will take over four years before we even see the detail of that legislation from when the Government first announced that there was a problem and that there needed to be reform of its inspection regime for social care. Surely, if we are taking a risk-based approach to legislation and the need to act, one has to question the appropriateness of the Government's legislative frameworks and procedures if it takes five years to reform social care inspection.

Mae'n amhosibl rhoi sylwadau, mewn gwirionedd, am y ddeddfwriaeth y mae'r Prif Weinidog wedi nodi ei fod yn bwriadu ei chyflwyno, oherwydd nid yw'r hyn y mae'n ei ddweud yn y teitl o reidrwydd yn disgrifio'r hyn a fydd yn y tun. Felly, ni fyddwn yn lleisio barn am y ddeddfwriaeth honno hyd nes iddi gael ei chyflwyno. Rwyf yn dal yn bryderus, fodd bynnag, fel y mae fy mhlaid, am ddiffyg Bil plant a phobl ifanc; addawodd y Llywodraeth y byddai'n cyflwyno un. Ers hynny, mae wedi dweud na fydd yn cyflwyno'r ddeddfwriaeth honno. Mae hynny'n resyn imi. Soniodd y Prif Weinidog hefyd am gyflwyno Bil arolygu gofal cymdeithasol. Gadewch inni fod yn hollol glir: mae'r Llywodraeth wedi cyfaddef bod angen diwygio arolygu gofal cymdeithasol. Rwyf yn siŵr ei bod wedi gwneud hynny ar sail y dystiolaeth a'r angen i weithredu. Bydd yn cymryd dros bedair blynedd cyn inni hyd yn oed weld manylion y ddeddfwriaeth honno o'r adeg pan gyhoeddodd y Llywodraeth gyntaf fod problem a bod angen diwygio ei chyfundrefn arolygu ar gyfer gofal cymdeithasol. Os ydym am arfer ymagwedd seiliedig ar risg at ddeddfwriaeth a'r angen i weithredu, onid oes yn rhaid cwestiynu priodoldeb fframweithiau a gweithdrefnau deddfwriaethol y Llywodraeth os yw'n cymryd pum mlynedd i ddiwygio arolygu gofal cymdeithasol.

15:51

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Leanne Wood to move amendments 5 and 6, tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Leanne Wood i gynnig gwelliannau 5 a 6, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 5—Elin Jones*

*Amendment 5—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod bod llwyddiant y Rhaglen Ddeddfwriaethol yn dibynnu ar Raglen Lywodraethu gynhwysfawr ac ystyrlon.*

*Recognises that the success of the Legislative Programme relies on a comprehensive and coherent Programme for Government.*

*Gwelliant 6—Elin Jones*

*Amendment 6—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi bod y Rhaglen Ddeddfwriaethol yn cael ei chyfyngu pan fydd deddfwriaeth y llywodraeth yn cael ei chyfeirio at y Goruchaf Lys.*

*Notes that the Legislative Programme is restricted by referrals of government legislation to the Supreme Court.*

15:51

## Leanne Wood Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 5 and 6.

Cynigiaf welliannau 5 a 6.

Today's motion asks us to note the Welsh Government's legislative programme. The situation has moved on since the concerns that were raised at the beginning of the current Assembly with regard to the shortage of Bills that were being introduced. Plaid Cymru would agree with the matters raised by the other opposition party spokespeople as to how a number of Government Bills have not gone through the Assembly's standard legislative process. I would agree with them that there has been an overreliance on framework Bills, which, of course, do not receive the same level of scrutiny.

Mae'r cynnig heddiw'n gofyn inni nodi rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Mae'r sefyllfa wedi symud ymlaen ers y pryderon a fynegwyd ar ddechrau'r Cynulliad presennol o ran prinder y Biliau a oedd yn cael eu cyflwyno. Byddai Plaid Cymru'n cytuno â'r materion a godwyd gan lefarwyr y gwrthbleidiau eraill ynglŷn â'r ffaith nad yw nifer o Filiau'r Llywodraeth wedi mynd drwy broses ddeddfwriaethol safonol y Cynulliad. Byddwn yn cytuno â hwy y bu gorddibyniaeth ar Filiau fframwaith, nad ydynt, wrth gwrs, yn destun yr un lefel o graffu.

The focus of Plaid Cymru's amendments today is on how the legislative programme complements the programme for government. We would argue that the programme needs to be comprehensive and coherent, and that it needs to address Government priorities. In Scotland, the Government's legislation is clearly set out as part of its programme for government. The First Minister discusses the legislation in a statement that also sets out the Government's major policy actions for that year. Looking at Welsh Government legislation in isolation is not useful or helpful. Not all of the Bills in the Government's programme relate directly to the Government's performance. Some, or many, of them place duties on local authorities or other public bodies. Members here—and, indeed, the wider public—need to understand how the legislative programme and the programme for government can contribute towards improving performance.

Mae pwyslais gwelliannau Plaid Cymru heddiw ar y ffordd y mae'r rhaglen ddeddfwriaethol yn ategu'r rhaglen lywodraethu. Byddem yn dadlau bod angen i'r rhaglen fod yn gynhwysfawr ac yn gydlynol, a bod angen iddi ymdrin â blaenoriaethau'r Llywodraeth. Yn yr Alban, caiff deddfwriaeth y Llywodraeth ei nodi'n glir fel rhan o'i rhaglen lywodraethu. Mae'r Prif Weinidog yn trafod y ddeddfwriaeth mewn datganiad sydd hefyd yn nodi camau gweithredu polisi pwysig y Llywodraeth ar gyfer y flwyddyn honno. Nid yw o ddefnydd nac o gymorth edrych ar ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar ei phen ei hun. Nid yw pob un o'r Biliau yn rhaglen y Llywodraeth yn ymwneud yn uniongyrchol â pherfformiad y Llywodraeth. Mae rhai, neu lawer ohonynt yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau lleol neu gyrff cyhoeddus eraill. Mae angen i'r Aelodau yma—ac, yn wir, y cyhoedd yn gyffredinol—ddeall sut y gall y rhaglen ddeddfwriaethol a'r rhaglen lywodraethu gyfrannu at wella perfformiad.

The report of the Williams Commission says that

Mae adroddiad Comisiwn Williams yn dweud

'current arrangements for performance measurement and management at a national level are a long way from supporting it effectively and consistently.'

'nad yw trefniadau presennol i fesur a rheoli perfformiad ar lefel genedlaethol yn gwneud hynny'n effeithiol nac yn gyson o bell ffordd.'

Williams notes that the programme for government features indicators that include a mixture of input, process, output and outcome measures, which are not all applicable to the Government itself. The report by the Williams commission concludes that the programme for government does not do well enough in constituting the highest level of performance management for Welsh public services. It should be recognised that many of these issues were flagged up by Plaid Cymru when the Welsh Government first produced its programme for government.

Mae Williams yn nodi bod y rhaglen lywodraethu'n cynnwys dangosyddion sy'n rhoi cymysgedd o fesurau mewnbwn, proses, allbwn a chanlyniadau, nad ydynt i gyd yn berthnasol i'r Llywodraeth ei hun. Casgliad yr adroddiad gan gomisiwn Williams yw nad yw'r rhaglen lywodraethu'n ddigon da o ran cynnig y lefel uchaf o reoli perfformiad gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Dylid cydnabod bod Plaid Cymru wedi tynnu sylw at lawer o'r materion hyn pan luniodd Llywodraeth Cymru ei rhaglen lywodraethu gyntaf.

Plaid Cymru also seeks to draw attention today to the issue of the Supreme Court referrals, and how the whole process of Welsh legislation has been undermined in this Assembly term by those referrals and by the lack of clarity around the boundaries of devolution. The Party of Wales would obviously accept that the reserved-powers model means very little to most people. However, if it is properly explained, the reserved-powers model would be seen by most people as being a matter of common sense. Plaid Cymru's amendment does not refer specifically to such a model. However, we know that there is cross-party consensus across the Chamber on this point. We think that the number of Supreme Court referrals, and even the threat of such referrals, makes a reserved-powers model essential. This nation has made great strides in recent years in enhancing its legislative competence. There is, of course, much further to go before we get a clear and coherent settlement that can fully meet our changing needs in Wales.

Hoffai Plaid Cymru hefyd dynnu sylw heddiw at atgyfeiriadau i'r Goruchaf Lys, a'r modd y mae holl broses deddfwriaeth Cymru wedi'i thanseilio yn nhymor y Cynulliad hwn gan yr atgyfeiriadau hynny a'r diffyg eglurder ynghylch ffiniau datganoli. Byddai Plaid Cymru'n amlwg yn derbyn nad yw'r model pwerau a gadwyd yn golygu rhyw lawer i'r rhan fwyaf o bobl. Fodd bynnag, o'i egluro'n iawn, byddai'r rhan fwyaf o bobl yn credu bod y model pwerau a gadwyd yn gwneud synnwyr cyffredin. Nid yw gwelliant Plaid Cymru'n cyfeirio'n benodol at fodel o'r fath. Fodd bynnag, gwyddom fod consensws trawsbleidiol ar draws y Siambr ar y pwynt hwn. Rydym yn meddwl bod nifer yr atgyfeiriadau i'r Goruchaf Lys, a hyd yn oed fygythiad o atgyfeiriadau o'r fath, yn golygu bod model pwerau a gadwyd yn hanfodol. Mae'r genedl hon wedi cymryd camau breision yn y blynyddoedd diwethaf i wella ei chymhwysedd deddfwriaethol. Wrth gwrs, mae ffordd bellach o lawer i fynd cyn y cawn setliad clir a chydlynol a all fodloni'n llwyr ein hanghenion yng Nghymru wrth iddynt newid.

15:55 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I, too, rise to support what Suzy Davies said in respect of the procedures and processes that have been followed in this place in respect of the legislative programme, and in particular to echo the concerns of other Assembly Members around the use of the emergency Bill procedure and the effect that has on the oversight of democracy that should properly be present in this place. It seems to me that, where there is badly drafted legislation, it is far more likely to end up in the Supreme Court. We do not have the safeguard here of a second reviewing Chamber, which is of great concern where legislation is coming through.

Rwyf finnau hefyd yn codi i gefnogi'r hyn a ddywedodd Suzy Davies am y gweithdrefnau a'r prosesau a ddilynwyd yn y lle hwn o ran y rhaglen ddeddfwriaethol, ac yn benodol i adleisio pryderon Aelodau eraill y Cynulliad ynglŷn â defnyddio'r weithdrefn Bil argyfwng a'r effaith a gaiff hynny ar yr oruchwyliaeth ar ddemocratiaeth a ddylai fod yn bresennol yn y lle hwn. Mae'n ymddangos i mi, os yw deddfwriaeth wedi'i drafftio'n wael, ei bod yn llawer mwy tebygol o orfod mynd i'r Goruchaf Lys. Nid oes gennym ail Siambr adolygu i'n diogelu yma, sydd o bryder mawr pan gyflwynir deddfwriaeth.

I would also echo the concerns that have been raised by other Assembly Members regarding the fact that there have been, as Kirsty Williams said, a number of amendments that had been agreed on, really without discussion between the opposition parties, that have been voted down time and again through a casting vote. This process has arisen largely because of the way in which the committee process has been subverted. If I can refer to the Environment and Sustainability Committee, we have seen a Member from the Labour group being parachuted in who has heard no evidence before the committee, effectively just to vote. They have not heard the evidence, they have not been part of the scrutiny process, and, to my mind, that is not the way that the committee process, and, in particular, the legislative process, should work. Where we have the kind of framework legislation that is being proposed, which concentrates more and more power into the hands of Welsh Government Ministers, that is something that is a matter of constitutional concern. In my view, and it is only my view, it does not enhance the reputation of the Assembly, and it has, I would suggest, the potential to damage the reputation of the Assembly.

Rwyf hefyd am adleisio'r pryderon a godwyd gan Aelodau eraill o'r Cynulliad ynglŷn â'r ffaith y bu, fel y dywedodd Kirsty Williams, nifer o welliannau y cytunwyd arnynt, heb drafodaeth wirioneddol rhwng y gwrthbleidiau, sydd wedi colli pleidleisiau dro ar ôl tro oherwydd pleidlais fwrw. Mae hyn wedi codi i raddau helaeth oherwydd y ffordd y mae proses y pwyllgorau wedi'i gwyrdroi. Os caf gyfeirio at y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, rydym wedi gweld Aelod o'r grŵp Llafur yn cael ei barasiwtio i mewn heb glywed dim tystiolaeth gerbron y pwyllgor, dim ond i bleidleisio. Nid oedd wedi clywed y dystiolaeth, nid oedd wedi bod yn rhan o'r broses graffu, ac, yn fy marn i, nid dyna'r ffordd y dylai proses y pwyllgorau, ac yn arbennig y broses ddeddfwriaethol, weithio. Lle y mae gennym y math o ddeddfwriaeth fframwaith sy'n cael ei chynnig, sy'n rhoi mwy a mwy o rym yn nwylo Gweinidogion Llywodraeth Cymru, mae hynny'n rhywbeth sy'n destun pryder cyfansoddiadol. Yn fy marn i, a dim ond fy marn i yw hyn, nid yw hyn yn gwella enw da'r Cynulliad, ac fe allai o bosibl, byddwn yn awgrymu, niweidio enw da'r Cynulliad.

I know that the First Minister mentioned the future generations Bill, and, indeed, the environment Bill, and he will no doubt be aware of the criticisms from the Environment and Sustainability Committee that the cart is being put before the horse. There is not sufficient clarity around the principles and the potential for conflict, particularly where there may be conflict between economic, environmental or social sustainability, and even so far as the fundamentals of what 'sustainability' means.

Gwn fod y Prif Weinidog wedi sôn am Fil cenedlaethau'r dyfodol, ac, yn wir, am Fil yr amgylchedd, ac mae'n siŵr y bydd yn ymwybodol o'r feirniadaeth gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ynglŷn â pheidio â rhoi'r drol o flaen y ceffyl. Nid oes digon o eglurder ynglŷn â'r egwyddorion a'r potensial ar gyfer gwrthdaro, yn enwedig lle gallai fod gwrthdaro rhwng cynaliadwyedd economaidd, amgylcheddol neu gymdeithasol, a hyd yn oed ynghylch hanfodion yr hyn y mae 'cynaliadwyedd' yn ei olygu.

First Minister, I think sometimes that you mistake legislating for action. Legislation is not necessarily the best way to ensure the results that you want to achieve. It seems to me that issues around school standards do not require legislation. This is a problem that I have often seen with Labour Governments. I think of the Criminal Justice Act 2003, which went through the UK Parliament; it was one of the most complex pieces of legislation, and half of its provisions were never actually enacted. Much of it was knee-jerk reaction to headlines that appeared in the press, and it did not actually deliver what it said it was supposed to on the tin. You need to look at what it is you are trying to achieve. Legislation is sometimes, and I would say mostly, not the way in which you will actually achieve desired policy outcomes. That is about delivery, and that, clearly, is more about how you translate policy into action. Time and again, we have seen things coming forward that you cannot properly legislate for. It is my concern that we are going to find a lot of conflicting legislation on the statute books. There will be a great deal of pressure on local authorities to try to interpret all of this new legislation and they will find that principles in one legislative Act conflict with another. Those are my concerns.

Brif Weinidog, rwyf yn meddwl weithiau eich bod yn camgymryd deddfu am weithredu. Nid deddfwriaeth o reidrwydd yw'r ffordd orau o sicrhau'r canlyniadau yr ydych am eu cyflawni. Mae'n ymddangos i mi nad oes angen deddfu ynglŷn â materion yn ymwneud â safonau ysgolion. Mae hon yn broblem yr wyf wedi'i gweld yn aml gyda Llywodraethau Llafur. Meddyliaf am Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003, a aeth drwy Senedd y DU; roedd yn un o'r darnau mwyaf cymhleth o ddeddfwriaeth, ac ni chafodd hanner ei darpariaethau fyth eu troi'n ddeddf yn y pen draw. Roedd llawer ohoni'n ymateb difeddwl i benawdau a ymddangosodd yn y wasg, ac nid oedd mewn gwirionedd yn cyflawni'r hyn yr oedd y tun yn dweud y dylai ei gyflawni. Mae angen ichi edrych ar yr hyn yr ydych yn ceisio ei gyflawni. Weithiau, a'r rhan fwyaf o'r amser yn fy marn i, nid deddfwriaeth yw'r ffordd i gyflawni'r canlyniadau polisi a ddymunir mewn gwirionedd. Mater o gyflenwi yw hynny, ac mae hynny, yn amlwg, yn ymwneud i raddau mwy â'r ffordd yr ydych yn rhoi polisi ar waith. Dro ar ôl tro, rydym wedi gweld pethau'n codi na allwch ddeddfu'n briodol ar eu cyfer. Fy mhryder yw y bydd llawer o ddeddfwriaeth ar y llyfrau statud sy'n gwrthdaro. Bydd llawer iawn o bwysau ar awdurdodau lleol i geisio dehongli'r ddeddfwriaeth newydd hon i gyd a byddant yn gweld bod egwyddorion un Ddeddf ddeddfwriaethol yn gwrthdaro ag un arall. Dyna fy mhryderon.

16:00

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on the First Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Prif Weinidog i ymateb i'r ddadl.

16:00

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Following on from the last speaker, the Government took a lot of criticism in the first year of the current Assembly for not bringing forward legislation, but now it is being criticised for having too much. Sometimes you cannot win.

A dilyn y siaradwr diwethaf, cafodd y Llywodraeth lawer o feirniadaeth ym mlwyddyn gyntaf y Cynulliad hwn am beidio â chyflwyno deddfwriaeth, ond yn awr mae'n cael ei beirniadu am wneud gormod. Weithiau, ni allwch ennill.

All the points she makes are fair. Legislation should not be the first port of call when it comes to moving forward with policy. Members are too harsh on themselves and on this institution when they talk about the quality of legislation. In 2011, when we acquired our new powers, we had very little experience of drafting to this scale. Yes, we had the ability to draft Measures, but the reality is that much of the legislation that has been passed here since 2011 has been exceptionally complex. To have been able to do that, and scrutinise it properly, is a triumph for this institution. I offer that to all Members.

Mae'r holl bwyntiau y mae'n eu gwneud yn rhai teg. Nid deddfu ddylai fod y cam cyntaf er mwyn bwrw ymlaen â pholisi. Mae'r aelodau'n rhy llym arnynt eu hunain ac ar y sefydliad hwn wrth siarad am ansawdd deddfwriaeth. Yn 2011, pan gawsom ein pwerau newydd, ychydig iawn o brofiad a oedd gennym o ddrafftio ar y raddfa hon. Oedd, roedd gennym y gallu i ddrafftio Mesurau, ond y gwir amdani yw bod llawer o'r ddeddfwriaeth sydd wedi cael ei phasio yma ers 2011 wedi bod yn eithriadol o gymhleth. Mae'r ffaith inni allu gwneud hynny, a chraffu arni'n briodol, yn fuddugoliaeth i'r sefydliad hwn. Rwyf yn cynnig hynny i bob Aelod.

I get the impression from some of the speakers that there is almost an expectation that legislation should be perfect as soon as it is introduced in its first stage. That clearly is not going to be the case. That is what scrutiny is there for; it is there to point out drafting errors and improvements, but also to ensure that the legislation works properly and is coherent. The scrutiny process in the Assembly, despite the relative lack of Members here compared with other institutions, has shown that it can be done. The criticism aimed at us pre-2011, when many of us in the Chamber campaigned for the new powers, was that we would not be able to cope with them. We have been able to cope with them, and more. We have also introduced legislation that will be of tremendous benefit to many people in Wales—the Human Transplantation (Wales) Act 2013 being one such example of that.

Caf yr argraff gan rai o'r siaradwyr fod disgwyliad bron y dylai deddfwriaeth fod yn berffaith cyn gynted ag y caiff ei chyflwyno yn ei chyfnod cyntaf. Yn amlwg, nid yw hynny'n mynd i fod yn wir. Dyna beth yw pwrpas craffu; mae yno i nodi gwallau drafftio a gwelliannau, ond hefyd i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gweithio'n iawn a'i bod yn gydlynol. Mae'r broses graffu yn y Cynulliad, er gwaethaf prinder cymharol nifer yr Aelodau yma o'i gymharu â sefydliadau eraill, wedi dangos y gellir ei wneud. Y feirniadaeth a gawsom cyn 2011, pan oedd llawer ohonom yn y Siambr yn ymgyrchu dros y pwerau newydd, oedd na fyddem yn gallu ymdopi â hwy. Rydym wedi gallu ymdopi â hwy, a mwy. Rydym hefyd wedi cyflwyno deddfwriaeth a fydd o fudd aruthrol i lawer o bobl yng Nghymru—mae Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 yn un enghraifft o hynny.

16:02 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister, for taking the intervention. I think that what you will have heard in the Chamber today is not criticism that there is too much scrutiny in the Chamber, but that very often there is too little.

Diolch, Brif Weinidog, am gymryd yr ymyriad. Credaf nad beirniadaeth fod gormod o graffu yn y Siambr oedd yr hyn a glywsoch yn y Siambr heddiw, ond yn aml iawn nad oes digon ohono.

16:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I beg the Member's pardon; I did not hear the last sentence.

Mae'n ddrwg gennyf, Aelod; ni chlywais y frawddeg olaf.

16:02 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

May I say it again? Thank you for a second try, First Minister. In your remarks just a few moments ago, you said that we were treating ourselves very harshly because we are talking about the way we improve legislation through scrutiny. The main complaint that you have heard in the Chamber today is that, on occasion, there is not enough scrutiny.

A gaf fi ddweud eto? Diolch am ail gyfle, Brif Weinidog. Yn eich sylwadau rai munudau'n ôl, dywedasoch ein bod yn llym iawn arnom ein hunain gan ein bod yn sôn am sut yr ydym yn gwella deddfwriaeth drwy graffu. Y brif gŵyn yr ydych wedi'i chlywed yn y Siambr heddiw yw nad oes digon o graffu ar adegau.

16:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I understand full well the pressures on Members here when it comes to scrutiny. I do not think that there is any legislature anywhere where backbench Members have as much work to do. I know that there are pressures in terms of scrutiny in that sense. That can only be resolved, ultimately, through examining the number of Members within the Chamber. We all understand that, despite the difficulties that exist in terms of public perceptions.

Rwyf yn deall yn iawn y pwysau ar Aelodau yma ynglŷn â chraffu. Nid wyf yn credu bod unrhyw ddeddfwrfa yn unman arall lle y mae gan Aelodau'r meinciau cefn gymaint o waith i'w wneud. Gwn fod pwysau o ran craffu yn yr ystyr hwnnw. Yr unig ffordd o ddatrys hynny, yn y pen draw, yw drwy edrych ar nifer yr Aelodau yn y Siambr. Rydym i gyd yn deall hynny, er gwaethaf yr anawsterau o ran canfyddiadau'r cyhoedd.

There is a balance to be struck between how much detail to put in a Bill or not. Framework legislation is not legislation where there is scope for more secondary legislation. Framework legislation is much looser than that. Most Bills will inevitably have provision for secondary legislation to be made off the back of them. Why? It is in order to provide flexibility.

Mae'n rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng faint o fanylion i'w rhoi mewn Bil neu beidio. Nid deddfwriaeth lle y mae lle i fwy o is-ddeddfwriaeth mo deddfwriaeth fframwaith. Mae deddfwriaeth fframwaith yn llawer mwy llac na hynny. Mae'n anochel y bydd y rhan fwyaf o Filiau'n cynnwys darpariaeth i wneud is-ddeddfwriaeth i'w dilyn. Pam? Er mwyn rhoi hyblygrwydd.

If, for example, there is too much on the face of the Bill, every time that circumstances change and there is a need to change the law, the Act has to be amended. That is a far more onerous process than, for example, changing secondary legislation. It is a balance on which all will have their different viewpoints in terms of how to strike it. However, as a Government, we try to strike a balance between having as much detail as possible on the face of the Bill while at the same time securing the need to have enough flexibility to look at many of the concerns surrounding the Bill and many of the powers that need to be exercised more flexibly.

Os oes gormod ar wyneb y Bil, er enghraifft, bob tro y bydd yr amgylchiadau'n newid fel bod angen newid y gyfraith, rhaid diwygio'r Ddeddf. Mae hynny'n broses fwy beichus o lawer nag, er enghraifft, newid is-ddeddfwriaeth. Mae'n fater o gydbwysedd, a bydd gan bawb safbwyntiau gwahanol o ran sut i'w sicrhau. Fodd bynnag, fel Llywodraeth, rydym yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng rhoi cynifer o fanylion â phosibl ar wyneb y Bil a sicrhau hefyd yr angen am ddigon o hyblygrwydd i edrych ar lawer o'r pryderon ynghylch y Bil a llawer o'r pwerau y mae angen eu harfer yn fwy hyblyg.

In terms of the way that things work in the Chamber with the casting vote of the Llywydd, well, that is the arithmetic of the place. That is what people voted for at the end of the day. That cannot be changed. The reality is that there are 30 Members of the Government's party here and there are 30 who are not. That is what we have to deal with, whether we are in Government or opposition. Our Standing Orders provide for what happens in terms of the way that the Presiding Officer or the Deputy Presiding Officer has to cast a vote. We cannot do anything about that in terms of our procedures. That is what the people of Wales have delivered to us. We must work within that.

O ran y ffordd y mae pethau'n gweithio yn y Siambr gyda phleidlais fwrw'r Llywydd, wel, dyna rifyddeg y lle. Dyna'r hyn y pleidleisiodd pobl drosto yn y pen draw. Ni ellir newid hynny. Y gwir yw bod 30 Aelod o blaid y Llywodraeth yma a 30 Aelod arall. Dyna'r hyn y mae'n rhaid inni ymdrin ag ef, p'un a ydym yn y Llywodraeth neu mewn gwrthblaid. Mae ein Rheolau Sefydlog yn darparu ar gyfer yr hyn sy'n digwydd o ran y ffordd y bydd yn rhaid i'r Llywydd neu'r Dirprwy Lywydd fwrw pleidlais. Ni allwn wneud dim byd am hynny o ran ein gweithdrefnau. Dyna'r hyn y mae pobl Cymru wedi'i gyflwyno inni. Rhaid inni weithio o fewn hynny.

I cannot agree with Suzy Davies—well, I cannot begin to remember what she said about the Agricultural Sector (Wales) Bill. She said that it was spat out, along with various other less than complimentary descriptions of it. What I would say to her is that she may not agree with what it says, but in terms of the quality of legislation, I do not think that there is any room for criticism. It is a piece of legislation that is robust and sound. The Member may not agree with it, but that does not mean that the legislation is in and of itself unsound.

Ni allaf gytuno â Suzy Davies—wel, ni allaf ddechrau cofio'r hyn a ddywedodd am Fil y Sector Amaethyddol (Cymru). Dywedodd ei fod wedi'i boeri allan, ynghyd ag amryw o ddisgrifiadau eraill llai na charedig ohono. Yr hyn y byddwn yn ei ddweud wrthi yw y caiff anghytuno â'r hyn y mae'n ei ddweud, ond o ran ansawdd y ddeddfwriaeth, nid wyf yn credu bod dim lle i'w feirniadu. Mae'n ddarn o ddeddfwriaeth sy'n gadarn ac yn gryf. Efallai nad yw'r Aelod yn cytuno ag ef, ond nid yw hynny'n golygu nad yw'r ddeddfwriaeth ynddi'i hun yn gadarn.

The reason why we have seen legislation referred to the Supreme Court is not because it is badly drafted. I would say to the Member for North Wales that legislation would not be referred to the Supreme Court on the basis that it was badly drafted; it would be referred to the Supreme Court on the basis of whether it is within competence. It is not to do with drafting.

Nid oherwydd ei bod wedi'i drafftio'n wael yr ydym wedi gweld atgyfeirio deddfwriaeth at y Goruchaf Lys. Byddwn yn dweud wrth yr Aelod dros Ogledd Cymru na châi deddfwriaeth ei hatgyfeirio at y Goruchaf Lys oherwydd ei bod wedi'i drafftio'n wael; byddai'n cael ei hatgyfeirio at y Goruchaf Lys yn seiliedig ar ei chymhwysedd. Nid oes a wnelo hynny ddim â drafftio.

16:05

## Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very grateful to the First Minister for taking an intervention. In fact, one of the provisions of that Bill drafts the definition of an agricultural worker so widely that it, in effect, covers an enormous proportion of the population. That was a criticism that was levelled at the time. I do not know whether the Supreme Court has looked at that. I shall wait to see what the judgment says.

Rwyf yn ddiolchgar iawn i'r Prif Weinidog am dderbyn ymyriad. A dweud y gwir, mae un o ddarpariaethau'r Bil hwnnw'n drafftio'r diffiniad o weithiwr amaethyddol mor eang nes ei fod, mewn gwirionedd, yn cwmpasu cyfran enfawr o'r boblogaeth. Roedd hynny'n feirniadaeth a wnaed ar y pryd. Nid wyf yn gwybod a yw'r Goruchaf Lys wedi edrych ar hynny. Arhosaf i weld beth fydd y dyfarniad yn ei ddweud.

16:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, it would not. The Supreme Court looks purely at issues of competence. The Local Government Byelaws (Wales) Bill was referred because there was a dispute over the altering of a Minister of the Crown function and the Agricultural Sector (Wales) Bill has been referred because there is a genuine disagreement between us and the UK Government on the extent of the Assembly's competence. It is not to do with the drafting of the Bill itself.

Wel, ni fyddai. Dim ond ar faterion cymhwysedd y mae'r Goruchaf Lys yn edrych. Cafodd y Bil Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) ei atgyfeirio oherwydd bod anghydfod ynghylch newid un o swyddogaethau Gweinidogion y Goron a chafodd Bil Sector Amaethyddol (Cymru) ei atgyfeirio oherwydd bod anghytuno gwirioneddol rhyngom ni a Llywodraeth y DU ynglŷn â hyd a lled cymhwysedd y Cynulliad. Nid yw'n ymwneud â drafftio'r Bil ei hun.

In terms of what the leader of the Liberal Democrats said—yes, it is important that we have sufficient drafting capacity. That means that we need to have enough drafting lawyers. They are not easy to recruit, but we have managed to recruit several over the years. They are not easily trained, but, nevertheless, we have been able to put in place a substantive legislative programme that, when scrutinised—as it has been within the Chamber—has led, I believe, to sound legislation.

O ran yr hyn a ddywedodd arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol—ydy, mae'n bwysig bod gennym ddigon o gapasiti drafftio. Mae hynny'n golygu bod angen digon o gyfreithwyr drafftio arnom. Nid ydynt yn hawdd eu recriwtio, ond rydym wedi llwyddo i recriwtio sawl un dros y blynyddoedd. Nid yw'n hawdd eu hyfforddi, ond, serch hynny, rydym wedi gallu sefydlu rhaglen ddeddfwriaethol sylweddol sydd, o graffu arni—fel sydd wedi digwydd o fewn y Siambr hon—wedi arwain, yn fy marn i, at ddeddfwriaeth gadarn.

Scotland has not been particularly prolific at bringing forward legislation in the past few years. We have a substantial legislative programme in front of us, and I am confident that the programme will deliver legislation of quality that is coherent, understandable and ultimately legally sound.

Nid yw'r Alban wedi bod yn arbennig o gynhyrchiol o ran cyflwyno deddfwriaeth yn y blynyddoedd diwethaf. Mae gennym raglen ddeddfwriaethol sylweddol o'n blaenau, ac rwyf yn hyderus y bydd y rhaglen yn darparu deddfwriaeth o ansawdd sy'n gydlynol, yn ddealladwy ac yn y pen draw'n gyfreithiol gadarn.

Finally, in terms of the comparison with Westminster, I would say to Members that Westminster has produced some pretty ropey legislation over the years. The Dangerous Dogs Act 1991 was a perfect example of a knee-jerk Government reaction to headlines and to some appalling events, which produced legislation that was so incoherent that it was almost impossible to enforce. Westminster is not a perfect example in terms of how to draft legislation properly and coherently.

Yn olaf, o ran y gymhariaeth â San Steffan, byddwn yn dweud wrth yr Aelodau fod San Steffan wedi cynhyrchu deddfwriaeth ddigon amheus dros y blynyddoedd. Roedd Deddf Cŵn Peryglus 1991 yn enghraifft berffaith o ymateb difeddwl Llywodraeth i benawdau ac i rai digwyddiadau ofnadwy, a gynhyrchodd ddeddfwriaeth a oedd mor annealladwy nes ei bod bron yn amhosibl ei gorfodi. Nid yw San Steffan yn enghraifft berffaith o sut i ddrafftio deddfwriaeth yn iawn ac yn gydlynol.

Nevertheless, I understand that it is important for us to, first, put forward a legislative programme and, secondly, to have a body of laws in Wales that the public can understand and that the courts will find to be sound. I believe that we are in that situation. I believe that we will continue to be in that situation and, of course, the scrutiny process is absolutely essential for ensuring that that is the case.

Serch hynny, rwyf yn deall ei bod yn bwysig inni, yn gyntaf, gyflwyno rhaglen ddeddfwriaethol ac, yn ail, gael corff o gyfreithiau yng Nghymru y gall y cyhoedd eu deall ac y bydd y llysoedd yn gweld eu bod yn gadarn. Rwyf yn credu ein bod yn y sefyllfa honno. Rwyf yn credu y byddwn yn parhau i fod yn y sefyllfa honno ac, wrth gwrs, mae'r broses graffu'n gwbl hanfodol i sicrhau bod hynny'n digwydd.

16:08 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There is objection, so I will defer all voting until voting time.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly gohiriaf yr holl bleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

16:08 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Business Committee agreed that voting time would be immediately after business and before the Report Stage debate on the Social Services and Well-Being (Wales) Bill. So, I intend to move straight into voting time.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r cyfnod pleidleisio'n union ar ôl y busnes a cyn dadl y Cyfnod Adrodd ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Felly, bwriadaf symud ymlaen yn syth at y cyfnod pleidleisio.

Does any Member wish for the bell to be rung? Do three people wish for the bell to be rung? They are three reluctant people, by the sound of it. Would you ring the bell, please?

A oes unrhyw Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? A oes tri o bobl yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Mae'n swnio fel petaent yn dri o bobl gyndyn. A wnewch ganu'r gloch, os gwelwch yn dda?

*Canwyd y gloch i alw'r Aelodau i'r Siambr.*

*The bell was rung was rung to call Members to the Chamber.*

16:10

## Cyfnod Pleidleisio

## Voting Time

Y Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I think that all Members are back in the Chamber, even though the five minutes are not up. Are you comfortable that we move to the votes? I see that you are. Thank you very much.

Credaf fod pob Aelod yn ôl yn y Siambr, er nad yw'r pum munud ar ben. A ydych yn gyfforddus ein bod yn symud at y pleidleisiau? Gwelaf eich bod. Diolch yn fawr iawn i chi.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5471

Result of the vote on motion NDM5471

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 52, Yn erbyn 0, Ymatal 6.*

*Motion agreed: For 52, Against 0, Abstain 6.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5463

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5463

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 28, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 28, Against 29, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5463

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5463

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5463

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5463

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5463

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5463

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 58, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 58, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5463

Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5463

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 58, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 58, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnig NDM5463

Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5463

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 45, Yn erbyn 13, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 45, Against 13, Abstain 0.*

Cynnig NDM5463 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5463 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Notes the Welsh Government's Legislative Programme.

Yn galw ar y Llywodraeth i gyflwyno Bil ar Anghenion Addysgol Arbennig o fewn y flwyddyn nesaf.

Calls on the Government to bring forward a bill on special educational needs within the next year.

Yn cydnabod bod llwyddiant y Rhaglen Ddeddfwriaethol yn dibynnu ar Raglen Lywodraethu gynhwysfawr ac ystyrlon.

Recognises that the success of the Legislative Programme relies on a comprehensive and coherent Programme for Government.

Yn nodi bod y Rhaglen Ddeddfwriaethol yn cael ei chyfyngu pan fydd deddfwriaeth y llywodraeth yn cael ei chyfeirio at y Goruchaf Lys.

Notes that the Legislative Programme is restricted by referrals of government legislation to the Supreme Court.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5463 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5463 as amended

*Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd: O blaid 45, Yn erbyn 0, Ymatal 13.*

*Motion as amended agreed: For 45, Against 0, Abstain 13.*

16:14 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I now intend to adjourn for 10 minutes before we start the next item. The bell will be rung once, and I ask you all to be back in your places as soon as possible. Thank you.

Rwyf yn awr yn bwriadu gohirio am 10 munud cyn i ni ddechrau yr eitem nesaf. Bydd y gloch yn canu unwaith, ac rwy'n gofyn i chi i gyd i fod yn ôl yn eich lleoedd cyn gynted ag y bo modd. Diolch yn fawr.

*Ataliwyd y Cyfarfod Llawn am 16:14.*

*Plenary was suspended at 16:14.*

*Ailymgynullodd y Cynulliad am 16:23.*

*The Assembly reconvened at 16:23.*

## Dadl y Cyfnod Adrodd ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

## Report Stage Debate for the Social Services and Well-Being (Wales) Bill

### Grŵp 1: Egwyddorion Statudol (Gwelliant 106)

### Group 1: Statutory Principles (Amendment 106)

16:23 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead and only amendment in the group is amendment 106. I call on Kirsty Williams to move amendment 106 and to speak to it.

Y prif welliant a'r unig un yn y grŵp yw gwelliant 106. Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliant 106 ac i siarad amdano.

16:23 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Presiding Officer. I move amendment 106 in my name.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Cynigiaf welliant 106 yn fy enw i.

They say that the definition of insanity is doing the same thing over and over again and expecting a different result. However, I stand by what I said at Stage 2 and at Stage 3 about the need for the inclusion of statutory principles on the face of this legislation. I do so because, once upon a time, every single member of the Health and Social Care Committee felt that it was necessary to put statutory principles on the face of the legislation, a point that was unanimously agreed in the health committee's consideration of the legislation and which formed the first recommendation in its report. It states:

Maent yn dweud mai'r diffiniad o wallgofrwydd yw gwneud yr un peth drosodd a throsodd a disgwyl canlyniad gwahanol. Fodd bynnag, rwy'n cadw at yr hyn a ddywedais yng Nghyfnod 2 ac yng Nghyfnod 3 am yr angen i gynnwys egwyddorion statudol ar wyneb y ddeddfwriaeth hon. Rwy'n gwneud hynny oherwydd bod pob un aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ar un adeg, o'r farn ei bod yn angenrheidiol rhoi egwyddorion statudol ar wyneb y ddeddfwriaeth, pwynt a gytunwyd yn unfrydol yn ystyriaeth y pwyllgor iechyd o'r ddeddfwriaeth a'r argymhelliad cyntaf yn ei adroddiad. Mae'n datgan:

'We agree with the views of witnesses that statutory principles should be included on the face of the Bill. We believe that such principles would assist practitioners and service users in understanding the ethos of the Bill.'

'Cytunwn â barn tystion y dylai egwyddorion statudol gael eu cynnwys ar wyneb y Bil. Credwn y byddai egwyddorion o'r fath yn help i ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaethau ddeall ethos y Bil.'

Presiding Officer, we know that good legislation is not just about decent drafting. Legislation has to be accessible for those practitioners that have to work within the legislation and for those who may be affected by it. What we do know is that this legislation is long and complex and deals with some of the most important aspects of caring for our most vulnerable citizens. Therefore, I believe that it is essential that we place at the very front of the Bill the statutory principles to which practitioners need to adhere. The Government has in some way admitted the fact that there needs to be clarification by saying that there is the intention to develop a code of practice for practitioners. However, a code of practice is not law and it is not as good, I would argue, as having quite clearly stated on the face of the Bill the guiding principles that should enshrine people's rights. Let us be clear what we are talking about, because it is not controversial, and nor do I think that a single Member here would disagree with the components of the statutory principles. They are about ensuring that the welfare of any child in need of care and support will be the paramount consideration; that any action considered under this Bill must maximise the independence and autonomy of the individual; and that decisions under this Bill should put at their forefront principles of dignity, safety and the wellbeing of a person.

Lywydd, rydym yn gwybod nad yw deddfwriaeth dda yn ymwneud â drafftio gweddus yn unig. Rhaid i ddeddfwriaeth fod yn rhwydd i'w defnyddio i'r ymarferwyr hynny y mae'n rhaid iddynt weithio o fewn y ddeddfwriaeth ac i'r rhai a allai gael eu heffeithio ganddi. Yr hyn yr ydym yn ei wybod yw bod y ddeddfwriaeth hon yn hir a chymhleth ac yn delio â rhai o'r agweddau mwyaf pwysig o ofalu am ein dinasyddion sydd fwyaf agored i niwed. Felly, rwy'n credu ei bod yn hanfodol ein bod yn rhoi yn union ar flaen y Bil yr egwyddorion statudol y mae angen i ymarferwyr gadw atynt. Mae'r Llywodraeth mewn rhyw ffordd wedi cyfaddef bod angen eglurhad drwy ddweud bod bwriad i ddatblygu cod ymarfer ar gyfer ymarferwyr. Fodd bynnag, nid yw cod ymarfer yn gyfraith ac nid yw cystal, byddwn yn dadlau, â datgan yn glir ar wyneb y Bil yr egwyddorion arweiniol a ddylai ymgorffori hawliau pobl. Gadewch inni fod yn glir am beth yr ydym yn sôn, gan nad yw'n ddadleuol, ac nid wyf yn meddwl y byddai'r un Aelod yma yn anghytuno ag elfennau'r egwyddorion statudol. Maent yn ymwneud â sicrhau mai'r brif ystyriaeth fydd lles unrhyw blentyn sydd ag angen gofal a chymorth; bod yn rhaid i unrhyw gamau a gaiff eu hystyried o dan y Bil hwn gynyddu annibyniaeth ac ymreolaeth yr unigolyn i'r eithaf; ac y dylai penderfyniadau dan y Bil hwn roi lle blaenllaw i egwyddorion urddas, diogelwch a lles yr unigolyn.

I could go on and on, but the amendment is there for people to read. As I said, good law is accessible law. It is about having a clear understanding of what the Government's aims and objectives are, and the statutory principles in amendment 106 hope to achieve that.

Gallwn fynd ymlaen ac ymlaen, ond mae'r gwelliant yno i bobl ei ddarllen. Fel y dywedais, mae cyfraith dda yn gyfraith hygyrch. Mae'n ymwneud â chael dealltwriaeth glir o beth yw nodau ac amcanion y Llywodraeth, ac mae'r egwyddorion statudol yng ngwelliant 106 yn gobeithio cyflawni hynny.

16:26

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Darren Millar.

Galwaf ar Darren Millar.

16:26

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I rise to speak in support of this amendment, as our party supported it at Stage 3. I think it is important that we have some clarity at the outset of the Bill for people to be able to digest and understand what their responsibilities under the Bill are. It is not just for practitioners or service users, but for organisations like the office of the Commissioner for Older People in Wales and the Public Services Ombudsman for Wales so that they can help to support people in ensuring that they have access to the statutory principles set out. For that reason, we will be supporting this amendment this afternoon and we will be encouraging all other Members in the Chamber to do likewise.

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n codi i siarad o blaid y gwelliant hwn, gan fod ein plaid wedi ei gefnogi yng Nghyfnod 3. Rwy'n credu ei bod yn bwysig ein bod yn cael rhywfaint o eglurder ar ddechrau'r Bil er mwyn i bobl allu treulio a deall beth yw eu cyfrifoldebau o dan y Bil. Nid ar gyfer ymarferwyr neu ddefnyddwyr gwasanaeth yn unig y mae, ond ar gyfer sefydliadau megis swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel y gall helpu i gefnogi pobl i sicrhau bod yr egwyddorion statudol a nodir ar gael iddynt. Am y rheswm hwnnw, byddwn yn cefnogi'r gwelliant hwn y prynhawn yma, a byddwn yn annog yr holl Aelodau eraill yn y Siambr i wneud yr un peth.

16:27

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Deputy Minister.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog.

16:27 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Members are, of course, familiar with the issue of statutory principles, and we have heard about this from Kirsty Williams and, indeed, Darren Millar as a result of their inclusion as a recommendation in the Health and Social Care Committee Stage 1 report and from the debates arising from the previous consideration of amendments tabled by Kirsty Williams at Stages 2 and 3. These amendments were not passed in the prior stages and I believe that, in tabling them again, Kirsty Williams has not recognised the significant strengthening of the Bill as regards principles that this Assembly has achieved through its earlier scrutiny and passing of amendments. These include, I might add, the United Nations Principles for Older Persons inserted at Stage 3. Members will also recall that, at Stage 2, the committee agreed to add to the overarching duties in order to include the principles that I expect those exercising functions under the Bill to abide by. They are duties that must be adhered to and which draw on the core elements of the amendment that Kirsty Williams has tabled. These are: having regard to a person's views, wishes and feelings; respecting their dignity, characteristics, culture, beliefs and language; and enabling the participation of the person in decision making about their care. That is how we would all wish to be treated. Those affected by this Bill should not expect any different. Having made clear my views on Kirsty Williams's amendments twice previously, I have nothing further to add other than to reiterate most strongly that the inclusion of Kirsty Williams's amendment is unnecessary. The Assembly has already provided for the inclusion of principles within this Bill, and for this reason I urge Members not to support amendment 106.

Diolch i chi, Lywydd. Mae aelodau, wrth gwrs, yn gyfarwydd â mater yr egwyddorion statudol, ac rydym wedi clywed am hyn gan Kirsty Williams ac, yn wir, gan Darren Millar o ganlyniad i'w cynnwys fel argymhelliad yn Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ac yn y dadleuon a oedd yn deillio o'r ystyriaeth flaenorol o'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Kirsty Williams yng Nghyfnodau 2 a 3. Ni chafodd y gwelliannau hyn eu pasio yn y cyfnodau blaenorol a chredaf nad yw Kirsty Williams, wrth eu cyflwyno eto, wedi cydnabod bod y Cynulliad hwn wedi llwyddo i gryfhau'r Bil yn sylweddol o ran yr egwyddorion drwy ei waith craffu cynharach a thrwy basio gwelliannau. Mae'r rhain yn cynnwys, gallwn ychwanegu, Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Personau Hŷn a fewnosodwyd yng Nghyfnod 3. Bydd yr Aelodau hefyd yn cofio y cytunodd y pwyllgor, yng Nghyfnod 2, i ychwanegu at y dyletswyddau cyffredinol er mwyn cynnwys yr egwyddorion yr wyf yn disgwyl i'r rhai sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil gadw atynt. Maent yn ddyletswyddau y mae'n rhaid eu dilyn ac sy'n cadw at elfennau craidd y gwelliant y mae Kirsty Williams wedi'i gyflwyno. Y rhain yw: ystyried barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn; parchu ei urddas, ei nodweddion, ei ddiwylliant, ei gredoau a'i iaith; a galluogi'r unigolyn i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau am ei ofal. Dyna sut y byddem i gyd yn dymuno cael ein trin. Ni ddylai'r rhai yr effeithir arnynt gan y Bil hwn ddisgwyl dim gwahanol. Ar ôl gwneud fy marn am welliannau Kirsty Williams yn glir ddwywaith o'r blaen, nid oes gennyf ddim i'w ychwanegu heblaw i ailadrodd yn bendant nad oes angen cynnwys gwelliant Kirsty Williams. Mae'r Cynulliad eisoes wedi darparu ar gyfer cynnwys egwyddorion o fewn y Bil hwn, ac am y rheswm hwn rwy'n annog yr Aelodau i beidio â chefnogi gwelliant 106.

16:29 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Kirsty Williams to reply.

Galwaf ar Kirsty Williams i ymateb.

16:29 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, Presiding Officer. It is quite amazing to think that one of the reasons why the Government feels it is not appropriate to support this amendment today is the inclusion at the previous Stage 3 report of Darren Millar's amendment relating to the rights of older people. Let us be clear how that happened. A rather unfortunate Member, who got up and admitted it, pressed the wrong button. The Deputy Minister is now trying to claim that this is a point of principle that they wanted to include in the Bill, which is somewhat amazing.

Diolch yn fawr iawn, Lywydd. Mae'n eithaf anhygoel meddwl mai un o'r rhesymau pam y mae'r Llywodraeth yn teimlo nad yw'n briodol cefnogi'r gwelliant hwn heddiw yw'r ffaith fod gwelliant Darren Millar yn ymwneud â hawliau pobl hŷn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad blaenorol Cyfnod 3. Gadewch inni fod yn glir sut y digwyddodd hynny. Roedd Aelod braidd yn anffodus, a gododd ar ei draed a chyfaddef hynny, wedi pwyso'r botwm anghywir. Mae'r Dirprwy Weinidog yn awr yn ceisio honni bod hwn yn bwynt o egwyddor yr oeddynt yn dymuno'i gynnwys yn y Bil, sydd braidd yn anhygoel.

Throughout this campaign to include statutory principles on the face of the Bill, I have yet to find a coherent reason from the Government why placing at the very forefront of the Bill this set of principles so that it is absolutely clear and beyond debate what practitioners and individuals should expect to deliver and to receive, in some way, negates what is in the rest of the Bill, or makes the Bill more complex or less accessible. I regret that I have been unable to convince not only the Deputy Minister, but the members of the committee who were quite willing to sign up to this recommendation on the basis of the evidence that was heard at the committee, and now, without further explanation, find it impossible to support this amendment.

Drwy gydol yr ymgyrch hon i gynnwys egwyddorion statudol ar wyneb y Bil, nid wyf wedi canfod unrhyw reswm cydlynol gan y Llywodraeth pam fod gosod ar flaen y Bil y gyfres hon o egwyddorion fel ei bod yn gwbl glir a thu hwnt i ddadl yr hyn y dylai ymarferwyr ac unigolion ddisgwyl ei gyflwyno a'i derbyn, mewn rhyw ffordd, yn dirymu'r hyn sydd yng ngweddill y Bil, neu'n gwneud y Bil yn fwy cymhleth neu'n llai hygyrch. Rwy'n gresynu nad wyf wedi gallu argyhoeddi nid yn unig y Dirprwy Weinidog, ond aelodau'r pwyllgor hefyd a oedd yn gwbl barod i ymrwymo i'r argymhelliad hwn ar sail y dystiolaeth a glywyd yn y pwyllgor ac sydd, yn awr, heb ragor o esboniad, yn ei chael yn amhosibl cefnogi'r gwelliant hwn.

16:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 106 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will move straight to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 106 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly symudwn yn syth i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 106.

Result of the vote on amendment 106.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order No. 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

## Grŵp 2: Technegol (Gwelliannau 11, 22, 23, 24, 25, 43, 52, 55, 56, 57, 58, 97, 60, 63, 64, 65, 66, 69, 70, 83, 84, 85, 87, 91 a 10)

## Group 2: Technical (Amendments 11, 22, 23, 24, 25, 43, 52, 55, 56, 57, 58, 97, 60, 63, 64, 65, 66, 69, 70, 83, 84, 85, 87, 91 and 10)

16:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 11. I call on the Deputy Minister to move amendment 11 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 11. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 11 ac i siarad am hwn ac am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

16:31 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 11 in my name.

Cynigiaf welliant 11 yn fy enw i.

It is important that the Government is able to deal with technical or drafting issues that emerge during the course of the scrutiny process. These technical amendments address some of these issues and I ask Members to support them.

Mae'n bwysig bod y Llywodraeth yn gallu ymdrin â materion technegol neu ddrafftio sy'n dod i'r amlwg yn ystod y broses graffu. Mae'r diwygiadau technegol hyn yn mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn a gofynnaf i Aelodau eu cefnogi.

16:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call Kirsty Williams.

Galwaf ar Kirsty Williams.

16:31 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

No, it is fine.

Na, mae'n iawn.

16:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

Therefore, the question is that amendment 11 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 11 is agreed.

Felly, y cwestiwn yw bod gwelliant 11 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 11 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 11 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 11 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

**Grŵp 3: Egwyddorion a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig (Gwelliannau 7, 8 a 9)**

**Group 3: UN Principles and Convention (Amendments 7, 8 and 9)**

16:32

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 7. I call on Darren Millar to move amendment 7 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 7. Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliant 7 ac i siarad am hwn ac am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

16:32

## Darren Millar

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 7 in my name.

Cynigiaf welliant 7 yn fy enw i.

Members will recall that, at Stage 3, there was a vote in support of an amendment tabled in my name, which added to the face of the Bill a requirement for anybody exercising functions under the Social Services and Well-being (Wales) Bill to pay regard to the United Nations Principles for Older Persons. These amendments today expand on those duties and ensure that the existing duties that Welsh Ministers have in respect of the United Nations Convention on the Rights of the Child, are extended to those organisations and individuals who will exercise functions under this Bill, as well. I am very grateful for the support that Members have given on all sides of this Chamber for the need to recognise the United Nations Principles for Older Persons and enshrine them in Welsh law.

Bydd yr Aelodau'n cofio y cafwyd pleidlais, yng Nghyfnod 3, i gefnogi gwelliant a gyflwynwyd yn fy enw i, a oedd yn ychwanegu gofyniad at wyneb y Bil i unrhyw un sy'n arfer swyddogaethau o dan y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i roi sylw i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn. Mae'r gwelliannau heddiw yn ymhelaethu ar y dyletswyddau hynny ac yn sicrhau bod y dyletswyddau presennol sydd gan Weinidogion Cymru o safbwynt Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn cael eu hymestyn i'r sefydliadau a'r unigolion hynny a fydd yn arfer swyddogaethau o dan y Bil hwn, yn ogystal. Rwy'n ddiolchgar iawn am y gefnogaeth gan Aelodau ar bob ochr i'r Siambr hon i'r angen i gydnabod Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a'u hymgorffori yng nghyfraith Cymru.

When the Assembly passed its piece of legislation on the rights of children and young people, in the Measure that was taken through the third Assembly, I think that it was a very proud moment for this place. It was a piece of legislation that was supported on all sides of the Chamber and ensured that, in Welsh law, children and young people's rights were fully enshrined. Today, we have the opportunity to do exactly the same for older people, respecting that older people also have unique needs and that the UN Principles for Older Persons should be enshrined in Welsh law. I believe that we will be the first country in the world to enshrine these principles in our laws, and I for one am very proud to have played a part in doing that. I am very grateful for the indication of support that the Deputy Minister has given to these amendments in the private discussions that I have had with her and her officials to date.

Pan basiodd y Cynulliad ei ddarn o ddeddfwriaeth ar hawliau plant a phobl ifanc, yn y Bil a aeth trwy'r trydydd Cynulliad, rwy'n meddwl ei bod yn destun balchder mawr i'r lle hwn. Roedd yn ddarn o ddeddfwriaeth a gefnogwyd gan bob ochr i'r Siambr ac a oedd yn sicrhau, yng nghyfraith Cymru, bod hawliau plant a phobl ifanc, yn cael eu hymgorffori'n llawn. Heddiw, mae gennym y cyfle i wneud yn union yr un peth ar gyfer pobl hŷn, gan barchu bod gan bobl hŷn hefyd anghenion unigryw ac y dylai Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn gael eu hymgorffori yng nghyfraith Cymru. Rwy'n credu mai hon fydd y wlad gyntaf yn y byd i ymgorffori'r egwyddorion hyn yn ein cyfreithiau, ac rwyf innau'n falch iawn o fod wedi cyfrannu at gyflawni hynny. Rwy'n ddiolchgar iawn am yr arwydd o gefnogaeth y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'i roi i'r gwelliannau hyn yn y trafodaethau preifat yr wyf wedi'u cael gyda hi a'i swyddogion hyd yma.

Let us remember that older people play a very important part in Welsh society. We know that the number of older people in Wales will significantly increase in terms of those aged over 65. We will see an increase of over a third in the next 25 years. We must not underestimate the enormous contribution that older people make, whether it is in terms of volunteering or of giving care to their loved ones—whether those loved ones be grandchildren, partners or other members of their families—and in terms of the huge contribution that they make to the Welsh economy, which I think was estimated by the Royal Voluntary Service to be worth over £1 billion to the Welsh economy in 2010. Therefore, it is clear that we need to ensure that the rights of older people are enshrined in Welsh law, and I believe that these amendments that we are tabling today, one of which will introduce a new section to this Bill, will ensure that the rights of older people are not overlooked here in Wales. I urge Members to support them.

Gadewch inni gofio bod pobl hŷn yn chwarae rhan bwysig iawn yn y gymdeithas yng Nghymru. Rydym yn gwybod y bydd nifer y bobl hŷn yng Nghymru, sef pobl dros 65 oed, yn cynyddu'n sylweddol. Byddwn yn gweld cynnydd o dros draean yn y 25 mlynedd nesaf. Ni ddylid tanbrisio'r cyfraniad enfawr y mae pobl hŷn yn ei wneud, boed hynny o ran gwirfoddoli neu roi gofal i'w hanwyliaid—boed yr anwyliaid hynny yn wyrion, partneriaid neu aelodau eraill o'u teuluoedd—ac o ran y cyfraniad enfawr y maent yn ei wneud i economi Cymru. Rwy'n meddwl bod y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol wedi amcangyfrif bod hwnnw'n werth dros £1 biliwn i economi Cymru yn 2010. Felly, mae'n amlwg bod angen i ni sicrhau bod hawliau pobl hŷn yn cael eu hymgorffori yng nghyfraith Cymru, a chredaf fod y gwelliannau hyn yr ydym yn eu cyflwyno heddiw, un ohonynt a fydd yn cyflwyno adran newydd i'r Bil hwn, yn sicrhau nad yw hawliau pobl hŷn yn cael eu hanwybyddu yma yng Nghymru. Anogaf yr Aelodau i'w cefnogi.

16:35 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Liberal Democrats will support the amendments in the name of Darren Millar, and I reiterate the points that Darren made about the contribution that older people make to society. Sometimes, although not exclusively, older people can find themselves in very vulnerable positions and, therefore, enshrining their rights in the way that we are seeking to do today is something that we will support wholeheartedly.

Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n cefnogi'r gwelliannau yn enw Darren Millar, ac rwy'n ailadrodd y pwyntiau a gododd Darren ynglŷn â'r cyfraniad y mae pobl hŷn yn ei wneud tuag at gymdeithas. Gall pobl hŷn weithiau, er nad pobl hŷn yn unig, eu cael eu hunain mewn sefyllfaoedd agored iawn i niwed ac, felly, mae ymgorffori eu hawliau yn y ffordd yr ydym yn ceisio ei wneud heddiw yn rhywbeth y byddwn yn ei gefnogi'n llwyr.

16:36 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank Darren Millar for bringing forward these amendments. I am pleased that, following the inclusion of the United Nations Principles for Older Persons at Stage 3, Darren Millar has sought to balance the provision by including a reference to the United Nations Convention on the Rights of the Child. This clearly shows that he shares my belief that this is a people's Bill and one in which people's rights are at the core. As Members may have already deduced, I am delighted to support these amendments, especially given that I had the privilege to be the Deputy Minister who brought forward the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011. I note Darren Millar's comments this afternoon.

Hoffwn ddiolch i Darren Millar am gyflwyno'r gwelliannau hyn. Rwy'n falch bod Darren Millar, ar ôl cynnwys Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghyfnod 3, wedi ceisio cydbwyso'r ddarpariaeth trwy gynnwys cyfeiriad at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae hyn yn dangos yn glir ei fod yn rhannu fy nghred mai Bil y bobl yw hwn, ac un y mae hawliau pobl yn ganolog iddo. Fel y mae Aelodau eisoes wedi'i ddeall, o bosibl, rwy'n falch iawn o gefnogi'r gwelliannau hyn, yn enwedig o gofio fy mod wedi cael y fraint i fod y Dirprwy Weinidog a gyflwynodd Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Nodaf sylwadau Darren Millar y prynhawn yma.

In supporting these amendments, however, I need to highlight the inclusion of 'due regard' rather than 'have regard' within the new section. I understand and accept the need for consistency between the references in the Bill and the convention and principles themselves, in addition to consistency of language within the actual provision. However, I must clarify on the record that the use of 'due regard' does not signify a greater status or emphasis than the duties to 'have regard' under the other overarching duties in section 6 or elsewhere in the Bill. However, I respect Darren Millar's view and the wording that he used in his amendment 8, that being 'due regard'.

Wrth gefnogi'r gwelliannau hyn, fodd bynnag, mae angen imi dynnu sylw at y ffaith mai 'sylw dyladwy' sydd wedi'i gynnwys yn yr adran newydd yn hytrach na 'rhoi sylw i'. Rwy'n deall ac yn derbyn yr angen am gysondeb rhwng y cyfeiriadau yn y Bil a'r confensiwn a'r egwyddorion eu hunain, yn ogystal â chysondeb iaith o fewn y ddarpariaeth ei hun. Fodd bynnag, rhaid imi egluro ar y cofnod nad yw'r defnydd o 'sylw dyledus' yn nodi mwy o statws neu bwyslais na'r dyletswyddau i 'roi sylw i' o dan y dyletswyddau cyffredinol eraill yn adran 6 neu mewn rhannau eraill o'r Bil. Fodd bynnag, rwy'n parchu barn Darren Millar a'r geiriad a ddefnyddiodd yn ei welliant 8, sef 'sylw dyledus'.

It is the intention of this Government, and I am sure that Members here today will agree, that all of the regard duties throughout the construct of this Bill have equal status. I very much welcome Kirsty Williams's comment on these amendments as well. As I have already stated, I am content to support amendments 7, 8 and 9 and I ask that Members today support them also.

Bwriad y Llywodraeth hon, ac rwy'n siŵr bod yr Aelodau sydd yma heddiw yn cytuno, yw y bydd statws cyfartal i'r holl ddyletswyddau sylw drwy'r Bil hwn yn ei gyfanrwydd. Rwy'n croesawu'n fawr sylwadau Kirsty Williams ar y gwelliannau hyn yn ogystal. Fel yr wyf eisoes wedi dweud, rwy'n fodlon cefnogi gwelliannau 7, 8 a 9 a gofynnaf i'r Aelodau heddiw eu cefnogi hefyd.

16:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on Darren Millar to reply to the debate.

Galwaf ar Darren Millar i ymateb i'r ddadl.

16:38 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I am very grateful for the support of the Liberal Democrats and, indeed, the Deputy Minister for these particular amendments and, again, want to put on record my thanks to Members on all sides of this Chamber for their support for the need for the issues in relation to the rights of older people to be recognised and enshrined in Welsh law. I also, of course, do not want to underemphasise the extension of the duties that these amendments will introduce in terms of the need for people other than Welsh Ministers to have due regard to the UN Convention on the Rights of the Child. I think that it is very welcome that we are going to be introducing these two elements on the face of the Bill in these sections, and I urge all Members to support them.

Rwy'n ddiolchgar iawn am gefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol ac, yn wir, y Dirprwy Weinidog i'r gwelliannau penodol hyn ac, unwaith eto, rwyf am gofnodi fy niolch i'r Aelodau ar bob ochr i'r Siambr hon am eu cefnogaeth i'r angen i faterion mewn perthynas â hawliau pobl hŷn gael eu cydnabod a'u hymgorffori yng nghyfraith Cymru. Nid wyf ychwaith, wrth gwrs, am danbwysleisio'r modd y bydd y gwelliannau hyn yn ymestyn dyletswyddau gan gyflwyno'r angen i bobl heblaw am Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Rwy'n meddwl ei bod yn dderbyniol iawn ein bod yn mynd i gyflwyno'r ddwy elfen hyn ar wyneb y Bil yn yr adrannau hyn, ac anogaf yr holl Aelodau i'w cefnogi.

16:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 7 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 7 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 7 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 7 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 7 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 7 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call Darren Millar to move amendment 8.

Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliant 8.

16:39 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 8 in my name.

Cynigiaf welliant 8 yn fy enw i.

16:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

If amendment 8 is not agreed, amendment 9 falls.

Os nad yw gwelliant 8 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliant 9 yn methu.

The question is that amendment 8 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 8 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 8 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 8 yn cael ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 8 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 8 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 4: Asesiad o'r Camau sydd Angen eu Cymryd i Ddarparu Gwasanaethau mewn Ieithoedd heblaw Saesneg (Gwelliannau 1 ac 1A)

## Group 4: Assessment of Actions Required to Provide Services in Languages Other than English (Amendments 1 and 1A)

16:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The lead amendment in the group is amendment 1. I call on Elin Jones to move amendment 1 and to speak to it and the other amendment in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 1. Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliant 1 ac i siarad am hwn ac am y gwelliant arall yn y grŵp.

16:39 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cynigiaf welliant 1 yn fy enw i.

I move amendment 1 in my name.

Mae'r gwelliant hwn yn gosod ar wyneb y Bil y gofyniad ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i asesu ar y cyd y camau y mae angen eu cymryd i ddarparu ystod o wasanaethau gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol, a hynny yn y Gymraeg. Bydd natur yr asesiad hwn yn amrywio o fan i fan yng Nghymru, ac yn adlewyrchu'r galw tebygol am wasanaethau Cymraeg. Mae cydnabyddiaeth yn awr bod angen cynyddu'r gwasanaethau iaith Gymraeg sydd ar gael, a gwella'r cynllunio strategol ar gyfer y ddarpariaeth hon. Bydd pasio'r gwelliant hwn heddiw yn cyfrannu'n helaeth at hyn.

This amendment places on the face of the Bill the requirement that local authorities and health boards jointly assess the steps that need to be taken to provide a range of care and support services and preventative services, through the medium of Welsh. The nature of this assessment will vary from one area to another in Wales, and will reflect the likely demand for Welsh-medium services. There is recognition now that services in Welsh need to be increased, and that the strategic planning for this provision needs to be improved. Passing this amendment today will make a significant contribution to this end.

Rwy'n ymwybodol bod y Dirprwy Weinidog wedi bod yn gefnogol mewn egwyddor i'r angen i gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg wrth inni graffu ar y Bil hwn, a mawr obeithiaf y bydd posibilrwydd real y caiff y gwelliant hwn ei gefnogi gan fwyafrif heddiw.

I am aware that the Deputy Minister has been supportive in principle of the need to strengthen Welsh-medium provision as we have scrutinised this Bill, and I sincerely hope that there is a real possibility that this amendment will be supported by a majority today.

Nid wyf yn barod i gefnogi gwelliant 1A yn enw Suzy Davies, sy'n welliant i fy ngwelliant i, gan mai bwriad fy ngwelliant i yw i gynllunio darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg fynd law yn llaw â chynllunio drwy gyfrwng y Saesneg, a hynny ar lefel y boblogaeth gyfan. Mae cwrdd ag anghenion siaradwyr ieithoedd eraill yn briodol i'w asesu ar lefel yr unigolyn, wrth gwrs, ac, o bosibl, mewn rhai cymunedau penodol, ond mae'n amhriodol gosod cyfrifoldeb ar bob awdurdod lleol a bwrdd iechyd i gynllunio darpariaeth ar gyfer pob iaith ar wyneb y Bil hwn.

I will not be supporting amendment 1A in the name of Suzy Davies, which is an amendment to my amendment, because the intention of my amendment is for the planning of care services through the medium of Welsh to go hand in hand with planning through the medium of English, for the whole population. Meeting the needs of speakers of other languages is appropriate for assessment on an individual level, of course, and perhaps within certain communities, but it is inappropriate to place a responsibility on all local authorities and health boards to plan provision for all languages on the face of this Bill.

Felly, rwy'n gobeithio, y prynhawn yma, y bydd fy ngwelliant yn cael ei gymeradwyo, fel y gallwn osod gofyniad i gynllunio ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ar wyneb y Bil hwn.

Therefore, I hope, this afternoon, that my amendment will be approved, so that we can place a requirement to plan for the provision of Welsh-medium services on the face of this Bill.

16:41 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Amendment 1A has been tabled very much as a probing amendment, based on the Deputy Minister's reply to an amendment tabled at Stage 3 by Plaid, which has been re-tabled today. I will just confirm that we will be supporting amendment 1, as we should not be passing any legislation that does not treat Welsh in the same way as it treats English. However, I did want to explore the Deputy Minister's reply to this part of the original Stage 3 debate. At that time, Deputy Minister, you felt that section 4(3)(c), obliging a person exercising functions under this Act to have regard to the language characteristics of an individual, was sufficient to cover any concerns surrounding language needs.

Mae gwelliant 1A wedi'i gyflwyno i raddau helaeth fel gwelliant ymchwilgar, yn seiliedig ar ymateb y Dirprwy Weinidog i welliant a gyflwynwyd yng Nghyfnod 3 gan Blaid Cymru, ac a ailgyflwynwyd heddiw. Rwyf am gadarnhau y byddwn yn cefnogi gwelliant 1, gan na ddylem fod yn pasio unrhyw ddeddfwriaeth nad yw'n trin y Gymraeg yn yr un modd ag y mae'n trin y Saesneg. Fodd bynnag, roeddwn am ystyried ymateb y Dirprwy Weinidog i'r rhan hon o ddadl wreiddiol Cyfnod 3. Ar y pryd, Ddirprwy Weinidog, roeddech yn teimlo bod adran 4(3)(c), sy'n gorfodi'r sawl sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon i roi sylw i nodweddion iaith unigolyn, yn ddigonol i ymdrin ag unrhyw bryderon yn ymwneud ag anghenion iaith.

I will be speaking in group 9 about regulations that underpin section 13, but wanted to take this opportunity to seek your reassurance that you would consider section 13 to be informed by section 4. Essentially, I am asking whether an assessment of an individual's communication needs would go beyond assessing physical or mental capacity, and would capture barriers thrown up by language. If you can offer that reassurance, I will not be moving amendment 1A.

Byddaf yn siarad yng ngrŵp 9 am reoliadau sy'n sail i adran 13, ond roeddwn yn awyddus i fanteisio ar y cyfle hwn i ofyn am eich sicrwydd y byddech yn ystyried bod adran 4 yn llywio adran 13. Yn y bôn, rwy'n gofyn a fyddai asesiad o anghenion cyfathrebu unigolyn yn mynd y tu hwnt i asesu gallu corfforol neu feddyliol, ac a fyddai'n cofnodi rhwystrau a gyflwynir gan iaith. Os gallwch chi gynnig y sicrwydd hwnnw, ni fyddaf yn cynnig gwelliant 1A.

16:42 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae'n bleser gennyf siarad o blaid gwelliannau 1 ac 1A. Yn fy mhrofiad i, fel un a fu'n ymwneud ag addysg ddwyieithog ac amlieithog mewn cyd-destunau yng Nghymru ac, yn arbennig, yn Llundain dros y blynyddoedd, mae'n bwysig inni ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn iaith neu ieithoedd y dinesydd, gan gwrdd ag angen y dinesydd yn y sefyllfa o ddelifro gwasanaeth mewn ffordd sy'n cydnabod sefyllfa ieithyddol y dinesydd.

It is my pleasure to speak in favour of amendments 1 and 1A. In my experience, as one who has been involved with bilingual and multilingual education in contexts within Wales and, especially, in London over a period of years, it is important that we provide public services in the language or languages of the citizen, meeting the citizen's needs in the situation of delivering a service in a way that recognises the linguistic situation of that citizen.

Felly, carwn i ein gweld yn peidio â deddfu mewn biliau penodol ar wasanaethau cyhoeddus ynglŷn â'r Gymraeg a'r Saesneg ac ieithoedd eraill; wrth gwrs, nid ydym yn deddfu ar Saesneg—rydym yn cymryd hynny yn ganiataol—ond rydym yn deddfu'n atodol ar gyfer y Gymraeg ac ieithoedd eraill yng nghyd-destun y Saesneg. Credaf fod y dydd yn dod yn gyflym yn y Cynulliad hwn, ac yn y syniad yng Nghymru o sut yr ydym yn deddfu o ran ieithoedd, ein bod yn codi uwchlaw trafodaeth ym mhob Bil gwasanaeth cyhoeddus ar ieithoedd, a'n bod yn gosod ieithoedd o fewn hawl cyfansoddiadol pob dinesydd yng Nghymru i dderbyn gwasanaeth yn yr iaith briodol.

Therefore, I do not want to see us legislating in specific public service Bills for Welsh, English and other languages; of course, we do not legislate on the English language—we tend to take that for granted—but we make supplementary provision for the Welsh language and other languages in the context of the English language. I believe that the day is fast approaching in this Assembly, and in the concept in Wales of how we legislate in terms of languages, that we rise above a discussion in every public service Bill on languages, and that we place languages within the constitutional right of every individual in Wales to receive a service in the appropriate language.

Aiff hyn ymhellach, wrth gwrs, na'r Mesur ar ddwyieithrwydd a basiwyd yn y Cynulliad blaenorol. Rwy'n deall pam yr oedd diffyg ewyllys i fynd ymhellach yn y cyfnod hwnnw, ond mae'r amser wedi dod inni gael y cysyniad o ieithoedd swyddogol wedi'i osod yn ganolog i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae ieithoedd swyddogol hefyd yn mynd i olygu hawl swyddogol dinasyddion nad yw Saesneg na Chymraeg yn iaith gyntaf iddynt i allu cwrdd â'r gwasanaethau cyhoeddus yn yr ieithoedd sydd eu hangen arnynt.

This goes further, of course, than the Measure on bilingualism passed in the previous Assembly. I understand why there was a lack of will to go further at that time, but the time has come for us to get the concept of official languages placed at the heart of public services in Wales. Official languages will also mean the official right of citizens who do not have English or Welsh as their first language to access public services in the languages that they need.

Y sioc gyntaf a gefais yn y mater hwn oedd pan es i'n aelod o bwyllgor dethol unwaith yn Nhŷ'r Cyffredin, a chael fy enwebu gan y Blaid Lafur, os cofiaf yn iawn, i fynd yn aelod o'r pwyllgor hwnnw. Roedd y pwyllgor yn edrych yn benodol ar ieithoedd cartref a sefyllfa dwyieithrwydd yng nghyd-destun y Saesneg. Cefais sioc at y diffyg sensitifrwydd ieithyddol a oedd yn bod yn Lloegr yn y 1970au a'r 1980au ynglŷn â gwasanaethau cyhoeddus ac addysg plant ifanc yn y rhan honno o Loegr. Felly, rwy'n pledio ei bod yn bryd i ni yng Nghymru godi'n uwch na hyn. Rwy'n cefnogi'r gwelliannau hyn oherwydd eu bod yn agor y drws inni feddwl o'r newydd am gael deddfwriaeth ieithyddol nad yw'n gosod arnom yr angen i gynhyrchu gwelliant ym mhob Bil am bob gwasanaeth cyhoeddus sy'n trafod y Gymraeg a'r Saesneg ac ieithoedd eraill yng Nghymru.

The first shock that I had in this matter was when I became a member once of a select committee in the House of Commons, nominated by the Labour Party, if I remember correctly, to become a member of that committee. The committee looked specifically at the language of the home and bilingualism in the context of the English language. I was shocked at the lack of linguistic sensitivity that existed in England in the 1970s and 1980s about public services and the education of young children in that part of England. So, I contest that it is time for us in Wales to rise above this. I support these amendments because they open the door for us to think anew about having linguistic legislation that does not mean that we have to produce amendments for every public service Bill for the Welsh and English languages and other languages in Wales.

16:45 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I place on record my thanks to Elin Jones, who has consistently raised this issue through the consideration of the Bill at the committee Stage and at previous Stages. We will support her amendment and Suzy Davies's amendment, which are important safeguards when dealing potentially with very vulnerable people, and the ability of those people to ensure that their services are delivered in a language that is most comfortable for them, allowing them to have confidence in that particular service, and allowing them that right, which all of us here would agree is fundamental if we are to deliver the person-centred care that the Minister says is at the centre of this Bill. Not delivering that care through the medium of Welsh in those areas or for those individuals who demand it would be an undermining of the very principle of person-centred care, and we will therefore support the amendments.

Hoffwn gofnodi fy niolch i Elin Jones, sydd wedi codi'r mater hwn yn gyson wrth inni ystyried y Bil yng Nghyfnod y pwyllgor ac mewn Cyfnodau blaenorol. Byddwn yn cefnogi ei gwelliant a gwelliant Suzy Davies, sy'n fesurau diogelwch pwysig wrth ymdrin â phobl a allai fod yn agored iawn i niwed, a gallu'r bobl hynny i sicrhau bod eu gwasanaethau'n cael eu darparu yn yr iaith sydd fwyaf cyfforddus iddynt, gan eu galluogi i fod yn hyderus yn y gwasanaeth penodol hwnnw, a chaniatáu'r hawl hwnnw iddynt, y byddai pob un ohonom yma yn cytuno sy'n hanfodol os ydym i ddarparu'r gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn y mae'r Gweinidog yn dweud sydd wrth wraidd y Bil hwn. Trwy beidio â darparu'r gofal hwnnw drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ardaloedd hynny neu ar gyfer yr unigolion hynny sy'n mynnu ei gael, byddem yn tanseilio'r egwyddor sydd wrth wraidd gofal sy'n canolbwyntio ar unigolion, ac felly byddwn yn cefnogi'r gwelliannau.

16:47 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch i Elin Jones a Suzy Davies am gyflwyno'r gwelliannau hyn. Hoffwn siarad, i ddechrau, am welliant 1, sydd wedi'i gyflwyno gan Elin Jones. Rwy'n ddiolchgar am ymrwymiad parhaus Elin Jones i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a sicrhau ei bod yn cael lle priodol yn ein gwasanaethau cyhoeddus. Fel y bydd Aelodau'n cofio, ychwanegwyd cyfeiriadau at yr iaith yn ystod cyfnod cynharach y Bil, sef o dan 'dyletswyddau trosfwaol' yn adran 6, ac mewn perthynas â rhestrau o bobl sydd â nam ar eu golwg, nam ar eu clyw neu bobl anabl eraill yn adran 17.

I thank Elin Jones and Suzy Davies for bringing forward these amendments. I would like to talk first to amendment 1, tabled by Elin Jones. I am grateful for Elin Jones's constant commitment to promoting the Welsh language and to securing its proper place in our public services. As Members will recall, references to the language were added during an earlier stage of the Bill, under 'overarching duties' in section 6, and in relation to lists of people with visual impairments, hearing impairments or other disabled people in section 17.

Bwriad gwelliant 1 yw cynnwys cyfeiriad penodol at y Gymraeg yn adran 13, sy'n sôn am y dyletswyddau i asesu anghenion y boblogaeth. Yr ateb i gwestiwn Suzy Davies yw 'ie'. Mae'r dyletswyddau yn adran 4 yn mynd i ymwneud ag asesiad yr unigolyn. Diolch i Suzy am hynny. Mae Elin a minnau'n rhannu'r un ymrwymiad cadarn i'r iaith Gymraeg. Er fy mod i, cyn hyn, wedi mynegi'r farn nad oes angen cyfeiriad penodol at y Gymraeg mewn perthynas â dyletswyddau asesu unigol, rwyf wedi fy narbwyllo gan y gwelliant newydd hwn. Felly, rwy'n falch o allu cefnogi gwelliant 1 heddiw.

Amendment 1 is intended to include specific reference to the language in section 13, which talks about the duties to assess the needs of the population. The answer to Suzy Davies's question is 'yes'. The duties in section 4 will relate to the assessment of the individual. I thank Suzy for that. Elin and I share a strong commitment to the language. While I have previously expressed the view that there is no need for a specific reference to the Welsh language in relation to individual assessment duties, I have been convinced by the new amendment. Therefore, I am pleased to be able to support amendment 1 today.

Rwy'n troi yn awr at welliant 1A, a gyflwynwyd gan Suzy Davies. Rwy'n gwerthfawrogi'r bwriad y tu ôl i'r gwelliant, sef ymestyn y dyletswyddau yng ngwelliant Elin Jones i gynnwys ieithoedd eraill. Fy mhryder yw y byddai'r gwelliant hwn, fel y mae wedi'i ddrafftio, yn gallu arwain at ddyletswydd feichus i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Y rheswm am hyn yw nad oes unrhyw eiriau amodol yn y gwelliant: mae'r rhwymedigaeth yn berthnasol, waeth faint sy'n siarad yr iaith yn yr ardal. Felly, byddai'r rhwymedigaeth asesu yr un peth pe bai un person neu 1,000 o bobl yn siarad yr iaith honno. Hefyd, er bod modd dweud y byddai gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd bŵer o hyd i ystyried y gofynion i ddarparu gwasanaethau yn yr iaith Saesneg, ni fyddai dyletswydd i wneud hynny ar gyfer pob iaith arall sy'n cael ei siarad yn yr ardal. Byddai hynny'n golygu ymdriniaeth anghyfartal. Mae posibilrwydd, felly, y gallai'r gwelliant hwn fod yn anghydnaws â chonfensiwn Ewrop ar hawliau dynol, ac â chyfraith Ewrop yn fwy cyffredinol. Rwy'n gofyn felly i'r Aelodau gefnogi gwelliant 1 a gwrthwynebu gwelliant 1A.

I turn now to amendment 1A, tabled by Suzy Davies. I appreciate the intention behind the amendment, namely to extend the duties in Elin Jones's amendment to include other languages. My concern is that this amendment, as drafted, could lead to an onerous duty for local authorities and local health boards. The reason for this is that there are no conditional words in the amendment: the obligation applies, irrespective of the numbers who speak the language in the area. Therefore, the obligation of assessment would be the same if one person or 1,000 people spoke that language. Also, although it is possible to say that the local authority and the health board would have the power to consider the requirements to provide services in the English language, there would be no duty to do so for every other language spoken in the area. That would mean disproportionate treatment. There is a possibility, therefore, that this amendment could be incompatible with the European convention on human rights, and with European law more generally. I therefore urge Members to support amendment 1 and to oppose amendment 1A.

16:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I call Elin Jones to reply to the debate.

Galwaf ar Elin Jones i ymateb i'r ddadl.

16:50 **Elin Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Diolch, Lywydd, a diolch i bawb am eu cyfraniadau yn cefnogi gwelliant 1 yn fy enw i. Mae'n edrych yn debyg, ar ôl cyflwyno'r gwelliannau hyn ar y Gymraeg ar sawl achlysur yn ystod y broses 'scrutiny', y byddaf yn llwyddo heddiw i sicrhau bod y ddarpariaeth honno a'r gofyniad hwnnw ar wyneb y Mesur. Rwy'n wir ddiolchgar i bawb am eu cefnogaeth i hynny.

Thank you, Presiding Officer, and I thank everyone for their contributions in support of amendment 1 in my name. It appears, having tabled these amendments on the Welsh language on a number of occasions during the scrutiny process, that I will today be successful in ensuring that that provision and that requirement will appear on the face of the Bill. I am truly grateful to everyone for the support expressed for that.

Rwy'n gobeithio y gwnaiff Suzy Davies dynnu gwelliant 1A yn ôl, fel y nododd o bosibl y byddai hi'n ei wneud, am y rhesymau a wnaeth y Dirprwy Weinidog eu hamlinellu. Rwy'n cytuno â Aelod Meirion Dwyfor pan mae'n dweud—

I hope that Suzy Davies will withdraw amendment 1A, as she noted that she would consider doing, for the reasons outlined by the Deputy Minister. I agree with the Member for Meirion Dwyfor when he says—

16:51 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Dwyfor Meirionnydd.

Dwyfor Meirionnydd.

16:51 **Elin Jones** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

[Yn parhau.]—Dwyfor Meirionydd, pan mae'n dweud wrthym mai lle yr ydym eisiau ei gyrraedd yw sefyllfa lle na fyddwn yn gorfod sôn am naill ai'r Gymraeg neu unrhyw iaith eraill, gan ein bod byth yn sôn am Saesneg mewn deddfwriaeth. Rydym am gyrraedd sefyllfa, mewn amser, lle fyddwn yn gallu deddfu am y gwasanaethau yn hytrach na chyfeirio at yr iaith y mae angen i'r gwasanaethau hynny gael eu delifro ynddi. Tan y dydd hynny, mae angen hyder ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'r bobl sy'n cynllunio ar gyfer y gwasanaethau hynny fod gofyniad arnynt i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg yn ogystal â Saesneg, ac hynny ar hyd a lled Cymru.

[Continues.]— Dwyfor Meirionnydd, when he tells us that where we want to get to is a situation where we will not have to talk about either the Welsh or any other language, as we never consider the English language in legislation. We want to reach a position, in time, where we will be able to legislate for services rather than making reference to the language in which those services should be delivered. Until that point, the people using and accessing the services and the people who plan for those services need to have confidence that there is requirement upon them to make provision through the medium of Welsh as well as the medium of English, the length and breadth of Wales.

16:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

As there is an amendment to amendment 1, we will dispose of that first. Suzy Davies, do you wish to move amendment 1A?

Gan fod gwelliant i welliant 1, byddwn yn cael gwared ar hwnnw yn gyntaf. Suzy Davies, a ydych am gynnig gwelliant 1A?

16:52 **Suzy Davies** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I do not, Presiding Officer.

Nac ydw, Lywydd.

*Ni chynigiwyd gwelliant 1A.*

*Amendment 1A not moved.*

16:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

It is not moved. The question is that amendment 1 be agreed to. Does any Member object? There are no objections and therefore amendment 1 is agreed.

Nid yw'n cael ei gynnig. Y cwestiwn yw bod gwelliant 1 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad ac felly mae gwelliant 1 yn cael ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

**Grŵp 5: Gofal a Chymorth yn y Cartref (Gwelliannau 108 a 114)**

**Group 5: Care and Support in the Home (Amendments 108 and 114)**

16:52

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 108. I call on Kirsty Williams to move and speak to the lead amendment and to any other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 108. Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig a siarad am y prif welliant ac am unrhyw welliannau eraill yn y grŵp.

16:52

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 108 in my name.

Cynigiaf welliant 108 yn fy enw i.

Amendment 108 relates to section 13 of the Bill and states that regulations made under that section should clarify that visits to deliver personal care in an adult's home should not normally be commissioned to last less than 30 minutes, excluding travelling time. What we do know is that the use of 15-minute care slots by local authorities is increasing, and more than 80% of Welsh local authorities commission care slots of 15 minutes. I continue to question the ability for person-centred, quality care to be delivered in a person's home in a time span of 15 minutes.

Mae gwelliant 108 yn ymwneud ag adran 13 o'r Bil ac yn nodi y dylai rheoliadau a wneir o dan yr adran honno egluro na ddylai ymweliadau i ddarparu gofal personol yng nghartref oedolyn fel arfer gael eu comisiynu i barhau am lai na 30 munud, heb gynnwys amser teithio. Gwyddom fod awdurdodau lleol yn gwneud mwy a mwy o ddefnydd o slotiau gofal 15 munud, a bod mwy nag 80% o awdurdodau lleol Cymru yn comisiynu slotiau gofal o 15 munud. Rwy'n parhau i gwestiynu pa un a all gofal o ansawdd, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gael ei ddarparu yng nghartref rhywun mewn cyfnod o 15 munud.

As I said in previous debates, this could mean undertaking some of the most personal care needs an individual could have. The Deputy Minister says that the principles are quite clearly stated in this Bill that that should be done with dignity. I think that we are setting the social care workforce up to fail in that case, because I think that you would have to be a pretty exceptional person who could go into somebody's home, wash, bathe and toilet them, and perhaps feed them afterwards, and do that in a dignified, caring and person-centred way in less than 30 minutes. In fact, I think that you would be hard pushed to do it in 30 minutes. The Deputy Minister says that dignity and good-quality care are at the forefront of this Bill. Once again, I severely question the commitment to quality and dignity unless we rule out the widespread use of 15-minute care slots.

Fel y dywedais mewn dadleuon blaenorol, gallai hyn olygu ymdrin â rhai o anghenion gofal mwyaf personol bosibl unigolyn. Dywed y Dirprwy Weinidog fod yr egwyddorion wedi'u nodi'n gwbl glir yn y Bil hwn y dylid gwneud hynny ag urddas. Credaf ein bod yn rhoi'r gweithlu gofal cymdeithasol mewn sefyllfa i fethu yn yr achos hwnnw, oherwydd y byddai'n rhaid i chi fod yn berson eithaf eithriadol, yn fy marn i, i allu mynd i mewn i gartref rhywun, eu golchi, rhoi bath iddynt a'u helpu gyda'r toiled, ac efallai eu bwydo wedyn, a gwneud hynny mewn ffordd urddasol, ofalgar, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn llai na 30 munud. Yn wir, rwy'n meddwl y byddech yn cael trafferth gwneud hynny mewn 30 munud. Dywed y Dirprwy Weinidog fod urddas a gofal o ansawdd da yn flaenllaw yn y Bil hwn. Unwaith eto, rwy'n amau'n ddifrifol yr ymrwymiad i ansawdd ac urddas oni bai ein bod yn osgoi'r defnydd eang o slotiau gofal 15 munud.

I anticipate what the Deputy Minister will say: that, for some people, a 15-minute care slot is appropriate. I would accept that if all I was required to do was to go into somebody's house and ensure that they had taken their medication, then 15 minutes is an adequate timescale for doing that. However, let me be clear that there is nothing in this amendment that would stop local authorities commissioning that kind of care if it was appropriate. This amendment does not rule out 15-minute care. It does not allow for 15-minute care slots to become illegal. What it says is that for the norm, unless there is a good reason otherwise, local authorities should not commission these types of care slots.

Rwy'n rhagweld yr hyn y bydd y Dirprwy Weinidog yn ei ddweud: bod slot gofal 15 munud yn briodol ar gyfer rhai pobl. Byddwn yn derbyn bod 15 munud yn amser digonol os mai'r unig beth yr oedd angen i mi ei wneud oedd mynd i mewn i dŷ rhywun a sicrhau ei fod wedi cymryd ei feddyginiaeth. Fodd bynnag, gadewch imi fod yn glir nad oes dim yn y gwelliant hwn a fyddai'n rhwystro awdurdodau lleol rhag comisiynu'r math hwnnw o ofal pe byddai'n briodol. Nid yw'r gwelliant hwn yn atal gofal 15 munud. Nid yw'n caniatáu ar gyfer gwneud slotiau gofal 15 munud yn anghyfreithlon. Yr hyn y mae'n ei ddweud yw na ddylai awdurdodau lleol gomisiynu'r mathau hyn o slotiau gofal yn arferol, oni bai bod rheswm da i'r gwrthwyneb.

I recently met a range of domiciliary care workers in my constituency and the owners of that particular private company that was responsible for delivering care. They were as one in supporting these particular attempts to improve the quality of care and the working conditions for those domiciliary care workers. As I said, I anticipate that the Member will say that it is appropriate in some cases to have 15-minute care slots. I repeat that there is nothing in this amendment that will prevent that, but I think that if we are serious about driving up the quality of care, then we have to limit the number of 15-minute care slots that are commissioned by local authorities. There is only one way to do that, and that is to legislate for it.

Yn ddiweddar, cyfarfûm ag amrywiaeth o weithwyr gofal cartref yn fy etholaeth a pherchnogion y cwmni preifat arbennig hwnnw a oedd yn gyfrifol am gyflwyno'r gofal. Roeddent yn unfrydol o ran cefnogi'r ymdrechion arbennig hyn i wella ansawdd y gofal a'r amodau gwaith ar gyfer gweithwyr gofal cartref. Fel y dywedais, rwy'n rhagweld y bydd yr Aelod yn dweud ei bod yn briodol cael slotiau gofal 15 munud mewn rhai achosion. Dywedaf eto nad oes dim yn y gwelliant hwn a fydd yn atal hynny, ond rwy'n meddwl bod yn rhaid i ni gyfyngu ar nifer y slotiau gofal 15 munud sy'n cael eu comisiynu gan awdurdodau lleol, os ydym o ddifrif am wella ansawdd y gofal. Nid oes ond un ffordd o wneud hynny, sef deddfu ar ei gyfer.

16:55

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I am afraid that I will not be supporting Kirsty Williams's amendment 108, but I will rise in support of amendment 114 in this group, which I think is a much more sensible amendment, in that it is more person centred on the individual who is going to be in receipt of care and it puts a requirement on local authorities to ensure that the length of time that someone spends is of a sufficient length to be able to provide the care and support required. That sort of flexibility, rather than making an arbitrary statement that 30 minutes should be the normal minimum time that someone should receive personal care for, is a much better approach and is much more fixed around the person and the service user who is going to be receiving the service than the amendment tabled by Kirsty Williams.

Rwy'n ofni na fyddaf yn cefnogi gwelliant 108 Kirsty Williams, ond byddaf yn codi o blaid gwelliant 114 yn y grŵp hwn sydd, yn fy marn i, yn welliant llawer mwy synhwyrol, gan ei fod yn canolbwyntio mwy ar yr unigolyn a fydd yn derbyn gofal ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod y cyfnod o amser y mae rhywun yn ei dreulio yn ddigonol i allu darparu'r gofal a'r cymorth sydd eu hangen. Mae'r math hwnnw o hyblygrwydd, yn hytrach na gwneud datganiad mympwyol mai 30 munud ddylai amser lleiaf arferol y gofal personol fod, yn ddull llawer gwell ac yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar y person a'r defnyddiwr gwasanaeth sy'n mynd i fod yn derbyn y gwasanaeth na'r gwelliant a gyflwynwyd gan Kirsty Williams.

That is not to say that I do not think that there are times in my own constituency, and indeed elsewhere in Wales, when local authorities put unreasonable pressure on domiciliary care workers who deliver personal care by making it a requirement for them to undertake their visits within 15 minutes. There is absolutely no doubt in my mind that there are some unreasonable time slots that are awarded to individuals in terms of the care and support that they receive. However, the way around that is to make sure that local authorities are properly cognisant and properly responsive in responding to the individuals who need to receive that care. That is why I think that amendment 114 is better, in terms of how it will achieve this, than amendment 108. I encourage Members to reject amendment 108 and to support amendment 114 in the name of Jocelyn Williams in its place—Jocelyn Davies, rather. [Laughter.]

Nid yw hynny'n golygu nad wyf yn credu bod awdurdodau lleol, ar adegau, yn fy etholaeth i, ac yn wir mewn mannau eraill yng Nghymru, yn rhoi pwysau afresymol ar weithwyr gofal cartref sy'n darparu gofal personol drwy ei gwneud yn ofynnol iddynt gynal eu hymweliadau o fewn 15 munud. Nid oes amheuaeth yn fy meddwl bod rhai slotiau amser afresymol yn cael eu dyfarnu i unigolion o ran y gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn. Fodd bynnag, y ffordd o ddatrys hynny yw gwneud yn siŵr bod awdurdodau lleol yn hollol ymwybodol ac yn ymateb yn briodol i'r unigolion y mae angen iddynt dderbyn y gofal hwnnw. Dyna pam y credaf fod gwelliant 114 yn well, o ran sut y bydd yn cyflawni hyn, na gwelliant 108. Rwy'n annog yr Aelodau i wrthod gwelliant 108 ac i gefnogi gwelliant 114 yn enw Jocelyn Williams yn ei le—Jocelyn Davies, yn hytrach. [Chwerthin.]

16:57

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I speak to amendment 114.

Rwy'n siarad am welliant 114.

I wonder how long it takes you to get ready in the morning, because research by Leonard Cheshire Disability Cymru has found that it takes people in Wales, on average, 37 minutes to get up, wash and dress, and have a cup of tea and some breakfast. I timed myself this morning and I was more like 47 minutes than 37, but there you are.

Tybed pa mor hir mae'n ei gymryd i chi wneud eich hun yn barod yn y bore, gan fod ymchwil gan Leonard Cheshire Disability Cymru wedi canfod ei fod yn cymryd 37 munud i bobl yng Nghymru, ar gyfartaledd, godi, ymolchi a gwisgo, a chael paned o de a brecwast. Amserais fy hun fore heddiw ac roedd yn nes at 47 munud na 37, ond dyna ni.

However, care workers are being commissioned to spend as little as 15 minutes in the homes of elderly and vulnerable people who need care and support to do these simple daily tasks. Leonard Cheshire warns us that this could mean that vulnerable people are forced to choose between staying thirsty or going to the toilet—a choice that nobody should have to make. Leonard Cheshire feels so strongly about this that it now refuses to tender for contracts that contain 15-minute visits.

Fodd bynnag, mae gweithwyr gofal yn cael eu comisiynu i dreulio cyn lleied â 15 munud yng nghartrefi henoed a phobl agored i niwed sydd angen gofal a chefnogaeth i wneud y tasgau dyddiol syml hyn. Mae Leonard Cheshire yn ein rhybuddio y gallai hyn olygu bod pobl agored i niwed yn cael eu gorfodi i ddewis rhwng aros yn sychedig neu fynd i'r toiled—dewis na ddylai neb orfod ei wneud. Mae Leonard Cheshire yn teimlo mor gryf am hyn fel ei fod yn awr yn gwrthod tendro am gontractau sy'n cynnwys ymweliadau 15 munud.

Short care visits leave the care workers rushed and stressed. Some 71% of homecare workers who responded to a Unison survey said that their work schedule is arranged so that they either have to rush their work or leave early in order to make their next appointment on time. Care workers are being given too many appointments, too close together and not enough travel time. This contributes to already low levels of pay for care workers; many are now only paid for the contact time with service users and only a partial or no contribution to their petrol costs. Shorter appointments mean longer travel times and less paid time in between. Ensuring that carers have enough time could contribute to a raising of morale in the sector where the work, I am sure that we would all agree, is very demanding.

Mae ymweliadau gofal byr yn rhoi'r gweithwyr gofal dan straen ac yn gwneud iddynt deimlo'u bod yn gorfod brysio. Dywedodd rhyw 71% o weithwyr gofal cartref a ymatebodd i arolwg Unsain fod eu rhaglen waith yn cael ei threfnu fel bod rhaid iddynt naill ai ruthro eu gwaith neu adael yn gynnar er mwyn cyrraedd eu hapwyntiad nesaf mewn pryd. Mae gweithwyr gofal yn cael gormod o apwyntiadau, yn rhy agos at ei gilydd ac nid oes digon o amser teithio. Mae hyn yn cyfrannu at lefelau cyflog sydd eisoes yn isel ar gyfer gweithwyr gofal; mae llawer yn awr yn cael eu talu am yr amser cyswllt gyda defnyddwyr gwasanaeth yn unig a dim ond yn cael cyfraniad rhannol neu ddim cyfraniad at eu costau petrol. Mae apwyntiadau byrrach yn golygu amseroedd teithio hwy a llai o amser am dâl yn y canol. Trwy sicrhau bod gofalwyr yn cael digon o amser, gellid cyfrannu at godi morâl yn y sector lle mae'r gwaith, rwy'n siŵr y byddem i gyd yn cytuno, yn anodd iawn.

One of the main aspects of care work that is often overlooked during the procurement process is the companionship and kindness that care workers give to those they look after. As appointment times shrink, care workers find themselves unable to offer the same level of support. The same Unison survey showed that some homecare workers refused to be limited by short appointment times and were working in their own time, so, going above and beyond what was required of them, sometimes just to complete the tasks that they had been set. For them, that means losing money and time. It should not fall on already low-paid and overworked care workers to shoulder the cost of adequate care from their own wages and their own time.

Un o'r prif agweddau ar waith gofal sy'n cael ei esgeuluso yn aml yn ystod y broses gaffael yw'r gwmnïaeth a'r caredigrwydd y mae gweithwyr gofal yn eu rhoi i'r rhai y maent yn gofalu amdanynt. Wrth i apwyntiadau fynd yn fyrrach, mae gweithwyr gofal yn gweld na allant gynnig yr un lefel o gefnogaeth. Dangosodd yr un arolwg gan Unsain fod rhai gweithwyr gofal cartref yn gwrthod cael eu cyfyngu gan amserau apwyntiadau byr a'u bod yn gweithio yn eu hamser eu hunain, gan fynd y tu hwnt i'r hyn a oedd yn ofynnol ganddynt, weithiau, dim ond i gwblhau'r tasgau a oedd wedi eu gosod iddynt. Iddynt hwy, mae hynny'n golygu colli arian ac amser. Ni ddylai gweithwyr gofal sydd eisoes â gormod o waith ac sydd ar gyflog isel fod yn gyfrifol am ysgwyddo cost gofal digonol o'u cyflogau eu hunain ac yn eu hamser eu hunain.

For those who are not normally impressed with the voice of Unison, the 2012 report by the Local Government Ombudsman found that some of the most common complaints from clients and their families were about home care visits being too short. When visits are too short, essential care inevitably gets left out. This, as we all know, is, of course, a false economy. Cutting corners at the expense of the quality of care means that it is more likely that problems will arise later. Falls are more likely to happen, medication is less likely to be taken correctly and there are longer term issues that will not be picked up on. Loneliness and isolation also have a significant health cost. Carers being able to take their time, knowing that they can get everything done in the allotted time frame and be able to spare a moment for a friendly word or an extra check will be invaluable, I think.

I'r rhai nad yw llais Unsain yn gwneud fawr o argraff arnynt fel arfer, canfu adroddiad 2012 gan yr Ombwdsmon Llywodraeth Leol fod rhai o'r cwynion mwyaf cyffredin gan gleientiaid a'u teuluoedd yn ymwneud â'r ffaith bod ymweliadau gofal cartref yn rhy fyr. Pan fydd ymweliadau'n rhy fyr, mae gofal hanfodol yn anochel yn cael ei hepgor. Darbodaeth ffug yw hyn wrth gwrs, fel y gwyddom i gyd. Os torrir corneli ar draul ansawdd y gofal, bydd problemau'n fwy tebygol o godi'n ddiweddarach. Mae pobl yn fwy tebygol o gwympo, meddyginiaeth yn llai tebygol o gael ei chymryd yn gywir ac mae materion tymor hwy na fydd yn cael eu nodi. Mae i unigrwydd hefyd gost sylweddol o ran iechyd. Bydd yn amhrisiadwy, rwy'n meddwl, bod gofalwyr yn gallu cymryd eu hamser, gan wybod y gallant wneud popeth o fewn yr amser penodedig a threulio eiliad ar gyfer gair cyfeillgar neu archwiliad ychwanegol.

Kirsty's amendment on the minimum 30-minute visit is, I think, an admirable attempt to increase the length of time that carers spend with their clients. I certainly support that. My amendment would guard against those visits becoming swamped with too many tasks. So, it also serves as a backstop to ensure that, regardless of the length of the visit, the care that needs to be delivered can be reasonably delivered within it.

Mae gwelliant Kirsty ar yr isafswm o 30 munud ar gyfer ymweliad, yn fy marn i, yn ymgais rhagorol i gynyddu faint o amser y mae gofalwyr yn ei dreulio gyda'u cleientiaid. Rwy'n sicr yn cefnogi hynny. Byddai fy ngwelliant i yn rhwystro'r ymweliadau hynny rhag cael eu llethu gan ormod o dasgau. Felly, mae hefyd yn gam diogelu i sicrhau y gellir cyflwyno'r gofal y mae angen ei ddarparu yn rhesymol o fewn cyfnod yr ymweliad, beth bynnag yw ei hyd.

We need to increase transparency for both the carers and their clients. What carers are expected to do and how long they have been given to do it needs to be clear. There should always be a reasonable amount of time for the job to be done and to be done well. I think that we owe it to the carers and also to those that they look after.

Mae angen i ni gynyddu tryloywder ar gyfer y gofalwyr a'u cleientiaid. Mae angen i'r hyn y mae disgwyl i ofalwyr ei wneud a'r amser a roddir iddynt i'w wneud fod yn glir. Dylid neilltuo amser rhesymol ar gyfer gwneud y gwaith a'i wneud yn dda bob amser. Rwy'n meddwl ei bod yn ddyletswydd arnom er mwyn y gofalwyr yn ogystal â'r rhai y maent yn gofalu amdanynt.

I hope that Members will be able to support my amendment.

Rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n gallu cefnogi fy ngwelliant.

17:02 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog.

17:02 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Amendment 108, tabled by Kirsty Williams, has already been debated by the Health and Social Care Committee at Stage 2 and by the whole Assembly at Stage 3. As a result, I have placed on record my strong reservations about this amendment. We have discussed, for example, my view that the aim of personal care and support under this Bill is to achieve improved wellbeing outcomes for each individual according to their specific needs. For some specific tasks, a visit of less than 30 minutes may be entirely appropriate. Kirsty Williams has acknowledged this and sought to stress that the amendment specifically says, and I quote, 'not normally', thus allowing for the commissioning of care slots of less than 30 minutes duration if that is the appropriate level of service that is required.

Mae gwelliant 108, a gyflwynwyd gan Kirsty Williams, eisoes wedi cael ei drafod gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghyfnod 2 a chan y Cynulliad cyfan yng Nghyfnod 3. O ganlyniad, rwyf wedi datgan yn gyhoeddus fy amheuon cryf ynglŷn â'r gwelliant hwn. Rydym wedi trafod, er enghraifft, fy marn i mai nod y gofal a chymorth personol o dan y Bil hwn yw cyflawni gwell canlyniadau lles ar gyfer pob unigolyn yn unol â'i anghenion penodol. Ar gyfer rhai tasgau penodol, efallai y bydd ymweliad o lai na 30 munud yn gwbl briodol. Mae Kirsty Williams wedi cydnabod hyn ac wedi ceisio pwysleisio bod y gwelliant yn dweud yn benodol, ac rwy'n dyfynnu, 'na ddylai fel arfer', gan ganiatáu ar gyfer comisiynu slotiau gofal o lai na 30 munud o hyd os mai hynny yw lefel briodol y g wasanaeth sydd ei hangen.

I retain my view, however, that what is really important here is precisely that—the appropriateness of the care provided—and not the amount of time taken. For this reason, I expect commissioning and contracting practice to be focused on the quality of care provision. It is because of this that I am still convinced that stating a minimum period of time on the face of the Bill is unwise. It risks moving the focus away from quality and towards a specified amount of time, which I think we would all agree is fairly arbitrary. By accepting this amendment the question could well become, 'Is it normal to provide this type of care in less than 30 minutes, excluding travel time?', when it should be, 'Is the amount of time being spent on providing this care appropriate to the needs of the individual?'

Rwy'n dal i fod o'r farn, fodd bynnag, mai'r hyn sy'n wirioneddol bwysig yma yw hynny'n union—pa mor briodol yw'r gofal a ddarperir—ac nid faint o amser a gymerir. Am y rheswm hwn, rwy'n disgwyl i arfer comisiynu a chontractio ganolbwyntio ar ansawdd y gofal a ddarperir. Dyma pam yr wyf yn dal yn argyhoeddedig ei bod yn annoeth datgan cyfnod amser gofynnol ar wyneb y Bil. Mae'n mentro symud y pwyslais oddi ar ansawdd a thuag at gyfnod penodol o amser, sy'n eithaf mympwyol rwy'n meddwl y byddem i gyd yn cytuno. Trwy dderbyn y gwelliant hwn, gallai'r cwestiwn yn hawdd fod, 'A yw'n arferol darparu'r math hwn o ofal mewn llai na 30 munud, heb gynnwys amser teithio?', pryd y dylai fod, 'A yw'r amser sy'n cael ei dreulio ar ddarparu'r gofal hwn yn briodol i anghenion yr unigolyn? '

I do recognise, however, that lobbying on the matter continues and that concern about the rise of 15-minute care packages is not going to go away when the care sector continues to be faced with significant financial pressures. At Stage 3 we also heard personal stories from Members in this Chamber that no doubt reminded us all of the very real impact of reducing something as personal and intimate as care in the home to a mere task to be completed and measured against the clock. These points have been made by Members this afternoon.

Rwy'n cydnabod, fodd bynnag, bod lobïo ar y mater yn parhau ac nad yw pryder ynglŷn â chynnydd y pecynnau gofal 15 munud yn mynd i ddiflannu tra bo'r sector gofal yn parhau i wynebu pwysau ariannol sylweddol. Yng Nghyfnod 3 clywsom hefyd straeon personol gan Aelodau yn y Siambr hon gan ein hatgoffa i gyd yn ddiamau o effaith wirioneddol iawn lleihau rhywbeth mor bersonol â gofal yn y cartref i ddim mwy na thasg i gael ei chwblhau a'i mesur yn erbyn y cloc. Mae'r pwyntiau hyn wedi eu gwneud gan yr Aelodau brynhawn heddiw.

I am pleased, therefore, that we have another amendment before us today—amendment 114, tabled by Jocelyn Davies, and I note Darren Millar's comments on this—which addresses the same matter but in a way that avoids the issue that I have previously raised in relation to what is now amendment 108.

Rwy'n falch, felly, fod gennym welliant arall ger ein bron heddiw—gwelliant 114, a gyflwynwyd gan Jocelyn Davies, ac rwy'n nodi sylwadau Darren Millar ar hyn—sy'n mynd i'r afael â'r un mater ond gan osgoi'r broblem yr wyf wedi'i chodi o'r blaen mewn cysylltiad â'r hyn sydd bellach yn welliant 108.

Amendment 114 seeks to ensure that care visits at home are of a suitable length of time to provide the person with the care and support necessary to meet the needs identified under sections 31 to 39. This amendment therefore is consistent with the principle of care being appropriate to need, by placing a duty on a local authority to be satisfied that the length of the visit is suitable. It also allows for the complex and individual nature of care packages to be dealt with through guidelines issued under existing code provisions in section 139. This provides flexibility to be more prescriptive about certain types of care or certain amounts of time as and when needed.

Mae gwelliant 114 yn ceisio sicrhau bod ymweliadau gofal yn y cartref yn parhau am gyfnodau amser addas i ddarparu'r gofal a'r cymorth angenrheidiol i ddiwallu'r anghenion a nodwyd o dan adrannau 31 i 39. Mae'r gwelliant hwn, felly, yn gyson ag egwyddor gofal sy'n briodol i angen, trwy roi dyletswydd ar awdurdod lleol i fod yn fodlon bod hyd yr ymweliad yn addas. Mae hefyd yn caniatáu ar gyfer ymdrin â natur gymhleth ac unigol pecynnau gofal trwy'r canllawiau a gyhoeddwyd o dan y darpariaethau presennol ynglŷn â'r cod yn adran 139. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i fod yn fwy penodol ynglŷn â'r mathau o ofal neu'r cyfnodau penodol o amser yn ôl yr angen.

I am therefore very pleased to ask Members to support amendment 114 tabled in the name of Jocelyn Davies. This means that I must also ask Members not to support amendment 108. In doing so, however, I wish to place on record an acknowledgement of the role that Kirsty Williams's strong and steadfast support for tackling this matter has played in my decision to do so now, and to do so through the Bill. I would also like to be clear that I still also consider this matter to be closely linked with forthcoming regulation and inspection legislation, which the Government will bring forward before the end of this Assembly.

Rwy'n falch iawn felly i ofyn i Aelodau gefnogi gwelliant 114 a gyflwynwyd yn enw Jocelyn Davies. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid imi hefyd ofyn i Aelodau beidio â chefnogi gwelliant 108. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, rwyf am gofnodi cydnabyddiaeth o'r cyfraniad y mae cefnogaeth gref a chadarn Kirsty Williams i fynd i'r afael â'r mater hwn wedi'i wneud at fy mhenderfyniad i wneud hynny yn awr, ac i wneud hynny drwy gyfrwng y Bil. Hoffwn hefyd fod yn glir fy mod hefyd yn dal i ystyried bod cysylltiad agos rhwng y mater hwn a deddfwriaeth ym maes rheoleiddio ac arolygu, y bydd y Llywodraeth yn ei chyflwyno cyn diwedd y Cynulliad hwn.

17:07

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Kirsty Williams to reply to the debate.

Galwaf ar Kirsty Williams i ymateb i'r ddadl.

17:07

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. I thank the Deputy Minister for her comments; I think that it was a very polite way of saying that I have been completely stubborn in my refusal to stop talking about this, and I will continue to be completely stubborn. However, I am really pleased to hear the Deputy Minister at least give way on Jocelyn Davies's amendment, which gives me some satisfaction and some reassurance that issues around the quality of domiciliary care visits will have a backstop of some kind. That is indeed progress. However, I am still disappointed that the Deputy Minister cannot accept my amendment.

Diolch i chi, Lywydd. Rwy'n diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei sylwadau; rwy'n meddwl mai ffordd gwrtais iawn oedd ganddi o ddweud fy mod wedi bod yn gwbl ystyfnig trwy wrthod rhoi'r gorau i siarad am hyn, a byddaf yn parhau i fod yn gwbl ystyfnig. Fodd bynnag, rwy'n falch iawn o glywed y Dirprwy Weinidog o leiaf yn ildio ar welliant Jocelyn Davies, Mae hynny'n rhoi rhywfaint o foddhad a rhywfaint o sicrwydd imi y bydd rhyw fath o fesur diogelwch o ran materion ynghylch ansawdd yr ymweliadau gofal yn y cartref. Mae hynny'n gam ymlaen yn wir. Fodd bynnag, rwy'n dal yn siomedig na all y Dirprwy Weinidog dderbyn fy ngwelliant.

The Deputy Minister once again talks about quality. I do not disagree that she wants this Bill to be about the quality of care, but one has to question how much more evidence the Deputy Minister needs to see that quality is compromised by the commissioning of 15-minute care slots, and that she is losing the argument, despite what she says in the Chamber, with local government, which continues to commission 15-minute care slots and at a rapidly increasing pace, in more numbers than it has ever done so before. Quality is compromised in the commissioning of these slots. However, as I said, Presiding Officer, I am slightly reassured that there is at least some backstop and some acknowledgement by the Deputy Minister in her acceptance of amendment 114 in the name of Jocelyn Davies, which we will also support.

Mae'r Dirprwy Weinidog unwaith eto'n siarad am ansawdd. Nid wyf yn anghytuno ei bod hi eisiau i'r Bil hwn ymwneud ag ansawdd y gofal, ond rhaid cwestiynu faint yn fwy o dystiolaeth y mae ei hangen ar y Dirprwy Weinidog i weld bod ansawdd yn cael ei beryglu trwy gomisiynu slotiau gofal 15 munud, a'i bod, er gwaethaf yr hyn y mae'n ei ddweud yn y Siambr, yn colli'r ddadl gyda llywodraeth leol sy'n parhau i gomisiynu slotiau gofal 15 munud a hynny'n gyflymach trwy'r adeg, ac mewn niferoedd mwy nag y mae erioed wedi'i wneud o'r blaen. Mae ansawdd yn cael ei beryglu wrth gomisiynu'r slotiau hyn. Fodd bynnag, fel y dywedais, Lywydd, rwyf wedi fy sicrhau ychydig bod rhywfaint o gamau diogelu, o leiaf, a rhywfaint o gydnabyddiaeth gan y Dirprwy Weinidog wrth iddi dderbyn gwelliant 114 yn enw Jocelyn Davies. Byddwn ninnau hefyd cefnogi'r gwelliant hwnnw.

17:08 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 108 be agreed to. Does any Member object? There is objection. We will move straight to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 108 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad. Byddwn yn symud yn syth i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 108.

Result of the vote on amendment 108.

*Gwrthodwyd gwelliant 108: O blaid 16, Yn erbyn 42, Ymatal 0.*

*Amendment 108 not agreed: For 16, Against 42, Abstain 0.*

## Grŵp 6: Darparu Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy Hygyrch (Gwelliant 101)

## Group 6: Provision of Accessible Information, Advice and Assistance (Amendment 101)

17:09 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead and only amendment in the group is amendment 101. I call on Kirsty Williams to move amendment 101 and to speak to it.

Y prif welliant a'r unig un yn y grŵp yw gwelliant 101. Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliant 101 ac i siarad amdano.

17:09 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 101 in my name.

Cynigiaf welliant 101 yn fy enw i.

This is yet another amendment that I have been particularly stubborn about and continue to be so. It is crucial if the Government's agenda that people have access to information that is accessible is to be realised. Information on its own will not do the job that the Governments intends, therefore the amendment is self-explanatory and calls upon the Deputy Minister to explicitly say that information should be in an accessible format.

Mae hwn yn welliant arall eto yr wyf wedi bod yn arbennig o ystyfnig yn ei gylch ac yn parhau i fod felly. Mae'n hanfodol os ydym am i agenda'r Llywodraeth bod gwybodaeth hygyrch ar gael i bobl gael ei gwireddu. Ni fydd gwybodaeth ar ei phen ei hun yn gwneud y gwaith y mae'r Llywodraethau'n ei fwriadu, felly mae'r gwelliant yn hunanesboniadol ac yn galw ar y Dirprwy Weinidog i ddweud yn benodol y dylai gwybodaeth fod mewn fformat hygyrch.

17:10 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Kirsty Williams for tabling this amendment. The provision of information under this Bill in formats that are accessible to the people who need it is an issue that arouses a great deal of interest and support across this Chamber and, indeed, from stakeholders that represent the interests of those affected by this legislation. We know, from submissions made during Stage 1, the recommendation of the Health and Social Care Committee, and from the debate led by Kirsty Williams at Stage 3, how important this issue is. I have previously argued that amending this area is unnecessary as existing equalities legislation provides sufficient cover. However, Kirsty Williams made a series of remarks during our Stage 3 consideration that has persuaded me to think again. I also think that the amendment that has been tabled at this stage provides the right coverage of this issue in the right place in the Bill. For these reasons, I am pleased to confirm that the Government will be supporting this amendment today. I urge all of you to support it too.

Diolch i Kirsty Williams am gyflwyno'r gwelliant hwn. Mae darpariaeth gwybodaeth o dan y Bil hwn mewn fformatau sy'n hygyrch i'r bobl sydd ei hangen yn fater sy'n ennyn llawer iawn o ddiddordeb a chefnogaeth ar draws y Siambr hon ac, yn wir, gan randdeiliaid sy'n cynrychioli buddiannau'r rhai yr effeithir arnynt gan y ddeddfwriaeth hon. Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw'r mater hwn, o gyflwyniadau a wnaed yn ystod Cyfnod 1, argymhelliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac o'r ddadl a arweiniwyd gan Kirsty Williams yng Nghyfnod 3. Rwyf wedi dadlau o'r blaen nad oes angen diwygio'r maes hwn gan fod deddfwriaeth gydraddoldeb bresennol yn darparu digon o sicrwydd. Fodd bynnag, gwnaeth Kirsty Williams gyfres o sylwadau yn ystod ein hystyriaeth Cyfnod 3 sydd wedi fy narbwyllo i ailfeddwl. Rwyf hefyd yn meddwl bod y gwelliant a gyflwynwyd ar hyn o bryd yn rhoi sylw cywir i'r mater hwn yn y lle cywir yn y Bil. Am y rhesymau hyn, rwy'n falch o gadarnhau y bydd y Llywodraeth yn cefnogi'r gwelliant hwn heddiw. Anogaf bob un ohonoch i'w gefnogi hefyd.

17:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Kirsty Williams to reply to the debate.

Galwaf ar Kirsty Williams i ymateb i'r ddadl.

17:11 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Deputy Minister for accepting the amendment.

Rwy'n ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am dderbyn y gwelliant.

17:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 101 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 101 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 101 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 101 yn cael ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 101 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 101 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 7: Gwrthod Asesiad o Anghenion (Gwelliannau 12, 13, 14, 15, 16, 17 a 18)

### Group 7: Refusal of a Needs Assessment (Amendments 12, 13, 14, 15, 16, 17 and 18)

17:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 12. I call on the Deputy Minister to move amendment 12 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 12. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 12 ac i siarad am hwnnw ac am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

17:11 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 12 in my name.

Cynigiaf welliant 12 yn fy enw i.

This is the first of seven groups that we are to consider today that deal with the issue of 'balance of rights'. The amendments in groups 7, 8, 12, 13, 14, 18 and 21 will ensure that an individual's rights of consent are provided for consistently and appropriately in the Bill and that the Bill achieves the best possible balance between the rights of individuals and those with parental responsibility. The number of amendments being made in relation to these matters is necessary to ensure that similar issues are addressed at different sections of the Bill. This is not due to there being a significant number of separate issues. Many of these amendments relate specifically to children; the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011 gives further effect in Wales to the rights and obligations set out in the United Nations Convention on the Rights of the Child. This has created a focus on children's rights that is truly unique—we heard this from Darren Millar earlier—in the United Kingdom. By providing for greater clarity and assurance on the rights of specific children in certain situations, such as those relating to a mature child or to a child who is disabled, I am of the view that these amendments will further ensure that the Bill builds upon this unique position.

Dyma'r cyntaf o saith grŵp yr ydym yn eu hystyried heddiw sy'n delio â mater 'cydbwysedd hawliau'. Bydd y gwelliannau yn grwpiau 7, 8, 12, 13, 14, 18 ac 21 yn sicrhau y darperir yn gyson ac yn briodol yn y Bil ar gyfer hawliau caniatâd unigolyn a bod y Bil yn cyflawni'r cydbwysedd gorau posibl rhwng hawliau unigolion a'r rhai â chyfrifoldeb rhiant. Mae'r nifer o welliannau sy'n cael eu gwneud mewn cysylltiad â'r materion hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod materion tebyg yn cael sylw mewn gwahanol adrannau o'r Bil. Nid yw hyn oherwydd bod nifer sylweddol o faterion ar wahân. Mae llawer o'r gwelliannau hyn yn ymwneud yn benodol â phlant; mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn rhoi grym pellach yng Nghymru i'r hawliau a'r rhwymedigaethau a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae hyn wedi rhoi pwyslais gwirioneddol unigryw ar hawliau plant yn y Deyrnas Unedig —clywsom hyn gan Darren Millar yn gynharach. Trwy ddarparu mwy o eglurder a sicrwydd ynglŷn â hawliau plant penodol mewn sefyllfaoedd penodol, megis y rhai sy'n ymwneud â phlentyn aeddfed neu blentyn sy'n anabl, rwyf o'r farn y bydd y newidiadau hyn yn sicrhau ymhellach fod y Bil yn adeiladu ar y sefyllfa unigryw hon.

I turn now to the specific amendments in this group, all of which concern circumstances in which a needs assessment can be refused. Amendments 12 and 13 provide for an authorised person to refuse an assessment on behalf of an adult who lacks capacity. Amendment 13 defines who such an authorised person may be and clarifies the cases in which such a person may refuse an assessment, or ask for an assessment following an earlier refusal. The amendment also provides for cases in which an adult lacks capacity and there is no authorised person.

Trof yn awr at y gwelliannau penodol yn y grŵp hwn, pob un ohonynt yn ymwneud ag amgylchiadau lle y gellir gwrthod asesiad o anghenion. Mae gwelliannau 12 a 13 yn gwneud darpariaeth i berson a awdurdodwyd wrthod asesiad ar ran oedolyn nad yw'r galluedd ganddo. Mae gwelliant 13 yn diffinio pwy y gall person awdurdodedig o'r fath fod ac yn egluro'r achosion lle y gall person o'r fath wrthod asesiad, neu ofyn am asesiad yn dilyn gwrthodiad blaenorol. Mae'r gwelliant hefyd yn darparu ar gyfer achosion lle y mae oedolyn heb alluedd ac nad oes unrhyw berson awdurdodedig.

Amendment 14 removes the existing section 21 and inserts a revised section. This revised section incorporates additional elements. As with the amendments to section 19, this amendment provides for an authorised person to refuse an assessment, but in this case on behalf of a child aged 16 or 17 who lacks capacity. There is also provision in relation to a child aged 16 or 17 who lacks capacity but has no authorised person to make decisions on their behalf. In these circumstances, the amendment allows for a person with parental responsibility to refuse a needs assessment for the child, while also clarifying cases in which a local authority is required to override the refusal of a person with parental responsibility.

Mae gwelliant 14 yn dileu'r adran 21 bresennol ac yn mewnosod adran ddiwygiedig. Mae'r adran ddiwygiedig yn cynnwys elfennau ychwanegol. Fel yn achos y gwelliannau i adran 19, mae'r gwelliant hwn yn gwneud darpariaeth i berson a awdurdodwyd wrthod asesiad, ond yn yr achos hwn ar ran plentyn 16 neu 17 oed sydd heb alluedd. Mae darpariaeth hefyd mewn cysylltiad â phlentyn 16 neu 17 oed sydd heb alluedd ond nad oes ganddo ef neu hi berson awdurdodedig i wneud penderfyniadau ar ei ran. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'r gwelliant yn caniatáu i berson sydd â chyfrifoldeb rhiant wrthod asesiad anghenion ar gyfer y plentyn, a hefyd yn egluro achosion lle y mae'n ofynnol i awdurdod lleol ddiystyru'r ffaith fod person sydd â chyfrifoldeb rhiant wedi gwrthod yr asesiad.

Amendment 15 removes existing section 22 and inserts a revised section to provide for the refusal of a needs assessment for a child aged under 16. The effect of this amendment is to require a local authority to override the refusal of a needs assessment by a person with parental responsibility in cases where the local authority is satisfied that not having the assessment would be inconsistent with the child's wellbeing.

Mae gwelliant 15 yn dileu'r adran 22 bresennol ac yn mewnosod adran ddiwygiedig i ddarparu ar gyfer gwrthod asesiad anghenion ar gyfer plentyn dan 16 oed. Effaith y gwelliant hwn yw ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddiystyru penderfyniad rhywun sydd â chyfrifoldeb rhiant i wrthod asesiad o anghenion, mewn achosion lle mae'r awdurdod lleol yn fodlon y byddai peidio â chynnal yr asesiad yn anghyson â lles y plentyn.

Amendments 16 and 17 provide for the splitting of section 24 into two sections, the first dealing with adult carers; the second dealing with carers aged 16 or 17. This helps to provide greater clarity around the different approaches to be taken to these two groups. Specifically, amendment 16 removes the existing section 24 and inserts a revised section for adult carers. The revised section includes the definition of an authorised person in relation to a carer, clarification of the cases in which an authorised person may refuse an assessment for an adult carer or ask for an assessment following an earlier refusal as well as the cases in which an adult carer lacks capacity and there is no authorised person. Amendment 17 provides for the refusal of a needs assessment for a carer aged 16 or 17. This revised section encompasses what was previously in section 24 with the addition of a new element providing for the ability of an authorised person to refuse an assessment on behalf of a carer aged 16 or 17 who lacks capacity. If the carer lacks capacity and has no authorised person to make decisions on their behalf, the effect of this amendment is to allow a person with parental responsibility to refuse a needs assessment for a child aged 16 or 17. The amendment also makes provision for the circumstances in which the local authority is required to override the refusal of the carer or a person with parental responsibility.

Mae gwelliannau 16 a 17 yn darparu ar gyfer hollti adran 24 yn ddwy ran, y rhan gyntaf yn ymdrin â gofalwyr sy'n oedolion; yr ail yn ymdrin â gofalwyr 16 neu 17 oed. Mae hyn yn helpu i ddarparu mwy o eglurder ynghylch yr ymdriniaeth wahanol ar gyfer y ddau grŵp. Yn benodol, mae gwelliant 16 yn dileu'r adran 24 bresennol ac yn mewnosod adran ddiwygiedig ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion. Mae'r adran ddiwygiedig yn cynnwys y diffiniad o berson awdurdodedig mewn cysylltiad â gofalwr, eglurhad o'r achosion lle y caiff person awdurdodedig wrthod asesiad ar gyfer gofalwr sy'n oedolyn neu ofyn am asesiad ar ôl i un gael ei wrthod yn flaenorol, yn ogystal â'r achosion lle nad yw'r galluedd gan ofalwr sy'n oedolyn ac nad oes person awdurdodedig. Mae gwelliant 17 yn darparu ar gyfer gwrthod asesiad anghenion ar gyfer gofalwr 16 neu 17 oed. Mae'r adran ddiwygiedig hon yn cynnwys yr hyn a oedd yn flaenorol yn adran 24, gan ychwanegu elfen newydd sy'n darparu ar gyfer gallu person awdurdodedig i wrthod asesiad ar ran gofalwr 16 neu 17 oed sydd heb alluedd. Os nad yw'r galluedd gan y gofalwr ac nad oes person awdurdodedig i wneud penderfyniadau ar ei ran, effaith y gwelliant hwn yw caniatáu i berson sydd â chyfrifoldeb rhiant wrthod asesiad o anghenion ar gyfer plentyn 16 neu 17 oed. Mae'r gwelliant hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer yr amgylchiadau lle y mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ddiystyru'r ffaith fod y gofalwr neu berson â chyfrifoldeb rhiant wedi gwrthod yr asesiad.

The purpose of amendment 18 is to insert a new section relating to the refusal of a needs assessment for a carer aged under 16. This was not previously provided for within the Bill. The amendment also provides for the cases in which a person with parental responsibility for the carer can refuse the assessment of the carer's needs and the circumstances in which the local authority is required to override any such refusal. The effect of the amendment is to enable a carer under the age of 16 to refuse an assessment if they have sufficient understanding. I ask Members to support these amendments.

Diben gwelliant 18 yw mewnosod adran newydd yn ymwneud â gwrthod asesiad anghenion ar gyfer gofalwr o dan 16 oed. Nid oedd darpariaeth ar gyfer hyn yn flaenorol o fewn y Bil. Mae'r gwelliant hefyd yn darparu ar gyfer yr achosion lle y gall person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y gofalwr wrthod yr asesiad o anghenion y gofalwr, a'r amgylchiadau lle mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ddiystyru unrhyw wrthodiad o'r fath. Effaith y gwelliant yw galluogi gofalwr dan 16 oed i wrthod asesiad os oes ganddynt ddealltwriaeth ddigonol. Gofynnaf i Aelodau gefnogi'r gwelliannau hyn.

17:17

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

There are no other speakers. So, the question is that amendment 12 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 12 is therefore agreed.

Nid oes unrhyw siaradwyr eraill. Felly, y cwestiwn yw bod gwelliant 12 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly mae gwelliant 12 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 12 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 12 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:18

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call the Deputy Minister to move amendment 13.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 13.

17:18

**Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 13 in my name.

Cynigiaf welliant 13 yn fy enw i.

17:18

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 13 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Therefore, amendment 13 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 13 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, mae gwelliant 13 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 13 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 13 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:18

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call the Deputy Minister to move amendment 14.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 14.

17:18

**Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 14 in my name.

Cynigiaf welliant 14 yn fy enw i.

17:18

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 14 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 14 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 14 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Mae gwelliant 14 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 14 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 14 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:18

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call the Deputy Minister to move amendment 15.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 15.

17:18

**Gwenda Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I move amendment 15 in my name.

Cynigiaf welliant 15 yn fy enw i.

17:18

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The question is that amendment 15 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Therefore, amendment 15 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 15 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, mae gwelliant 15 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 15 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 15 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:18

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call the Deputy Minister to move amendment 16.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 16.

17:18 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 16 in my name.

Cynigiaf welliant 16 yn fy enw i.

Senedd.tv Fideo Video

17:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 16 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Therefore, amendment 16 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 16 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, mae gwelliant 16 wedi ei dderbyn.

Senedd.tv Fideo Video

*Derbyniwyd gwelliant 16 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 16 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call the Deputy Minister to move amendment 17.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 17.

Senedd.tv Fideo Video

17:18 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 17 in my name.

Cynigiaf welliant 17 yn fy enw i.

Senedd.tv Fideo Video

17:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 17 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Therefore, amendment 17 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 17 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, mae gwelliant 17 wedi ei dderbyn.

Senedd.tv Fideo Video

*Derbyniwyd gwelliant 17 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 17 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call the Deputy Minister to move amendment 18.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 18.

Senedd.tv Fideo Video

17:18 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 18 in my name.

Cynigiaf welliant 18 yn fy enw i.

Senedd.tv Fideo Video

17:18 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 18 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Therefore, amendment 18 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 18 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, mae gwelliant 18 wedi ei dderbyn.

Senedd.tv Fideo Video

*Derbyniwyd gwelliant 18 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 18 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 8: Cyfuno Asesiadau o Anghenion ac Asesiadau Eraill (Gwelliannau 19, 20 ac 21)

## Group 8: Combining Needs Assessments and Other Assessments (Amendments 19, 20 and 21)

17:19 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

The lead amendment in the group is amendment 19. I call on the Deputy Minister to move amendment 19 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 19. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 19 ac i siarad am hwnnw ac am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

Senedd.tv Fideo Video

17:19 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

I move amendment 19 in my name.

Cynigiaf welliant 19 yn fy enw i.

Senedd.tv Fideo Video

This group continues to deal with the issue of balancing rights that I referred to in the previous group. Again, these amendments ensure that an individual's rights of consent are provided for consistently and appropriately in the Bill. Amendment 20 replaces subsections 2 to 5 of section 25 with revised subsections relating to the combining of needs assessments under section 1. The key principle established by these subsections is that the local authority is able to combine an assessment of a person's needs for care and support with an assessment of their carer's needs for support. However, it may do so only if the person needing care and support and the carer both agree. The revised subsections set out the conditions required for consent and the situations in which such a requirement for consent may be dispensed with. This establishes the relevant consent required to combine a needs assessment for an individual, whether they are an adult, a child under 16, or a 16 or 17-year-old, with a needs assessment for another person. In doing this, the amendment also requires the local authority to ensure that it has those relevant consents before it is able to combine the assessments.

Mae'r grŵp hwn yn parhau i ddelio â mater cydbwyso hawliau y cyfeiriais ato yn y grŵp blaenorol. Unwaith eto, mae'r gwelliannau hyn yn sicrhau y darperir yn gyson ac yn briodol yn y Bil ar gyfer hawliau caniatâd unigolyn. Mae gwelliant 20 yn rhoi isadrannau diwygiedig mewn cysylltiad â chyfuno asesiadau o anghenion o dan adran 1, yn lle isadrannau 2 i 5 o adran 25. Yr egwyddor allweddol a sefydlir gan yr isadrannau hyn yw bod yr awdurdod lleol yn gallu cyfuno asesiad o anghenion rhywun am ofal a chymorth gydag asesiad o anghenion ei ofalwyr am gymorth. Fodd bynnag, ni all wneud hynny ond os yw'r sawl sydd angen gofal a chymorth a'r gofalwr yn cytuno. Mae'r isadrannau diwygiedig yn nodi'r amodau y mae angen eu bodloni ar gyfer cydsyniad a'r sefyllfaoedd lle y gellid hepgor gofyniad o'r fath am gydsyniad. Mae hyn yn sefydlu'r cydsyniad perthnasol sy'n ofynnol i gyfuno asesiad anghenion ar gyfer unigolyn, p'un a yw'n oedolyn, yn blentyn dan 16 oed, neu'n 16 neu 17 oed, gydag asesiad anghenion ar gyfer rhywun arall. Wrth wneud hyn, mae'r gwelliant hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol sicrhau bod ganddo'r cydsyniadau perthnasol hynny cyn ei fod yn gallu cyfuno asesiadau.

The amendment also sets out the circumstances in which such consent is not valid and the cases in which a local authority can combine assessments without the relevant consent. In particular, the amendment addresses the situation where a person lacks capacity and there is no person authorised to give consent on their behalf. The amendment also addresses the situation where a needs assessment relates to a child under 16 and seeks to strike an appropriate balance between the rights of children and the rights of parents, depending on whether or not the child has sufficient understanding to give valid consent.

Mae'r diwygiad hefyd yn nodi'r amgylchiadau lle nad yw cydsyniad o'r fath yn ddilys a'r achosion lle y gall awdurdod lleol gyfuno asesiadau heb y cydsyniad perthnasol. Yn benodol, mae'r gwelliant yn mynd i'r afael â'r sefyllfa lle y ceir rhywun heb alluedd ac nad oes unrhyw un a awdurdodwyd i roi cydsyniad ar ei ran. Mae'r gwelliant hefyd yn mynd i'r afael â'r sefyllfa lle y mae asesiad o anghenion yn ymwneud â phlentyn dan 16 oed, ac yn ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng hawliau plant a hawliau rhieni, gan ddibynnu a oes gan y plentyn ddigon o ddealltwriaeth i roi cydsyniad dilys.

I want to make it clear that these amendments do not prevent local authorities from looking at the needs of the individual and their carer holistically, neither are they an attempt to put barriers in the way of assessments being combined, if that is what both parties wish. These amendments do uphold, however, the rights of the carer and the cared-for person to determine individually whether they are content for this to happen.

Rwyf am ei gwneud yn glir nad yw'r gwelliannau hyn yn atal awdurdodau lleol rhag edrych ar anghenion yr unigolyn a'r gofalwr mewn modd holistaidd, ac nad ydynt ychwaith yn ymgais i roi rhwystrau rhag cyfuno asesiadau, os mai dyna'r hyn y mae'r ddau barti yn ei ddymuno. Mae'r gwelliannau hyn, fodd bynnag, yn cynnal hawliau'r gofalwr a'r sawl sy'n derbyn gofal i benderfynu yn unigol a ydynt yn fodlon i hyn ddigwydd.

Amendments 19 and 21 are consequential to amendment 20. I ask Members to support these amendments.

Mae gwelliannau 19 a 21 yn ganlyniad i welliant 20. Gofynnaf i Aelodau gefnogi'r gwelliannau hyn.

17:22

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call Kirsty Williams.

Galwaf ar Kirsty Williams.

17:22

## Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

No, it is fine.

Na, mae'n iawn.

17:22

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I have no other speakers, therefore the question is that amendment 19 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 19 is agreed.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill, felly y cwestiwn yw bod gwelliant 19 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 19 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 19 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 19 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Deputy Minister to move amendment 20.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 20.

17:22 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 20 in my name.

Cynigiaf welliant 20 yn fy enw i.

17:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 20 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 20 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 20 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 20 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 20 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 20 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Deputy Minister to move amendment 21.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 21.

17:22 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 21 in my name.

Cynigiaf welliant 21 yn fy enw i.

17:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 21 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 21 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 21 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 21 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 21 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 21 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 9: Rheoliadau ynghylch Asesu (Gwelliant 113)

## Group 9: Regulations about Assessments (Amendment 113)

17:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead and only amendment in the group is amendment 113. I call on Suzy Davies to move amendment 113 and to speak to it.

Y prif welliant a'r unig un yn y grŵp yw gwelliant 113. Galwaf ar Suzy Davies i gynnig gwelliant 113 ac i siarad amdano.

17:22 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 113 in my name.

Cynigiaf welliant 113 yn fy enw i.

Thank you, Deputy Minister, for your answer to the debate on group 1 a little earlier. However, I move amendment 113 to press you further and to account for the concerns of Dafydd Elis-Thomas and Kirsty Williams, which I share, and which were referred to in that debate.

Diolch ichi, Ddirprwy Weinidog, am eich ateb i'r ddadl ar grŵp 1 ychydig yn gynharach. Fodd bynnag, rwy'n cynnig gwelliant 113 i bwyso arnoch ymhellach ac i gyfrif am bryderon Dafydd Elis-Thomas a Kirsty Williams, yr wyf yn eu rhannu, ac y cyfeiriwyd atynt yn y ddadl honno.

Section 13 is concerned with the assessment of care and support needs and I believe that language may be an issue of care and support, rather than a characteristic. For example, it is not uncommon for a person with dementia to lose confidence in an acquired language and to revert to their mother tongue. That has certainly happened to a member of my family with dementia, who now prefers to speak Welsh even though she spent her whole working life teaching English and Latin. I also remember being struck some years ago hearing about older members of the Yemeni community here in the bay, who, because of their age, were having to rely more and more on family members to communicate their other needs to relevant authorities.

Mae adran 13 yn ymwneud ag asesu anghenion gofal a chymorth a chredaf y gall yr iaith honno fod yn fater o ofal a chymorth, yn hytrach nag yn nodwedd. Er enghraifft, nid yw'n anghyffredin i rywun â dementia golli hyder mewn iaith a gaffaelwyd a mynd yn ôl i siarad ei famiaith. Mae hynny'n sicr wedi digwydd i aelod o'm teulu i sydd â dementia, ac mae'n well ganddi siarad Cymraeg erbyn hyn, er iddi dreulio ei bywyd gwaith i gyd yn dysgu Saesneg a Lladin. Rwyf hefyd yn cofio cael fy nharo rai blynyddoedd yn ôl wrth glywed am aelodau hŷn y gymuned Yemeni yma yn y bae, sydd, oherwydd eu hoed, yn gorfod dibynnu mwy a mwy ar aelodau'r teulu i gyfathrebu eu hanghenion eraill i awdurdodau perthnasol.

I can also think of a situation that arises in the part of Swansea that I live, where there are a considerable number of older Chinese individuals who have no English language skills at all, regardless of whether or not they have an illness or condition that might be a further barrier. Finally, I draw on the experience of my son's first and only appointment with a speech therapist. She arrived in our local surgery without a word of Welsh to her name and, unfortunately, my toddler son had not a word of English to his. So, that was a total waste of money, simply because the national health service had not directed its mind to the practical implications of a language barrier.

Gallaf hefyd feddwl am sefyllfa sy'n codi yn y rhan o Abertawe lle'r wyf yn byw, lle mae nifer sylweddol o unigolion Tsieineaidd hŷn nad oes ganddynt unrhyw sgiliau iaith Saesneg o gwbl, waeth a oes ganddynt salwch neu gyflwr ai peidio a allai fod yn rhwystr ychwanegol. Yn olaf, rwy'n dysgu o brofiad apwyntiad cyntaf ac unig un fy mab gyda therapydd lleferydd. Cyrhaeddodd yn ein meddygfa leol heb air o Gymraeg ac, yn anffodus, nid oedd gan fy mab bach air o Saesneg. Felly, roedd yn wastraff llwyr ar arian, yn syml oherwydd nad oedd y gwasanaeth iechyd gwladol wedi cyfeirio ei feddwl at oblygiadau ymarferol rhwystr iaith.

The question about meeting communication needs goes beyond serving people who may have, say, head injuries, particular learning disabilities or dementia. I take the view that the ability to be understood or to articulate what your other needs are is a need in itself. So, I take the view that by ignoring a communication problem, you can get the wrong information about the other needs that a person might have.

Mae'r cwestiwn ynghylch bodloni anghenion cyfathrebu yn mynd y tu hwnt i wasanaethu pobl a allai fod, dyweder, ag anafiadau i'r pen, anableddau dysgu penodol neu ddementia. Rwyf o'r farn fod y gallu i gael eich deall neu i fynegi beth yw eich anghenion eraill yn angen ynddo'i hun. Felly, rwyf o'r farn y gallwch, trwy anwybyddu problem gyfathrebu, gael y wybodaeth anghywir am yr anghenion eraill a allai fod gan rywun.

If you agree, Deputy Minister, in the absence of anything explicit on the face of the Bill, this slight amendment to section 26 will leave no-one in doubt as to your policy intentions, and furthermore, regulations must reflect the equalities obligations on local authorities. I hope, therefore, that all Members can support this amendment.

Os ydych yn cytuno, Ddirprwy Weinidog, yn absenoldeb rhywbeth penodol ar wyneb y Bil, ni fydd y newid bach hwn i adran 26 yn gadael amheuaeth ym meddyliau neb ynghylch eich bwriadau polisi, ac ar ben hynny, rhaid i'r rheoliadau adlewyrchu'r rhwymedigaethau cydraddoldeb ar awdurdodau lleol. Rwy'n gobeithio, felly, y gall pob Aelod gefnogi'r gwelliant hwn.

17:25 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Fonesig Lywydd, a diolch i Suzy Davies unwaith eto am gyflwyno sensitifrwydd ieithyddol fel rhan o'n trafodaethau ni. Soniais wrth drafod y gwelliant blaenorol ynglŷn â'm profiad i ym mwrdeistref brenhinol—nid oedd yn frenhinol; roedd yn anfrenhinol os rhywbeth—ym Mwrdeistref Brent yn Llundain yn y 1980au. Dysgais hefyd ar yr un pryd lawer iawn ynglŷn ag amrywiaeth ieithyddol yn y gwasanaethau cymdeithasol. Rwy'n poeni'n aml iawn yng Nghymru, hyd yn oed yn y dinasoedd lle mae gennym leiafrifoedd ieithyddol sylweddol, nad ydym ni wedi wynebu'r problemau hyn yn ymarferol. Rwy'n meddwl, felly, y bydd ychwanegu'r cymal hwn yn gwella dealltwriaeth o bwysigrwydd cyfathrebu, oherwydd, fel y dywedodd Suzy, mae cyfathrebu yn bwynt cyntaf o ran delifro unrhyw wasanaeth, ac rwy'n gobeithio felly y bydd modd edrych ar y mater hwn yn llawnach. Yn ogystal—ac rwy'n ddiolchgar i Elin Jones am ei chefnogaeth yn flaenorol yn y mater hwn—mewn dydd a ddaw yn gynt nag yn hwyrach, gobeithio, byddwn yn gallu cysylltu'r syniad o ddwy iaith swyddogol yng Nghymru gydag ieithoedd dinesig, a phan fydd pobl nad ydynt yn siarad y Gymraeg neu Saesneg yn rhugl ond sydd ag iaith arall yn iaith y cartref yn gallu derbyn gwasanaethau priodol.

Thank you, Dame Presiding Officer, and thank you, Suzy Davies, one again, for introducing linguistic sensitivities into our discussions. I mentioned, in addressing a previous amendment, my experience in the royal borough—it was not royal; it was non-royal if anything—in the London Borough of Brent in the 1980s. At the same time, I learnt a great deal about linguistic diversity and social services. I get concerned very often in Wales, even in the cities where we have significant linguistic minorities, that we have not faced up to these problems on a practical level. I therefore think that adding this clause will improve the understanding of the importance of communication, because, as Suzy has just said, communication is the first delivery point of any service, and I therefore hope that we will be able to look at this issue more comprehensively. In addition—and I am grateful to Elin Jones for her earlier support on this issue—on a day that will come sooner rather than later, I hope, we will be able to link this concept of two official languages in Wales with civic languages, or the language of civilians, and where people who do not speak English or Welsh fluently but have another language as the language of the home will be able to access appropriate services.

17:26 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

While I understand the intention behind amendment 113, tabled by Suzy Davies AM, there are a number of issues that would be created within section 26, should this amendment be agreed. The first issue is in relation to the language of the drafting. The amendment uses the term 'individual', whereas the remainder of the section uses the term 'person'. While this may appear innocuous, it creates an inconsistency of terminology within the section, which could cause uncertainty and doubt in the interpretation of the provision.

Er fy mod yn deall y bwriad y tu ôl i welliant 113, a gyflwynwyd gan Suzy Davies AC, mae nifer o broblemau a fyddai'n cael eu creu o fewn adran 26, pe byddai'r gwelliant hwn yn cael ei dderbyn. Mae'r mater cyntaf yn ymwneud â iaith y drafftio. Mae'r gwelliant yn defnyddio'r term 'unigolyn', tra bod gweddill yr adran yn defnyddio'r term 'person'. Er y gall hyn ymddangos yn fatr didbwys, mae'n creu anghysondeb o ran terminoleg yn yr adran, a allai achosi ansicrwydd ac amheuaeth wrth ddehongli'r ddarpariaeth.

The second issue, again, is in relation to the terminology , specifically the use of the phrase 'current or future language requirements'. It is unclear as to the meaning of 'language requirements'. It could be interpreted in many different ways, which in itself creates a significant amount of legal ambiguity. Such ambiguity has no place within primary legislation. Furthermore, there are no other examples of considerations contained within the current provision under paragraph (d). This amendment could give undue weight to the consideration of language, over and above anything else, which, again, creates not only legal ambiguity, but also ambiguity for the local authority in the practical application of an assessment. Finally, including 'future language requirements' could potentially introduce an unachievable consideration for which a local authority may need to have regard when undertaking an assessment. To my mind, in the majority of cases, it is unlikely that a local authority would be able to consider or predict a person's future language requirements. This, in many instances, would render a local authority unable to fulfil a duty from the outset. Therefore, for the reasons that I have set out, I have significant concerns with amendment 113 and urge Members not to support it.

Mae'r ail fater, unwaith eto, yn ymwneud â'r derminoleg, yn benodol y defnydd o'r ymadrodd 'gofynion ieithyddol presennol unigolyn neu ei ofynion ieithyddol yn y dyfodol'. Nid yw'n glir ynghylch ystyr 'gofynion ieithyddol'. Gellid dehongli hynny mewn nifer o wahanol ffyrdd, sydd ynddo'i hun yn creu cryn dipyn o amwysedd cyfreithiol. Nid oes lle i amwysedd o'r fath o fewn deddfwriaeth sylfaenol. Ar ben hynny, nid oes unrhyw enghreifftiau eraill o ystyriaethau a gynhwysir o fewn y ddarpariaeth bresennol o dan baragraff (d). Gallai'r gwelliant hwn roi gormod o bwyslais ar ystyriaethau iaith, uwchlaw unrhyw beth arall, sydd, unwaith eto, yn creu amwysedd cyfreithiol, ond hefyd amwysedd ar gyfer yr awdurdod lleol wrth roi asesiad ar waith yn ymarferol. Yn olaf, gellid o bosibl gyflwyno ystyriaeth y gall fod angen i awdurdod lleol roi sylw iddi wrth gynnal asesiad, ond na ellir ei chyflawni, trwy gynnwys 'gofynion ieithyddol yn y dyfodol'. Yn fy marn i, yn y mwyafrif o achosion, mae'n annhebygol y byddai awdurdod lleol yn gallu ystyried neu ragweld gofynion ieithyddol person yn y dyfodol. Byddai hyn, mewn llawer o achosion, yn golygu na allai awdurdod lleol gyflawni dyletswydd o'r cychwyn cyntaf. Felly, am y rhesymau yr wyf wedi'u nodi, mae gennyf bryderon sylweddol ynglŷn â gwelliant 113 ac rwy'n annog yr Aelodau i beidio â'i gefnogi.

17:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Suzy Davies to reply to the debate.

Galwaf ar Suzy Davies i ymateb i'r ddadl.

17:28 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Llywydd. Thank you for your response, Deputy Minister. On your original point of terminology, I understand that an emergency application has been made to deal with a minor amendment a little bit later on today, an amendment that you yourself have tabled, so perhaps I should be considering making a similar application to you, Presiding Officer.

Diolch, Lywydd. Diolch ichi am eich ymateb, Ddirprwy Weinidog. O ran eich pwynt gwreiddiol ynglŷn â therminoleg, rwy'n deall bod cais brys wedi ei wneud i ddelio â mân welliant ychydig yn nes ymlaen heddiw, gwelliant yr ydych chi eich hun wedi'i gyflwyno, felly efallai y dylwn fod yn ystyried gwneud cais tebyg i chi, Lywydd.

In terms of language, I have to say that in the amendment as it is tabled there is no priority given to language needs. As I indicated in my contribution, I think that because there is nothing specific on the face of the Bill at the moment as regards the policy or intention regarding language needs, this is an opportunity to put it on there through regulations, rather than confusing section 13, which I spoke to earlier.

O ran iaith, rhaid i mi ddweud na roddir blaenoriaeth i anghenion ieithyddol yn y gwelliant fel y mae wedi'i gyflwyno. Fel y dywedais yn fy nghyfraniad, rwy'n credu bod hwn yn gyfle, gan nad oes dim penodol ar wyneb y Bil ar hyn o bryd o ran y polisi neu fwriad mewn cysylltiad ag anghenion iaith, i'w roi yno trwy reoliadau, yn hytrach nag adran 13 ddryslyd, y siaradais amdani'n gynharach.

I am slightly confused by your response to the future language requirements. Are you saying that the obligations placed on various people in this Bill are to be applied only once? I would have thought that the obligations to assess an individual's needs will be ongoing. Therefore, assessing future language needs, or at least becoming aware that there may be future needs, would come to someone's notice in a fairly early assessment, and I will go back to the example of someone with dementia. When someone is slipping into dementia, the chances are that their communication needs will change over time. By flagging that up in an initial assessment, it gives you an opportunity to prepare for what might come around in a future assessment.

Rwy'n dal braidd yn ddryslyd oherwydd eich ymateb i ofynion ieithyddol yn y dyfodol. A ydych yn dweud mai unwaith yn unig y bwriedir i'r dyletswyddau a osodir ar wahanol bobl yn y Bil hwn gael eu harfer? Byddwn wedi meddwl y bydd y dyletswyddau i asesu anghenion unigolyn yn rhai parhaus. Felly, byddai asesiad o anghenion ieithyddol yn y dyfodol yn dod i sylw rhywun mewn asesiad eithaf cynnar, neu o leiaf byddai rhywun yn dod yn ymwybodol y gall fod anghenion y dyfodol, a byddaf yn mynd yn ôl at yr enghraifft o rywun sydd â dementia. Pan fydd rhywun yn llithro i mewn i ddementia, mae'n debygol y bydd eu hanghenion cyfathrebu yn newid dros amser. Trwy dynnu sylw at hynny mewn asesiad cychwynnol, mae'n rhoi cyfle i chi baratoi ar gyfer yr hyn a allai ddigwydd mewn asesiad yn y dyfodol.

17:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 113 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 113 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly symudwn i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 113.

Result of the vote on amendment 113.

*Gwrthodwyd gwelliant 113: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment 113 not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

17:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 22.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 22.

17:30 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 22 in my name.

Cynigiaf welliant 22 yn fy enw i.

17:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 22 be agreed to. Are there any objections? There are no objections, therefore amendment 22 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 22 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 22 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 22 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 22 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

**Grŵp 10: Dyfarnu Cymhwystra (Gwelliant 109)**

**Group 10: Determination of Eligibility (Amendment 109)**

17:31

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead and only amendment in the group is amendment 109. I call on Kirsty Williams to move amendment 109 and to speak to it.

Y prif welliant a'r unig un yn y grŵp yw gwelliant 109. Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliant 109 ac i siarad amdano.

17:31

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 109 in my name.

Cynigiaf welliant 109 yn fy enw i.

Amendment 109 seeks to clarify, once again, who will be eligible for social care should this legislation pass today. Presiding Officer, I want to put on record the attempts that the Deputy Minister has made to reassure me in this regard. She has gone, I am sure, above and beyond what could reasonably be expected, and I am grateful for that. Therefore, I want to put that on the record. However, as we know, this legislation allows eligibility criteria to be determined by regulations at a later date. Currently, there is a group of people looking at what the eligibility criteria will be, and there is no clarity yet with regard to that. My concern is that tasks that would currently be regarded as requiring a moderate level of social care need an intervention—tasks that mean the difference between people being able to lead an independent life or not—as I said, are to be left to a later date. I am absolutely certain that there are people in Wales who are currently in receipt of services who, as a result of subsequent regulations, will no longer be in receipt of services. Given the climate in which we are operating, that may be the appropriate decision, but I think that we should be open, upfront and transparent with people about what the effects of this legislation may be for individuals within communities.

Mae gwelliant 109 yn ceisio egluro, unwaith eto, pwy fydd yn gymwys i gael gofal cymdeithasol os bydd y ddeddfwriaeth hon yn pasio heddiw. Lywydd, rwyf am gofnodi'r ymdrechion y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'u gwneud i dawelu fy meddwl yn hyn o beth. Mae hi wedi mynd, rwy'n siŵr, y tu hwnt i'r hyn y gellid yn rhesymol ei ddisgwyl, ac rwy'n ddiolchgar am hynny. Felly, rwyf am roi hynny ar y cofnod. Fodd bynnag, fel y gwyddom, mae'r ddeddfwriaeth hon yn caniatáu i feini prawf cymhwystra gael eu pennu gan reoliadau yn ddiweddarach. Ar hyn o bryd, mae grŵp o bobl yn edrych ar beth fydd y meini prawf cymhwystra, ac nid oes unrhyw eglurder eto yn hynny o beth. Fy mhryder i yw bod angen ymyrraeth ar gyfer tasgau y'u ystyrir ar hyn o bryd eu bod angen lefel gymedrol o ofal cymdeithasol—tasgau sy'n golygu'r gwahaniaeth i bobl rhwng gallu byw bywyd annibynnol neu beidio— a'u bod,fel y dywedais, am gael eu gadael tan ddyddiad diweddarach. Rwy'n gwbl sicr bod pobl yng Nghymru sydd ar hyn o bryd yn derbyn gwasanaethau na fyddant, o ganlyniad i reoliadau dilynol, yn derbyn gwasanaethau mwyach. O ystyried yr hinsawdd yr ydym yn gweithredu ynddi, efallai mai dyna'r penderfyniad priodol, ond rwy'n meddwl y dylem fod yn agored, yn onest ac yn dryloyw â phobl ynglŷn ag effeithiau posibl y ddeddfwriaeth hon ar gyfer unigolion o fewn cymunedau.

There has been a great debate about what is appropriate and what is not appropriate for the face of the Bill. Believe me, if you look at the regulatory impact assessment, you will see that there are reams and reams of detail, in terms of what our social care system will look like, that are left to regulation. Actually, the vast majority of it will be left to negative procedure. So, the impact that we as Assembly Members will be able to have on that will be severely limited. I recognise and welcome very much, in fact, that we have been able to convince the Deputy Minister of the need of a superaffirmative procedure around eligibility. That gives me some comfort. However, I am being asked today to vote on a piece of legislation that would affect the most vulnerable in my constituency, and I do not know what the effect of this legislation will be on them. That makes me severely question my ability to vote.

Cafwyd dadl wych am yr hyn y mae'n briodol a'r hyn nad yw'n briodol ei gynnwys ar gyfer wyneb y Bil. Credwch fi, os edrychwch ar yr asesiad effaith rheoleiddiol, fe welwch fod yna bentyrrau a phentyrrau o fanylion, o ran sut bydd ein system gofal cymdeithasol yn edrych, sy'n cael eu gadael i reoliadau. Mewn gwirionedd, bydd y rhan fwyaf ohono'n cael ei adael i weithdrefn negyddol. Felly, bydd yr effaith y gallwn ni fel Aelodau'r Cynulliad ei chael ar hynny'n gyfyngedig iawn. Rwy'n cydnabod ac yn croesawu'n fawr iawn, mewn gwirionedd, ein bod wedi gallu argyhoeddi'r Dirprwy Weinidog ynglŷn â'r angen am weithdrefn uwchgadarnhaol ynghylch cymhwystra. Mae hynny'n rhoi rhywfaint o gysur i mi. Fodd bynnag, gofynnir i mi heddiw bleidleisio ar ddarn o ddeddfwriaeth a fyddai'n effeithio ar y mwyaf agored i niwed yn fy etholaeth i, ac nid wyf i'n gwybod beth fydd effaith y ddeddfwriaeth hon arnynt. Mae hynny'n gwneud i mi gwestiynu'n ddifrifol fy ngallu i bleidleisio.

For those who say that it could never be on the face of the Bill, I think that there is an argument for that, but there has been previous legislation that has come before the Chamber on which there have been similar arguments about what should be on the face of the Bill and what should be left to regulation. Therefore, Ministers have come forward before Stage 4 with clear policy intentions—indeed, draft regulations—that have been able to give us an understanding, prior to voting on the primary legislation, of what regulations will stem from that. I am still of the opinion that if that can be done for legislation on food hygiene, and if it can be done for other legislation, it could have been done for this legislation. Surely now, after years of consulting on sustainable social services, the Deputy Minister should be clear on what national eligibility criteria should look like and should have been in a position to allow this Chamber to see draft regulations, to give us a clear indication of what those eligibility criteria would look like.

I'r rhai sy'n dweud na allai fyth fod ar wyneb y Bil, credaf fod dadl o blaid hynny, ond mae deddfwriaeth flaenorol wedi dod gerbron y Siambr lle y cafwyd dadleuon tebyg am yr hyn a ddylai fod ar wyneb y Bil a'r hyn y dylid ei adael i reoliadau. Felly, mae Gweinidogion wedi dod ymlaen cyn Cyfnod 4 gyda bwriadau polisi clir—rheoliadau drafft, yn wir—sydd wedi ein galluogi i ddeall, cyn pleidleisio ar y ddeddfwriaeth sylfaenol, pa reoliadau fyddai'n deillio ohoni. Rwy'n dal o'r farn y gellid bod wedi gwneud hynny yn achos y ddeddfwriaeth hon, os oes modd gwneud hynny ar gyfer deddfwriaeth ar hylendid bwyd, ac os oes modd ei wneud ar gyfer deddfwriaeth arall. Siawns yn awr, ar ôl blynyddoedd o ymgynghori ar wasanaethau cymdeithasol cynaliadwy, y dylai'r Dirprwy Weinidog fod yn glir ynghylch beth ddylai'r meini prawf cymhwystra cenedlaethol fod, ac y dylai fod mewn sefyllfa i ganiatáu i'r Siambr hon weld y rheoliadau drafft, er mwyn rhoi arwydd clir inni o beth fyddai'r meini prawf cymhwystra.

17:35

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Would the Member agree that this also extends to all basic framework legislation—that, at all times, this Assembly and, at previous stages, its committees, should be able to have full view of the regulations, even if they are in draft form?

A fyddai'r Aelod yn cytuno bod hyn hefyd yn ymestyn i bob deddfwriaeth fframwaith sylfaenol —y dylai'r Cynulliad hwn, ar bob adeg, ac, mewn cyfnodau blaenorol, ei bwyllgorau, fod yn gallu cael golwg llawn ar y rheoliadau, hyd yn oed os ydynt ar ffurf drafft?

17:35

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, I would. We have had that, and Ministers have been able to provide that reassurance in other areas. Surely, the policy intent is clear by now. If not, why have we got this far through the legislative process? Surely, the Government knows what is going to come out at the other end. The other added point of interest in this is, if you read the regulatory impact assessment, you will see that it says that this creates national eligibility criteria, but then goes on to say that there remains widespread scope for individual local authorities to use their discretion. Now, either we are creating national eligibility criteria, or we are not creating national eligibility criteria. The Government's own impact assessment has that contradiction written within it. Believe me, as I said, there are lots of regulations that we could have laid. The First Minister said earlier that we should not be so hard on ourselves. This is a weakness within the current set-up of this Chamber—it is very difficult for opposition parties to be able to scrutinise and to have the capacity to lay amendments. We have chosen this one because it goes to the crux of the Bill and is the most important one. This seeks to give reassurance that moderate social care needs will be met in years to come.

Byddwn. Rydym wedi cael hynny, ac mae Gweinidogion wedi gallu darparu'r sicrwydd hwnnw mewn meysydd eraill. Yn sicr, mae'r bwriad polisi yn eglur erbyn hyn. Os nad yw, pam rydym ni wedi dod cyn belled trwy'r broses ddeddfwriaethol? Yn sicr, mae'r Llywodraeth yn gwybod beth sy'n mynd i ddod allan yn y pen arall. Y pwynt ychwanegol arall o ddiddordeb yn hyn yw y gwelwch, wrth ddarllen yr asesiad effaith rheoleiddiol, ei fod yn dweud bod hyn yn creu meini prawf cymhwystra cenedlaethol, ond wedyn mae'n mynd ymlaen i ddweud bod cryn le o hyd i awdurdodau lleol ddefnyddio eu disgresiwn . Yn awr, rydym naill ai yn creu meini prawf cymhwystra cenedlaethol, neu nid ydym yn creu meini prawf cymhwystra cenedlaethol. Mae asesiad effaith y Llywodraeth ei hun yn gwrth-ddweud ei hun. Credwch fi, fel y dywedais, mae llawer o reoliadau y gallem fod wedi'u gosod. Dywedodd y Prif Weinidog yn gynharach na ddylem fod mor llawdrwm â ni ein hunain. Mae hyn yn wendid yn y modd y mae'r Siambr hon yn gweithio ar hyn o bryd—mae'n anodd iawn i'r gwrthbleidiau allu craffu a chael y gallu i osod gwelliannau. Rydym wedi dewis hwn oherwydd ei fod yn mynd at graidd y Bil ac mai hwn yw'r un pwysicaf. Mae hwn yn ceisio rhoi sicrwydd y bydd anghenion gofal cymdeithasol cymedrol yn cael eu diwallu yn y blynyddoedd i ddod.

I would remind backbenchers—indeed, I would remind the Government—that we are legislating not for this Minister, in whom I have a great deal of faith and trust, and that the legislation that we pass here today, and the powers that we hand over to the Executive, will not always be in the hands of Gwenda Thomas. They could be in the hands of less benign Ministers, who might want to do something—[Interruption.] I am not mentioning any names; do not tempt me. [Interruption.] Do not tempt me. The legislation that we pass today, and the regulatory powers that we are being asked to give up today and hand over to an executive, are not just being handed over to this Executive. We are handing powers over to executives for years and years to come. All politicians, regardless of what political party they are in and regardless of whether they think they have a God-given right to govern, should be mindful of that.

Hoffwn atgoffa aelodau'r meinciau cefn—yn wir, byddwn yn atgoffa'r Llywodraeth—nad ydym yn deddfu ar gyfer y Gweinidog hwn, y mae gennyf lawer iawn o ffydd ac ymddiriedaeth ynddi, ac na fydd y ddeddfwriaeth yr ydym yn ei phasio yma heddiw, a'r pwerau yr ydym yn eu cyflwyno i'r Weithrediaeth, bob amser yn nwylo Gwenda Thomas. Gallent fod yn nwylo Gweinidogion llai rhadlon, a allai fod eisiau gwneud rhywbeth—[Torri ar draws.] Nid wyf yn crybwyll unrhyw enwau, peidiwch â'm temtio. [Torri ar draws.] Peidiwch â'm temtio. Mae'r ddeddfwriaeth yr ydym yn ei phasio heddiw, a'r pwerau rheoliadol y gofynnir i ni eu hildio heddiw a'u trosglwyddo i'r weithrediaeth, nid yn unig yn cael eu trosglwyddo i'r Weithrediaeth hon. Rydym yn trosglwyddo pwerau i weithrediaethau am flynyddoedd maith i ddod. Dylai pob gwleidydd gofio hynny, ni waeth pa blaid wleidyddol y mae ynddi ac ni waeth a yw'n credu bod ganddo hawl wedi'i rhoi gan Dduw i lywodraethu.

17:38

## Lynne Neagle Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I understand where Kirsty Williams is coming from on this issue, having shared many of her concerns in the committee around eligibility criteria. However, there has to be a recognition today of the steps that the Minister has taken to acknowledge and respond to those concerns—in particular, the fact that any eligibility criteria will be subject to a superaffirmative procedure. I would personally like to place on record my thanks to Gwenda Thomas for that. Of course, no one has a God-given right to govern and, of course, we could—God forbid—one day see a Conservative Minister for social services. God forbid. However, I am satisfied that the safeguards that the Minister has put in place will ensure that this Assembly has a proper say on these criteria, which will be so very important to our constituents.

Rwy'n deall safbwynt Kirsty Williams ar y mater hwn, ar ôl rhannu llawer o'i phryderon yn y pwyllgor ynglŷn â meini prawf cymhwystra. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod heddiw y camau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i gydnabod ac ymateb i'r pryderon hynny—yn enwedig, y ffaith y bydd unrhyw feini prawf cymhwystra yn destun gweithdrefn uwchgadarnhaol. Yn bersonol, hoffwn gofnodi fy niolch i Gwenda Thomas am hynny. Wrth gwrs, nid oes gan neb yr hawl wedi'i roi gan Dduw i lywodraethu ac, wrth gwrs, gallem—Duw a'n gwaredo—un diwrnod weld Ceidwadwr yn Weinidog gwasanaethau cymdeithasol. Duw a'n gwaredo. Fodd bynnag, rwy'n fodlon y bydd y mesurau diogelu y mae'r Gweinidog wedi'u rhoi ar waith yn sicrhau bod y Cynulliad hwn yn cael dweud ei ddweud yn briodol ar y meini prawf hyn, a fydd yn mor bwysig i'n hetholwyr.

17:39

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This amendment seeks to remove the power to make regulations specifying those needs and circumstances that meet the eligibility criteria and, instead, sets out on the face of the Bill a range of circumstances in which a person would meet the eligibility criteria. An identical amendment was considered by the Health and Social Care Committee at Stage 2, and the whole of the Assembly at Stage 3. The amendment would prevent the development of eligibility criteria in conjunction with stakeholders, and would also restrict the necessary flexibility to respond to changing criteria over time. I have set out, at both Stage 2 and Stage 3, the importance of establishing the eligibility criteria in regulations, and this approach has been accepted. I have established an eligibility technical group, which includes representation from several key stakeholders, including statutory and third sector representation, to advise the Government on the needs, circumstances and outcomes that should form the basis of an enforceable right to care and support. That group has met twice and its work is ongoing. I am sure that Kirsty Williams would want to acknowledge that I have shared with her a letter that I have sent to this advisory group—which I have also shared with Members—setting out my very minimum expectation regarding criteria. Those minimum expectations, I believe, embrace the categories that Kirsty Williams has set out.

Mae'r gwelliant hwn yn ceisio cael gwared ar y pŵer i wneud rheoliadau sy'n pennu pa anghenion ac amgylchiadau sy'n bodloni'r meini prawf cymhwystra ac, yn lle hynny, yn nodi ar wyneb y Bil amrywiaeth o amgylchiadau lle y byddai person yn bodloni'r meini prawf cymhwystra. Cafodd gwelliant union yr un fath ei ystyried gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghyfnod 2, a'r Cynulliad cyfan yng Nghyfnod 3. Byddai'r gwelliant yn golygu na fyddai modd datblygu meini prawf cymhwyster ar y cyd â rhanddeiliaid, a byddai hefyd yn cyfyngu ar yr hyblygrwydd angenrheidiol i ymateb i feini prawf wrth iddynt newid dros amser. Rwyf wedi nodi, yng Nghyfnod 2 a Chyfnod 3, pa mor bwysig yw sefydlu meini prawf cymhwystra mewn rheoliadau, ac mae'r ymdriniaeth hon wedi cael ei derbyn. Rwyf wedi sefydlu grŵp technegol ar gymhwystra, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o nifer o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys cynrychiolaeth statudol a thrydydd sector, i gynghori'r Llywodraeth ar anghenion, amgylchiadau a chanlyniadau a ddylai fod yn sail i hawl orfodadwy i ofal a chefnogaeth. Mae'r grŵp hwnnw wedi cyfarfod ddwywaith ac mae ei waith yn mynd rhagddo. Rwy'n siŵr y byddai Kirsty Williams am gydnabod fy mod wedi rhannu llythyr gyda hi yr wyf wedi'i anfon at y grŵp cynghori hwn—rwyf hefyd wedi ei rannu gydag Aelodau—yn nodi fy nisgwyliad lleiaf o ran meini prawf. Mae'r disgwyliadau lleiaf, rwy'n credu, yn cwmpasu'r categorïau y mae Kirsty Williams wedi'u nodi.

Setting out the conditions for meeting the eligibility criteria on the face of the Bill would undermine our ability to progress the work of developing eligibility in close consultation with the relevant stakeholders. The regulations that this work will inform will be subject to the superaffirmative procedure, as we have heard already, which will ensure that Members will have every opportunity to consider and scrutinise those regulations before they are made. In addition, I have written to the Chair of the Health and Social Care Committee to reaffirm my commitment to refer the draft regulations to the committee when they go out for public consultation. I therefore feel that amendment 109 is unnecessary and unhelpful, and I ask Assembly Members to oppose it.

Trwy osod yr amodau ar gyfer bodloni'r meini prawf cymhwystra ar wyneb y Bil, byddem yn tanseilio ein gallu i symud ymlaen â'r gwaith o ddatblygu cymhwystra mewn ymgynghoriad agos â'r rhanddeiliaid perthnasol. Bydd y rheoliadau y bydd y gwaith hwn yn cyfrannu atynt yn destun y weithdrefn uwchgadarnhaol, fel yr ydym wedi clywed eisoes, gan sicrhau y caiff yr Aelodau bob cyfle i ystyried a chraffu ar y rheoliadau hynny cyn iddynt gael eu gwneud. Yn ogystal, rwyf wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ailddatgan fy ymrwymiad i gyfeirio'r rheoliadau drafft i'r pwyllgor pan gynhelir ymgynghoriad cyhoeddus yn eu cylch. Felly, rwy'n teimlo bod gwelliant 109 yn ddiangen ac yn ddibwrpas, a gofynnaf i Aelodau'r Cynulliad ei wrthwynebu.

17:42

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Kirsty Williams to reply to the debate.

Galwaf ar Kirsty Williams i ymateb i'r ddadl.

17:42

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Deputy Minister says that the amendment would not allow us to create eligibility criteria in consultation with the many stakeholders who have concerns about this, but let us be absolutely clear: the stakeholder group that was established to assist the scrutiny of this Bill, which was made up from a multiplicity of different charitable and voluntary organisations across Wales, supports this amendment. This is an amendment that it is asking Assembly Members to back, because, despite the considerable movement that the Deputy Minister has made—and I thought that I had acknowledged that when I got up to speak, and I have no problem once again, Lynne, in acknowledging the work of the Deputy Minister in this area—they share my concerns that moderate care needs, as they are currently described, will not survive this regulation process and that there are people who are currently in receipt of care who may not find themselves eligible for care and support as a result of regulations that stem from this Bill.

Dywed y Dirprwy Weinidog na fyddai'r newid yn ein galluogi i ymgynghori â'r nifer o randdeiliaid sydd â phryderon am hyn wrth greu meini prawf cymhwystra, ond gadewch inni fod yn hollol glir: mae'r grŵp rhanddeiliaid a sefydlwyd i gynorthwyo i graffu ar y Bil hwn, ac a oedd yn cynnwys nifer fawr o wahanol sefydliadau elusennol a gwirfoddol ar draws Cymru, yn cefnogi'r gwelliant hwn. Mae hwn yn welliant y mae'n gofyn i Aelodau'r Cynulliad ei gefnogi, oherwydd eu bod yn rhannu fy mhryderon, er gwaethaf y symudiad sylweddol y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'i wneud—ac roeddwn yn meddwl fy mod wedi cydnabod hynny pan godais i siarad, ac nid oes gennyf broblem unwaith eto, Lynne, wrth gydnabod gwaith y Dirprwy Weinidog yn y maes hwn—na fydd anghenion gofal cymedrol, fel y maent yn cael eu disgrifio ar hyn o bryd, yn goroesi'r broses hon o lunio rheoliadau a bod pobl sydd ar hyn o bryd yn derbyn gofal efallai'n gweld nad ydynt yn gymwys i dderbyn gofal a chefnogaeth o ganlyniad i'r rheoliadau sy'n deillio o'r Bil hwn.

I acknowledge that the Deputy Minister has been very strong on this and has tried to give as clear a steer as possible, but, as I said, there is widespread continuing concern among stakeholders and those who are in receipt of social care. I share those concerns, and this is one last attempt to try to enshrine moderate care needs on the face of this Bill in order to ensure the provision of those services that will make the difference between an independent lifestyle and not—services such as help to get out of bed in the morning and to get dressed, which could find themselves outside the system as a result of future regulations. I would like to press the amendment to a vote.

Rwy'n cydnabod bod y Dirprwy Weinidog wedi bod yn gryf iawn yn hyn o beth ac wedi ceisio rhoi arweiniad mor glir ag y bo modd, ond, fel y dywedais, eir pryder eang a pharhaus ymhlith rhanddeiliaid a'r rhai sy'n derbyn gofal cymdeithasol. Rwy'n rhannu'r pryderon hynny, a dyma un ymgais olaf i geisio ymgorffori anghenion gofal cymedrol ar wyneb y Bil hwn, er mwyn sicrhau y darperir y gwasanaethau hynny a fydd yn gwneud y gwahaniaeth rhwng ffordd o fyw annibynnol a'r gwrthwyneb—gwasanaethau megis help i godi o'r gwely yn y bore ac i wisgo, a allai fod y tu allan i'r system o ganlyniad i reoliadau yn y dyfodol. Hoffwn bwyso i ddwyn y gwelliant i bleidlais.

17:43

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 109 be agreed to. Does any Member object? There is objection. Therefore, we will move to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 109 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad. Felly, byddwn yn symud at bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 109.

Result of the vote on amendment 109.

*Gwrthodwyd gwelliant 109: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment 109 not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Presiding Officer exercised her casting vote by voting against the amendment.*

17:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on Jocelyn Davies to move amendment 114.

Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig gwelliant 114.

17:44 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 114 in my name.

Cynigiaf welliant 114 yn fy enw i.

17:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 114 be agreed to. Does any Member object? There is no objection. Therefore, amendment 114 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 114 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, mae gwelliant 114 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 114 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 114 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 11: Contractau Dim Oriau (Gwelliannau 102, 103 a 109)

### Group 11: Zero-hours Contracts (Amendments 102, 103 and 105)

17:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 102. I call on Jocelyn Davies to move amendment 102 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 102. Galwaf ar Jocelyn Davies i gynnig gwelliant 102 ac i siarad am hwnnw ac am y gwelliannau eraill yn y grŵp.

17:44 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 102 in my name.

Cynigiaf welliant 102 yn fy enw i.

Once again, I want to take this opportunity to speak of the widespread use of exploitative zero-hours contracts in care work. You know this is not my first attempt, and I make no apologies at all for repeating my message. The use of zero-hours contracts is commonplace in the care sector, with over 50% of domiciliary care workers employed under zero-hours contracts. As councils face budget cuts and the squeeze on care tightens, their use, I think, will only become more widespread.

Unwaith eto, rwy'n awyddus i fanteisio ar y cyfle hwn i sôn am y defnydd eang o gontractau cam-fanteisiol dim oriau mewn gwaith gofal. Rydych yn gwybod nad dyma fy ymgais gyntaf, ac nid wyf yn ymddiheuro o gwbl am ailadrodd fy neges. Mae'r defnydd o gontractau dim oriau yn gyffredin yn y sector gofal, gyda dros 50% o weithwyr gofal cartref wedi'u cyflogi o dan gontractau dim oriau. Wrth i gynghorau wynebu toriadau yn y gyllideb ac wrth i'r wasgfa ar ofal dynhau, bydd eu defnydd, rwy'n credu, yn dod yn fwy cyffredin.

This amendment is not a blanket ban on zero-hours contracts. They suit some employers who need flexibility, and employees who want infrequent work—perhaps those happy to work occasionally to top up their bank balances, perhaps some students, or those of retirement age who want to reduce their working hours and do not want to be tied to regular hours. I have acknowledged this in the past. However, what I want to achieve today is recognition of the fact that zero-hours contracts are unsuitable for care work. It is up to us here in the Assembly, and local authorities who are in charge of procurement of care services, to do what is best both for care workers themselves and for those who receive the care. We can do that by changing commissioning practices so that care workers funded by public money are no longer employed under zero-hours contracts. We want the care sector to be able to deliver, recruit and retain dedicated, skilled and hard-working staff, and the highest possible standard of care. That will not be possible if the sector continues to be marked by instability and exploitation.

Nid yw'r gwelliant hwn yn gwahardd contractau dim oriau yn llwyr. Maent yn addas ar gyfer rhai cyflogwyr sydd ag angen hyblygrwydd, a gweithwyr sydd eisiau gwaith anaml —pobl efallai sy'n hapus i weithio o bryd i'w gilydd i ychwanegu at eu balansau banc, efallai rhai myfyrwyr, neu bobl o oed ymddeol sydd am leihau eu horiau gwaith ac nad ydynt yn dymuno bod yn gaeth i oriau rheolaidd. Rwyf wedi cydnabod hyn yn y gorffennol. Fodd bynnag, yr hyn yr wyf am ei gyflawni heddiw yw cydnabod bod contractau dim oriau yn anaddas ar gyfer gwaith gofal. Mae'n gyfrifoldeb arnom ni yma yn y Cynulliad, ac awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gaffael gwasanaethau gofal, i wneud yr hyn sydd orau ar gyfer gweithwyr gofal eu hunain ac ar gyfer y rhai sy'n derbyn y gofal. Gallwn wneud hynny drwy newid arferion comisiynu fel nad yw gweithwyr gofal a ariennir gan arian cyhoeddus yn cael eu cyflogi mwyach o dan gontractau dim oriau. Rydym am i'r sector gofal fod yn gallu darparu, recriwtio a chadw staff ymroddedig, medrus ac sy'n gweithio'n galed, a darparu gofal o'r safon uchaf posibl. Ni fydd hynny'n bosibl os yw ansefydlogrwydd a chamfanteisio'n parhau i fod yn nodwedd o'r sector.

While a zero-hours contract promises flexibility, in practice, for care workers, it promotes insecurity and low pay, and enables unscrupulous employers to avoid granting their care workers hard-won workers' rights like maternity and paternity leave, sick pay, pensions and redundancy payments. There are even websites that advise employers how to allocate hours to ensure they do not risk granting these rights. So, some employers deliberately give workers erratic hours to avoid the possibility of de facto creating an employment contract over time.

Er bod contract dim oriau yn addo hyblygrwydd, yn ymarferol, ar gyfer gweithwyr gofal, mae'n hyrwyddo ansicrwydd a chyflogau isel, ac yn galluogi cyflogwyr diegwyddor i osgoi rhoi i'w gweithwyr gofal rai hawliau y brwydrwyd yn galed i'w hennill fel absenoldeb mamolaeth a thadolaeth, tâl salwch, pensiynau a thaliadau diswyddo. Ceir gwefannau hyd yn oed sy'n cynghori cyflogwyr sut i ddyrannu oriau i sicrhau nad ydynt mewn perygl o roi'r hawliau hyn. Felly, mae rhai cyflogwyr yn fwriadol yn rhoi oriau anghyson i weithwyr er mwyn osgoi'r posibilrwydd o greu contract cyflogaeth de facto dros gyfnod o amser.

With more guaranteed working hours, care workers can find that their hours vary dramatically from week to week. This makes financial planning and budgeting difficult, and care workers can find themselves struggling to make ends meet. A study by the Resolution Foundation found that those employed on zero-hours contracts received lower gross weekly pay on average than those who were not. It also found that those on zero-hours contracts worked fewer hours on average than those who were not, and were less likely to be happy with the amount of hours that they work. Care workers on these contracts with family commitments, particularly those with young children, find managing childcare very difficult. It is difficult to plan ahead when hours can change at a moment's notice, yet childcare often requires planning and payment in advance.

Gydag oriau gwaith mwy gwarantedig, gall gweithwyr gofal weld bod eu horiau'n amrywio'n fawr o wythnos i wythnos. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd cynllunio arian a chyllidebu, a gall gweithwyr gofal weld eu bod yn ei chael yn anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Canfu astudiaeth gan y Resolution Foundation fod pobl sy'n cael eu cyflogi ar gontractau dim oriau yn derbyn llai o gyflog wythnosol gros ar gyfartaledd na phobl nad ydynt ar gontractau o'r fath. Canfu hefyd fod pobl ar gontractau dim oriau yn gweithio llai o oriau ar gyfartaledd na phobl nad ydynt ar gontractau o'r fath, a'u bod yn llai tebygol o fod yn hapus gyda nifer yr oriau y maent yn eu gweithio. Mae gweithwyr gofal ar y contractau hyn sydd ag ymrwymiadau teuluol, yn enwedig y rhai â phlant ifanc, yn ei chael hi'n anodd iawn rheoli gofal plant. Mae'n anodd cynllunio ymlaen llaw pan mae'r oriau'n gallu newid ar fyr rybudd, ond mae gofal plant yn aml yn gofyn am gynllunio a thalu ymlaen llaw.

There is copious anecdotal evidence of the flexibility of zero-hours contracts becoming a tool for unscrupulous employers to punish care workers who raise any issues. Workers find that, if they complain, their hours can be cut in punishment. While it may be the case that many employed under these contracts would be entitled to claim employment rights, in a working environment where there is a constant threat of finding yourself tied to a contract with little or no work, that entitlement is theoretic at best. No wonder there is high staff turnover and low morale among care workers employed under these contracts. Care workers report that they do not see their jobs being sustainable in the long term. Stress is high and pay is low. Of course, we know that the health impact of insecure employment is well-documented.

Ceir tystiolaeth anecdotaidd helaeth o hyblygrwydd contractau dim oriau yn dod yn ddull i gyflogwyr diegwyddor gosbi gweithwyr gofal sy'n codi unrhyw broblemau. Mae gweithwyr yn darganfod y gellir cwtogi eu horiau fel cosb, os byddant yn cwyno. Er ei bod yn wir o bosibl y gallai llawer o bobl a gyflogir o dan y contractau hyn fynnu hawliau cyflogaeth, mewn amgylchedd gwaith lle mae bygythiad cyson o gael eich hun ynghlwm wrth gontract ag ychydig neu ddim gwaith, mae'r hawl honno yn un ddamcaniaethol ar y gorau. Dim rhyfedd bod trosiant staff uchel a morâl isel ymhlith gweithwyr gofal a gyflogir o dan y contractau hyn. Mae gweithwyr gofal yn hysbysu nad ydynt yn gweld eu swyddi yn gynaliadwy yn y tymor hir. Mae straen yn uchel a chyflogau'n isel. Wrth gwrs, rydym yn gwybod bod effaith cyflogaeth ansicr ar iechyd wedi'i gofnodi'n dda.

Most older people and vulnerable people who receive care would like to have carers they can build a relationship with —regular carers. They want to know who is calling on them. I am sure that we can all understand that, given the high level of responsibility that care workers have and the sensitive and personal tasks they perform for service users. I am sure that we would all want that. The Equality and Human Rights Commission claims that, unless local authority commissioning practices change, there is a significant danger that the human rights of people needing homecare will be violated. Just ponder that for a moment: dignity lost and human rights violated.

Byddai'r rhan fwyaf o bobl hŷn a phobl sy'n agored i niwed sy'n derbyn gofal yn hoffi cael gofalwyr y gallant feithrin perthynas â nhw—gofalwyr rheolaidd. Maent eisiau gwybod pwy sy'n galw. Rwy'n siŵr y gallwn i gyd ddeall hynny, o ystyried lefel uchel y cyfrifoldeb sydd gan weithwyr gofal a'r tasgau sensitif a phersonol y maent yn eu cyflawni ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. Rwy'n siŵr y byddem i gyd yn dymuno hynny. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn honni bod perygl sylweddol na fydd hawliau dynol y bobl sydd angen gofal cartref yn cael eu harfer, oni bai bod awdurdodau lleol yn newid eu harferion comisiynu. Myfyriwch ar hynny am eiliad: colli urddas a sathru ar hawliau dynol.

The arguments that I have come up against in the past when bringing an amendment on zero-hours contracts in the Chamber are that it would be outside of the competence or outside of the scope of the Bill. I do not think that that is the case. [Interruption.] Yes, on the agricultural wages board. The Presiding Officer agrees that my amendment is in order.

Y dadleuon yr wyf wedi eu clywed yn y gorffennol wrth ddod â gwelliant ar gontractau dim oriau yn y Siambr yw y byddai y tu allan i gymhwysedd neu y tu allan i gwmpas y Bil. Nid wyf yn credu bod hynny'n wir. [Torri ar draws.] Ie, ar y bwrdd cyflogau amaethyddol. Mae'r Llywydd yn cytuno bod fy ngwelliant mewn trefn.

I have refined my previous amendment to address the deficiencies that the Deputy Minister perceived the last time we debated this. The amendment gives the Deputy Minister regulation-making powers and requires the Welsh Government to undertake a full consultation. Some of you will remember that she was concerned about the level of detail in the previous amendment, so this one addresses that by outlining the aspects of zero-hours contracts that are the most exploitative: exclusivity, where workers are prevented from taking work available to them from other employers when there is none available from their usual employer; and the all-too-often demand that workers are available for work, even when there is no prospect of any work—all of this, of course, completely unpaid.

Rwyf wedi mireinio fy ngwelliant blaenorol i fynd i'r afael â'r diffygion a ganfu'r Dirprwy Weinidog y tro diwethaf i ni drafod hyn. Mae'r gwelliant yn rhoi pwerau i wneud rheoliadau i'r Dirprwy Weinidog ac yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gynnal ymgynghoriad llawn. Bydd rhai ohonoch yn cofio ei bod yn pryderu am lefel y manylion yn y gwelliant blaenorol, felly mae hwn yn rhoi sylw i hynny drwy amlinellu'r agweddau hynny ar gontractau dim oriau sydd fwyaf ecsbloetiol: yr agwedd ddetholus, lle mae gweithwyr yn cael eu hatal rhag cymryd gwaith sydd ar gael iddynt gan gyflogwyr eraill pan nad oes dim ar gael gan eu cyflogwr arferol; a'r rheidrwydd rhy aml o lawer bod gweithwyr ar gael i weithio, hyd yn oed pan nad oes gobaith am unrhyw waith—hyn i gyd o hyn, wrth gwrs, yn hollol ddi-dâl.

The First Minister told us that zero-hours contracts pose a risk to many employees in Wales. His own party leader, in a speech to the TUC, used the example of a care worker to highlight why zero-hours contracts are bad for workers and bad for society, and promised that Labour in Government would put things right by banning those that demand exclusivity and require workers to be on call even when no work is on offer.

Dywedodd y Prif Weinidog wrthym fod contractau dim oriau yn peri risg i lawer o weithwyr yng Nghymru. Defnyddiodd arweinydd ei blaid ei hun, mewn araith i'r TUC, weithiwr gofal fel enghraifft i amlygu pam fod contractau dim oriau yn ddrwg i weithwyr ac yn ddrwg i gymdeithas, ac addawodd y byddai Llafur mewn Llywodraeth yn unioni pethau trwy wahardd y rhai sy'n galw am gontractau detholus ac yn mynnu bod gweithwyr ar gael hyd yn oed pan nad oes unrhyw waith.

Senior Labour figures have called for an outright ban. Just last week, an article in 'The Guardian' quoted Labour as pledging to outlaw zero-hours contracts that exploit, in order to turn the rising tide of insecurity that we have seen under the Tory-led Government. Here is the opportunity today to bring fairness to care workers within the public pay. In the past, the Liberal Democrats have supported my amendment. I hold out no hope of the Tories on this one, but I would be delighted to be wrong about that.

Mae ffigurau uwch yn y blaid Lafur wedi galw am waharddiad llwyr. Dim ond yr wythnos diwethaf, cyhoeddwyd erthygl yn y 'Guardian' yn dyfynnu'r blaid Lafur, gan ddweud eu bod yn addo gwahardd contractau dim oriau sy'n camfanteisio ar weithwyr, er mwyn troi'r llanw cynyddol o ansicrwydd yr ydym wedi'i weld dan y Llywodraeth dan arweiniad y Torïaid. Dyma'r cyfle heddiw i ddod â thegwch i weithwyr gofal y sector cyhoeddus. Yn y gorffennol, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi cefnogi fy ngwelliant. Nid wyf yn obeithiol gyda'r Torïaid ond byddwn wrth fy modd pe bawn yn anghywir.

Remember, people on zero-hours contracts are in fact not employees at all; they are simply workers. The distinction is important. Trade unions argue that, in general, these contracts are unfair, creating damaging insecurity and, in this sector, exploiting those who we expect to deliver high-quality care to the frail and the vulnerable. Here is the perfect opportunity for us to do something about it. I do not think that we should let them down.

Cofiwch, nid yw pobl ar gontractau dim oriau yn gyflogeion o gwbl mewn gwirionedd; gweithwyr ydynt, a dim mwy. Mae'r gwahaniaeth yn bwysig. Mae undebau llafur yn dadlau, yn gyffredinol, bod y contractau hyn yn annheg, yn creu ansicrwydd niweidiol ac, yn y sector hwn, yn camfanteisio ar y rhai yr ydym yn disgwyl iddynt ddarparu gofal o ansawdd uchel i bobl eiddil ac agored i niwed. Dyma'r cyfle perffaith inni wneud rhywbeth am y peth. Nid wyf yn credu y dylem eu siomi.

Before I close, I remind you what the First Minister said today. He said that he did not want outsourcing to companies that put staff on poor terms and conditions. If we support this amendment today, those words will mean something now.

Cyn i mi gloi, hoffwn eich atgoffa o'r hyn a ddywedodd y Prif Weinidog heddiw. Dywedodd nad oedd am i waith gael ei roi ar gontractau allanol i gwmnïau sy'n rhoi staff ar delerau ac amodau gwael. Os byddwn yn cefnogi'r gwelliant hwn heddiw, bydd y geiriau hynny'n golygu rhywbeth nawr.

17:53

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am afraid that the Welsh Conservatives will not be supporting your amendment on zero-hours contracts today. That is not because I do not have a great deal of sympathy for what you have said—because, frankly, I do. It is just that I am not sure that this particular Bill is the appropriate legislative vehicle to deliver some of the changes that you want to deliver. We need to have more detailed scrutiny on these issues.

Rwy'n ofni na fydd y Ceidwadwyr Cymreig yn cefnogi eich gwelliant ar gontractau dim oriau heddiw. Nid oherwydd nad oes gennyf lawer iawn o gydymdeimlad â'r hyn yr ydych wedi'i ddweud—oherwydd, a dweud y gwir, mae gennyf. Ond nid wyf yn hollol siŵr mai'r Bil penodol hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol priodol i gyflawni rhai o'r newidiadau yr ydych am eu cyflawni. Mae angen i ni graffu'n fwy manwl ar y materion hyn.

As you know, this is not a matter that was discussed by the committee in any great detail during the committee stages of the Bill. It is not an amendment that was proposed by any of the individuals who gave evidence to the committee when we took evidence at Stage 1. I do not accept that it is appropriate to deliver an amendment at this very late stage in the process for consideration by Members without taking proper evidence on it.

Fel y gwyddoch, ni chafodd y mater hwn ei drafod gan y pwyllgor yn fanwl iawn yn ystod cyfnodau pwyllgor y Bil. Nid yw'n welliant a gynigiwyd gan unrhyw un o'r unigolion a roddodd dystiolaeth i'r pwyllgor pan gymerwyd tystiolaeth yng Nghyfnod 1. Nid wyf yn derbyn ei bod yn briodol cyflwyno gwelliant ar y cam hwyr iawn hwn yn y broses i'w ystyried gan yr Aelodau heb gymryd tystiolaeth briodol arno.

You are quite right: nobody wants to see the exploitation of any member of staff, whether they work for care agencies, local authorities or anybody else. However, there are many reasons why people take a zero-hours contract and decide to enter into it. Let us not forget that people decide voluntarily to enter into these contracts for all sorts of reasons. I appreciate that some people may do that begrudgingly and that there may well be a need for action to address some of the concerns that you raised, but I do not feel that this is the appropriate place to table this amendment. I think that we need a wider national debate in Wales and, indeed, across the whole of the UK, on the issue of zero-hours contracts, but this is not the place to table an amendment. It is not the time to table an amendment in what is an extremely important Bill for social care and the delivery of good wellbeing for the people of Wales.

Rydych yn llygad eich lle: nid oes neb am weld camfanteisio ar unrhyw aelod o staff, p'un a ydynt yn gweithio i asiantaethau gofal, awdurdodau lleol neu unrhyw un arall. Fodd bynnag, mae pobl yn cymryd contract dim oriau ac yn penderfynu cytuno iddo am lawer o resymau. Gadewch inni beidio ag anghofio bod pobl yn penderfynu ymrwymo i'r contractau hyn yn wirfoddol am bob math o resymau. Rwy'n sylweddoli y gall rhai pobl wneud hynny yn anfoddog ac y gallai fod angen gweithredu i fynd i'r afael â rhai o'r pryderon a godwyd gennych, ond nid wyf yn teimlo mai dyma'r lle priodol i gyflwyno'r gwelliant hwn. Credaf fod angen inni gael dadl ehangach genedlaethol yng Nghymru ac, yn wir, ar draws y DU gyfan, ynglŷn â chontractau dim oriau, ond nid dyma'r lle i gyflwyno gwelliant. Nid dyma'r adeg i gyflwyno gwelliant mwn Bil sy'n hynod o bwysig ar gyfer gofal cymdeithasol a chyflawni lles da ar gyfer pobl Cymru.

We will be opposing this amendment and we would encourage all Members of the Assembly to do likewise.

Byddwn yn gwrthwynebu gwelliant hwn a byddem yn annog holl Aelodau'r Cynulliad i wneud yr un peth.

17:55 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Liberal Democrats will continue to support these amendments.

Bydd y Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn parhau i gefnogi'r gwelliannau hyn.

I think that what is absolutely clear is that not only are zero-hours contracts bad news for the people who are employed under them, they undermine the ability to deliver the quality person-centred care that the Deputy Minister aspires to.

Rwy'n meddwl mai'r hyn sy'n hollol amlwg yw bod contractau dim oriau yn newyddion drwg i'r bobl sy'n cael eu cyflogi oddi tanynt, one eu bod hefyd yn tanseilio'r gallu i gyflawni dyheadau'r Dirprwy Weinidog o ran darparu'r gofal o ansawdd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Recently, my own local authority has decided not to continue with the in-house domiciliary care service that it has run for many years, supported by private sector companies. The reason why it needed to do that was because it could not recruit domiciliary care staff any more. It was finding it very difficult to recruit. I could not understand this, because the council was paying more per hour than the private sector organisations that were already working in the county. The council put it down to the fact that they offered zero-hours contracts—because of that, the council simply could not recruit the staff that it needed to maintain its in-house service. It is bizarre to opt for a system that does not ensure that those who are going to be working in the private sector and who will now have to deliver those services do not have zero-hours contracts. I am not surprised to see in news reports this week, since the awarding of all these contracts to private sector organisations, an urgent plea for staff from one of the organisations that has been awarded a contract. It has won the contract, but it simply does not have the staff on the ground to deliver those packages of care.

Yn ddiweddar, mae fy awdurdod lleol fy hun wedi penderfynu peidio â pharhau â'r gwasanaeth gofal cartref y mae wedi ei gynnal yn fewnol am nifer o flynyddoedd, gyda chefnogaeth gan gwmnïau yn y sector preifat. Y rheswm pam yr oedd angen gwneud hynny oedd oherwydd nad oedd yn gallu recriwtio staff gofal cartref mwyach. Roedd yn ei chael yn anodd iawn recriwtio. Ni allwn ddeall hyn, oherwydd bod y cyngor yn talu mwy fesul awr na sefydliadau sector preifat a oedd eisoes yn gweithio yn y sir. Mae'r cyngor yn dweud mai'r rheswm oedd oherwydd eu bod yn cynnig contractau dim oriau— oherwydd hynny, ni allai'r cyngor recriwtio'r staff yr oedd ei angen arno i gynnal ei wasanaeth mewnol. Mae'n rhyfedd i ddewis system nad yw'n sicrhau nad oes contractau dim oriau gan y rhai sy'n mynd i fod yn gweithio yn y sector preifat ac sydd bellach yn gorfod cyflwyno'r gwasanaethau hynny. Nid wyf yn synnu gweld ple daer am staff, mewn adroddiadau newyddion yr wythnos hon, gan un o'r sefydliadau sydd wedi ennill contract ers dyfarnu'r holl gontractau hyn i sefydliadau yn y sector preifat. Mae wedi ennill y contract, ond yn syml, nid oes ganddo'r staff i ddarparu'r pecynnau gofal hynny.

What a fiasco to find yourself in when trying to organise and commission domiciliary care services. This shows the pernicious effect that this type of contract has in this particular sector, not just on the people who are trying to work in the sector, but on the ability to plan, deliver and commission services for those most vulnerable people.

Am lanast i ganfod eich hun ynddo wrth geisio trefnu a chomisiynu gwasanaethau gofal cartref. Mae hyn yn dangos yr effaith niweidiol a gaiff y math hwn o gontract yn y sector arbennig hwn, nid yn unig ar y bobl sy'n ceisio gweithio yn y sector, ond ar y gallu i gynllunio, cyflwyno a chomisiynu gwasanaethau ar gyfer y bobl sydd fwyaf agored i niwed.

Therefore, we will continue to support your calls, Jocelyn, that this should not be the standard in employment terms for very many people who work within this sector.

Felly, byddwn yn parhau i gefnogi eich galwadau, Jocelyn, nad dyma ddylai fod yn safonol o ran cyflogaeth i'r nifer fawr iawn o bobl sy'n gweithio yn y sector hwn.

17:58 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Jocelyn Davies for tabling the amendment in this area.

Diolch i Jocelyn Davies am gyflwyno'r gwelliant yn y maes hwn.

Members will recall that we considered a version of amendment 102 at Stage 3; it was not agreed. Amendment 103 provides for the procedure to be applied to regulations in respect of the use of zero-hours contracts. Amendment 105 is consequential to amendment 103. Since that debate, I have met with Jocelyn Davies to discuss this issue. I wanted to explain to her why I could not support her amendments, reiterating the arguments I made in the Chamber on 11 February. Jocelyn Davies made it clear to me that she would table amendments again in this area. I remain very firmly of the view that, among other reasons, this Bill is not the appropriate place to deal with an issue that the First Minister has already made clear raises questions of legislative competence. Jocelyn Davies is familiar with the quote I am about to repeat. The First Minister said on 12 November last year,

Bydd yr Aelodau'n cofio ein bod wedi ystyried fersiwn o welliant 102 yng Nghyfnod 3; nid chytunwyd arno. Mae gwelliant 103 yn darparu i'r weithdrefn gael ei defnyddio ar gyfer rheoliadau mewn cysylltiad â'r defnydd o gontractau dim oriau. Mae gwelliant 105 yn ganlyniadol i welliant 103. Ers y ddadl honno, rwyf wedi cwrdd â Jocelyn Davies i drafod y mater. Roeddwn i eisiau egluro iddi pam na allwn i gefnogi ei gwelliannau, gan ailadrodd y dadleuon a wneuthum yn y Siambr ar 11 Chwefror. Dywedodd Jocelyn Davies yn eglur wrthyf y byddai'n cyflwyno gwelliannau eto yn y maes hwn. Rwy'n dal yn gadarn iawn o'r farn, ymhlith rhesymau eraill, nad y Bil hwn yw'r lle priodol i ddelio â mater y mae'r Prif Weinidog eisoes wedi nodi'n eglur ei fod yn codi cwestiynau ynglŷn â chymhwysedd deddfwriaethol. Mae Jocelyn Davies yn gyfarwydd â'r dyfyniad yr wyf ar fin ei ailadrodd. Dywedodd y Prif Weinidog ar 12 Tachwedd y llynedd,

'Although this issue is not within the devolved competence of Welsh Government, clearly zero-hour contracts do pose risks to many employees in Wales, particularly in terms of the impact on the employment of women. We will work closely with the Office for National Statistics in Newport and Cardiff University, through the women adding value to the economy project, to better identify the types of casual contracts and their associated earnings. That will help us to understand the effects of zero-hour contracts. Then, we can look to see what we can do to help and, particularly, what the UK Government can do to help.'

'Er nad yw'r mater hwn yn rhan o gymhwysedd datganoledig Llywodraeth Cymru, mae'n amlwg bod contractau dim oriau yn peri risg i lawer o weithwyr yng Nghymru, yn enwedig o ran yr effaith ar gyflogi menywod. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yng Nghasnewydd a Phrifysgol Caerdydd, drwy'r prosiect menywod yn ychwanegu gwerth at yr economi, i nodi'n well y mathau o gontractau achlysurol a'u henillion cysylltiedig. Bydd hynny'n ein helpu i ddeall effeithiau contractau dim oriau. Yna, gallwn edrych i weld beth allwn ni ei wneud i helpu ac, yn arbennig, beth y gall Llywodraeth y DU ei wneud i helpu.'

18:00

## Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am particularly concerned about non-payment of care staff while they are travelling between clients—a particularly serious problem in rural areas. I will give you a quote and ask for a brief response. It is from a document by Unison:

Rwy'n arbennig o bryderus ynglŷn â'r ffaith nad yw staff gofal yn cael eu talu tra'u bod yn teithio rhwng cleientiaid —problem arbennig o ddifrifol mewn ardaloedd gwledig. Byddaf yn rhoi dyfyniad i chi a gofyn am ymateb byr. Daw o ddogfen gan Unsain:

'Zero hours contracts have also shown themselves to be more open to abuse than regular permanent contracts. For example, scheduling of working hours in the homecare sector that allowed no time for travel time between home visits has led to staff working considerably beyond their paid hours'.

Gwelwyd hefyd bod contractau dim oriau yn fwy agored i gael eu camddefnyddio na chontractau parhaol rheolaidd. Er enghraifft, nid yw amserlenni gwaith yn y sector gofal cartref yn caniatáu dim amser ar gyfer teithio rhwng ymweliadau cartref, ac mae staff o ganlyniad yn gweithio llawer mwy na'u horiau cyflogedig.

Does the Deputy Minister agree with that?

A yw'r Dirprwy Weinidog yn cytuno â hynny?

18:00

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I do have reservations—I have made that plain—about zero-hours contracts. I am trying to explain why I think this Bill is not the place to bring forward this amendment. If you let me finish, you will see why, because there is a consultation by the Westminster Government.

Mae gennyf amheuon—rwyf wedi gwneud hynny'n glir— am gontractau dim oriau. Rwy'n ceisio esbonio pam rwy'n credu nad y Bil hwn yw'r lle i ddod â'r gwelliant hwn. Os gwnewch adael imi orffen, byddwch yn gweld pam, oherwydd bod Llywodraeth San Steffan yn cynnal ymgynghoriad.

The Welsh Government was clear, following what the First Minister said, that, at the very best, there may be matters of competence that require consideration. I am sure that we all agree that such issues require full and proper scrutiny by the Government so that we can better understand these contracts, in policy and competence terms. If it is considered that there are matters of competence, there will be a delay to the making of this Bill.

Roedd Llywodraeth Cymru yn glir, yn dilyn yr hyn a ddywedodd y Prif Weinidog, ei bod yn bosibl, ar y gorau, fod angen ystyried rhai materion cymhwysedd. Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn cytuno bod angen i'r Llywodraeth graffu'n llawn a phriodol ar faterion o'r fath fel y gallwn ddeall y contractau hyn yn well, o safbwynt polisi a chymhwysedd. Os ystyrir bod materion yn codi'n ymwneud â chymhwysedd, bydd oedi cyn y gellir gwneud y Bil hwn.

We have, for example, seen the referral of the Agricultural Sector (Wales) Bill to the Supreme Court, and the court's judgment is awaited. The risk of delay is one that I am not prepared to take. We cannot delay any further the legislative framework that is needed to underpin the delivery of sustainable social services in Wales.

Rydym, er enghraifft, wedi gweld y Bil Sector Amaethyddol (Cymru) yn cael ei gyfeirio i'r Goruchaf Lys, a disgwylir dyfarniad y llys. Mae'r risg o oedi yn un nad wyf yn barod i'w chymryd. Ni allwn gael rhagor o oedi gyda'r fframwaith deddfwriaethol sydd ei angen el sail i gyflwyno gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy yng Nghymru.

Members will also be aware that the UK Government consultation on zero-hours contracts closed last Friday. The consultation considered issues of exclusivity clauses and transparency in relation to employment rights. These are issues that I know are of interest to Jocelyn Davies. The outcome of this consultation will, in addition to the work that the First Minister talked about last November, be something that this Government will want to consider as part of any future work it undertakes in this area.

Bydd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol bod ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar gontractau dim oriau wedi cau ddydd Gwener diwethaf. Roedd yr ymgynghoriad yn ystyried materion cymalau detholusrwydd a thryloywder mewn cysylltiad â hawliau cyflogaeth. Mae'r rhain yn faterion y gwn sydd o ddiddordeb i Jocelyn Davies. Bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn, yn ogystal â'r gwaith y siaradodd y Prif Weinidog amdano fis Tachwedd diwethaf, yn rhywbeth y bydd y Llywodraeth hon yn dymuno ei ystyried fel rhan o unrhyw waith y mae'n ei wneud yn y dyfodol yn y maes hwn.

I also very firmly believe that we cannot and should not deal with this issue by way of an amendment to this Bill at such a late stage of proceedings; I note what Darren Millar said on this point. I know that Jocelyn Davies considered this to be an old line of argument, but I remain of the view that it is one we need to be conscious of. Given the need that I have described to explore fully the policy and competence issues relating to these contracts, I do not believe it appropriate to use this Bill as something of a test case in this area.

Rwyf hefyd yn gadarn iawn o'r farn na allwn ac na ddylem ymdrin â'r mater hwn trwy gyfrwng gwelliant i'r Bil hwn ar gam mor hwyr yn y trafodion; nodaf yr hyn a ddywedodd Darren Millar ar y pwynt hwn. Gwn fod Jocelyn Davies yn ystyried hon yn hen ddadl, ond rwy'n dal o'r farn ei bod yn un y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohoni. O ystyried yr angen a ddisgrifiais i archwilio'n llawn y materion ynghlwm â'r contractau hyn sy'n ymwneud â pholisi a chymhwysedd, nid wyf yn credu ei bod yn briodol defnyddio'r Bil hwn fel rhyw fath o achos prawf yn y maes hwn.

The lack of public consultation on this issue is an important point. Those who commission, deliver and receive social care, about which I will say more in a moment, should be afforded the opportunity of having a say on this matter. They have not been afforded that opportunity in relation to these amendments in the context of this Bill, and that is not right.

Mae'r diffyg ymgynghori cyhoeddus ar y mater hwn yn bwynt pwysig. Dylai'r rhai sy'n comisiynu, cyflwyno a derbyn gofal cymdeithasol—a byddaf yn dweud mwy amdanynt mewn munud—gael y cyfle i ddweud eu dweud ar y mater hwn. Nid ydynt wedi cael y cyfle hwnnw mewn cysylltiad â'r gwelliannau hyn yng nghyd-destun y Bil hwn, ac nid yw hynny'n iawn.

Members will be aware of the Welsh Government's social care commissioning guidance, which was published in August 2010. I believe that I am making important points here. This is statutory guidance issued under section 7 of the Local Authority Social Services Act 1970, the principles of which will be taken forward in the implementation of this Bill. In her Stage 3 speech, Jocelyn Davies referred to the work that Monmouthshire County Council has done in relation to its social care tendering, and that the authority had looked 'beyond the cost of the contract'. I agree that this approach is worth applauding.

Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o ganllawiau comisiynu gofal cymdeithasol Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2010. Rwy'n credu fy mod yn gwneud pwyntiau pwysig yma. Dyma ganllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan adran 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970, a bydd egwyddorion honno'n cael eu datblygu wrth weithredu'r Bil hwn. Yn ei haraith yng Nghyfnod 3, cyfeiriodd Jocelyn Davies at y gwaith y mae Cyngor Sir Fynwy wedi ei wneud o ran tendro ym maes gofal cymdeithasol, a bod yr awdurdod wedi edrych 'y tu hwnt i gost y contract'. Rwy'n cytuno bod hwn yn ddull i'w gymeradwyo.

The running theme throughout the guidance is the promotion of quality in commissioning social care, and this includes workforce issues. Indeed, it recognises that the use of insecure contracts may have a negative impact on workforce recruitment. In reply to Kirsty Williams, this commissioning guidance refers to all local authorities. The guidance points to good practice in tendering, which is about

Y thema sy'n rhedeg trwy'r canllawiau yw hyrwyddo ansawdd wrth gomisiynu gofal cymdeithasol, ac mae hyn yn cynnwys materion y gweithlu. Yn wir, mae'n cydnabod y gall y defnydd o gontractau ansicr gael effaith negyddol ar y gallu i recriwtio gweithlu. Mewn ymateb i Kirsty Williams, mae'r canllawiau comisiynu yn cyfeirio at bob awdurdod lleol. Mae'r canllawiau'n cyfeirio at arferion da wrth dendro, sy'n ymwneud â

'identifying the best option on a basis which involves more than simply selecting the cheapest. While price is one criterion that may be considered, commissioners can also take into account, among other issues, quality.'

'nodi'r opsiwn gorau, ar sail fwy eang na dim ond dewis yr un rhataf. Tra bo pris yn un o'r meini prawf i'w hystyried, gall comisiynwyr hefyd ystyried ansawdd, ymysg ffactorau eraill.'

The guidance also presses the importance of value for money in tendering. It states that value for money is about,

Mae'r canllawiau hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd gwerth am arian wrth dendro. Mae'n nodi bod gwerth am arian yn ymwneud â'r,

'the optimum combination of whole-of-life costs and quality (or fitness for purpose) of the goods or service to meet the user's requirement. Value for money is not the choice of goods and services based on the lowest cost bid'.

'cyfuniad gorau posibl o gostau gydol oes ac ansawdd (neu addasrwydd) y nwyddau neu'r gwasanaeth i fodloni gofynion y defnyddiwr. Nid yw gwerth am arian yn golygu y dewis o nwyddau a gwasanaethau am y costau rhataf.'

It also says that:

Mae hefyd yn dweud bod:

'Value for money…balances quality, cost and effectiveness. When assessing value for money, commissioners must take into account quality issues as well as price'.

'Gwerth am arian ... yn gyfuniad o ansawdd, cost ac effeithiolrwydd. Wrth asesu gwerth am arian, mae'n rhaid i gomisiynwyr ystyried ansawdd yn ogystal â phris.'

A final point that I wish to make relates to the test case point that I made earlier. I do not believe that this issue is something that should be considered only within the context of this Bill. This is a bigger issue, covering employment practices across a wide range of sectors. To include this amendment, therefore, leads to a lack of parity in treatment of different workers, which, quite apart from the competence issues, is just not right.

Mae pwynt olaf yr wyf am ei wneud yn ymwneud â'r pwynt achos prawf a wneuthum yn gynharach. Nid wyf yn credu bod y mater hwn yn rhywbeth y dylid ei ystyried dim ond yng nghyd-destun y Bil hwn. Mae hon yn broblem fwy, sy'n cwmpasu arferion cyflogaeth ar draws ystod eang o sectorau. Trwy gynnwys y gwelliant hwn, felly, ni fyddai gwahanol weithwyr yn cael eu trin yn gydradd ac, yn gwbl ar wahân i'r materion cymhwysedd, nid yw hynny'n iawn.

I made it clear at Stage 3 that the amendment was not drafted at the level of detail that should be included on the face of the Bill. This remains my view with amendment 102. I have emphasised today the potential that the current commissioning guidance holds for local authorities to tackle this issue. I do, however, agree with Jocelyn Davies and others that this is an issue that requires further examination. There will be new guidance and/or codes of practice developed following this Bill and I have asked my officials to consider this further within that context. So, for all of the reasons I have outlined, I urge Members not to support amendments 102, 103 and 105.

Dywedais yn glir yng Nghyfnod 3 nad oedd y gwelliant wedi ei ddrafftio i lefel y manylder y dylid ei chynnwys ar wyneb y Bil. Dyma fy marn o hyd yn achos gwelliant 102. Rwyf wedi pwysleisio heddiw y potensial sydd i awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r mater hwn trwy gyfrwng y canllawiau comisiynu presennol. Rwyf, fodd bynnag, yn cytuno â Jocelyn Davies ac eraill bod hwn yn fater sydd angen rhagor o sylw. Bydd canllawiau a / neu godau ymarfer newydd yn cael eu datblygu yn dilyn y Bil hwn ac rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried hyn ymhellach o fewn y cyd-destun hwnnw. Felly, am bob un o'r rhesymau a amlinellais, rwy'n annog yr Aelodau i beidio â chefnogi gwelliannau 102, 103 a 105.

18:07

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call on Jocelyn Davies to reply to the debate.

Galwaf ar Jocelyn Davies i ymateb i'r ddadl.

18:07

## Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank Members for contributing to that debate. I note that Darren Millar said that this proposal required a full consultation. Of course, that is why I have included, as part of the amendment, a statutory requirement on the Government to do a full consultation. I think that that would probably meet all your worries on that front. You mention that workers enter contracts voluntarily; I think if that is all that is on offer, then your choices, in that case, are pretty limited. But, I am very pleased that the UK Government is looking at this and I am pleased that you do not have an entirely closed mind on this particular issue. I think that this is the place for this amendment, because this Bill is fundamentally about the delivery of services.

Diolch i'r Aelodau am gyfrannu at y ddadl honno. Nodaf fod Darren Millar wedi dweud bod angen ymgynghoriad llawn ynglŷn â'r cynnig hwn. Wrth gwrs, dyna pam yr wyf, fel rhan o'r gwelliant, wedi cynnwys gofyniad statudol ar y Llywodraeth i gynnal ymgynghoriad llawn. Rwy'n meddwl y byddai hynny fwy na thebyg yn tawelu eich holl bryderon yn hynny o beth. Rydych yn sôn bod gweithwyr yn cytuno ar gontractau yn wirfoddol; os mai dyna'r cyfan sydd ar gael, yna mae eich dewisiadau, yn yr achos hwnnw, yn eithaf cyfyngedig. Ond, rwy'n falch iawn bod Llywodraeth y DU yn edrych ar hyn ac rwy'n falch nad oes gennych feddwl hollol gaeedig ar y mater penodol hwn. Rwy'n meddwl mai dyma'r lle ar gyfer gwelliant hwn, gan fod y Bil hwn yn sylfaenol yn ymwneud â darparu gwasanaethau.

I thank Kirsty Williams, as always, for her continued support on this and for telling us the story of what is happening in Powys. That is the reality of what is happening across Wales and it is a good example of the way that zero-hours contracts are eroding and undermining this sector as a whole.

Diolch i Kirsty Williams, fel bob amser, am ei chefnogaeth barhaus ar hyn ac am adrodd hanes yr hyn sy'n digwydd ym Mhowys. Dyna realiti'r hyn sy'n digwydd ar draws Cymru ac mae'n enghraifft dda o'r ffordd y mae contractau dim oriau yn erydu ac yn tanseilio'r sector hwn yn ei gyfanrwydd.

I thank the Deputy Minister for her contribution. I do not think that this is beyond the competence of the Assembly just because the First Minister said so on one occasion. That is not proof. 'Because Carwyn Jones said it' is not proof. This amendment is in order. I take my cue from the Presiding Officer; this is the legislature and I take my cue there. But I am glad, like the Tories, that you have not closed your mind to it entirely.

Rwy'n diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei chyfraniad. Nid wyf yn meddwl bod hyn y tu hwnt i gymhwysedd y Cynulliad dim ond am fod y Prif Weinidog wedi dweud hynny ar un achlysur. Nid yw hynny'n brawf. Nid yw 'oherwydd bod Carwyn Jones yn dweud' yn gyfystyr â phrawf. Mae'r gwelliant hwn mewn trefn. Rwy'n dilyn arweiniad y Llywydd; dyma'r ddeddfwrfa ac rwy'n dilyn yr arweiniad. Ond rwy'n falch, fel y Torïaid, nad ydych wedi cau eich meddwl i'r mater yn gyfan gwbl.

You mentioned the Agricultural Wages Board; of course, my amendment on this topic was turned down by the Government. Otherwise, perhaps, this is something that could have been tested in the Supreme Court at the same time as you are going there about everything else. This would have been worth—

Rydych wedi sôn am y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol; wrth gwrs, cafodd fy ngwelliant ar y pwnc hwn ei wrthod gan y Llywodraeth. Fel arall, efallai, gallai hwn fod yn rhywbeth y gellid bod wedi ei brofi yn y Goruchaf Lys ar yr un pryd ag y byddwch yn mynd yno ynglŷn â phopeth arall. Byddai hyn wedi bod yn werth—

18:09 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

It was not our choice, to be fair.

Nid ein dewis oedd hynny, i fod yn deg.

18:09 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

You did have a choice, Minister; you decided to vote against.

Roedd gennych chi ddewis, Weinidog; gwnaethoch benderfynu pleidleisio yn erbyn.

I accept that this a late stage, but better late than never. You did know that it was coming; I have given you plenty of warning that this was coming. You mentioned the failure to consult; that is accommodated in the consultation and that would be a requirement on you. I am glad that we are going to have an opportunity to return to this at a later stage, because I can assure you that I will not be letting it go. You mentioned guidance, tendering and commissioning and, okay, we will return to it there, because we will be taking every opportunity that we have to push on this point, because sometimes hard things take a bit of pushing on, and we will carry on with that. I am sure that, one day, we will win the day on that. So, I am disappointed, but I am not too surprised.

Rwy'n derbyn ei bod yn hwyr, ond gwell hwyr na hwyrach. Roeddech yn gwybod ei fod yn dod; rwyf wedi rhoi digon o rybudd i chi fod hyn yn dod. Fe wnaethoch sôn am y methiant i ymgynghori; darperir ar gyfer hynny yn y gwelliant a byddai hynny'n ofyniad arnoch chi. Rwy'n falch ein bod yn mynd i gael cyfle i ddychwelyd at hyn yn ddiweddarach, oherwydd y gallaf eich sicrhau na fyddaf yn anghofio am y peth. Fe wnaethoch sôn am arweiniad, tendro a chomisiynu ac, iawn, byddwn yn dychwelyd at y mater bryd hynny, oherwydd y byddwn yn manteisio ar bob cyfle sydd gennym i wthio ar y pwynt hwn, oherwydd bod pethau anodd weithiau yn gofyn am ychydig o wthio, a byddwn yn parhau â hynny. Rwy'n siŵr y byddwn yn ennill y ddadl rhyw ddydd. Felly, rwy'n siomedig, ond nid wyf wedi synnu gormod.

I have to say, Deputy Minister, that I think that, lining up all your reasons, you could have left out the lack of parity. The fact that you cannot do right by everybody does not mean that you do right by no-one. I am sorry, but that is not the idea of equality: 'We can't be fair to everybody, so nobody is going to get a fair deal'; I am sorry, but I reject that out of hand. I will continue to stand up for workers and hope that, one day, we will be calling all the care workers in Wales 'employees'.

Mae'n rhaid imi ddweud, Ddirprwy Weinidog, fy mod yn meddwl y gallech, wrth restru eich holl resymau, fod wedi hepgor diffyg cydraddoldeb. Nid yw'r ffaith nad ydych yn gallu trin pawb yn deg yn golygu nad ydych yn trin neb yn deg. Mae'n ddrwg gennyf, ond nid dyna yw'r syniad o gydraddoldeb: 'Ni allwn fod yn deg i bawb, felly nid oes neb yn mynd i gael bargen deg'; mae'n ddrwg gennyf, ond rwy'n gwrthod hynny'n llwyr. Byddaf yn parhau i siarad o blaid gweithwyr ac yn gobeithio, un diwrnod, y byddwn yn galw holl weithwyr gofal yng Nghymru yn 'gyflogeion'.

18:10 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 102 is not agreed, amendments 103 and 105 will fall. The question is that amendment 102 be agreed to. Does any Member object? There is objection. We will hold an electronic vote.

Os nad yw gwelliant 102 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliannau 103 a 105 yn methu. Y cwestiwn yw bod gwelliant 102 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad. Byddwn yn cynnal pleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 102.

Result of the vote on amendment 102.

*Gwrthodwyd gwelliant 102: O blaid 16, Yn erbyn 42, Ymatal 0.*

*Amendment 102 not agreed: For 16, Against 42, Abstain 0.*

*Methodd gwelliant 103.*

*Amendment 103 fell.*

18:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Deputy Minister to move amendment 23.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 23.

18:11 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 23 in my name.

Cynigiaf welliant 23 yn fy enw i.

18:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 23 be agreed to. Are there any objections? There are no objections. Amendment 23 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 23 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Mae gwelliant 23 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 23 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 23 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Deputy Minister to move amendment 24.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 24.

18:11 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 24 in my name.

Cynigiaf welliant 24 yn fy enw i.

18:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question—[Interruption.] Order. Can we all concentrate, please? The question is that amendment 24 be agreed to. Are there any objections? [Interruption.] Was that an objection? Sorry, but we just need to concentrate on this. There are no objections. Therefore, amendment 24 is agreed.

Y cwestiwn— [Torri ar draws.] Trefn. A allwn ni i gyd ganolbwyntio, os gwelwch yn dda? Y cwestiwn yw bod gwelliant 24 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? [Torri ar draws.] Ai gwrthwynebiad oedd hwnnw? Mae'n ddrwg gennyf, ond mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar hyn. Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, mae gwelliant 24 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 24 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 24 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Deputy Minister to move amendment 25.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 25.

18:11 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 25 in my name.

Cynigiaf welliant 25 yn fy enw i.

18:11 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 25 be agreed to. Are there any objections? There are no objections. Therefore, amendment 25 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 25 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, mae gwelliant 25 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 25 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 25 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 12: Dyletswydd i Ddiwallu Anghenion Cymorth Gofalwyr (Gwelliannau 26, 27, 28, 29, 30 a 50)

### Group 12: Duty to Meet Carers' Support Needs (Amendments 26, 27, 28, 29, 30 and 50)

18:12 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 26. I call on the Deputy Minister to move amendment 26 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 26. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 26 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

18:12 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 26 in my name.

Cynigiaf welliant 26 yn fy enw i.

In speaking to the amendments in this group, I will be as brief as I can. However, these are complex amendments and I want to make sure that their intent is clearly stated for the record. This is a further group of amendments dealing with the issue of the balance of rights within the Bill. They address the situation where meeting the carer's needs for support may involve the provision of care and support to the cared for person. In this situation, it is a key principle that the cared for person must agree to the carer's needs being met in this way.

Wrth siarad am y gwelliannau yn y grŵp hwn, byddaf mor gryno ag y gallaf fod. Fodd bynnag, mae'r rhain yn newidiadau cymhleth ac rwyf am wneud yn siŵr bod eu bwriad wedi ei ddatgan yn glir ar gyfer y cofnod. Mae hwn yn grŵp arall o welliannau sy'n ymdrin â mater y cydbwysedd hawliau o fewn y Bil. Maent yn mynd i'r afael â'r sefyllfa lle gallai diwallu anghenion y gofalwr am gymorth olygu darparu gofal a chymorth i'r person sy'n derbyn gofal. Yn y sefyllfa hon, mae'n egwyddor allweddol bod yn rhaid i'r person sy'n derbyn gofal gytuno i anghenion y gofalwr gael eu bodloni yn y ffordd hon.

Amendment 26 inserts a reference to a disabled child into section 36 through the removal of existing subsections and replacement with revised text. Amendment 27 inserts a new section relating to the duty to meet the support needs of an adult carer. The effect of amendments 26 and 27, when taken together, is to extend the requirement for a cared for person to agree to their carer's needs being met through the provision of care and support to the cared for person, so the requirement also applies where the carer for a person is a disabled child. The amendment also addresses the situation where the cared for person lacks the capacity to agree to the carer's needs being met in this way. It also provides for circumstances in which there is no authorised person to make a decision on behalf of an adult or a 16 or 17-year-old who lacks capacity. Further, the amendment addresses the situation where the cared for person is a disabled child under the age of 16, and seeks to strike an appropriate balance between the rights of children and the rights of parents, depending on whether or not the child has sufficient understanding to be able to agree to the carer's needs being met in this way. Where a charge will be imposed on an adult for the provision of care and support to a disabled child looked after by the carer, the amendment provides for the adult to be able to object to the carer's needs being met in a way that involves providing care and support to the child.

Mae gwelliant 26 yn mewnosod cyfeiriad at blentyn anabl yn adran 36 drwy gael gwared ar isadrannau sydd eisoes yn bodoli a gosod testun diwygiedig yn eu lle. Mae gwelliant 27 yn mewnosod adran newydd yn ymwneud â'r ddyletswydd i ddiwallu anghenion cymorth gofalwr sy'n oedolyn. Effaith gwelliannau 26 a 27, o'u cymryd gyda'i gilydd, yw ymestyn y gofyniad i berson sy'n derbyn gofal gytuno i anghenion eu gofalwr gael eu diwallu trwy ddarparu gofal a chymorth i'r person sy'n derbyn gofal, felly mae'r gofyniad hwn hefyd yn berthnasol pan fo'r gofalwr ar gyfer person yn blentyn anabl. Mae'r gwelliant hefyd yn mynd i'r afael â'r sefyllfa lle nad yw'r gallu gan y person sy'n derbyn gofal i gytuno i anghenion y gofalwr gael eu bodloni yn y ffordd hon. Mae hefyd yn darparu ar gyfer amgylchiadau lle nad oes unrhyw berson awdurdodedig i wneud penderfyniad ar ran oedolyn neu rywun 16 neu 17 mlwydd oed nad yw'r gallu ganddo. Ymhellach, mae'r gwelliant yn mynd i'r afael â'r sefyllfa lle mae'r person sy'n derbyn gofal yn blentyn anabl o dan 16 oed, ac yn ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng hawliau plant a hawliau rhieni, yn dibynnu ar baun a oes gan y plentyn ddealltwriaeth ddigonol i allu cytuno i anghenion y gofalwr gael eu bodloni yn y ffordd hon. Lle y bydd tâl yn cael ei godi ar oedolyn ar gyfer darparu gofal a chymorth i blentyn anabl sy'n derbyn gofal gan y gofalwr, mae'r gwelliant yn darparu ar gyfer oedolyn yn gallu gwrthwynebu i anghenion y gofalwr gael eu bodloni mewn ffordd sy'n cynnwys darparu gofal a chymorth i'r plentyn.

Amendment 29 inserts a reference to a disabled child into section 37 through the removal of existing subsections and replacement with revised text. Amendment 30 inserts a new section relating to the duty to meet the support needs of a child carer. The effect of amendments 29 and 30, when taken together, is to extend the requirement for a person cared for by a child to agree to their carer's needs being met by the provision of care and support to the cared for person, so that the requirement also applies where the carer for a person is a disabled child. The amendment also addresses the situation where the cared for person lacks the capacity to agree to the carer's needs being met in this way, and provides for circumstances in which there is no authorised person to make a decision on behalf of an adult or a 16 or 17-year-old who lacks capacity. The amendment also addresses the situation where the cared for person is a disabled child under the age of 16, and seeks to strike an appropriate balance between the rights of children and the rights of parents, depending on whether or not the child has sufficient understanding to be able to agree to the carer's needs being met in this way.

Mae gwelliant 29 yn mewnosod cyfeiriad at blentyn anabl yn adran 37 drwy gael gwared ar isadrannau sydd eisoes yn bodoli a gosod testun diwygiedig yn eu lle. Mae gwelliant 30 yn mewnosod adran newydd yn ymwneud â'r ddyletswydd i ddiwallu anghenion cymorth gofalwr sy'n blentyn. Effaith diwygiadau 29 a 30, o'u cymryd gyda'i gilydd, yw ymestyn y gofyniad ar gyfer person sy'n derbyn gofal gan blentyn i gytuno i anghenion eu gofalwr gael eu bodloni gan y ddarpariaeth o ofal a chymorth i'r person sy'n derbyn gofal, fel bod y gofyniad hefyd yn berthnasol pan fo'r gofalwr ar gyfer person yn blentyn anabl. Mae'r gwelliant hefyd yn mynd i'r afael â'r sefyllfa lle nad yw'r gallu gan y person sy'n derbyn gofal i gytuno i anghenion y gofalwr gael eu bodloni yn y ffordd hon, ac yn darparu ar gyfer amgylchiadau lle nad oes unrhyw berson awdurdodedig i wneud penderfyniad ar ran oedolyn neu rywun 16 neu 17 mlwydd oed nad yw'r gallu ganddo. Mae'r gwelliant hefyd yn mynd i'r afael â'r sefyllfa lle mae'r person sy'n derbyn gofal yn blentyn anabl o dan 16 oed, ac yn ceisio taro cydbwysedd priodol rhwng hawliau plant a hawliau rhieni, yn dibynnu ar ba un a oes gan y plentyn ddigon o ddealltwriaeth i allu cytuno i anghenion y gofalwr gael eu bodloni yn y ffordd hon.

Where a charge will be imposed on an adult for the provision of care and support to a disabled child looked after by the carer, the amendment provides for the adult to be able to object to the carer's needs being met in a way that involves providing care and support to the child. In view of the fact that the local authority will continue to have a duty to meet the needs of the child carer in some other way, this strikes an appropriate balance between the rights of children and the rights of the adult in this situation.

Lle y bydd tâl yn cael ei osod ar oedolyn ar gyfer darparu gofal a chymorth i blentyn anabl sy'n derbyn gofal gan y gofalwr, mae'r gwelliant yn darparu ar gyfer oedolyn yn gallu gwrthwynebu i anghenion y gofalwr gael eu diwallu mewn ffordd sy'n cynnwys darparu gofal a chymorth i'r plentyn. Yn wyneb y ffaith y bydd yr awdurdod lleol yn parhau i fod â dyletswydd i fodloni anghenion y gofalwr sy'n blentyn mewn rhyw ffordd arall, mae hyn yn taro cydbwysedd priodol rhwng hawliau plant a hawliau'r oedolyn yn y sefyllfa hon.

Where the local authority is meeting the needs of a child carer by providing support to the child carer, the local authority will be able to impose a charge on an adult with parental responsibility for the child in accordance with the charging provisions in Part 5. However, no provision is made in the section inserted by this amendment for the adult on whom the charge is imposed to be able to object.

Pan fydd yr awdurdod lleol yn diwallu anghenion gofalwr sy'n blentyn drwy ddarparu cymorth i'r gofalwr sy'n blentyn, bydd yr awdurdod lleol yn cael gosod ffi ar oedolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn yn unol â darpariaethau codi tâl yn Rhan 5. Fodd bynnag, ni wneir darpariaeth yn yr adran a fewnosodir gan y gwelliant hwn i'r oedolyn y codir tâl arno i allu gwrthwynebu.

It is an important principle of the Bill that a local authority's duty to meet the needs of children should apply, regardless of whether there is a charge for meeting needs and regardless of whether the adult agrees to paying the charge. This strikes an appropriate balance between the rights of the child and the rights of the adult in this situation.

Mae'n egwyddor bwysig o'r Bil y dylai dyletswydd awdurdod lleol i fodloni anghenion plant fod yn berthnasol, pa un a oes tâl ar gyfer bodloni anghenion ai peidio a pha un a yw'r oedolyn yn cytuno i dalu'r ffi ai peidio. Mae hyn yn taro cydbwysedd priodol rhwng hawliau'r plentyn a hawliau'r oedolyn yn y sefyllfa hon.

The same principles will apply where a disabled child being cared for by a carer has assessed needs for care and support that the local authority has a duty to meet under section 33. In this situation, the duty to meet the needs of the disabled child will apply, regardless of whether there is a charge for meeting needs and regardless of whether the adult agrees to pay the charge.

Bydd yr un egwyddorion yn berthnasol lle mae gan blentyn anabl sy'n derbyn gofal gan ofalwr anghenion wedi'u hasesu ar gyfer gofal a chymorth y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i'w bodloni dan adran 33. Yn y sefyllfa hon, bydd y ddyletswydd i fodloni anghenion y plentyn anabl yn berthnasol, pa un a oes tâl ar gyfer bodloni anghenion ai peidio a pha un a yw'r oedolyn yn cytuno i dalu'r ffi ai peidio.

Finally, amendment 50 seeks to amend section 53 and is a consequential amendment to amendments 27 and 30.

Yn olaf, mae gwelliant 50 yn ceisio diwygio adran 53 ac mae'n welliant canlyniadol i welliannau 27 a 30.

18:17

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is that amendment 26 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Therefore, amendment 26 is agreed.

Y cynnig yw bod gwelliant 26 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 26 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 26 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 26 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Deputy Minister to move amendment 27.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 27.

18:18

## Gwenda Thomas

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 27 in my name.

Cynigiaf welliant 27 yn fy enw i.

18:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 27 be agreed to. Are there any objections? There are no objections. Therefore, amendment 27 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 27 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 27 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 27 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 27 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

I call the Deputy Minister to move amendment 28.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 28.

18:18

## Gwenda Thomas

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 28 in my name.

Cynigiaf welliant 28 yn fy enw i.

18:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

That means that amendment 28 is proposed. Are there any objections? There are no objections. Therefore, amendment 28 is agreed.

Mae hynny'n golygu fod gwelliant 28 yn cael ei gynnig. A oes unrhyw wrthwynebiadau? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 28 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 28 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 28 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

I call the Deputy Minister to move amendment 29.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 29.

18:18

## Gwenda Thomas

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Cafodd gwelliannau'r Llywodraeth eu derbyn gan y Cynulliad yng Nghyfnod 3 i gyflwyno system adolygu i'r Bil. Rwyf wedi dadlau bod natur ffurfiol a gwrthwynebol apeliadau yn llai hygyrch ac effeithiol na'r broses adolygu a fewnosodwyd yn y Bil yn y cyfnod blaenorol. Fel yr wyf wedi dweud o'r blaen, rwy'n cytuno, er mwyn rhoi pobl wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau, bod yn rhaid i ni wneud yn siŵr eu bod yn cael llais, yn enwedig ar yr hyn a allai fod yn adegau allweddol yn eu bywydau. Nid wyf yn cytuno mai proses apelio ffurfiol yw'r ffordd iawn o gyflawni hyn.

Amendment 110 seeks to provide the power to make regulations, including in connection with the appeal of a determination of eligibility. It is important to recognise that the process of establishing the level of need and the appropriate level of support for an individual will be fundamentally different under the arrangements to be introduced by the Bill. A person who may have needs for care and support will have those needs assessed by a local authority. This assessment could be subject to review, as provided for in section 26 of the Bill.

Mae gwelliant 110 yn ceisio darparu'r pŵer i wneud rheoliadau, gan gynnwys mewn cysylltiad â'r apêl o benderfynu pwy sy'n gymwys. Mae'n bwysig cydnabod y bydd y broses o sefydlu lefel yr angen a'r lefel briodol o gymorth ar gyfer unigolyn yn sylfaenol wahanol o dan y trefniadau sydd i'w cyflwyno gan y Bil. Bydd person a allai fod ag anghenion gofal a chymorth yn cael asesiad o'r anghenion hynny gan awdurdod lleol. Gallai'r asesiad hwn fod yn destun adolygiad, fel y darperir ar ei gyfer yn adran 26 o'r Bil.

Once needs have been identified, these needs will then be considered against the eligibility criteria. This is a formulaic process of simply establishing whether the needs meet the description specified in the regulations provided for in section 28. These regulations will now be subject to the superaffirmative procedure, as agreed at Stage 3. The importance of the eligibility test that is present in the current assessment process will therefore be diminished in the new system. If the needs do meet the eligibility criteria, the local authority must prepare and maintain a care and support plan. The Bill makes provision for the content of this plan to be reviewed.

Ar ôl i anghenion gael eu nodi, caiff yr anghenion hyn wedyn eu hystyried yn erbyn y meini prawf cymhwyster. Mae hon yn broses fformwläig syml o sefydlu a yw anghenion yn bodloni'r disgrifiad a bennir yn y rheoliadau y darperir ar eu cyfer yn adran 28. Bydd y rheoliadau hyn bellach yn ddarostyngedig i'r weithdrefn uwchgadarnhaol, fel y cytunwyd yng Nghyfnod 3. Felly, bydd pwysigrwydd y prawf cymhwysedd sy'n bresennol yn y broses asesu bresennol yn cael ei leihau yn y system newydd. Os yw anghenion yn bodloni'r meini prawf cymhwyster, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer adolygu cynnwys y cynllun hwn.

There is, therefore, already a system in place for reviewing the decisions taken within the journey of an individual from being identified as potentially having needs to having those needs met.

Mae system eisoes ar waith felly ar gyfer adolygu penderfyniadau a wnaed o fewn taith unigolyn o gael ei nodi fel bod ag anghenion posibl i gael diwallu'r anghenion hynny.

As I have already said, to impose an appeals process alongside the provisions already in place would create a three-tier system. This would introduce an unwelcome level of complexity into the system and remove the clarity with which local authorities and service users can understand the process.

Fel yr wyf wedi dweud yn barod, byddai gosod proses apelio ochr yn ochr â'r darpariaethau sydd eisoes wedi'u sefydlu yn creu system dair-haen. Byddai hyn yn cyflwyno lefel annerbyniol o gymhlethdod i'r system ac yn cael gwared ar yr eglurder a fyddai'n galluogi awdurdodau lleol a defnyddwyr gwasanaeth i ddeall y broses.

Amendments 111 and 107 are consequential to amendment 110. For the reasons that I have outlined, I cannot support these amendments. I therefore ask Assembly Members to oppose the amendments in this group.

Mae gwelliannau 111 a 107 yn ganlyniadol i welliant 110. Am y rhesymau yr wyf wedi'u hamlinellu, ni allaf gefnogi'r gwelliannau hyn. Felly, gofynnaf i Aelodau'r Cynulliad wrthwynebu'r gwelliannau yn y grŵp hwn.

18:55

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Kirsty Williams to reply.

Galwaf ar Kirsty Williams i ateb.

18:55 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Deputy Minister for her response, yet I am concerned that powers that will be available to those in England, conferred on them by the Care Bill, to appeal decisions about their social care will not be available to Welsh citizens. The Deputy Minister has said that she does not want an adversarial system or a system that costs money to administer; I would argue that the potential threat of such a system would focus the minds of those carrying out these reviews and making these decisions to get it right first time. It should be noted that those who represent the needs of the people who are most likely to be affected by this Bill—not you and not me—feel that it is a fundamental safeguard for the people they represent who currently use these services to have the ability to appeal against a decision that a local authority might make regarding their care. They, and I, ask the Assembly to support these amendments.

Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei hymateb, ond rwy'n pryderu na fydd y pwerau a fydd ar gael i'r rhai yn Lloegr, a roddwyd iddynt gan y Bil Gofal, i apelio yn erbyn penderfyniadau ynghylch eu gofal cymdeithasol ar gael i ddinasyddion Cymru. Mae'r Dirprwy Weinidog wedi dweud nad yw'n dymuno cael system wrthwynebus neu system sy'n costio arian i'w gweinyddu; byddwn yn dadlau y byddai bygythiad posibl system o'r fath yn canolbwyntio meddyliau'r rhai sy'n cynnal yr adolygiadau hyn ac yn gwneud y penderfyniadau hyn i'w gael yn iawn y tro cyntaf. Dylid nodi bod y rhai sy'n cynrychioli anghenion y bobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y Bil—nid chi ac nid fi—yn teimlo ei fod yn ddull diogelu sylfaenol i'r bobl y maent yn eu cynrychioli sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn ar hyn o bryd i gael y gallu i apelio yn erbyn penderfyniad y gallai awdurdod lleol ei wneud ynglŷn â'u gofal. Maent hwy, a minnau, yn gofyn i'r Cynulliad gefnogi'r gwelliannau hyn.

18:56 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 110 is not agreed to, amendments 111 and 107 will fall.

Os nad yw gwelliant 110 yn cael ei dderbyn, bydd gwelliannau 111 a 107 yn methu.

The question is that amendment 110 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will proceed to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 110 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiad, felly awn ymlaen i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 110.

Result of the vote on amendment 110.

*Gwrthodwyd gwelliant 110: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment 110 not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

18:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 55.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 55.

18:57 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 55 in my name.

Cynigiaf welliant 55 yn fy enw i.

18:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 55 be agreed to. Does any Member object? There is no objection, therefore amendment 55 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 55 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly caiff gwelliant 55 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 55 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 55 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Darren Millar to move amendment 9.

Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliant 9.

18:57 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 9 in my name.

Cynigiaf welliant 9 yn fy enw i.

18:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 9 be agreed to. Does any Member object? There is no objection, therefore amendment 9 is agreed .

Y cwestiwn yw bod y gwelliant 9 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly caiff gwelliant 9 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 9 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 9 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:57 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I propose that amendments 56, 57 and 58, which appear consequetively in the marshalled list, be disposed of en bloc, given their nature. Does any Member object to the votes being grouped? There is no objection. Therefore, I call on the Deputy Minister to move amendments 56 to 58.

Cynigiaf fod gwelliannau 56, 57 a 58, sy'n ymddangos yn olynol ar y rhestr o welliannau wedi'u didoli, yn cael eu gwaredu en bloc, o ystyried eu natur. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu i'r pleidleisiau gael eu grwpio? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliannau 56 i 58.

18:57 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendments 56, 57 and 58 in my name.

Cynigiaf welliannau 56, 57 a 58 yn fy enw i.

18:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendments 56, 57 and 58 be agreed to. Does any Member object? There is no objection, therefore amendments 56, 57 and 58 are agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliannau 56, 57 a 58. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly caiff gwelliannau 56, 57 a 58 eu derbyn.

*Derbyniwyd gwelliannau 56, 57 a 58 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendments 56, 57 and 58 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

18:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 97.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 97.

18:58 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 97 in my name.

Cynigiaf welliant 97 yn fy enw i.

18:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 97 be agreed to. Does any Member object? There is no objection, therefore amendment 97 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 97 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly caiff gwelliant 97 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 97 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 97 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 18: Hyrwyddo a Chynnal Cyswllt rhwng Plentyn a Theulu (Gwelliant 59)

## Group 18: Promotion and Maintenance of Contact between Child and Family (Amendment 59)

18:58 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The lead and only amendment in the group is amendment 59. I call on the Deputy Minister to move amendment 59 and to speak to it.

Y prif welliant a'r unig un yn y grŵp yw gwelliant 59. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 59 ac i siarad amdano.

18:58 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 59 in my name.

Cynigiaf welliant 59 yn fy enw i.

Amendment 59 will amend section 89(5), which sets out the circumstances in which a local authority is not required to comply with its duty to keep parents informed of a looked-after child's whereabouts. This exception allows the local authority not to comply with this duty if this would prejudice the child's wellbeing, but the exception currently only applies to children in care. The result of the amendment is that this exception is not limited to children in care, but will apply to all looked-after children, other than children under the age of 16 who are accommodated under section 70.

Bydd gwelliant 59 yn diwygio adran 89 (5), sy'n nodi'r amgylchiadau lle nad yw'n ofynnol i awdurdod lleol gydymffurfio â'i ddyletswydd i roi gwybod i rieni am leoliad plentyn sy'n derbyn gofal. Mae'r eithriad hwn yn caniatáu i'r awdurdod lleol beidio â chydymffurfio â'r ddyletswydd hon pe byddai hyn yn peryglu lles y plentyn, ond mae'r eithriad ar hyn o bryd yn berthnasol dim ond i blant mewn gofal. Canlyniad y gwelliant yw nad yw'r eithriad hwn wedi ei gyfyngu i blant sydd mewn gofal, ond bydd yn berthnasol i bob plentyn sy'n derbyn gofal, ac eithrio plant o dan 16 oed sy'n cael eu lletya o dan adran 70.

The effect of this amendment is that the local authority is not required to comply with its duty to keep parents informed of their child's whereabouts if the child is in care, accommodated under section 71, which relates to accommodation for children in police protection or detention or on remand et cetera; or if the child is aged 16 or 17 and is accommodated under section 70, which relates to accommodation for children without parents or who are lost or abandoned; and if there is reason to believe that this might prejudice the child's wellbeing.

Effaith y gwelliant hwn yw nad yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol gydymffurfio â'i ddyletswydd i roi gwybod am leoliad eu plentyn os yw'r plentyn mewn gofal, wedi'i letya o dan adran 71, sy'n ymwneud â llety ar gyfer plant dan ofal yr heddlu neu mewn canolfan gadw neu ar remánd ayb, neu os yw'r plentyn yn 16 neu'n 17 oed ac yn cael ei letya o dan adran 70, sy'n ymwneud â llety ar gyfer plant heb rieni neu sydd ar goll neu wedi'u gadael; ac os oes rheswm i gredu y gallai hyn amharu ar les y plentyn .

The amendment will, however, preserve the rights of parents to be kept informed of the whereabouts of children under the age of 16 who are accommodated under section 70. This is consistent with the parents' rights under section 70(5) to be able to remove the child at any time. The child's rights would still be adequately protected in this situation, as the local authority is able to take steps to prevent the removal of the child if there was a risk of significant harm to the child.

Bydd y gwelliant, fodd bynnag, yn cadw hawliau rhieni i gael gwybod am leoliad plant dan 16 oed sy'n cael eu lletya o dan adran 70. Mae hyn yn gyson â hawliau rhieni o dan adran 70 (5) i fod yn gallu symud y plentyn oddi yno ar unrhyw adeg. Byddai hawliau'r plentyn yn dal i gael eu gwarchod yn ddigonol yn y sefyllfa hon, gan fod yr awdurdod lleol yn gallu cymryd camau i atal symud y plentyn pe byddai perygl o niwed sylweddol i'r plentyn.

19:00

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no other speakers. The question is that amendment 59 be agreed to. Does any Member object? There is no objection. Therefore, amendment 59 is agreed.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill. Y cwestiwn yw bod gwelliant 59 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 59 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 59 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 59 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call on the Deputy Minister to move amendment 60.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 60.

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

I move amendment 60 in my name.

Cynigiaf welliant 60 yn fy enw i.

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The question is that amendment 60 be agreed to. Does any Member object? There is no objection. Therefore, amendment 60 is agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 60 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, caiff gwelliant 60 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 60 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 60 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

### Grŵp 19: Trefniadau Byw Ôl-18 (Gwelliannau 2, 3 a 4)

### Group 19: Post-18 Living Arrangements (Amendments 2, 3 and 4)

19:00

## Y Llywydd / The Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 2. I call on Lindsay Whittle to move amendment 2 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 2. Galwaf ar Lindsay Whittle i gynnig gwelliant 2 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

19:01

## Lindsay Whittle

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I move amendment 2 in my name.

Cynigiaf welliant 2 yn fy enw i.

I am grateful to the Deputy Minister for meeting us at least half way on this particular issue. I think that you said, Deputy Minister, and I agree, that it is important to stress that we have a shared ambition on this matter, and that there is a need to ensure that young and vulnerable people have as much information, support and access to post-18 living arrangements as is absolutely possible.

Rwy'n ddiolchgar i'r Dirprwy Weinidog am gyfarfod hanner ffordd â ni o leiaf ar y mater penodol hwn. Rwy'n meddwl eich bod wedi dweud, Ddirprwy Weinidog, ac rwy'n cytuno, ei bod yn bwysig pwysleisio bod gennym uchelgais ar y cyd ar y mater hwn, a bod angen sicrhau bod pobl ifanc ac agored i niwed yn cael cymaint o wybodaeth, cymorth a mynediad at drefniadau byw ôl-18 ag sy'n bosibl.

Amendment 2, which relates to section 102 in the Bill, is quite clear. It places a duty on the local authority to find out whether the young person and her or his local authority foster parent wish to make a post-18 living arrangement. There is nothing contentious here. We have plenty of evidence not only from the statistics, but directly from the young people themselves that those who are left to their own devices having left foster care at the age of 16, and even 18, are much less likely to gain any qualifications and, sadly, are more likely to end up breaking the law and even becoming homeless. They tell us that they need stability in their lives and someone that they can rely upon until they are able to fend for themselves. For some, 16 is not the age. For others, it is. Stability should be theirs by right.

Mae gwelliant 2, sy'n ymwneud ag adran 102 yn y Bil, yn eithaf clir. Mae'n gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddarganfod a oedd y person ifanc a'i riant maeth awdurdod lleol ef neu hi yn dymuno gwneud trefniant byw ôl-18. Nid oes dim dadleuol yma. Mae gennym ddigon o dystiolaeth nid yn unig o'r ystadegau, ond yn uniongyrchol gan y bobl ifanc eu hunain bod y rhai sy'n cael eu gadael ar eu pennau eu hunain wedi gadael gofal maeth yn 16 oed, a hyd yn oed yn 18, yn llawer llai tebygol o gyflawni unrhyw gymwysterau ac , yn anffodus, maent yn fwy tebygol o dorri'r gyfraith a hyd yn oed bod yn ddigartref. Maent yn dweud wrthym eu bod angen sefydlogrwydd yn eu bywydau a rhywun y gallant ddibynnu arnynt hyd nes eu bod yn gallu gofalu amdanynt eu hunain. I rai, nid 16 yw'r oed. I eraill, dyna ydyw. Dylent gael sefydlogrwydd trwy hawl.

So, I hope that this amendment to put young people and foster carers at the heart of decision-making will attract wide cross-party support. I have a feeling it may.

Felly, rwy'n gobeithio y bydd y gwelliant hwn i roi pobl ifanc a gofalwyr maeth wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau yn denu cefnogaeth drawsbleidiol eang. Mae gen i deimlad efallai y bydd.

Amendment 3, which also relates to section 102, spells out a duty on the local authority to provide advice and other support in order to facilitate a post-18 living arrangement if that is the wish of the young person and the foster carer. It also states that this duty to provide advice and other support does not apply if the local authority considers that such a post-18 living arrangement would not be consistent with the young person's wellbeing. We have to accept that the local authority has a duty to care and there might well be compelling reasons why it might consider that the further attachment of a young person after the age of 18 to a particular foster parent would not be advisable. However, I have to emphasise that there is no intention for local authorities to force foster parents to continue to work after a child reaches the age of 21 unless they, and, more importantly, the young person—I stress that it must be all parties—are willing to do so.

Mae gwelliant 3, sydd hefyd yn ymwneud ag adran 102, yn egluro'r ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddarparu cyngor a chefnogaeth arall er mwyn hwyluso trefniant byw ôl-18 oed os mai dyna yw dymuniad y person ifanc a'r gofalwr maeth. Mae hefyd yn datgan nad yw'r ddyletswydd hon i roi cyngor a chymorth arall yn berthnasol os yw'r awdurdod lleol o'r farn na fyddai trefniant byw ōl-18 o'r fath yn gyson â lles y person ifanc. Mae'n rhaid i ni dderbyn bod gan yr awdurdod lleol ddyletswydd i ofalu a gallai fod rhesymau cymhellol pam y gallai ystyried na fyddai ymlyniad pellach person ifanc ar ôl 18 oed i riant maeth penodol yn ddoeth. Fodd bynnag, rhaid imi bwysleisio nad oes unrhyw fwriad i awdurdodau lleol orfodi rhieni maeth i barhau i weithio ar ôl i blentyn gyrraedd 21 oed oni bai eu bod nhw, ac, yn bwysicach, y person ifanc—rwy'n pwysleisio bod yn rhaid i hyn gynnwys pawb sy'n berthnasol—yn barod i wneud hynny.

For our part, we would have liked our amendments on the right of appeal against the process and outcomes of need assessments to have been approved in previous debates, but that was not to be. This would have applied to the situation where the young person and the foster parent wish to contest the local authority's decision not to approve post-18 foster care arrangements, but we are where we are. For the sake of gaining approval for amendment 3, we will have to put up with that disappointment.

O'n rhan ni, byddem wedi hoffi i'n gwelliannau ar yr hawl i apelio yn erbyn y broses a chanlyniadau asesiadau angen fod wedi eu cymeradwyo mewn dadleuon blaenorol, ond nid oedd hynny i fod. Byddai hyn wedi bod yn berthnasol i'r sefyllfa lle mae person ifanc a'r rhiant maeth yn dymuno herio penderfyniad yr awdurdod lleol i beidio â chymeradwyo trefniadau gofal maeth ôl-18, ond rydym ni lle'r ydym. Er mwyn cael cymeradwyaeth ar gyfer gwelliant 3, bydd yn rhaid inni ddioddef y siom honno.

Amendment 4, which is absolutely crucial for the successful outcome of any post-18 living arrangement, relates to section 104 of the Bill. This amendment states that where support is provided to a former foster parent under subsection 2(b), the support must include financial support. This provision will be particularly important where the young person has the opportunity to enter training or an education programme. Heaven knows with the current NEETs situation in Wales, any support that enables a young person in foster care to get some access to training, an apprenticeship or further education must be of immense value not only to the individual, but to the community at large, and, indeed, to our country. In short, it is nothing but money well spent, and I am very happy to move these three amendments. Diolch.

Mae gwelliant 4, sy'n gwbl hanfodol ar gyfer canlyniad llwyddiannus i unrhyw drefniant byw ôl-18, yn ymwneud ag adran 104 o'r Bil. Mae'r gwelliant hwn yn nodi lle darperir cymorth i gyn riant maeth o dan isadran 2 (b), bod yn rhaid i'r cymorth gynnwys cymorth ariannol. Bydd y ddarpariaeth hon yn arbennig o bwysig lle mae'r person ifanc yn cael y cyfle i fynd i mewn i hyfforddiant neu raglen addysg. Y nefoedd sy'n gwybod gyda'r sefyllfa NEET bresennol yng Nghymru, mae'n rhaid bod unrhyw gymorth sy'n galluogi person ifanc mewn gofal maeth i gael rhywfaint o fynediad at hyfforddiant, prentisiaeth neu addysg bellach fod o werth aruthrol, nid yn unig i'r unigolyn, ond i'r gymuned yn gyffredinol, ac, yn wir, i'n gwlad. Yn fyr, nid yw'n ddim ond arian a wariwyd yn dda, ac rwy'n hapus iawn i gynnig y tri gwelliant. Diolch.

19:05

## Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I wanted to speak briefly to put on record how delighted I am with the way in which the approach to post-18 living arrangements for young people in foster care has evolved over the course of the scrutiny of this Bill. There is a strong body of evidence to suggest that giving young people more time in foster care can have a really significant benefit for Wales and for the young people involved. It has a significant and positive impact on their educational outcomes, reduces the likelihood of them abusing alcohol and substances, and reduces the likelihood of them using mental health services as well.

Roeddwn i eisiau siarad yn fyr i gofnodi pa mor falch yr wyf fi gyda'r ffordd y mae'r ymagwedd tuag at drefniadau byw ôl-18 ar gyfer pobl ifanc mewn gofal maeth wedi esblygu yn ystod craffu ar y Bil hwn. Ceir tystiolaeth gref sy'n awgrymu y gall rhoi mwy o amser mewn gofal maeth i bobl ifanc gael buddion sylweddol iawn i Gymru ac ar gyfer y bobl ifanc dan sylw. Mae'n cael effaith sylweddol a chadarnhaol ar eu canlyniadau addysgol, yn lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn camddefnyddio alcohol a sylweddau, ac yn lleihau'r tebygolrwydd y byddant yn defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl hefyd.

I really wanted to put on record my thanks to the young people in foster care who have contributed so much to this and played a role in making sure that we get this far. I picked up the baton quite late in the day from Ken Skates, and sponsored two events at the Assembly for Action for Children and The Fostering Network, where young people in foster care from right across Wales came to speak to us clearly and passionately about the difference that a chance to stay would make for them right now, and the effect it would have on their chances in the future and their ability to fulfil their potential and reach their dreams. If, as I hope, amendments 2, 3 and 4 are passed today—and I thank Lindsay Whittle for bringing them forward—the changes will be a direct result of the bravery that those young people had in sharing their stories with us. They should be very proud of what they have achieved, and I congratulate them on it.

Roeddwn wir eisiau cofnodi fy niolch i'r bobl ifanc mewn gofal maeth sydd wedi cyfrannu cymaint at hyn a chwarae eu rhan i wneud yn siŵr ein bod wedi cyrraedd mor bell â hyn. Cymerais i'r awenau yn eithaf hwyr yn y dydd oddi wrth Ken Skates, a noddi dau ddigwyddiad yn y Cynulliad ar gyfer Gweithredu dros Blant a'r Rhwydwaith Maethu, pryd y daeth pobl ifanc mewn gofal maeth o bob cwr o Gymru i siarad â ni yn glir ac yn angerddol am y gwahaniaeth y byddai cyfle i aros yn ei wneud iddynt ar hyn o bryd, a'r effaith y byddai'n ei chael ar eu cyfleoedd yn y dyfodol a'u gallu i gyflawni eu potensial a gwireddu eu breuddwydion. Os, fel rwy'n gobeithio, bydd gwelliannau 2, 3 a 4 yn cael eu pasio heddiw—ac rwy'n diolch i Lindsay Whittle am eu cyflwyno—bydd y newidiadau yn ganlyniad uniongyrchol i'r dewrder oedd gan y bobl ifanc hynny i rannu eu straeon gyda ni. Dylent fod yn falch iawn o'r hyn y maent wedi'i gyflawni, ac rwy'n eu llongyfarch arno.

19:06 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Welsh Liberal Democrats will support the amendments today, which, I think, will bring significant benefits to those young people who find themselves, through no fault of their own, in a fostering arrangement, and again, through no fault of their own, coming to an age when I am sure that many of us would not have expected to leave home ourselves. Many of us who have young children, or children who have grown up, would not have expected them to leave home at that stage. It therefore seems absolutely right that our most vulnerable children, who have had some of the most difficult starts in life, are afforded this protection in allowing them to stay in a setting that is supportive, loving and nurturing, to enable them to make the most of that time to prepare themselves for adult life in that environment, which can only be a good thing and a positive advancement on the current situation.

Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r gwelliannau heddiw, a fydd, rwy'n credu, yn dod â manteision sylweddol i'r bobl ifanc hynny sy'n eu canfod eu hunain, heb fod unrhyw fai arnynt hwy, mewn trefniant maethu, ac unwaith eto, heb fod unrhyw fai arnynt hwy, yn dod i oed pan rwy'n siŵr na fyddai llawer ohonom wedi disgwyl gadael cartref ein hunain. Mae llawer ohonom sydd â phlant ifanc, neu blant sydd wedi tyfu i fyny, na fyddem wedi disgwyl iddynt adael cartref ar y cam hwnnw. Ymddengys yn hollol deg bod ein plant mwyaf agored i niwed, sydd wedi cael dechrau gyda'r mwyaf anodd mewn bywyd, yn cael yr amddiffyniad hwn o ran caniatáu iddynt aros mewn lleoliad sy'n gefnogol, yn gariadus ac sy'n fagwrol, er mwyn eu galluogi i wneud y mwyaf, felly, o'r amser hwnnw i baratoi eu hunain ar gyfer bywyd oedolyn yn yr amgylchedd hwnnw, na all ond bod yn beth da ac yn ddatblygiad cadarnhaol ar y sefyllfa bresennol.

19:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Deputy Minister.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog.

19:07 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to take this opportunity to thank Lindsay Whittle AM for both his enthusiasm and co-operation in bringing forward amendments 2, 3 and 4. It is a fitting example of his commitment to improving outcomes for looked-after children that we have been able to bring greater clarity to the duties that local authorities own in supporting looked-after children in their transition to independent living, and in providing financial support to their foster parents. It is equally an example to all Members, as well as local authority officers and council members of how we, as effective corporate parents, should all contribute to supporting and nurturing looked-after children to achieve their potential. Members will be aware that effective corporate parenting is an issue that I have raised not only throughout the scrutiny of this Bill, but on every occasion when that opportunity arises, and, for that, I make no apology. I would once again reiterate to Members, looked-after children, foster parents and professionals working with them that the opportunity to remain with their foster parents beyond the age of 18 is a valid option now. While the provision in the Bill coupled with these amendments clarifies the options available to children as they move into adulthood and independent living, these options are not dependent upon commencement of this Bill. The When I Am Ready scheme, supported by comprehensive statutory guidance, enables any local authority to offer looked-after children the option of remaining with their foster carers after the age of 18, and not just those local authorities in areas where the scheme is being pioneered.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Lindsay Whittle AC am ei frwdfrydedd a'i gydweithrediad wrth gyflwyno gwelliannau 2, 3 a 4. Mae'n esiampl deilwng o'i ymrwymiad i wella canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ein bod wedi gallu dod â mwy o eglurder i'r dyletswyddau y mae awdurdodau lleol yn berchen arnynt o ran cefnogi plant sy'n derbyn gofal wrth bontio i fyw'n annibynnol, ac wrth ddarparu cymorth ariannol i'w rhieni maeth. Mae hefyd yn esiampl i'r holl Aelodau, yn ogystal â swyddogion awdurdodau lleol ac aelodau cyngor o sut y dylem ni, fel rhieni corfforaethol effeithiol, gyfrannu at gefnogi a meithrin plant sy'n derbyn gofal i gyflawni eu potensial. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol bod rhianta corfforaethol effeithiol yn fater yr wyf wedi'i godi nid yn unig drwy gydol y craffu ar y Bil hwn, ond ar bob achlysur pan fydd y cyfle'n codi, ac, am hynny, nid wyf yn ymddiheuro. Byddwn yn ailadrodd unwaith eto wrth yr Aelodau, plant sy'n derbyn gofal, rhieni maeth a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw bod y cyfle i aros gyda'u rhieni maeth y tu hwnt i 18 oed yn ddewis dilys bellach. Er bod y ddarpariaeth yn y Bil ynghyd â'r gwelliannau hyn yn egluro'r dewisiadau sydd ar gael i blant wrth iddynt dyfu'n oedolion a byw'n annibynnol, nid yw'r dewisiadau hyn yn dibynnu ar gychwyn y Bil hwn. Mae'r cynllun Pan Fyddaf yn Barod, a gefnogir gan ganllawiau statudol cynhwysfawr, yn galluogi unrhyw awdurdod lleol i gynnig y dewis i blant sy'n derbyn gofal o aros gyda'u gofalwyr maeth ar ôl 18 oed, ac nid dim ond yr awdurdodau lleol hynny mewn ardaloedd lle mae'r cynllun yn cael ei arloesi.

In closing, it is right that we should also recognise Ken Skates for his significant contribution to the development of the When I Am Ready scheme, which is given even greater effect through the provisions contained in this Bill and the amendments tabled by Lindsay Whittle. So, once again, I thank Lindsay Whittle and Ken Skates for their commitment to this cause. I also thank Members this afternoon for their comments. I am delighted that we have got to this stage with this amendment.

Wrth gloi, mae'n iawn y dylem hefyd gydnabod Ken Skates am ei gyfraniad sylweddol i ddatblygiad y cynllun Pan Fyddaf yn Barod, sy'n cael ei wneud hyd yn oed yn fwy effeithiol drwy'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil hwn a'r gwelliannau a gyflwynwyd gan Lindsay Whittle. Felly, unwaith eto, rwy'n diolch i Lindsay Whittle a Ken Skates am eu hymroddiad i'r achos hwn. Rwyf hefyd yn diolch i'r Aelodau y prynhawn yma am eu sylwadau. Rwy'n falch iawn ein bod wedi cyrraedd y cam hwn gyda'r gwelliant hwn.

19:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Lindsay Whittle to reply.

Galwaf ar Lindsay Whittle i ymateb.

19:10 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. I will be very brief. I would like to thank the Minister for her very kind comments. I would also like to thank Rebecca Evans—it certainly shows that she, like the rest of the committee, was listening to the young people, and that is what politicians should do more of. I therefore pay tribute to Rebecca Evans. She was right, as was the Minister, to also pay tribute to Ken Skates. I do not think that many of us will forget the powerful debate that he brought to this Chamber. Kirsty Williams was, as usual, spot on. [Interruption.] I am good to everyone tonight.

Diolch. Byddaf yn fyr iawn. Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am ei sylwadau caredig iawn. Hoffwn hefyd ddiolch i Rebecca Evans—mae'n dangos yn sicr ei bod hi, fel gweddill y pwyllgor, wedi gwrando ar y bobl ifanc, a dyna beth y dylai gwleidyddion wneud mwy ohono. Felly, rwy'n talu teyrnged i Rebecca Evans. Roedd hi'n iawn, fel yr oedd y Gweinidog, i dalu teyrnged hefyd i Ken Skates. Nid wyf yn credu y bydd llawer ohonom yn anghofio'r ddadl bwerus y daeth â hi i'r Siambr hon. Roedd Kirsty Williams, fel arfer, yn llygaid ei lle. [Torri ar draws.] Rwy'n dda wrth bawb heno.

So, I welcome the cross-party commitment to improving the current arrangements for young people leaving foster care. These amendments build on the positive changes through the Government amendments that were accepted at Stage 3, and will strengthen arrangements for young people in some four critical areas. These amendments are so critical because they will make sure that the law drives a real change for young people, and that is why I am asking you to support the amendments.

Felly, croesawaf yr ymrwymiad trawsbleidiol i wella'r trefniadau presennol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal maeth. Mae'r gwelliannau hyn yn adeiladu ar y newidiadau cadarnhaol trwy welliannau'r Llywodraeth a dderbyniwyd yng Nghyfnod 3, a byddant yn cryfhau trefniadau ar gyfer pobl ifanc mewn pedwar maes allweddol. Mae'r gwelliannau hyn mor hanfodol oherwydd y byddant yn gwneud yn siŵr bod y gyfraith yn sbarduno newid gwirioneddol ar gyfer pobl ifanc, a dyna pam rwy'n gofyn i chi gefnogi'r gwelliannau.

In brief, increasing this age will do four things, as I have said. It will have a positive, significant effect on secondary educational attainment, and on completion and entry into post-secondary education. It will reduce the likelihood of subsequent alcohol and substance abuse among care leavers, and will help to reduce homelessness. It will also, I hope, reduce the subsequent use of mental health services. It is a cost-effective plan for Wales, and it gives our young people a fair shot at life. In short, it proves that this National Assembly for Wales will look after all the young people of Wales, who deserve this chance, and I am proud to be associated with it.

Yn gryno, bydd codi'r oedran hwn yn gwneud pedwar peth, fel y dywedais. Bydd yn cael effaith gadarnhaol, sylweddol ar gyrhaeddiad addysgol uwchradd, ac ar gwblhau hynny a chael mynediad i addysg ôl-uwchradd. Bydd yn lleihau'r tebygolrwydd dilynol o gamddefnyddio alcohol a sylweddau ymysg y rhai sy'n gadael gofal, a bydd yn helpu i leihau digartrefedd. Bydd hefyd, rwy'n gobeithio, yn lleihau'r defnydd dilynol o wasanaethau iechyd meddwl. Mae'n gynllun cost-effeithiol i Gymru, ac mae'n rhoi cyfle teg mewn bywyd i'n pobl ifanc. Yn fyr, mae'n profi y bydd y Cynulliad Cenedlaethol Cymru hwn yn edrych ar ôl holl bobl ifanc Cymru, sy'n haeddu'r cyfle hwn, ac rwy'n falch o fod yn gysylltiedig ag ef.

19:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 2 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 2 is therefore agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 2 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly caiff gwelliant 2 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

19:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Lindsay Whittle to move amendment 3.

Galwaf ar Lindsay Whittle i gynnig gwelliant 3.

19:12 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 3 in my name.

Cynigiaf welliant 3 yn fy enw i.

19:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 3 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 3 is therefore agreed.

Y cwestiwn yw bod gwelliant 3 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly caiff gwelliant 3 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* *Amendment 3 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

19:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

I call on Lindsay Whittle to move amendment 4. Galwaf ar Lindsay Whittle i gynnig gwelliant 4.

19:12 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 4 in my name. Cynigiaf welliant 4 yn fy enw i.

19:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 4 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 4 is therefore agreed.

Y cwestiwn bod gwelliant 4 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly caiff gwelliant 4 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* *Amendment 4 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 20: Cymorth ar gyfer Pobl Ifanc Categori 4 (Gwelliant 61)

## Group 20: Support for Category 4 Young People (Amendment 61)

19:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

The lead and only amendment in this group is amendment 61. I call on the Deputy Minister to move and to speak to the amendment.

Y prif welliant a'r unig un yn y grŵp hwn yw gwelliant 61. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig y gwelliant ac i siarad amdano.

19:12 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 61 in my name. Cynigiaf welliant 61 yn fy enw i.

Amendment 61 seeks to rectify an unintended omission from section 106 when the provisions relating to category 4 young persons were transposed into the Bill from the Children Act 1989. This amendment preserves the provision from the Children Act 1989 by ensuring that a local authority is able to consider any financial support that a young person may have received as a result of their pursuit of higher education, in accordance with the provision made in subsection 106(2) when considering the requirement to make provision for any other financial support for that young person under subsections 101(4), 106(1) and 106(4).

Mae gwelliant 61 yn ceisio cywiro hepgoriad anfwriadol o adran 106 pan gafodd y darpariaethau sy'n ymwneud â phobl ifanc categori 4 eu trawsosod yn y Bil o Ddeddf Plant 1989. Mae'r gwelliant hwn yn cadw'r ddarpariaeth o Ddeddf Plant 1989 drwy sicrhau bod awdurdod lleol yn gallu ystyried unrhyw gymorth ariannol y gall person ifanc fod wedi ei dderbyn o ganlyniad i ddilyn addysg uwch, yn unol â'r ddarpariaeth a wnaed yn is-adran 106 (2) wrth ystyried y gofyniad i wneud darpariaeth ar gyfer unrhyw gymorth ariannol arall ar gyfer y person ifanc hwnnw o dan is-adrannau 101 (4), 106 (1) a 106 (4).

Throughout the development and scrutiny of this Bill, I have sought to ensure that the rights and entitlements of looked-after children and care leavers have been, as a minimum, preserved and maintained. This amendment is the final piece of that picture, and I urge Members to support it.

Drwy gydol datblygiad a chraffu ar y Bil hwn, rwyf wedi ceisio sicrhau bod hawliau'r plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, o leiaf, wedi cael eu cadw a'u cynnal. Y gwelliant hwn yw darn olaf y darlun hwnnw, ac rwy'n annog yr Aelodau i'w gefnogi.

19:13 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography Senedd.tv Fideo Video

There are no other speakers. The question is that amendment 61 be agreed to. Does any Member object? There are no objections. Amendment 61 is therefore agreed.

Nid oes unrhyw siaradwyr eraill. Y cwestiwn yw bod gwelliant 61 yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad. Felly caiff gwelliant 61 ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 61 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.* *Amendment 61 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## Grŵp 21: Trefniadau i Helpu Plant i Fyw y tu allan i Loegr a Chymru (Gwelliant 62)

## Group 21: Arrangements to Assist Children to Live Outside England and Wales (Amendment 62)

19:13

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead and only amendment in this group is amendment 62, and I call on the Deputy Minister to move and to speak to that amendment.

Y prif welliant a'r unig welliant yn y grŵp hwn yw gwelliant 62, a galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig y gwelliant hwnnw ac i siarad amdano.

19:14

### Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 62 in my name.

Cynigiaf welliant 62 yn fy enw i.

This is the final group relating to the issue of the balancing of rights, and it deals with the issue of parental consent in respect of arrangements made by a local authority to assist a child in its care to live outside Wales and England. Amendment 62 replaces the conditions under which a court may dispense with the consent of a person under subsection (3)(d) of section 118.

Dyma'r grŵp olaf sy'n ymwneud â chydbwyso hawliau, ac mae'n ymdrin â chydsyniad rhiant mewn perthynas â threfniadau a wneir gan awdurdod lleol i gynorthwyo plentyn dan ei ofal i fyw y tu allan i Gymru a Lloegr. Mae gwelliant 62 yn disodli'r amodau lle y gall llys hepgor cydsyniad unigolyn dan is-adran (3)(d) o adran 118.

This amendment ensures that the consent of a person with parental responsibility is not required if the person cannot be found, lacks capacity to consent, or if the court believes that the wellbeing of the child in question requires that the need to obtain the person's consent should not apply. This provides the court with wider powers to give approval to the arrangements to assist a child in care to live outside England and Wales in the absence of parental consent. The amendment does, however, preserve the need to obtain parental consent in appropriate cases. This amendment ensures that the child's wellbeing and the rights of children and those with parental responsibility are balanced appropriately. I ask Assembly Members to support this amendment.

Mae'r gwelliant hwn yn sicrhau nad oes angen cydsyniad person sydd â chyfrifoldeb rhiant os na ellir dod o hyd i'r person hwnnw, os nad oes ganddo alluedd i gydsynio, neu os yw'r llys yn credu bod lles y plentyn dan sylw'n peri na ddylid gorfod cael cydsyniad y person. Mae hyn yn rhoi pwerau ehangach i'r llys i gymeradwyo'r trefniadau i gynorthwyo plentyn mewn gofal i fyw y tu allan i Gymru a Lloegr yn absenoldeb cydsyniad rhiant. Fodd bynnag, mae'r gwelliant yn cadw'r angen i gael cydsyniad rhiant mewn achosion priodol. Mae'r gwelliant hwn yn sicrhau bod lles y plentyn a hawliau plant a'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant wedi eu cydbwyso'n briodol. Gofynnaf i Aelodau'r Cynulliad gefnogi'r gwelliant hwn.

19:15

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There are no speakers. The question is that amendment 62 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 62 is agreed.

Nid oes siaradwyr. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 62. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 62 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 62 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 62 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

19:15

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 63.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 63.

19:15

### Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 63 in my name.

Cynigiaf welliant 63 yn fy enw i.

19:15

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 63 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 63 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 63. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 63 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 63 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 63 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

19:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 64.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 64.

19:15 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 64 in my name.

Cynigiaf welliant 64 yn fy enw i.

19:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 64 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 64 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 64. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 64 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 64 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 64 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

19:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 65.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 65.

19:16 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 65 in my name.

Cynigiaf welliant 65 yn fy enw i.

19:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 65 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 65 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 65. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 65 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 65 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 65 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

19:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 66.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 66.

19:16 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 66 in my name.

Cynigiaf welliant 66 yn fy enw i.

19:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 66 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 66 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 66. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 66 wedi ei dderbyn.

Ac ystyried mai dyna yw prawf y Llywodraeth ar gyfer deddfwriaeth y meinciau cefn, byddai rhywun yn tybio mai dyna'r prawf y mae Gweinidogion yn ei ddefnyddio ar gyfer deddfwriaeth y Llywodraeth. Eto i gyd, o ddarllen dogfennau'r Llywodraeth sy'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth y prynhawn yma gwelir bod pennod 9 o'r adolygiad ôl-weithredu yn nodi,

'At this stage it is too early to specify post implementation review arrangements as the detail of the proposals, and timescales forimplementation, remain to be developed.'

Ar hyn o bryd, mae'n rhy gynnar i nodi trefniadau adolygu ôl-weithredu gan fod manylion y cynigion, a'r amserlenni ar gyfer gweithredu, yn dal heb eu datblygu.

It is quite staggering that, at this stage, the Government is still willing to say that the details of its proposals have yet to be developed. Maybe I am naive, but I thought that this Government was legislating to achieve goals. To draw up that legislation, you have to be quite clear what your proposals and goals are, yet it is quite clear that the Government at this stage is not yet able to specify and include them in its documentation.

Mae'n syfrdanol bod y Llywodraeth ar yr adeg hon yn dal i fod yn barod i ddweud bod manylion ei chynigion yn dal heb eu datblygu. Efallai fy mod yn naïf, ond roeddwn yn meddwl bod y Llywodraeth hon yn deddfu er mwyn cyflawni nodau. Er mwyn llunio'r ddeddfwriaeth honno, mae'n rhaid ichi fod yn gwbl glir beth yw eich cynigion a'ch nodau, ond mae'n amlwg iawn nad yw'r Llywodraeth ar hyn o bryd yn gallu eu nodi a'u cynnwys yn ei dogfennaeth eto.

There are no review mechanisms set. The Government says that it cannot do that yet because it is not quite sure of the details of the proposal. However, I am trying to at least give the Bill the opportunity to be reviewed to ensure that, regarding those adults who have care and support needs, children who need care and support and carers, there is an opportunity to see how this legislation is affecting them. That is amendment 118.

Nid oes mecanweithiau adolygu wedi eu nodi. Mae'r Llywodraeth yn dweud na all wneud hynny eto gan nad yw'n hollol siŵr o fanylion y cynnig. Fodd bynnag, rwyf fi o leiaf yn ceisio rhoi cyfle i'r Bil i gael ei adolygu er mwyn sicrhau, o ran yr oedolion hynny y mae arnynt anghenion gofal a chymorth, plant y mae arnynt angen gofal a chymorth a gofalwyr, fod cyfle i weld sut y bydd y ddeddfwriaeth hon yn effeithio arnynt. Dyna yw gwelliant 118.

Amendment 119 in this group and consequential amendment 116 look at the reporting and funding for new costs arising out of this Act. If the post-implementation review is amusing, then Members really should acquaint themselves with the cost-benefit analysis of the regulatory impact assessment that has been submitted by the Government. It says

Mae gwelliant 119 yn y grŵp hwn a gwelliant canlyniadol 116 yn ystyried y trefniadau adrodd ac ariannu'r costau newydd sy'n deillio o'r Ddeddf hon. Os yw'r adolygiad ôl-weithredu yn codi gwên, yna dylai'r Aelodau ymgyfarwyddo â dadansoddiad cost a budd yr asesiad effaith rheoleiddiol a gyflwynwyd gan y Llywodraeth. Mae'n dweud

'The intention is to phase in the implementation of the Bill over three to five years.... The detailed arrangements for the future system, in particular the operation of local authorities core process for assessments, care management, eligibility and the review system for care and support to people and support to carers, will be set out in regulations... therefore, it needs to be recognised that there is a measure of uncertainty about some of the costs and benefits provided in this RIA.'

Y bwriad yw cyflwyno'r Bil yn raddol dros dair i bum mlynedd ... Bydd y trefniadau manwl ar gyfer y system yn y dyfodol, yn arbennig gweithredu proses graidd awdurdodau lleol ar gyfer asesiadau, rheoli gofal, cymhwystra a'r system adolygu ar gyfer gofal a chymorth i bobl a chefnogaeth i ofalwyr, yn cael eu nodi mewn rheoliadau ... felly, mae angen cydnabod bod rhywfaint o ansicrwydd am rai o'r costau a'r buddion a ddarperir yn yr asesiad effaith rheoleiddiol hwn.

When the Health and Social Care Committee looked at the costings associated with this legislation, we found no evidence at all to support the Deputy Minister's claim that this Bill was cost-neutral. We found no evidence at all. My concern when reading this documentation is that this is all supposedly about creating a sustainable environment for our social services. It is impossible in this documentation for the Government to give accurate details of the costings, and whether there are sufficient resources to meet the measures in this Bill. It seems that the Government is basing its analysis on the fact that because it says it is simplifying the legislation, there will be fewer complaints to local authorities, and because there will be fewer complaints, there will be fewer cases going to court to challenge the findings of local authorities. It says that it will save £2 million a year out of a budget of £1.4 billion. Apparently, that £2 million is going to sustain the provision of social services in this country for the years to come. It would be laughable if it was not so serious.

Pan edrychodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y costau sy'n gysylltiedig â'r ddeddfwriaeth hon, ni ddaethpwyd o hyd i ddim tystiolaeth o gwbl i gefnogi honiad y Dirprwy Weinidog fod y Bil hwn yn niwtral o ran cost. Ni ddaethpwyd o hyd i ddim tystiolaeth o gwbl. Fy mhryder wrth ddarllen y dogfennau hyn yw bod hyn i gyd yn ôl pob tebyg yn ymwneud â chreu amgylchedd cynaliadwy ar gyfer ein gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n amhosibl yn y ddogfen hon i'r Llywodraeth roi manylion cywir y costau, ac a oes digon o adnoddau i fodloni'r mesurau yn y Bil hwn. Mae'n ymddangos bod y Llywodraeth yn seilio ei dadansoddiad ar y ffaith y bydd llai o gwynion i awdurdodau lleol oherwydd ei bod yn dweud ei bod yn symleiddio'r ddeddfwriaeth, ac oherwydd y bydd llai o gwynion, bydd llai o achosion yn mynd i'r llys i herio canfyddiadau awdurdodau lleol. Mae'n dweud y bydd yn arbed £2 filiwn y flwyddyn o gyllideb o £1.4 biliwn. Mae'n debyg bod y £2 filiwn yn mynd i gynnal darpariaeth gwasanaethau cymdeithasol yn y wlad hon dros y blynyddoedd sydd i ddod. Byddai'n chwerthinllyd pe na bai mor ddifrifol.

So, my amendment 119 seeks to ensure that there is a mechanism for a number of parties to review the resources that are given to this particular legislation and to ensure that social services are adequately funded as we go forward. At the moment, what the Government has put before us is not robust. It is scarcely credible, and there is no evidence to back up its assertions. If the vision that the Deputy Minister says she has for social services is to be delivered, then we are delusional if we think that the budgets for training and transitional costs will cut it. Therefore, I would like to see provision put in place for a review of resources to ensure that social services are adequately funded.

Felly, mae gwelliant 119 yn ceisio sicrhau bod mecanwaith ar waith er mwyn i nifer o bartïon adolygu'r adnoddau a roddir i'r ddeddfwriaeth benodol hon a sicrhau bod y gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hariannu'n ddigonol wrth inni symud ymlaen. Ar hyn o bryd, nid yw'r hyn y mae'r Llywodraeth wedi rhoi ger ein bron yn gadarn. Prin y mae'n gredadwy, ac nid oes tystiolaeth i gefnogi ei honiadau. Os ydym am wireddu'r weledigaeth y mae'r Dirprwy Weinidog yn dweud sydd ganddi ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol, rydym yn ein twyllo ein hunain os ydym yn credu y bydd y cyllidebau ar gyfer hyfforddiant a chostau trosiannol yn ddigonol. Felly, carwn weld darpariaeth yn cael ei rhoi ar waith i adolygu'r adnoddau er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hariannu'n ddigonol.

19:40

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call on the Deputy Minister.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog.

19:40 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I will begin with amendment 118. In placing a duty on the Welsh Ministers to review and report on the operation of this Act, this amendment stipulates a time by which the first report must be published. The date given is 31 December 2015. As stated in paragraph 125 of the explanatory memorandum, however, should the Social Services and Well-being (Wales) Bill be passed, then it is not due to be fully commenced until April 2016, when the majority of the statutory instruments will have been implemented. Therefore, if the majority of the Bill's provisions are un-commenced at the end of December 2015, there will be little or nothing to review or report upon. In light of this, the reason for including this particular date in the amendment is unclear—at least when considered in terms of the benefit it would bring to the quality of this legislation and how it will affect people outside the Chamber.

Dechreuaf drwy sôn am welliant 118. Drwy ei gwneud yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu ac adrodd ar weithrediad y Ddeddf hon, mae'r gwelliant hwn yn pennu amser ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad cyntaf. Y dyddiad a roddir yw 31 Rhagfyr 2015. Fel y nodwyd ym mharagraff 125 o'r memorandwm esboniadol, fodd bynnag, pe bai Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cael ei basio, ni fyddai'n cael ei gychwyn yn llawn tan fis Ebrill 2016, pan fydd y rhan fwyaf o'r offerynnau statudol wedi eu rhoi ar waith. Felly, os na fydd y rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Bil wedi eu cychwyn erbyn diwedd Rhagfyr 2015, ni fydd fawr ddim, neu ddim o gwbl, i'w adolygu neu i adrodd arno. O ystyried hyn, mae'r rheswm dros gynnwys y dyddiad penodol hwn yn y gwelliant yn aneglur—o leiaf ac ystyried ei fudd i ansawdd y ddeddfwriaeth hon a'r ffordd y bydd yn effeithio ar bobl y tu allan i'r Siambr.

The core duty imposed on the Welsh Ministers also has a degree of ambiguity as it is not clear what precisely is meant by a review of the operation of the Act. For example, does this include amendments made to other enactments by the Act? Section 173, for example, introduces through Schedule 3 a new Part 2A and 2B to the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005; should the review include reference to this? Similarly, section 177 amends section 22 of the Care Standards Act 2000; should it also be subject to review? The amendment is not clear on this point.

Mae rhywfaint o amwysedd i'r ddyletswydd graidd a osodir ar Weinidogion Cymru gan nad yw'n glir beth yn union a olygir wrth adolygiad o weithrediad y Ddeddf. Er enghraifft, a yw hyn yn cynnwys gwelliannau a wneir i ddeddfiadau eraill gan y Ddeddf? Mae Adran 173, er enghraifft, yn cyflwyno trwy Atodlen 3 Rhan 2A a 2B newydd i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005; a ddylai'r adolygiad gyfeirio at hyn? Yn yr un modd, mae adran 177 yn diwygio adran 22 o Ddeddf Safonau Gofal 2000; a ddylai honno hefyd fod yn destun adolygiad? Nid yw'r gwelliant yn glir ar y pwynt hwn.

These are not minor points of detail that can be overlooked when considering this amendment. Ambiguity and inconsistency can lead to legal uncertainty. This has to be avoided if provisions in the Bill are to be applied with the correct intent and if duties and requirements placed on Ministers are to be clearly understood and acted upon. For the reasons that I have set out, I ask Members to reject amendment 118 and amendment 115, which is consequential to it.

Nid mân bwyntiau ynglŷn â'r manylion mo'r rhain, y gellir eu hanwybyddu wrth ystyried y gwelliant hwn. Gall amwysedd ac anghysondeb arwain at ansicrwydd cyfreithiol. Mae'n rhaid osgoi hynny er mwyn cymhwyso darpariaethau'r Bil â'r bwriad cywir ac er mwyn deall yn glir y dyletswyddau a'r gofynion a osodir ar Weinidogion a gweithredu arnynt. Am y rhesymau yr wyf wedi eu nodi, gofynnaf i'r Aelodau wrthod gwelliant 118 a gwelliant 115, sy'n ganlyniadol iddo.

I will now turn to amendment 119, which is also tabled by Kirsty Williams. This amendment aims to create a joint care and support reform panel, which would have a duty to inform the Welsh Ministers on an annual basis that it is satisfied as to whether sufficient funding is in place to ensure that social care is adequately funded and the provisions in the Act can be implemented satisfactorily. There are several issues associated with this amendment. First of all, the Welsh Local Government Association and the Association of Directors of Social Services—two of the proposed representatives—are not statutory bodies. This matters in terms of a provision that is to be placed on the face of primary legislation, because organisations with no statutory status can change how they are constituted, change their name or disband entirely at any point without the need for legislation. In contrast, changes to a statutory body can be made only by changes to the primary legislation under which they were established.

Trof yn awr at welliant 119, sydd hefyd wedi'i gyflwyno gan Kirsty Williams. Nod y gwelliant hwn yw creu panel diwygio gofal a chymorth ar y cyd, y byddai'n ddyletswydd arno i hysbysu Gweinidogion Cymru'n flynyddol ei fod yn fodlon ynghylch a oes digon o gyllid ar gael i sicrhau bod gofal cymdeithasol yn cael ei ariannu'n ddigonol ac y gellir gweithredu darpariaethau'r Ddeddf yn foddhaol. Mae nifer o faterion yn gysylltiedig â'r gwelliant hwn. Yn gyntaf oll, nid yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol—dau o'r cynrychiolwyr a gynigir—yn gyrff statudol. Mae hyn yn bwysig o ran darpariaeth a fydd yn cael ei gosod ar wyneb deddfwriaeth sylfaenol, oherwydd gallai sefydliadau heb ddim statws statudol newid y modd y cânt eu cyfansoddi, newid eu henw neu ddiddymu'r sefydliad yn gyfan gwbl ar unrhyw adeg heb fod angen deddfwriaeth. Ar y llaw arall, yr unig ffordd y gellir gwneud newidiadau i gorff statudol yw trwy wneud newidiadau i'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'u sefydlodd.

The amendment also suffers from a similar issue to amendment 118, which I have just responded to, namely that of ambiguity and lack of clarity. It is not entirely clear, for instance, what it meant by implementation in the context of this amendment. If it is legal implementation, this is simply a reference to the entire Act and relevant secondary legislation coming into force.

Mae'r gwelliant hefyd yn dioddef o rywbeth tebyg i welliant 118, yr wyf newydd ymateb iddo, sef bod amwysedd a diffyg eglurder. Nid yw'n hollol glir, er enghraifft, beth y mae gweithredu'n ei olygu yng nghyd-destun y gwelliant hwn. Os gweithredu cyfreithiol ydyw, mae hyn yn cyfeirio at y Ddeddf gyfan ac is-ddeddfwriaeth berthnasol a fydd yn dod i rym.

If it is about how the legal duties and powers in the Act operate in practice, however, this is a different issue. Later references to ongoing costs of implementation—a key aspect of the amendment—have no clear meaning, given this lack of clarity.

Fodd bynnag, os yw'n ymwneud â'r ffordd y mae'r dyletswyddau a'r pwerau cyfreithiol yn y Ddeddf yn gweithredu'n ymarferol, mae hynny'n fater gwahanol. Nid oes ystyr eglur i gyfeiriadau diweddarach at gostau parhaus eu rhoi ar waith— sy'n agwedd allweddol ar y gwelliant—o ystyried y diffyg eglurder.

For the reasons that I set out in responding to amendment 118, ambiguity in legal provisions is extremely undesirable. Other considerations necessary for the successful and effective operation of a panel are omitted from the amendment entirely. For instance, should the WLGA and/or ADSS refuse to provide any representative members as expected in the amendment, there appears to be no appropriate sanction. As regards funding, the amendment is silent as to who any additional members might be, whether its members can receive remuneration and allowances and only limited information about what should be contained in its annual report.

Am y rhesymau a nodais wrth ymateb i welliant 118, mae amwysedd yn y darpariaethau cyfreithiol yn hynod annymunol. Mae ystyriaethau eraill sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithredu panel yn llwyddiannus ac yn effeithiol wedi eu hepgor o'r gwelliant yn gyfan gwbl. Er enghraifft, pe byddai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a/neu Gymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwrthod darparu aelodau cynrychioliadol yn ôl y disgwyl yn y gwelliant, mae'n ymddangos nad oes unrhyw gosb briodol. O ran ariannu, nid yw'r gwelliant yn dweud pwy y gallai unrhyw aelodau ychwanegol fod, a gaiff yr aelodau dderbyn tâl a lwfansau a chyfyngedig yw'r wybodaeth am yr hyn y dylid ei gynnwys yn ei adroddiad blynyddol.

Where the need for a panel or board appears elsewhere in the Bill, these matters are specifically catered for through regulations. An example of this is section 127 and regulations relating to safeguarding boards. There is, however, no provision for regulations in relation to amendment 119.

Pan fo'r angen am banel neu fwrdd yn ymddangos mewn mannau eraill yn y Bil, mae darpariaeth benodol ar gyfer y materion hyn trwy reoliadau. Un enghraifft o hyn yw adran 127 a rheoliadau sy'n ymwneud â byrddau diogelu. Fodd bynnag, nid oes darpariaeth ar gyfer rheoliadau mewn perthynas â gwelliant 119.

Finally, I would like to focus on section 3, paragraph (c) of the amendment. This creates a duty for the short and medium term cost of setting the eligibility criteria in accordance with section 28 of the Bill to be an additional consideration in the statement by the panel once every five years. I believe sincerely that this is entirely unnecessary. All regulations, and particularly ones of this importance, would be subject to a detailed regulatory impact assessment setting out expected costs and burdens. Members will also recall that regulations to be made in relation to section 28 are to be subject to the superaffirmative procedure, following the agreement of an amendment by Kirsty Williams at an earlier stage of scrutiny. This procedure will provide greater scrutiny than the preparation of a statement every five years.

Yn olaf, hoffwn ganolbwyntio ar adran 3, paragraff (c) yn y gwelliant. Mae'n creu dyletswydd i gost tymor byr a chanolig pennu'r meini prawf cymhwystra'n unol ag adran 28 o'r Bil fod yn ystyriaeth ychwanegol yn y datganiad gan y panel unwaith bob pum mlynedd. Credaf yn ddiffuant fod hyn yn gwbl ddiangen. Byddai'r holl reoliadau, ac yn enwedig rhai mor bwysig â hyn, yn destun asesiad effaith rheoleiddiol manwl yn nodi'r costau a'r beichiau disgwyliedig. Bydd yr Aelodau hefyd yn cofio y bydd rheoliadau sydd i'w gwneud mewn perthynas ag adran 28 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn uwchgadarnhaol, yn sgîl derbyn gwelliant gan Kirsty Williams mewn cyfnod craffu cynharach. Bydd y weithdrefn hon yn darparu mwy o graffu na pharatoi datganiad bob pum mlynedd.

For all the reasons that I have just set out, I ask Members not to support amendment 119 and amendment 116, which is consequential to it.

Am yr holl resymau yr wyf newydd eu nodi, gofynnaf i'r Aelodau beidio â chefnogi gwelliant 119 a gwelliant 116, sy'n ganlyniadol iddo.

19:47 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

What is absolutely clear is that, while the Welsh Government is willing to be critical of the amendments that we have put forward, the Welsh Government has not tried to amend them nor has the Welsh Government come forward with any mechanism that ensures that there is adequate review of the impact of this legislation on the citizens of Wales. Given the fact that we do not know the detail of those regulations—we do not know how people are going to be affected—this was a safety net to ensure that there was an adequate review mechanism, and the Government has not come forward with any such safety net to review this legislation and the impact that it is having on our most vulnerable people. Given the fact that it is not in a position at the moment, because it claims that it has not worked out the policy detail yet, I am amazed that the Government has not decided to come forward with its own assurances that the impact of this legislation would be reviewed.

Yr hyn sy'n gwbl glir yw nad yw Llywodraeth Cymru, er ei bod yn barod i fod yn feirniadol ohonynt, wedi ceisio diwygio'r gwelliannau yr ydym wedi'u cyflwyno ac nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno unrhyw fecanwaith sy'n sicrhau bod digon o adolygu ar effaith y ddeddfwriaeth hon ar ddinasyddion Cymru. O ystyried nad ydym yn gwybod beth yw manylion y rheoliadau hynny—nid ydym yn gwybod sut y bydd yn effeithio ar bobl—roedd hyn yn rhwyd ddiogelwch er mwyn sicrhau bod mecanwaith adolygu digonol ar gael, ac nid yw'r Llywodraeth wedi cyflwyno rhwyd ddiogelwch o'r fath i adolygu'r ddeddfwriaeth hon a'r effaith y mae'n ei chael ar ein pobl fwyaf agored i niwed. O ystyried nad yw mewn sefyllfa i wneud hynny ar hyn o bryd, gan ei bod yn honni nad yw wedi gweithio allan fanylion y polisi eto, rwyf yn synnu nad yw'r Llywodraeth wedi penderfynu darparu ei sicrwydd ei hun y bydd effaith y ddeddfwriaeth hon yn cael ei hadolygu.

What we do know also is, again, whatever the shortcomings of amendment 119, it is the only attempt that has been made to try to ensure that there is adequate resourcing for this particular policy. I feel that that is particularly important, given the lack of evidence that there is to support the Deputy Minister's assertions that this legislation is cost-neutral, and the Government's own admittance in its regulatory impact assessment that it cannot make any substantive claims about costs and benefits because the detail of the policy is not there. This would give an opportunity for people outside of Government to give an assessment on whether social services are adequately funded, and whether the terms and conditions within this Bill are adequately funded. As I said, the Government is quick to criticise the contents and wording of this amendment, but it has not been quick either to amend them or to come forward with alternative proposals to assure this Assembly, and, more importantly, to assure the people of Wales, that there are adequate review mechanisms for the impact of this Bill and for the financing of it.

Yr hyn yr ydym yn ei wybod hefyd, unwaith eto, beth bynnag fo diffygion gwelliant 119, yw mai dyma'r unig ymgais a wnaed i geisio sicrhau bod adnoddau digonol ar gyfer y polisi penodol hwn. Rwyf o'r farn bod hynny'n arbennig o bwysig, ac ystyried prinder y dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi honiadau'r Dirprwy Weinidog fod y ddeddfwriaeth hon yn niwtral o ran cost, a chyfaddefiad y Llywodraeth ei hun yn ei hasesiad effaith rheoleiddiol na all wneud unrhyw ddatganiadau sylweddol am gostau a buddion gan nad yw manylion y polisi yno. Byddai hyn yn rhoi cyfle i bobl y tu allan i'r Llywodraeth i asesu a yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hariannu'n ddigonol, ac a yw'r telerau a'r amodau yn y Bil hwn yn cael eu hariannu'n ddigonol. Fel y dywedais, mae'r Llywodraeth yn barod ei beirniadaeth ar gynnwys a geiriad y gwelliant hwn, ond nid yw wedi bod yn barod i gyflwyno gwelliannau iddo na chynigion eraill i roi sicrwydd i'r Cynulliad hwn, ac, yn bwysig, i roi sicrwydd i bobl Cymru, fod mecanweithiau adolygu digonol ar gael ar gyfer effaith y Bil hwn ac ar gyfer ei ariannu.

19:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 118 is not agreed, amendment 115 falls. The question is that amendment 118 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we will have an electronic vote.

Os na dderbynnir gwelliant 118, mae gwelliant 115 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 118. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly cawn bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 118.

Result of the vote on amendment 118.

*Gwrthodwyd gwelliant 118: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment 118 not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

19:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Kirsty Williams to move amendment 119.

Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliant 119.

19:50 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 119 in my name.

Cynigiaf welliant 119 yn fy enw i.

19:50 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 119 is not agreed, amendment 116 falls. The question is that amendment 119 be agreed to. Does any Member object? There is objection, so we move to an electronic vote.

Os na dderbynnir gwelliant 119, mae gwelliant 116 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 119. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly symudwn at bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 119.

Result of the vote on amendment 119.

*Gwrthodwyd gwelliant 119: O blaid 29, Yn erbyn 29, Ymatal 0.*

*Amendment 119 not agreed: For 29, Against 29, Abstain 0.*

*Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant.*

*As required by Standing Order 6.20, the Deputy Presiding Officer exercised his casting vote by voting against the amendment.*

## Grŵp 29: Adolygiad o'r Galw yn y Dyfodol am Ofal Iechyd a Chymdeithasol (Gwelliannau 120 a 117)

## Group 29: Review of Future Demand for Social Care and Health Care (Amendments 120 and 117)

19:51 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 120. I call on Kirsty Williams to move amendment 120 and to speak to it and the other amendment in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 120. Galwaf ar Kirsty Williams i gynnig gwelliant 120 ac i siarad amdano a'r gwelliant arall yn y grŵp.

19:51 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 120 in my name.

Cynigiaf welliant 120 yn fy enw i.

Thank you, Deputy Presiding Officer. The rationale for introducing this legislation, the Government says, is the unprecedented level of demand it anticipates being placed on social services as we move forward. We have an ageing population, increased expectations from the public, as well as a situation where public expenditure may continue to be difficult. Those are the reasons why the Government says it needs to bring forward this legislation. Those challenges, I believe, are not ones that are going to go away. What this amendment seeks to do is ensure that there is an independent review of future demand for social care and healthcare to help us plan for those services in advance. A number of years ago, the then Health and Social Services Committee carried out a review of residential care. What we discovered during that review is that we are particularly poor at horizon scanning and planning at a local and national level for the commissioning of services we will need in the medium to long term. We are particularly poor at doing that. What we know from the Australian example is that, where there is a focus on horizon scanning, that stimulates and allows for better planning of services such as residential care and so on. I think that we have not been particularly good at doing that in Wales, and this creates a mechanism to formalise that so that we have an independent review of our future needs so that we can plan for and commission those services to meet the needs of that changing population. In essence, Deputy Presiding Officer, this is a horizon-scanning amendment so that we can adequately plan, perhaps in a way we have failed to do in the past, for the changing population and demographics of our society, which, potentially, as we know, will put greater demands on our social care system.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Y sail resymegol dros gyflwyno'r ddeddfwriaeth hon, yn ôl y Llywodraeth, yw'r lefel ddigynsail o alw y mae'n ei rhagweld ar wasanaethau cymdeithasol wrth inni symud ymlaen. Mae gennym boblogaeth sy'n heneiddio, disgwyliadau uwch ymhlith y cyhoedd, yn ogystal â sefyllfa lle y gallai gwariant cyhoeddus barhau i fod yn anodd. Dyna'r rhesymau pam y mae'r Llywodraeth yn dweud bod angen cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon. Yn fy marn i, nid yw'r heriau hyn yn mynd i ddiflannu. Yr hyn y mae'r gwelliant hwn yn ceisio ei wneud yw sicrhau adolygiad annibynnol o'r galw am ofal cymdeithasol a gofal iechyd yn y dyfodol i'n helpu i gynllunio ar gyfer y gwasanaethau hynny ymlaen llaw. Rai blynyddoedd yn ôl, cynhaliodd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd adolygiad o ofal preswyl. Yr hyn a welwyd yn ystod yr adolygiad hwnnw yw ein bod yn arbennig o wael am sganio'r gorwel a chynllunio ar lefel leol a chenedlaethol o ran comisiynu gwasanaethau a fydd yn angenrheidiol yn y tymor canolig i'r tymor hir. Rydym yn arbennig o wael am wneud hynny. Yr hyn a wyddom o enghraifft Awstralia yw, lle ceir pwyslais ar sganio'r dyfodol, fod hynny'n ysgogi ac yn caniatáu ar gyfer cynllunio gwasanaethau megis gofal preswyl ac yn y blaen yn well. Nid wyf yn meddwl ein bod wedi bod yn arbennig o dda am wneud hynny yng Nghymru, ac mae hyn yn creu mecanwaith i ffurfioli hynny er mwyn cynnal adolygiad annibynnol o'n hanghenion yn y dyfodol fel y gallwn gynllunio a chomisiynu'r gwasanaethau hynny i fodloni anghenion y boblogaeth honno wrth iddi newid. Yn ei hanfod, Ddirprwy Lywydd, gwelliant yw hwn sy'n edrych tua'r dyfodol fel y gallwn gynllunio'n ddigonol, efallai mewn ffordd yr ydym wedi methu â'i gwneud yn y gorffennol, ar gyfer poblogaeth a demograffeg ein cymdeithas wrth iddynt newid, a fydd, o bosibl, fel y gwyddom, yn rhoi mwy o bwysau ar ein system gofal cymdeithasol.

19:54

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I will focus my response on amendment 120, which is the lead amendment in this group. Amendment 117 is consequential to it and simply seeks to update the overview of the Bill at section 1. I have a number of issues with amendment 120. First, as Members will know, the Welsh Ministers already have powers under sections 60 and 71 of the Government of Wales Act 2006 to establish such a review, should it be considered necessary. We have taken similar action before in the form of the review undertaken by the independent commission on the future of social care in 2010. We did that using the broad powers under the Government of Wales Act 2006 without having to rely on any express provision in other primary legislation. Using powers under the Government of Wales Act 2006 also allows the Welsh Ministers to set the terms of any review in accordance with the scope and remit that is necessary at any particular time and in order to get the best possible result.

Rwyf am ganolbwyntio yn fy ymateb ar welliant 120, sef y prif welliant yn y grŵp hwn. Mae gwelliant 117 yn ganlyniadol iddo ac yn ceisio diweddaru'r trosolwg ar y Bil yn adran 1. Yn fy marn i, mae nifer o faterion yn ymwneud â gwelliant 120. Yn gyntaf, fel y gŵyr yr Aelodau, mae gan Weinidogion Cymru eisoes bwerau o dan adrannau 60 a 71 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i sefydlu adolygiad o'r fath, pe ystyrid bod angen gwneud hynny. Rydym wedi cymryd camau tebyg o'r blaen â'r adolygiad a gynhaliwyd gan y comisiwn annibynnol ar ddyfodol gofal cymdeithasol yn 2010. Gwnaethom hynny gan ddefnyddio'r pwerau eang dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 heb orfod dibynnu ar unrhyw ddarpariaeth datganedig mewn deddfwriaeth sylfaenol arall. Mae defnyddio pwerau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu telerau unrhyw adolygiad yn unol â'r cwmpas a'r cylch gwaith sy'n angenrheidiol ar unrhyw adeg benodol ac er mwyn cael y canlyniad gorau posibl.

This leads me to my second issue with the amendment. By seeking to include public health and healthcare services in the remit of the review, the amendment goes beyond the scope of this Bill. While I fully understand why the amendment includes health, to extend the scope of the Bill at this late stage places requirements in relation to health and healthcare organisations that have not been considered, or discussed, in any detail.

Mae hyn yn dod â mi at yr ail fater sy'n ymwneud â'r gwelliant. Drwy geisio cynnwys gwasanaethau gofal iechyd ac iechyd cyhoeddus yng nghylch gwaith yr adolygiad, mae'r gwelliant yn mynd tu hwnt i gwmpas y Bil hwn. Er fy mod yn deall yn llwyr pam y mae'r gwelliant yn cynnwys iechyd, mae estyn cwmpas y Bil mor hwyr â hyn yn gosod gofynion mewn perthynas â sefydliadau iechyd a gofal iechyd nad ydynt wedi cael eu hystyried, na'u trafod, yn fanwl.

There are also a number of aspects of the drafting that lack clarity. Subsection (1) also refers to the fact that the independent review must report on the likely demand for social care, public health and healthcare services in Wales over 'the next 20 years'. It is unclear when the 20 years run from. Would this be from Royal Assent, or from the commencement of this provision?

Mae hefyd nifer o agweddau ar y drafftio nad ydynt yn glir iawn. Mae is-adran (1) hefyd yn cyfeirio at y ffaith bod yn rhaid i'r adolygiad annibynnol adrodd ar y galw tebygol am wasanaethau gofal cymdeithasol, iechyd cyhoeddus a gofal iechyd yng Nghymru dros 'yr ugain mlynedd nesaf'. Nid yw'n glir pryd fydd yr 20 mlynedd yn dechrau. A fyddai'n dechrau ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, neu ar ôl cychwyn y ddarpariaeth hon?

The amendment also provides a distinction between 'public health' and 'healthcare services'. It is not clear what the distinction here is, however, and it could be assumed that 'healthcare services' would include private as well as public health services. I doubt that that is the intention. The reference to the fact that the arrangements for the review must provide for 'a fully integrated modelling' has no clear legal meaning, again leaving the legal intention unclear.

Mae'r gwelliant hefyd yn gwahaniaethu rhwng 'gwasanaethau gofal iechyd' ac 'iechyd cyhoeddus'. Nid yw'n glir beth yw'r gwahaniaeth yma, fodd bynnag, a gellid tybio y byddai 'gwasanaethau gofal iechyd' yn cynnwys gwasanaethau iechyd preifat yn ogystal â rhai cyhoeddus. Rwyf yn amau ai dyna'r bwriad. Nid oes ystyr gyfreithiol glir i'r cyfeiriad at y ffaith bod yn rhaid i'r trefniadau ar gyfer cynnal adolygiad gynnwys 'darpariaeth ar gyfer modelu a dadansoddi iechyd a gofal cymdeithasol yn gwbl integredig', sydd eto'n golygu bod y bwriad cyfreithiol yn aneglur.

Such a lack of clarity in key areas creates legal uncertainty. As I said when we debated the previous group, this uncertainty has to be avoided if provisions in the Bill are to be applied with the correct intent and if duties and requirements placed on Ministers are to be clearly understood and acted upon.

Mae diffyg eglurder o'r fath mewn meysydd allweddol yn creu ansicrwydd cyfreithiol. Fel y dywedais pan drafodwyd y grŵp blaenorol, mae'n rhaid osgoi'r ansicrwydd hwn er mwyn cymhwyso'r darpariaethau yn y Bil â'r bwriad cywir ac er mwyn deall yn glir y dyletswyddau a'r gofynion a osodir ar Weinidogion a gweithredu arnynt.

A further issue with the amendment is in relation to the way in which its remit is constructed. The amendment requires any such review to identify the

Mae mater arall ynghylch y gwelliant yn ymwneud â ffurf ei gylch gwaith. Mae'r gwelliant yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw adolygiad o'r fath nodi'r

'key factors determining the financial and other resources required to ensure that social care and health functions as a cost effective, high quality, equitable, integrated and sustainable single system'.

'ffactorau allweddol sy'n pennu'r adnoddau ariannol ac adnoddau eraill sydd eu hangen i sicrhau bod gofal cymdeithasol ac iechyd yn gweithredu fel un system gosteffeithiol, safon uchel, teg, integredig a chynaliadwy'.

Cost-effective, high-quality, integrated and sustainable services are, of course, something that we will all agree are necessary. There is alignment here with the policy aims of the Bill. However, the amendment goes beyond this, by referring to health and social care as a 'single system'. My issue with this is not just a matter of semantics. While I fully support greater integration, and believe that the Bill will be instrumental in achieving this, to consider the operation of health and social care in Wales as a single system in statute is problematic in the context of this amendment.

Mae gwasanaethau costeffeithiol, o safon uchel, integredig a chynaliadwy, wrth gwrs, yn rhywbeth y byddwn i gyd yn cytuno sy'n angenrheidiol. Mae hyn yn cyd-fynd ag amcanion polisi'r Bil. Fodd bynnag, mae'r gwelliant yn mynd tu hwnt i hynny, drwy gyfeirio at iechyd a gofal cymdeithasol fel 'un system'. Nid mater o semanteg yn unig yw fy mhroblem â hyn. Er fy mod yn llwyr gefnogi mwy o integreiddio, ac yn credu y bydd y Bil yn allweddol i gyflawni hyn, mae ystyried gweithredu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru fel un system mewn statud yn broblem yng nghyd-destun y gwelliant hwn.

This is because, in seeking to establish the cost-effectiveness, quality and sustainability of the system, the review would have to consider matters that are within the determination of local authorities in accordance with local priorities.

Mae hyn oherwydd y byddai'n rhaid i'r adolygiad, wrth geisio sefydlu cost-effeithiolrwydd, ansawdd a chynaliadwyedd y system, ystyried materion sydd yn benderfyniadau i awdurdodau lleol yn unol â blaenoriaethau lleol.

For instance, how services are aligned to meet the needs of a local population, and how access can be determined to meet that need, as required by section 2(d) of the proposed amendment, would differ greatly between local authority areas. So, too, would

Er enghraifft, sut y mae gwasanaethau'n cael eu cydblethu i fodloni anghenion y boblogaeth leol, a sut y gellir penderfynu ar fynediad er mwyn diwallu'r angen hwnnw, fel sy'n ofynnol dan adran 2(d) y gwelliant arfaethedig, a fyddai'n wahanol iawn rhwng ardaloedd awdurdodau lleol. Felly, hefyd, byddai'r

'the appropriate balance between different types of intervention'

'cydbwysedd priodol rhwng y gwahanol fathau o ymyrraeth'

as required by section 3(b). I feel therefore that the way in which the type of review would need to be carried out is overly complex—to the degree that the ability of any such review to achieve the desired aim of determining future demand is, at best, questionable. As a duty, it would nevertheless have to be followed.

fel sy'n ofynnol dan adran 3(b). Rwyf o'r farn felly bod y ffordd y byddai angen cynnal y math o adolygiad yn rhy gymhleth—i'r graddau bod gallu unrhyw adolygiad o'r fath i gyrraedd y nod a ddymunir o benderfynu ar alw yn y dyfodol, ar y gorau, yn amheus. Fel dyletswydd, byddai'n rhaid gwneud hynny serch hynny.

The complexity of this picture, coupled with the lack of clarity in the drafting of the amendment support, I feel, my earlier argument in relation to existing Government of Wales Act powers. These powers allow for the Welsh Ministers to set out the terms of a review in as much detail as required, to work with all parties and with all stakeholders in doing so, and to time the undertaking and completion of a report in accordance with the priorities of that time.

Mae cymhlethdod y darlun hwn, ynghyd â diffyg eglurder wrth ddrafftio'r gwelliant, yn fy marn i, yn cefnogi fy nadl gynharach mewn perthynas â phwerau presennol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru. Mae'r pwerau hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu telerau adolygiad mor fanwl ag sy'n ofynnol, i gydweithio â phob parti a'r holl randdeiliaid wrth wneud hynny, ac i amseru'r gwaith o lunio adroddiad yn unol â'r blaenoriaethau ar y pryd.

Unlike the review that would result from the acceptance of this amendment, action under the Government of Wales Act is not fettered by pre-existing requirements in relation to time and scope. In summary, then, we already have the powers to conduct the type of review proposed by this amendment; the amendment itself goes beyond the scope of the Bill; its drafting suffers from a lack of legal clarity; and the proposed approach of the review is overly complex and not necessarily the one that the Assembly would wish to take. I therefore ask Members not to support amendments 120 and 117.

Yn wahanol i'r adolygiad a fyddai'n deillio o dderbyn y gwelliant hwn, nid yw gweithredu o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru yn cael ei lesteirio gan ofynion sydd eisoes yn bodoli o ran amser a chwmpas. I grynhoi, felly, mae gennym eisoes bwerau i gynnal y math o adolygiad a gynigir gan y gwelliant hwn; mae'r gwelliant ei hun yn mynd y tu hwnt i gwmpas y Bil; mae diffyg eglurder cyfreithiol yn y drafftio; ac mae ymagwedd arfaethedig yr adolygiad yn rhy gymhleth ac nid yw o reidrwydd yr un y byddai'r Cynulliad yn dymuno ei defnyddio. Felly, gofynnaf i'r Aelodau beidio â chefnogi gwelliannau 120 a 117.

20:00

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Minister for her reply. I would like to respond to those points. There is a difference between Welsh Ministers having the power under the Government of Wales Act to carry out a review and Ministers being mandated to do so by a requirement on the face of this legislation. The Deputy Minister says that this extends the scope of the Bill. Well, the Bill already covers local health boards and the requirements on local health boards anyway, so the healthcare system is already included within the scope of this Bill. The Deputy Minister then says that it is important to understand why there is a distinction between public health and other healthcare. What we know is that the Deputy Minister has placed great store on preventative services within this Bill. Public health has a huge role to play in preventative services. I therefore felt that it was very important to have a specific mention of public health. The Deputy Minister says that, by talking about other healthcare providers, that may include the private sector. Well, Deputy Minister, we rely on the private sector to deliver healthcare and social care in Wales. We rely on the private sector outside of Wales to do that, and we rely on the private sector to deliver healthcare services, day in, day out, for some of our most vulnerable citizens. Without the private sector, particularly in the field of complex mental health, we would not have services to send people to and to have help from. Therefore, to suddenly say, 'Hang on a minute. This planning might require us to look at the private sector'—well, it should, because we are already reliant on some of those private sector services.

Diolch i'r Gweinidog am ei hateb. Hoffwn ymateb i'r pwyntiau hynny. Mae gwahaniaeth rhwng y ffaith bod gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru i gynnal adolygiad a rheidrwydd ar Weinidogion i wneud hynny drwy ofyniad ar wyneb y ddeddfwriaeth hon. Mae'r Dirprwy Weinidog yn dweud bod hyn yn estyn cwmpas y Bil. Wel, mae'r Bil eisoes yn cwmpasu byrddau iechyd lleol a'r gofynion ar fyrddau iechyd lleol beth bynnag, felly mae'r system gofal iechyd eisoes wedi ei chynnwys o fewn cwmpas y Bil hwn. Dywed y Dirprwy Weinidog wedyn ei bod yn bwysig deall pam fo gwahaniaeth rhwng iechyd cyhoeddus a mathau eraill o ofal iechyd. Yr hyn a wyddom yw bod y Dirprwy Weinidog wedi rhoi pwys mawr ar wasanaethau ataliol o fewn y Bil hwn. Mae gan iechyd cyhoeddus ran enfawr i'w chwarae mewn gwasanaethau ataliol. Felly, rwyf o'r farn ei bod yn bwysig iawn sôn yn benodol am iechyd cyhoeddus. Dywed y Dirprwy Weinidog y gallai sôn am ddarparwyr gofal iechyd eraill gynnwys y sector preifat. Wel, Ddirprwy Weinidog, rydym yn dibynnu ar y sector preifat i ddarparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydym yn dibynnu ar y sector preifat y tu allan i Gymru i wneud hynny, ac rydym yn dibynnu ar y sector preifat i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd, ddydd ar ôl dydd, i rai o'n dinasyddion mwyaf agored i niwed. Heb y sector preifat, yn enwedig ym maes iechyd meddwl cymhleth, ni fyddai gennym wasanaethau i anfon pobl atynt ac i gael cymorth ganddynt. Felly, mae dweud yn sydyn, 'Arhoswch funud. Gallai'r cynlluniau hyn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried y sector preifat'—wel, dylai wneud hynny, oherwydd ein bod eisoes yn dibynnu ar rai o'r gwasanaethau hynny yn y sector preifat.

I do not care, to be honest, when the review is carried out—whether it is from Royal Assent or commencement. I just want the Government to take this matter seriously, to have a proactive look at the kind of health and social care provision that our people are going to need over the next 20 years, and to be prepared to plan for it and to be able to commission and deliver it. If the Deputy Minister is saying that she is going to do that, then I welcome that very much indeed. However, at the moment, based on the stance that the Deputy Minister has taken, the Government has no such intention to be proactive in trying to ascertain what our services need to look like if we are to meet the demands and changes of a population that is growing ever older, with all the challenges that that is going to bring in terms of health and social care. We can begin to prepare local authorities, the health services and, indeed, the private sector, if necessary, to be able to start to plan for those services, so that we can provide for people. It will not be me standing here in 20 years' time. It will be someone else standing here in 20 years' time. I do not want them to be here bemoaning the fact that we do not have services that can respond to the needs of Welsh people because we did not take the steps here to make plans to look at that, and to make those plans now. It will be too late then, and people will be suffering from a lack of services. I am amazed that the Deputy Minister finds this so threatening that she cannot agree to accept this amendment, or at least agree to carry out such a review, even if she cannot put in on the face of the Bill.

A dweud y gwir, nid oes ots gennyf pryd y bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal—os yw hynny ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol neu adeg ei gychwyn. Rwyf am i'r Llywodraeth ystyried y mater hwn o ddifrif, edrych yn rhagweithiol ar y math o ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol y bydd ei angen ar ein pobl dros yr 20 mlynedd nesaf, a bod yn barod i gynllunio ar ei gyfer a gallu ei gomisiynu a'i roi ar waith. Os yw'r Dirprwy Weinidog yn dweud ei bod yn mynd i wneud hynny, rwyf yn croesawu hynny'n fawr iawn. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, ar sail safbwynt y Dirprwy Weinidog, nid oes gan y Llywodraeth unrhyw fwriad i fod yn rhagweithiol wrth geisio cael gwybod sut wasanaethau sydd eu hangen arnom os ydym am fodloni gofynion a newidiadau poblogaeth sy'n heneiddio o hyd, a'r holl heriau y bydd hynny'n eu cyflwyno o ran iechyd a gofal cymdeithasol. Gallwn ddechrau paratoi awdurdodau lleol, y gwasanaethau iechyd ac, yn wir, y sector preifat, os oes angen, i allu dechrau cynllunio ar gyfer y gwasanaethau hynny, a gallu darparu ar gyfer pobl. Nid fi fydd yn sefyll yma ymhen 20 mlynedd. Rhywun arall fydd yn sefyll yma ymhen 20 mlynedd. Nid wyf am iddynt fod yma'n cwyno am y ffaith nad oes gennym wasanaethau sy'n gallu ymateb i anghenion pobl Cymru am nad oeddem wedi cymryd y camau yma i gynllunio i edrych ar hynny, ac i wneud y cynlluniau hynny yn awr. Bydd yn rhy hwyr erbyn hynny, a bydd pobl yn dioddef o ddiffyg gwasanaethau. Rwyf yn synnu bod y Dirprwy Weinidog yn gweld hyn yn gymaint o fygythiad fel na all gytuno i dderbyn y gwelliant hwn, neu o leiaf gytuno i gynnal adolygiad o'r fath, hyd yn oed os na all ei roi ar wyneb y Bil.

20:03

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

If amendment 120 is not agreed, amendment 117 falls. The question is that amendment 120 be agreed to. Does any Member object? There is objection, therefore we will have an electronic vote.

Os na dderbynnir gwelliant 120, mae gwelliant 117 yn methu. Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 120. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly cawn bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar welliant 120.

Result of the vote on amendment 120.

*Gwrthodwyd gwelliant 120: O blaid 16, Yn erbyn 42, Ymatal 0.*

*Amendment 120 not agreed: For 16, Against 42, Abstain 0.*

*Methodd gwelliannau 105 a 111.*

*Amendments 105 and 111 fell.*

### Grŵp 30: Dehongli Cyffredinol a Mynegai o Ymadroddion a Ddiffiniwyd (Gwelliannau 92, 93, 96 a 95)

### Group 30: General Interpretation and Index of Defined Expressions (Amendments 92, 93, 96 and 95)

20:04

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The lead amendment in the group is amendment 92. I call on the Deputy Minister to move amendment 92 and to speak to it and the other amendments in the group.

Y prif welliant yn y grŵp yw gwelliant 92. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 92 ac i siarad amdano a'r gwelliannau eraill yn y grŵp.

20:04

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 92 in my name.

Cynigiaf welliant 92 yn fy enw i.

Amendment 92 clarifies the definition of abuse in relation to institutional abuse, following the agreement of amendment 85, tabled by William Graham during Stage 3 proceedings. This amendment seeks to clarify the intended effect of William Graham's original amendment, in that any form of abuse listed within the definition should be considered as such, regardless of whether it occurs in the home, in an institutional setting, such as a residential care home, or any other place.

Mae gwelliant 92 yn egluro'r diffiniad o gam-drin mewn perthynas â cham-drin sefydliadol, yn sgîl derbyn gwelliant 85, a gyflwynwyd gan William Graham yn ystod trafodion Cyfnod 3. Mae'r gwelliant hwn yn ceisio egluro'r effaith a fwriedir gan welliant gwreiddiol William Graham, sef y dylai unrhyw fath o gam-drin a restrir yn y diffiniad gael ei ystyried fel y cyfryw, boed yn digwydd yn y cartref, mewn lleoliad sefydliadol, megis cartref gofal preswyl, neu yn unrhyw fan arall.

Amendment 93 again seeks to clarify the intended effect of William Graham's original amendment 94, which was agreed at Stage 3 and inserted a definition of neglect within section 191 of the Bill. This amendment refines the language of the inserted definition, by placing wellbeing in a more prominent position in relation to the description of impairment. It also ensures that, while the impairment of health relates to persons of any age, the impairment of development relates to children only. These changes ensure that the definition is clear and sufficiently broad in that it refers to an impairment of any of the factors listed within the meaning of wellbeing under section 2 of the Bill, while also continuing to give specific reference to health and development in the correct contexts.

Mae gwelliant 93 yn ceisio egluro unwaith eto yr effaith a fwriedir gan welliant 94 gwreiddiol William Graham, a dderbyniwyd yng Nghyfnod 3 ac a oedd yn mewnosod diffiniad o esgeulustod yn adran 191 o'r Bil. Mae'r gwelliant hwn yn mireinio iaith y diffiniad a fewnosodwyd, drwy roi lle mwy amlwg i lesiant mewn perthynas â'r disgrifiad o amharu. Mae hefyd yn sicrhau, er bod amharu ar iechyd yn ymwneud â phobl o bob oed, fod amharu ar ddatblygiad yn ymwneud â phlant yn unig. Mae'r newidiadau hyn yn sicrhau bod y diffiniad yn glir ac yn ddigon eang gan ei fod yn cyfeirio at amharu ar unrhyw un o'r ffactorau a restrir o fewn ystyr llesiant o dan adran 2 o'r Bil, ond yn parhau i gyfeirio'n benodol at iechyd a datblygiad yn y cyd-destunau cywir.

Amendments 95 and 96 are minor technical amendments. I urge Members to support all of these amendments.

Mân welliannau technegol yw gwelliannau 95 a 96. Anogaf yr Aelodau i gefnogi pob un o'r gwelliannau hyn.

20:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no speakers, therefore the question is that amendment 92 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 92 is agreed.

Nid oes gennyf siaradwyr, felly y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 92. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 92 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 92 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 92 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 93.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 93.

20:06

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 93 in my name.

Cynigiaf welliant 93 yn fy enw i.

20:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 93 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 93 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 93. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 93 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 93 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 93 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 94.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 94.

20:06

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I agree. [Laughter.] I move amendment 94 in my name.

Yr wyf yn cytuno. [Chwerthin.] Cynigiaf welliant 94 yn fy enw i.

20:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I beg your pardon, I have jumped an amendment; they are not in sequential order.

Mae'n ddrwg gennyf, rwyf wedi hepgor gwelliant, nid ydynt yn dilyn yn eu trefn.

I call on the Deputy Minister to move amendment 96.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 96.

20:07 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 96 in my name.

Cynigiaf welliant 96 yn fy enw i.

20:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 96 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 96 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 96. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 96 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 96 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 96 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 94.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 94.

20:07 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 94 in my name.

Cynigiaf welliant 94 yn fy enw i.

20:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 94 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 94 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 94. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 94 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 94 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 94 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

20:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 95.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 95.

20:07 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 95 in my name.

Cynigiaf welliant 95 yn fy enw i.

20:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 95 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 95 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 95. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 95 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 95 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 95 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Methodd gwelliant 107.*

*Amendment 107 fell.*

20:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I call on the Deputy Minister to move amendment 10.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i gynnig gwelliant 10.

20:08 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography — Senedd.tv Fideo Video

I move amendment 10 in my name.

Cynigiaf welliant 10 yn fy enw i.

20:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The question is that amendment 10 be agreed to. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 10 is agreed.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn gwelliant 10. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly mae gwelliant 10 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 10 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 10 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Methodd gwelliannau 115, 116 a 117.*

*Amendments 115, 116 and 117 fell.*

20:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We have reached the end of our Report Stage consideration of the Social Services and Well-being (Wales) Bill. I declare that all sections of and Schedules to the Bill are deemed agreed. That concludes Report Stage proceedings.

Yr ydym wedi dod i ddiwedd ein hystyriaeth o Gyfnod Adrodd Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Rwyf yn datgan y bernir bod pob adran ac Atodlen i'r Bil wedi eu derbyn. Dyna ddiwedd trafodion y Cyfnod Adrodd.

## Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i Gymeradwyo'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Cynnig

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 26.47, yn cymeradwyo'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

## Stage 4 Standing Order 26.47 Motion to Approve the Social Services and Well-Being (Wales) Bill

Motion

The National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order No. 26.47, approves the Social Services and Well-Being (Wales) Bill.

20:08 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

*Y Diprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services*

Senedd.tv Fideo Video

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I have great pleasure in moving the motion and I am delighted that we have reached this final stage of the Social Services and Well-being (Wales) Bill today. This is the culmination of a significant journey that started with the report of the independent commission on the future of social services in Wales in 2010 and shortly afterwards the launch of 'Sustainable Social Services for Wales: A Framework for Action'. Throughout its passage, this landmark Bill has been subject to robust scrutiny. We have listened, debated at length and dealt with over 1,000 amendments. The Bill is all the stronger for it.

Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno'r cynnig ac rwyf wrth fy modd ein bod wedi cyrraedd y cam olaf hwn o Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) heddiw. Mae hyn yn golygu ein bod wedi cyrraedd diwedd taith arwyddocaol a ddechreuodd gydag adroddiad y comisiwn annibynnol ar ddyfodol gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru yn 2010, a lansio 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith ar gyfer Gweithredu' yn fuan wedyn. Drwy gydol ei daith, mae'r Bil pwysig hwn wedi bod yn destun craffu cadarn. Rydym wedi gwrando, trafod yn helaeth ac ymdrin â thros 1,000 o ddiwygiadau. Mae'r Bil hyd yn oed yn gryfach o'r herwydd.

I have said many times that this is a Bill for people and about people. At its heart is a strong focus on individual rights. We have pushed the boundaries of our children's rights agenda through our amendments to give equal consideration to the views of mature children, for example. We have put the protection of adults on to a firm statutory footing and provided for strong national leadership of safeguarding for people.

Rwyf wedi dweud sawl gwaith bod hwn yn Fil i bobl ac yn ymwneud â phobl. Wrth ei wraidd, ceir pwyslais cryf ar hawliau unigol. Rydym ni wedi gwthio ffiniau agenda hawliau ein plant trwy ein gwelliannau i roi ystyriaeth gyfartal i farn plant aeddfed, er enghraifft. Rydym ni wedi rhoi amddiffyn oedolion ar sail statudol gadarn ac wedi darparu ar gyfer arweinyddiaeth genedlaethol gref o fesurau diogelu i bobl.

We have legislated for an outcomes framework that will focus on the outcomes that matter to people, not just the system inputs. These are just part of the transformational framework that, together, we have created for social services in Wales.

Rydym ni wedi deddfu ar gyfer fframwaith canlyniadau a fydd yn canolbwyntio ar y canlyniadau sy'n bwysig i bobl, nid dim ond mewnbwn i systemau. Dim ond rhan o'r fframwaith trawsnewidiol yw'r rhain yr ydym, gyda'n gilydd, wedi eu creu ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

I hope, Deputy Presiding Officer, that you will indulge me as I thank those who have contributed to the development of this Bill. I would like to begin by thanking all of my officials, past and present, for their work in supporting me to deliver this Bill. These include my specialist policy adviser and my private office. I would also like to thank the Assembly Commission staff who have dealt effectively with the significant degree of scrutiny that a Bill of this size should rightly be subject to. I am also very aware of the role that our stakeholders have played, both directly in giving evidence to committee at Stage 1 and in working alongside my officials to give practical knowledge and advice on emerging drafts. These include the commissioners for children, older people and the Welsh language. I am indebted also to the children and young people who worked with us in the development of the Bill consultation proposals in spring 2012 and to organisations such as the Wales Council for Voluntary Action and Children in Wales, which hosted events designed to bring user perspective to the emerging legislative framework. It would be remiss of me not to mention my partnership forum, which includes elected representatives from all political parties, and the social services leadership group for their support as the Bill has moved from drawing board to reality.

Rwy'n gobeithio, Ddirprwy Lywydd, y gwnewch chi ganiatáu i mi ddiolch i'r rhai sydd wedi cyfrannu at ddatblygiad y Bil hwn. Hoffwn ddechrau trwy ddiolch i fy holl swyddogion, yn y gorffennol a'r presennol, am eu gwaith yn fy nghefnogi i gyflwyno'r Bil hwn. Mae'r rhain yn cynnwys fy nghynghorydd polisi arbenigol a fy swyddfa breifat. Hoffwn ddiolch hefyd i aelodau staff Comisiwn y Cynulliad sydd wedi ymdrin yn effeithiol gyda'r gwaith craffu sylweddol raffu y mae'n briodol i Bil o'r maint hwn fod yn destun iddo. Rwyf hefyd yn ymwybodol iawn o'r swyddogaeth y mae ein rhanddeiliaid wedi ei chyflawni, yn uniongyrchol wrth roi tystiolaeth i'r pwyllgor yn ystod Cyfnod 1 ac wrth weithio ochr yn ochr â'm swyddogion i roi gwybodaeth a chyngor ymarferol ar ddrafftiau newydd. Mae'r rhain yn cynnwys y comisiynwyr ar gyfer plant, pobl hŷn a'r iaith Gymraeg. Rwy'n ddyledus hefyd i'r plant a'r bobl ifanc a weithiodd gyda ni yn y gwaith o ddatblygu cynigion ymgynghori'r Bil yn ystod gwanwyn 2012 ac i sefydliadau fel Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Phlant yng Nghymru, a gynhaliodd ddigwyddiadau a oedd â'r nod o gynnig safbwynt y defnyddiwr i'r fframwaith deddfwriaethol newydd. Byddai'n esgeulus i mi beidio â chrybwyll fy fforwm partneriaeth, sy'n cynnwys cynrychiolwyr etholedig o bob plaid wleidyddol, a grŵp arweinyddiaeth y gwasanaethau cymdeithasol am eu cefnogaeth wrth i'r Bil symud o'r cam cynllunio i gael ei wireddu.

I would also like to take this opportunity to thank the Chairs and Members, past and present, of the Health and Social Care Committee, the Children and Young People Committee, the Constitutional and Legislative Affairs Committee and the Finance Committee for their scrutiny of this Bill and their collaborative approach to working with myself and my officials. I want to place on record my appreciation for the backing that I have received from the First Minister and Cabinet colleagues across the Welsh Government. Social services will not achieve sustainability through working in isolation. Our vision is based on a sense of community and of integration across portfolios. This is most evident, in the context of the Bill, in our preventative duties in sections 13 and 14.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn hefyd i ddiolch i Gadeiryddion ac Aelodau, yn y gorffennol a'r presennol, y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol a'r Pwyllgor Cyllid am eu gwaith craffu ar y Bil hwn a'u dull cydweithredol o weithio gyda mi a'm swyddogion. Hoffwn gofnodi fy ngwerthfawrogiad am y gefnogaeth a gefais gan y Prif Weinidog a'm cydweithwyr yn y Cabinet ar draws Llywodraeth Cymru. Ni fydd y gwasanaethau cymdeithasol yn sicrhau cynaliadwyedd trwy weithio ar wahân. Mae ein gweledigaeth yn seiliedig ar synnwyr o gymuned ac o integreiddio ar draws portffolios. Mae hyn yn fwyaf amlwg, yng nghyd-destun y Bil, yn ein dyletswyddau ataliol yn adrannau 13 a 14.

Finally, I would like to say that it has been a real privilege for me to lead the development and delivery of this Bill on behalf of the Welsh Government. I thank the Secretary of State for his co-operation throughout the last few months in particular. I am grateful for that. I have tried to work collaboratively across the Chamber, irrespective of party boundaries. I have welcomed the preparedness of party spokespeople, past and present, to listen and to work with me, to ensure that this Bill is the best it can possibly be. On a personal basis, I would like to thank you all for the support that you have shown me during this year. It has meant a great deal to me and I thank you all for that.

Yn olaf, hoffwn ddweud ei bod wedi bod yn fraint fawr i mi arwain datblygiad a chyflwyniad y Bil hwn ar ran Llywodraeth Cymru. Diolchaf i'r Ysgrifennydd Gwladol am ei gydweithrediad drwy gydol y misoedd diwethaf yn arbennig. Rwy'n ddiolchgar am hynny. Rwyf wedi ceisio gweithio ar y cyd ar draws y Siambr, heb ystyried ffiniau'r pleidiau. Rwyf wedi croesawu parodrwydd llefarwyr y pleidiau, yn y gorffennol a'r presennol, i wrando ac i weithio gyda mi, er mwyn sicrhau bod y Bil hwn cystal ag y gall fod. Ar sail bersonol, hoffwn ddiolch i chi i gyd am y gefnogaeth yr ydych chi wedi ei rhoi i mi yn ystod y flwyddyn hon. Mae wedi golygu llawer iawn i mi ac rwy'n diolch i chi i gyd am hynny.

We move next to the subordinate legislation arising from this Bill and to the regulation and inspection Bill. These are our next steps on the journey and I hope that the thorough and wide-ranging engagement, from which I have learned so much, will continue. On that final note, I ask Members to support this Bill at Stage 4.

Symudwn nesaf at yr is-ddeddfwriaeth sy'n deillio o'r Bil hwn ac at y Bil rheoleiddio ac arolygu. Dyma ein camau nesaf ar y daith, ac rwy'n gobeithio y bydd yr ymgysylltu trylwyr ac eang, yr wyf wedi dysgu cymaint oddi wrtho, yn parhau. Ar y nodyn olaf yna, gofynnaf i'r Aelodau gefnogi'r Bil hwn yng Nghyfnod 4.

20:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call Darren Millar.

Galwaf ar Darren Millar.

20:14 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very pleased to be able to speak at Stage 4 of this Bill's progress through the National Assembly for Wales. I believe that this Bill has the potential to improve social care and wellbeing across the country for all of our citizens. I also believe that it has the opportunity to promote, encourage and improve engagement between health and social care here in Wales. At the heart of the Bill is the rights agenda, and I am particularly pleased with the recognition of the UN Principles for Older Persons. On a personal basis, I think that is a very important addition to the Bill, which I am pleased had the Government's support.

Rwy'n falch iawn o gael siarad yng Nghyfnod 4 cynnydd y Bil hwn trwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Rwy'n credu bod y potensial gan y Bil hwn i wella gofal cymdeithasol a lles ledled y wlad i bob un o'n dinasyddion. Rwyf hefyd yn credu bod cyfle iddo hyrwyddo, annog a gwella ymgysylltiad rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yma yng Nghymru. Mae'r agenda hawliau wrth wraidd y Bil, ac rwy'n arbennig o falch o'r gydnabyddiaeth i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn. Ar sail bersonol, credaf fod hwnnw'n ychwanegiad pwysig iawn i'r Bil, yr wyf yn falch iddo dderbyn cefnogaeth y Llywodraeth.

We have had concerns throughout the process regarding the balance between the regulation-making powers in the Bill and the detail on the face of it. Those notwithstanding, I appreciate the way that the Minister has engaged with me and my office since taking over the social services portfolio on behalf of the Welsh Conservatives. I have been very grateful for the generous way in which she has given time for the briefing of my predecessor, William Graham, as well, who worked extremely hard to make positive contributions and changes to the Bill as it progressed through Stages 1, 2 and 3.

Rydym wedi bod yn pryderu drwy gydol y broses ynghylch y cydbwysedd rhwng y pwerau gwneud rheoliadau yn y Bil a'r manylion ar ei wyneb. Ac eithrio'r rheini, rwy'n gwerthfawrogi'r ffordd y mae'r Gweinidog wedi ymgysylltu â mi a fy swyddfa ers cymryd y portffolio gwasanaethau cymdeithasol drosodd ar ran y Ceidwadwyr Cymreig. Rwyf wedi bod yn ddiolchgar iawn am y ffordd hael y mae hi wedi rhoi amser ar gyfer briffio fy rhagflaenydd, William Graham, hefyd, a weithiodd yn hynod o galed i wneud cyfraniadau cadarnhaol a newidiadau i'r Bil wrth iddo symud trwy Gyfnod 1, 2 a 3.

It would be remiss of me not to thank those people in the Conservatives' team who have worked hard on this Bill. It has been a huge task. It has been a mammoth Bill in terms of its scale, with more amendments than we have ever seen to any piece of legislation in this Assembly, and for very good reason. I want to pay tribute to Emma Sands, Anneka Hughes and, indeed, the staff in my own office and that of William Graham, who have worked hard to bring our response, as the official opposition, to this Chamber and to make sure that it has been rigorous throughout. We want to continue to work with you, Minister, to ensure that this Bill is implemented for the benefit of those people it is intended to serve. With that, I will say that we are supporting the Bill at this important stage.

Byddai'n esgeulus i mi beidio â diolch i'r bobl hynny yn nhîm y Ceidwadwyr sydd wedi gweithio'n galed ar y Bil hwn. Mae wedi bod yn dasg enfawr. Mae wedi bod yn Fil enfawr o ran ei raddfa, gyda mwy o welliannau nag yr ydym erioed wedi eu gweld i unrhyw ddarn o ddeddfwriaeth yn y Cynulliad hwn, ac am reswm da iawn. Hoffwn dalu teyrnged i Emma Sands, Anneka Hughes ac, yn wir, y staff yn fy swyddfa fy hun a swyddfa William Graham, sydd wedi gweithio'n galed i gyflwyno ein hymateb, fel yr wrthblaid swyddogol, i'r Siambr hon ac i wneud yn siŵr ei fod wedi bod yn drylwyr drwyddi draw. Rydym yn dymuno parhau i weithio gyda chi, Weinidog, i sicrhau bod y Bil hwn yn cael ei roi ar waith er budd y bobl hynny y bwriedir iddo eu gwasanaethu. Gyda hynny o eiriau, byddaf yn dweud ein bod yn cefnogi'r Bil ar y cam pwysig hwn.

20:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Lindsay Whittle.

Galwaf ar Lindsay Whittle.

20:16 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch. It is 10 minutes that I have—is that right? [Laughter.] This Bill has caused many a sleepless night for so many members of staff in this building: researchers, the voluntary sector, workers outside, and, most importantly, stakeholders. Those of us on the committee have lived and breathed and pored over this in such detail that every single amendment seems like a close friend, or, indeed, a bitter enemy. What we have at the end of this mammoth Bill is legislation designed to improve the lives of many of our vulnerable people here in Wales, and also, we hope, to assist local authorities and to help carers and families through tough times. Many of the hundreds—in fact, I think it was possibly over a thousand—of amendments discussed are welcome, although not all that we wanted to see has been achieved. There is still concern about eligibility and costings. They are not going to go away, but, after so many meetings, we have finally arrived at this point. We are where we are now, and we have to move forward. It is now about delivery. It is about health and social services working in close collaboration and, we hope, working seamlessly together. Above all, it is about making sure that people in need of care and support, and the carers themselves, get the information they need as quickly and as clearly as possible.

Diolch. 10 munud sydd gen i—a yw hynny'n iawn? [Chwerthin.] Mae'r Bil hwn wedi achosi sawl noson ddigwsg i gymaint o aelodau staff yn yr adeilad hwn: ymchwilwyr, y sector gwirfoddol, gweithwyr y tu allan, ac, yn bwysicaf oll, rhanddeiliaid. Mae'r rhai ohonom ar y pwyllgor wedi byw ac anadlu ac wedi archwilio hwn mor fanwl fel bod pob un gwelliant yn ymddangos fel ffrind agos, neu, yn wir, gelyn chwerw. Yr hyn sydd gennym ni ar ddiwedd y Bil enfawr hwn yw deddfwriaeth sydd wedi ei chynllunio i wella bywydau llawer o'n pobl sy'n agored i niwed yma yng Nghymru, a hefyd, gobeithio, i gynorthwyo awdurdodau lleol ac i helpu gofalwyr a theuluoedd drwy gyfnodau anodd. Mae llawer o'r cannoedd—rwy'n meddwl ei fod dros fil o bosibl—o welliannau a drafodwyd i'w croesawu, er nad yw popeth roeddem ni eisiau ei weld wedi ei gyflawni. Ceir pryder o hyd am gymhwysedd a chostio. Nid ydynt yn mynd i ddiflannu, ond, ar ôl cymaint o gyfarfodydd, rydym ni wedi cyrraedd y pwynt hwn o'r diwedd. Rydym ni yn y man yr ydym ni yno nawr, ac mae'n rhaid i ni symud ymlaen. Mae'n ymwneud â chyflawni bellach. Mae'n ymwneud ag adrannau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cydweithio'n agos ac, rydym yn gobeithio, yn gweithio'n ddi-dor gyda'i gilydd. Yn anad dim, mae'n golygu sicrhau bod pobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a'r gofalwyr eu hunain, yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt mor gyflym ac mor eglur â phosibl.

Time will tell, I guess, whether we are successful, but I and my colleagues in Plaid Cymru will be making every effort to ensure that implementation does go ahead properly and is successful. I would also like to thank all of the groups that gave evidence, and the many people who have devoted countless hours offering us advice. There have been too many committee Chairs to thank, so we have finally to thank David Rees and all the members of the committee, and, above all else, you, Minister, for the most dignified and caring way in which you have treated party spokespersons and all members of the committee. I genuinely thank you for that.

Amser a ddengys, mae'n debyg, a fyddwn ni'n llwyddiannus, ond byddaf i a'm cydweithwyr ym Mhlaid Cymru yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y gweithredu yn mynd yn ei flaen yn iawn a'i fod yn llwyddiannus. Hoffwn ddiolch hefyd i'r holl grwpiau a roddodd dystiolaeth, a'r nifer fawr o bobl sydd wedi neilltuo oriau di-ri yn cynnig cyngor i ni. Bu gormod o Gadeiryddion pwyllgorau i ddiolch iddynt, felly mae'n rhaid i ni ddiolch yn olaf i David Rees a holl aelodau'r pwyllgor, ac, yn fwy na neb, i chi, Weinidog, am y ffordd hynod urddasol a gofalgar yr ydych chi wedi trin llefarwyr y pleidiau a holl aelodau'r pwyllgor. Rwy'n diolch o galon i chi am hynny.

This is a new chapter in the provision of social services. We know that change cannot stop here, but, for now, let us proceed and monitor the effects and implementation closely. Transformation of services is not easy—oh, it is not easy—but let us pledge that we will get to the change that we all want to see. Remember, no-one said it would be easy.

Mae hon yn bennod newydd yn y ddarpariaeth o wasanaethau cymdeithasol. Rydym yn gwybod na all newid ddod i ben yma, ond, am y tro, gadewch i ni symud ymlaen a monitro'r effeithiau a'r gweithrediad yn ofalus. Nid yw gweddnewid gwasanaethau yn rhwydd—o, nid yw'n rhwydd—ond gadewch i ni addo y byddwn yn cael y newid yr ydym ni i gyd eisiau ei weld. Cofiwch, ni ddywedodd unrhyw un y byddai'n rhwydd.

20:19 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First of all, may I say that it is a matter of regret to me that, having gone through a Report Stage where we have just dealt with over 100 amendments, I am not convinced that it is appropriate to immediately move to a Stage 4 debate and to ask Members to vote on that when we have just seen substantial changes to the Bill? It is a poor precedent, and it would have been more appropriate for a draft of the new Bill to be published and for Members to give it some consideration.

Yn gyntaf oll, a gaf i ddweud fy mod yn gresynu, ar ôl mynd trwy Gyfnod Adrodd lle'r ydym ni newydd ymdrin â thros 100 o welliannau, nad wyf wedi fy argyhoeddi ei bod yn briodol symud yn syth at ddadl Cyfnod 4 ac i ofyn i'r Aelodau bleidleisio ar hynny pan rydym ni newydd weld newidiadau sylweddol i'r Bil? Mae'n gynsail gwael, a byddai wedi bod yn fwy priodol i ddrafft o'r Bil newydd gael ei gyhoeddi ac i'r Aelodau roi rhywfaint o ystyriaeth iddo.

I would like to put on record my thanks to the Deputy Minister. As I have said before, she is a formidable opponent and has extended every courtesy to me, as the Liberal Democrats' spokesperson, and, where we have been able to reach agreement, she has certainly moved her position. If this vote were simply about a nod of approval for an individual Minister, I would have no hesitation in voting 'yes' today.

Hoffwn gofnodi fy niolch i'r Dirprwy Weinidog. Fel yr wyf wedi dweud o'r blaen, mae hi'n wrthwynebydd cryf ac wedi ymestyn pob cwrteisi i mi, fel llefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, a, phan yr ydym ni wedi gallu dod i gytundeb, mae hi'n sicr wedi newid ei safbwynt. Pe byddai'r bleidlais hon yn ymwneud yn unig â chymeradwyo Gweinidog unigol, ni fyddwn yn oedi cyn pleidleisio 'ie' heddiw.

However, this is not a popularity contest about the actions of an individual Minister. This is about passing laws for this land and we cannot afford, Deputy Presiding Officer, to be sentimental when we do that. We have to look very carefully at the legislation that is before us and to make a judgment on whether it can be supported.

Fodd bynnag, nid cystadleuaeth poblogrwydd ynghylch gweithredoedd un Gweinidog yw hon. Mae hyn yn ymwneud â phasio deddfau ar gyfer y wlad hon ac ni allwn fforddio, Ddirprwy Lywydd, i fod yn sentimental pan fyddwn yn gwneud hynny. Mae'n rhaid i ni edrych yn ofalus iawn ar y ddeddfwriaeth sydd ger ein bron a gwneud dyfarniad ynghylch a ellir ei chefnogi.

By its own admission, in the supporting document before us today, the Government says that much of the ambition in sustainable social services could have been achieved without recourse to legislation. So, that begs the question of why we are here and why we have spent all of this time looking at this legislation. What will this legislation fundamentally change for the people of Wales, when much of it was already on the statute book? I appreciate that what it has done is corral that legislation into one document and one piece of legislation. There is some merit in doing that. It does create some new functions, and I support very much the issue of safeguarding adults, which is a timely addition. However, I remain deeply concerned, Deputy Presiding Officer, about what I am asked to vote for today.

Yn ôl ei chyfaddefiad ei hun, yn y ddogfen ategol ger ein bron heddiw, dywed y Llywodraeth y gellid bod wedi gwireddu llawer o'r uchelgais o ran gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy heb orfod troi at ddeddfwriaeth. Felly, mae hynny'n gofyn y cwestiwn pam rydym ni yma a pham rydym ni wedi treulio'r holl amser yma yn edrych ar y ddeddfwriaeth hon. Beth fydd y ddeddfwriaeth hon yn newid yn ei hanfod i bobl Cymru, pan roedd llawer ohoni eisoes ar y llyfr statud? Rwy'n sylweddoli mai'r hyn y mae wedi ei wneud yw crynhoi'r ddeddfwriaeth honno mewn un ddogfen ac un darn o ddeddfwriaeth. Mae rhywfaint o werth mewn gwneud hynny. Mae yn creu rhai swyddogaethau newydd, ac rwy'n cefnogi'n fawr iawn y mater o ddiogelu oedolion, sy'n ychwanegiad amserol. Fodd bynnag, rwyf yn dal yn bryderus iawn, Ddirprwy Lywydd, am yr hyn y gofynnir i mi bleidleisio drosto heddiw.

The whole rationale behind this legislation, we are told, is service change. One of those service changes was to create the national eligibility criteria to establish a level playing field across the whole of the country. Yet, the Government's own documentation goes on to say that there will be considerable local discretion. Either we are creating national criteria or we are not creating national criteria.

Yr holl resymeg y tu ôl i'r ddeddfwriaeth hon, fel y dywedir wrthym, yw newid gwasanaethau. Un o'r newidiadau hynny i wasanaeth oedd creu meini prawf cymhwysedd cenedlaethol i sicrhau cyfleoedd cyfartal ledled y wlad gyfan. Eto i gyd, mae dogfennau'r Llywodraeth ei hun yn mynd yn eu blaenau i ddweud y bydd disgresiwn lleol sylweddol. Naill ai rydym ni'n creu meini prawf cenedlaethol neu nid ydym ni'n creu meini prawf cenedlaethol.

The second policy incentive behind this legislation was the issue of prevention. The basic premise is that, by intervening and supporting people early on, we will drive down demand in our social care system. That is the basic premise of this legislation. However, one really has to question that. Undoubtedly, it is the right thing to do for individuals, to try to intervene early, but will it really achieve the policy goals as stated by the Government? The evidence is that the best that preventative services can do is potentially slow down the demand that an individual will have on that system. It might slow it down, but, inevitably, the requirements of that individual will move to the higher end. So, at best, all that preventative services will do is slow down demand in the system, and I would argue that that will be outweighed in terms of sustainability by the ageing demographic of our country. So, one really has to question the basic premise behind this legislation and whether it will actually work.

Yr ail gymhelliad polisi a oedd wrth wraidd y ddeddfwriaeth hon oedd y mater o atal. Y cynsail sylfaenol yw, trwy ymyrryd a chefnogi pobl yn gynnar, y byddwn yn lleihau'r galw yn ein system gofal cymdeithasol. Dyna gynsail sylfaenol y ddeddfwriaeth hon. Fodd bynnag, mae wir raid i rywun gwestiynu hynny. Yn ddi-os, dyma'r peth iawn i'w wneud ar gyfer unigolion, i geisio ymyrryd yn gynnar, ond a fydd hynny mewn gwirionedd yn cyflawni'r nodau polisi fel y'u nodwyd gan y Llywodraeth? Y dystiolaeth yw mai'r gorau y gall gwasanaethau ataliol ei wneud yw o bosibl arafu'r galw y bydd gan unigolyn ar y system honno. Efallai y bydd yn ei arafu, ond, yn anochel, bydd gofynion yr unigolyn hwnnw yn symud i'r pen uchaf. Felly, o'r ochr orau, y cwbl y bydd gwasanaethau ataliol yn ei wneud fydd arafu'r galw yn y system, a byddwn i'n dadlau y bydd hynny'n cael ei orbwyso o ran cynaliadwyedd gan ddemograffeg sy'n heneiddio yn ein gwlad. Felly, mae wir raid i rywun gwestiynu'r cynsail sylfaenol sydd wrth wraidd y ddeddfwriaeth hon a pha un a fydd yn gweithio mewn gwirionedd.

If the emphasis is on prevention, the expectation of people outside of this Chamber, not just me, is that, actually, we will be moving the services that people will become eligible for to the higher end. So, when services are delivered and people are eligible for them, it is at the higher end rather than at the preventative end. Let us be clear that this law does not provide for preventative services for individuals; what this law provides for is preventative services planned on a population basis. If you find yourself outside that, there will not be a preventative service available for you locally.

Os yw'r pwyslais ar atal, disgwyliad pobl y tu allan i'r Siambr hon, nid dim ond fi, yw y byddwn, mewn gwirionedd, yn symud y gwasanaethau y bydd pobl yn gymwys i'w derbyn i'r pen uchaf. Felly, pan fydd gwasanaethau yn cael eu darparu a phobl yn gymwys i'w derbyn, bydd ar y pen uchaf yn hytrach na'r pen ataliol. Gadewch i ni fod yn eglur nad yw'r ddeddf hon yn darparu gwasanaethau ataliol i unigolion, yr hyn y mae'r ddeddf hon yn ei ddarparu yw gwasanaethau ataliol wedi eu cynllunio ar sail poblogaeth. Os ydych chi'n canfod eich hun y tu allan i hynny, ni fydd gwasanaeth ataliol ar gael i chi yn lleol.

Let us be absolutely clear what paragraph 152 of the Government's regulatory impact assessment says, which is that, actually, there are no costs associated with preventative services, because, rather than extending the scope of local government's authority in this particular—. It has no intention of extending local authorities' scope in this particular area. All it does is try to codify what is already there and put it into primary legislation. So, actually, this law does not require local authorities to ensure that those preventative services are there.

Gadewch i ni fod yn gwbl eglur am yr hyn y mae paragraff 152 o asesiad o effaith rheoleiddio y Llywodraeth yn ei ddweud, sef, mewn gwirionedd, nad oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â gwasanaethau ataliol, oherwydd, yn hytrach nag ehangu cwmpas awdurdod llywodraeth leol yn y maes penodol—. Nid oes ganddo unrhyw fwriad o ehangu cwmpas awdurdodau lleol yn y maes penodol hwn. Y cwbl y mae'n ei wneud yw ceisio cyfundrefnu'r hyn sydd yno eisoes a'i roi mewn deddfwriaeth sylfaenol. Felly, mewn gwirionedd, nid yw'r ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod y gwasanaethau ataliol hynny ar gael.

I have grave concerns, Deputy Presiding Officer, regarding the cost-benefit analysis of these resources and I have grave concerns about the framework nature of this legislation. My concerns about eligibility criteria are well known, but, let us be absolutely clear about what powers we are handing over to the Executive today, not just this Executive, but executives to come: we are handing over regulatory powers that will be subject to a negative procedure on direct payments. We are handing over to the Executive, via a negative procedure, the ability to dictate what is included in a care and support plan. We are handing over to the Executive, via negative procedure, the ability to alter charging regimes for social care. We are handing over to this Executive, via negative procedure, how we will assess a person's ability to pay for social care. We are handing over the power to charge for preventative services, all under negative procedure. We are also handing over powers to determine what constitutes a care and support plan for those children who are looked after.

Mae gennyf bryderon difrifol, Ddirprwy Lywydd, ynghylch y dadansoddiad cost a budd o'r adnoddau hyn ac mae gen i bryderon difrifol am natur fframwaith y ddeddfwriaeth hon. Mae fy mhryderon ynghylch meini prawf cymhwysedd yn gwbl hysbys, ond, gadewch i ni fod yn gwbl eglur am ba bwerau rydym ni'n eu trosglwyddo i'r Weithrediaeth heddiw, nid yn unig y Weithrediaeth hon, ond gweithrediaethau'r dyfodol: rydym ni'n trosglwyddo pwerau rheoleiddio a fydd yn destun gweithdrefn negyddol ar daliadau uniongyrchol. Rydym yn trosglwyddo i'r Weithrediaeth, trwy weithdrefn negyddol, y gallu i bennu beth sydd wedi ei gynnwys mewn cynllun gofal a chymorth. Rydym yn trosglwyddo i'r Weithrediaeth, trwy weithdrefn negyddol, y gallu i newid trefniadau codi tâl am ofal cymdeithasol. Rydym yn trosglwyddo i'r Weithrediaeth hon, trwy weithdrefn negyddol, sut y byddwn yn asesu gallu unigolyn i dalu am ofal cymdeithasol. Rydym yn trosglwyddo'r pŵer i godi tâl am wasanaethau ataliol, y cwbl dan weithdrefn negyddol. Rydym hefyd yn trosglwyddo pwerau i benderfynu beth yw cynllun gofal a chymorth i'r plant hynny sy'n derbyn gofal.

I appreciate that this is not a matter of concern to Labour backbenchers here, and it seems that this is not a matter of concern for Conservative or Plaid Cymru Members, but I can tell you this: it is a matter of concern to me, and I and my group are not prepared to hand over those powers in such a way.

Rwy'n gwerthfawrogi nad yw hwn yn fater o bryder i aelodau meinciau cefn Llafur yma, ac mae'n ymddangos nad yw hwn yn fater o bryder i Aelodau'r Ceidwadwyr na Phlaid Cymru, ond gallaf ddweud hyn wrthych: mae'n fater o bryder i mi, ac nid wyf i a fy ngrŵp yn barod i drosglwyddo'r pwerau hynny yn y fath fodd.

20:26 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have no wish to prolong the debate; it has been a very long day and part of me cannot quite believe that we have got here. I just wanted to say on my behalf, as a Labour backbencher, and that of the other Labour Members on the committee, thank you to all members of the committee who have worked so hard on this. I particularly wanted to thank the Labour support staff, especially, Kate Edmunds in the Labour group office, who has done an absolutely sterling job. I also thank Gwenda's officials, and, above all, Gwenda. We have had disagreements along the way, even among Labour Members, Kirsty, who have all done a good job in scrutinising this legislation. However, Gwenda has been very willing to listen, has actively engaged with all of us and has, I think, been a credit to the Welsh Government, so, thank you very much.

Nid oes gennyf unrhyw awydd i ymestyn y ddadl; mae wedi bod yn ddiwrnod hir iawn ac ni all rhan ohonof gredu'n llwyr ein bod wedi cyrraedd hyn. Roeddwn i eisiau dweud ar fy rhan i, fel Aelod o feinciau cefn y Blaid Lafur, ac ar ran yr Aelodau Llafur eraill ar y pwyllgor, diolch i bob aelod o'r pwyllgor sydd wedi gweithio mor galed ar hyn. Roeddwn i eisiau diolch yn arbennig i staff cymorth y Blaid Lafur, yn enwedig, Kate Edmunds yn swyddfa'r grŵp Llafur, sydd wedi gwneud gwaith ardderchog. Hoffwn ddiolch hefyd i swyddogion Gwenda, ac, yn anad neb, Gwenda. Rydym ni wedi anghytuno ar hyd y ffordd, hyd yn oed ymhlith Aelodau Llafur, Kirsty, sydd i gyd wedi gwneud gwaith da wrth graffu ar y ddeddfwriaeth hon. Fodd bynnag, mae Gwenda wedi bod yn barod iawn i wrando, wedi ymgysylltu'n ymarferol gyda phob un ohonom ni ac, yn fy marn i, wedi bod yn glod i Lywodraeth Cymru, felly, diolch yn fawr iawn.

20:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I call the Deputy Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i ymateb i'r ddadl.

20:27 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol / The Deputy Minister for Social Services*

I just want to acknowledge all that has been said. If there is a disappointment it is that we are not likely to get a unanimous vote. I am sorry that I have not been able to bridge the gap, but I do not think that now is the time. I am prepared to go through all of those issues. However, I thank you, Kirsty, and Aled Roberts of your group, who participated right through the Bill. Some of your late amendments today did not allow much time for consideration. However, I would like to say, once again, thank you, right across the Chamber, for the collaboration that has been shown.

Hoffwn gydnabod popeth sydd wedi ei ddweud. Os oes siom, y siom honno yw nad ydym yn debygol o gael pleidlais unfrydol. Mae'n ddrwg gennyf nad wyf wedi gallu pontio'r bwlch, ond nid wyf yn credu mai nawr yw'r amser. Rwy'n barod i fynd drwy bob un o'r materion hynny. Fodd bynnag, rwy'n diolch i chi, Kirsty, ac i Aled Roberts o'ch grŵp, a gymerodd ran drwy gydol y Bil. Ni chaniataodd rhai o'ch gwelliannau hwyr heddiw fawr o amser i'w hystyried. Fodd bynnag, hoffwn ddweud, unwaith eto, diolch i chi, ar draws y Siambr, am y cydweithrediad a ddangoswyd.

Diolch yn fawr ichi am eich cydweithrediad. Nid wyf yn meddwl y byddem yn y sefyllfa yr ydym ynddi yn awr, sydd mor bositif, oni bai am ein cydweithio. Rwy'n ddiolchgar i bob un ohonoch chi, fel Dirprwy Weinidog ac ar lefel bersonol. Diolch yn fawr i chi i gyd.

Thank you very much for your collaboration. I do not think that we would be in the position in which we find ourselves, which is so positive, were it not for that collaboration. I am grateful to each and every one of you, as Deputy Minister and on a personal level. Thank you very much to you all.

Thank you all very much. [Applause.]

Diolch yn fawr iawn i chi gyd. [Cymeradwyaeth.]

20:28 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The question is that the Social Services and Well-being (Wales) Bill be passed. Does any Member object? There are objections, therefore, we will proceed to an electronic vote.

Y cwestiwn yw bod y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn cael ei basio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Ceir gwrthwynebiadau, felly, symudwn ymlaen i bleidlais electronig.

Canlyniad y bleidlais ar y cynnig

Result of the vote on the motion.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 53, Yn erbyn 5, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 53, Against 5, Abstain 0.*

20:29 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I therefore declare that the Social Services and Well-being (Wales) Bill has passed.

Rwy'n datgan felly bod Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi ei basio.

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd trafodion heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 20:29.*

*The meeting ended at 20:29.*